

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

09/12/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd](#)

[Statement: The Welsh Government Response to the Report of the Expert Review of Libraries](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Bridio Cŵn\) \(Cymru\) 2014](#)

[The Animal Welfare \(Breeding of Dogs\) \(Wales\) Regulations 2014](#)

[Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod \(Cymru\) 2014](#)

[The Keeping and Introduction of Fish \(Wales\) Regulations 2014](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caethwasiaeth Fodern—Darpariaethau sy'n ymwneud ag Eiriolwyr Masnachu Plant, Canllawiau ar Adnabod a](#)

[Chefnogi Dioddefwyr a Rhagdybio Oedran](#)

[Legislative Consent Motion on the Modern Slavery Bill—Provisions relating to Child Trafficking Advocates, Guidance about Identifying and Supporting](#)

[Victims and Presumption of Age](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Troseddau Difrifol](#)

[Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill](#)

[Y Gyllideb Derfynol 2015-16](#)

[The Final Budget 2015-16](#)

[Egwyddorion Cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

[The General Principles of the Well-being of Future Generations \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

[Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Well-being of Future Generations \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)

[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Cyllid Cymru

Finance Wales

13:30 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y broses diwydrwydd dyladwy y mae Cyllid Cymru yn ei dilyn wrth ddyfarnu benthyciadau i gwmnïau? OAQ(4)2012(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the due diligence process employed by Finance Wales when awarding loans to companies? OAQ(4)2012(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Finance Wales is a subsidiary of the Welsh Government and operates at arm's length. Individual investment decisions are, therefore, a matter for Finance Wales.

Is-gwmni i Lywodraeth Cymru yw Cyllid Cymru ac mae'n gweithredu ar sail hyd braich. Mater i Gyllid Cymru yw penderfyniadau buddsoddi unigol, felly.

13:31

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you said, First Minister, it is a subsidiary of Welsh Government. Last week, in the business statement, I raised the issue of a company called Xwavia, which received money from Finance Wales in May to roll out broadband in north Wales, amongst other areas. It has gone into administration less than six months after the receipt of those sums, meaning that a £600,000 loan from Finance Wales has been written off and that money lost to the Welsh taxpayer permanently. So, what safeguards are you proposing to put in place to make sure that this does not happen with other companies that may have been in receipt of loans in a similar way?

Fel y dywedasoch, Brif Weinidog, mae'n is-gwmni i Lywodraeth Cymru. Yr wythnos diwethaf, yn y datganiad busnes, codais y mater o gwmni o'r enw Xwavia, a dderbyniodd arian gan Gyllid Cymru ym mis Mai i gyflwyno band eang yng ngogledd Cymru, ymhlith ardaloedd eraill. Mae wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr llai na chwe mis ar ôl derbyn y symiau hynny, sy'n golygu bod benthyciad o £600,000 gan Gyllid Cymru wedi cael ei ddileu a bod yr arian hwnnw wedi ei golli i drethdalwyr Cymru yn barhaol. Felly, pa fesurau diogelu ydych chi'n bwriadu eu rhoi ar waith i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd gyda chwmnïau eraill a allai fod wedi derbyn benthyciadau mewn ffordd debyg?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We would expect Finance Wales to look to recoup any monies that it has loaned to companies, but it is inevitable that not all businesses will succeed. It is impossible for Finance Wales to be 100% sure that every single business that it supports will be wholly successful; that is the nature of business. What it needs to do, of course, as it has done, is put in place reasonable safeguards, in particular the proper pursuit of due diligence. On this one occasion, I am aware that officials remained in regular contact with the company, while a trade sale of the business was being pursued. Now, Finance Wales needs to determine whether any or part of the loan can be recouped.

Byddem yn disgwyl i Gyllid Cymru geisio adennill unrhyw arian y mae wedi ei fenthycu i gwmnïau, ond mae'n anochel na fydd pob busnes yn llwyddo. Mae'n amhosibl i Gyllid Cymru fod 100% yn sicr y bydd pob un busnes y mae'n ei gefnogi yn gwbl lwyddiannus; dyna natur busnes. Yr hyn y mae angen iddo ei wneud, wrth gwrs, fel y mae wedi ei wneud, yw sefydlu mesurau diogelu rhesymol, yn enwedig cyflawni diwydrwydd dyladwy'n briodol. Ar yr un achlysur hwn, rwy'n ymwybodol bod swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r cwmni, tra y ceisiwyd gwerthu'r busnes yn fasnachol. Nawr, mae angen i Gyllid Cymru benderfynu a ellir adennill rhywfaint neu ran o'r benthyciad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is not the role of Finance Wales to lend top-up to developments after bank loans rather than to compete with bank lending, and is it not inevitable that some loans will fail unless all it does is back certainty, which means that very small businesses and new businesses will get any money?

Onid yw'n wir mai swyddogaeth Cyllid Cymru yw rhoi benthyciadau atodol i ddatblygiadau ar ôl benthyciadau banc yn hytrach na chystadlu â benthyciadau banc, ac onid yw'n anochel y bydd rhai benthyciadau'n methu oni bai mai'r cwbl y mae'n ei wneud yw cefnogi sicrwydd, sy'n golygu y bydd busnesau bach iawn a busnesau newydd yn derbyn unrhyw arian?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If it only backed certainty, it would not be serving its purpose. The idea of Finance Wales is not to compete with the banks; that much is true. It lends to businesses alongside banks in a complementary way or as a gap funder. On other occasions, it may invest in a business that has been turned down by a bank, but it is in the nature of the work that Finance Wales does that there will be occasions when businesses fail. All financial institutions run that risk and nobody can be absolutely sure that every investment will receive a return. However, what is important is that the due diligence procedure is in place and that the vast majority of businesses that are helped in this way do then go on to become a success.

Ni fyddai'n cyflawni ei ddiben pe byddai'n cefnogi sicrwydd yn unig. Nid cystadlu â'r banciau yw diben Cyllid Cymru; mae cymaint â hynny'n wir. Mae'n benthycu i fusnesau ochr yn ochr â banciau mewn ffordd ategol neu fel ariannwr bwlch. Ar adegau eraill, gallai fuddsoddi mewn busnes sydd wedi cael ei wrthod gan fanc, ond mae'n rhan o natur y gwaith y mae Cyllid Cymru yn ei wneud y bydd achlysuron pan fydd busnesau'n methu. Mae'r perygl hwnnw'n bodoli i bob sefydliad ariannol ac ni all unrhyw un fod yn hollol sicr y ceir adenillion o bob buddsoddiad. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw bod y weithdrefn diwydrwydd dyladwy ar waith a bod mwyafrif helaeth y busnesau sy'n cael eu helpu yn y modd hwn yn mynd yn eu blaenau i lwyddo wedyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn dilyn cwestiwn Antoinette Sanbach, mae etholwr i mi wedi gwneud cwyn am yr un benthyciad oherwydd, yn ôl ei dystiolaeth ef, roedd hi'n wybyddus o fewn y busnes hwnnw fod y cwmni arbennig hwnnw mewn trafferthion cyn i'r benthyciad gael ei roi. Ni allaf wneud unrhyw sylw ar y manylion hynny, ond rwy'n credu ei bod hi'n briodol, felly, fod y Llywodraeth yn dod ag adroddiad ar yr achos arbennig hwn, achos nid sôn ydym am arian bach; rydym yn sôn am arian sylweddol iawn, ac arian sylweddol cyhoeddus. Yn ychwanegol at yr achos hwnnw, a wnewch chi sicrhau bod adroddiad blynyddol yn dod gan Gyllid Cymru, sydd yn datgan yn glir ei sefyllfa dros y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn esbonio'n union beth yw ei dacteg a pha mor llwyddiannus y mae wedi bod yn y gwaith gwerthfawr y mae yn ei gyflawni?

Following on from Antoinette Sandbach's question, a constituent of mine has made a complaint about the same loan, because, according to his evidence, it was known within that business that that particular company was in difficulties before that loan was given. I cannot make any comment on the details, but I think that it would be appropriate for the Government to bring a report on this particular case, because we are not talking about small sums here but significant sums of public money. In addition to that case, will you ensure that an annual report is provided by Finance Wales that clearly states its situation over the previous year and explains exactly what its tactics have been and how successful it has been in the valuable work that it does.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Materion i Gyllid Cymru, wrth gwrs, yw'r rhain, ond fe ysgrifennaf at yr Aelod, a hefyd i'r Aelod ar yr ochr honno o'r Siambr, gyda mwy o fanylion ynglŷn â beth sy'n gallu cael ei ddodi yn y maes cyhoeddus, ac mi wnaif hynny unwaith y bydd mwy o fanylion gyda ni am y cwestiynau y mae'r Aelodau wedi'u gofyn.

These are matters for Finance Wales, of course, but I will write to the Member, and to the Member on the other side of the Chamber, with additional details about what can be placed in the public domain, and I will do so when we have that additional detail in relation to the Members' questions.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cefnffyrdd

Trunk Roads

13:34

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn cefnffyrdd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2010(FM)

2. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for investing in trunk roads in west Wales? OAQ(4)2010(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddwn yn cyhoeddi ein cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd er mwyn ymgynghori arno cyn diwedd y flwyddyn. Bydd yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer gwella seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru.

We will be publishing our new national transport plan for consultation before the end of the year, which will set out our priorities for improving transport infrastructure in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, un o'r prif flaenoriaethau i fusnesau a phobl yng Ngheredigion yw sicrhau gwell cysylltiadau hewlydd o Geredigion i'r M4. Mae cyflwr rhai o'r ffyrdd hyn yn perthyn fwy i'r ugeinfed ganrif nag i'r unfed ganrif ar hugain. Rwy'n meddwl yn benodol iawn am y cysylltiad rhwng Aberteifi a thref Caerfyrddin, a hefyd, yn rhannol, o Llandysul i Gaerfyrddin. A wnewch chi fel Llywodraeth sicrhau eich bod chi'n cael trafodaeth gyda Chyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Ceredigion i sicrhau rhaglen o waith cyfalaf er mwyn gwella'r ffyrdd a'r cysylltiadau pwysig hyn rhwng Ceredigion a'r M4?

First Minister, one of the main priorities for businesses and people in Ceredigion is to ensure better road connections from Ceredigion to the M4. The condition of some of the roads belongs more to the twentieth century than the twenty-first century. I am thinking specifically about the link between Cardigan and Carmarthen, and partially from Lampeter and Llandysul to Carmarthen. Will you as a Government ensure that you have discussions with Carmarthenshire and Ceredigion county councils to ensure a programme of capital works is undertaken in order to improve the roads and the important links between Ceredigion and the M4?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, rydym yn wastad yn ystyried ym mha ffyrdd y gallwn ni wella'r system drafnidiaeth, yn enwedig yng Ngheredigion, ac rydym wedi gwneud hynny, wrth gwrs. Mae lot fawr o waith wedi cael ei wneud rhwng Llandysul a Synod, yn enwedig yn ardal Post Bach, i sicrhau bod yr hewl yn mynd yn fwy syth. Yng Ngladyfi, sydd yng Ngheredigion, mae gwaith mawr wedi cael ei wneud yn y fan honno, ac, wrth gwrs, mae'r ffordd osgoi yn Llandysul, nad yw'n mynd o un rhan o Geredigion i un arall ond o sir Gâr i Geredigion. Felly, mae buddsoddiad wedi cymryd lle yng Ngheredigion dros y blynyddoedd, ac rydym yn wastad yn barod i ystyried ym mha ffordd y mae hi'n bosib gweithio gyda chynghorau lleol er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

Of course, we always consider ways in which we can improve the transport system, especially in Ceredigion, and we have done that. A great deal of work has been done between Llandysul and Synod Inn in terms of Post Bach, to ensure that the road is straighter. At Glandyfi, which is in Ceredigion, a great deal of work has been done, and there is the Llandysul bypass, which does not go from one part of Ceredigion to another but from one part of Carmarthenshire into Ceredigion. So, there has been investment in Ceredigion over the past few years. We are always ready to consider ways in which it is possible to work with councils on a local basis to ensure improvements in future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno, o'r diwedd, i ymrwymo i edrych ar y posibilrwydd o droi yr A40 yn sir Benfro yn ffordd ddeuol, drwy gomisiynu astudiaeth sy'n mynd i gael ei chwblhau, rwy'n deall, ymhen chwe mis. O dan yr amgylchiadau, a allwch chi gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori'n eang â'r rhan-ddeiliaid allweddol—fel yr awdurdod lleol, er enghraifft—yn ystod y broses hon, er mwyn sicrhau bod yr astudiaeth yn ystyrlon ac yn fuddiol?

First Minister, I am very pleased that the Welsh Government has agreed at last to commit to considering the possibility of dualling the A40 in Pembrokeshire by commissioning a study that is to be completed, as I understand it, within six months. Under the circumstances, can you confirm that the Government will consult widely with key stakeholders, such as the local authority, during this process in order to ensure that the study is meaningful and takes everything into account?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddwn i'n erfyn, wrth gwrs, ein bod ni'n ymgynghori â phob corff sydd ag unrhyw fath o ddiddordeb yn hyn yn y ffordd arferol. Rwy'n siŵr y byddai'r Aelod yn croesawu'r ffaith bod gwaith yn cymryd lle yn awr er mwyn sicrhau bod yr hewl yn cael ei gwella yn y dyfodol.

Of course, we would expect to consult with everybody who has any kind of interest in this issue in the usual manner. I am sure that the Member will welcome the fact that work is now under way to ensure that the road is improved in future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau****Questions Without Notice from the Party Leaders**

13:37

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from party leaders, and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, tomorrow is the fifth anniversary of your becoming First Minister here in Wales. I think that this is an opportune time to maybe reflect on some of the issues that, obviously, have cropped up in those five years. Most notably, health has dominated the five years, because it is the largest part of the Welsh Government's delivery. Regrettably, on waiting times in particular the record is pretty appalling. The number of people waiting for the start of an NHS treatment is up 131% since December 2009—from 187,000 people to 432,000 people in September of this year. The number of those waiting for diagnostic services has increased by over 1,000%—from 1,906 people in December 2009 to 22,000 in September of 2014. Are you pleased and proud of that record?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, mae'n bum mlynedd yfory ers i chi fod yn Brif Weinidog yma yng Nghymru. Rwy'n credu bod hon yn adeg briodol i fyfyrio efallai ar rai o'r materion hynny sydd, yn amlwg, wedi codi yn ystod y pum mlynedd hynny. Yn fwyaf nodedig, mae iechyd wedi dominyddu'r pum mlynedd, gan mai hynny yw'r rhan fwyaf o ddarpariaeth Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, o ran amseroedd aros yn benodol, mae'r hanes yn eithaf trychinebus. Mae nifer y bobl sy'n aros i gael dechrau triniaeth yn y GIG wedi cynyddu 131% ers mis Rhagfyr 2009—o 187,000 o bobl i 432,000 o bobl ym mis Medi eleni. Mae nifer y rhai sy'n aros am wasanaethau diagnostig wedi cynyddu o fwy na 1,000%—o 1,906 o bobl ym mis Rhagfyr 2009 i 22,000 ym mis Medi 2014. A ydych chi'n hapus ac yn falch o'r hanes hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the five years have gone very quickly—that much I have to say. Of course, I do look with some envy at my predecessor, Rhodri Morgan; when he was First Minister, we were in an age of ever-expanding budgets. We are in an age of Tory cuts now—that is the issue—and we have to manage with them.

He is right to question, of course, the issue of health, and we do recognise that there are areas of the Welsh NHS where there is great pressure. Of course, we did announce last week that £70 million would be set aside now to deal with those pressures, and the Minister for health will be making a statement very soon, describing how that money will be allocated—allocated to those areas of greatest pressure. However, I have to say, that the challenges that he has outlined are true of the NHS across the whole of the UK. It is certainly not the case that, somehow, in England things are massively improving because there are no challenges there. There are challenges there as well. We, of course, will target resources to those areas of greatest pressure, and we intend to do so over the course of the next few weeks and months.

Wel, mae'r pum mlynedd wedi mynd heibio'n gyflym iawn—mae'n rhaid i mi ddweud cymaint â hynny. Wrth gwrs, rwyf yn edrych gyda chryn eiddigedd ar fy rhagflaenydd, Rhodri Morgan; pan roedd e'n Brif Weinidog, roeddem ni mewn oes o gyllidebau a oedd yn cynyddu'n barhaus. Rydym ni mewn oes o doriadau Toriaidd nawr—dyna'r broblem—ac mae'n rhaid i ni ymdopi â nhw.

Mae'n iawn i gwestiynu, wrth gwrs, y mater o iechyd, ac rydym ni'n cydnabod bod meysydd yn y GIG yng Nghymru lle ceir pwysau mawr. Wrth gwrs, cyhoeddwyd gennym yr wythnos diwethaf y byddai £70 miliwn yn cael ei ddrynnu nawr i ymdopi â'r pwysau hynny, a bydd y Gweinidog iechyd yn gwneud datganiad yn fuan iawn, yn disgrifio sut y bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddrynnu—ei ddrynnu i'r meysydd hynny lle ceir y mwyaf o bwysau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud, bod yr heriau y mae wedi eu hamlinellu'n wir am y GIG ar draws y DU gyfan. Yn sicr, nid yw'n wir, rywsut, bod pethau'n gwella'n aruthrol yn Lloegr gan nad oes unrhyw heriau yno. Ceir heriau yno hefyd. Byddwn ni, wrth gwrs, yn targedu adnoddau at y meysydd hynny lle ceir y pwysau mwyaf, ac rydym ni'n bwriadu gwneud hynny yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad Biography](#)

First Minister, I notice that you did not spend any time explaining the real issue here, which is the explosion in those waiting times. Yes, of course, there are pressures across the United Kingdom, in all health services—and I think that that is across the world, in fairness. However, the figures that I have just put to you—over 1,000% increase in diagnostic waits—surely are completely unacceptable. We know why the bulk of those waits have built up—it is because of the devastating cuts that your Government instigated at the start of this fourth Assembly.

Brif Weinidog, rwy'n sylwi na wnaethoch chi dreulio unrhyw amser yn egluro'r gwir broblem yma, sef y cynnydd aruthrol o ran yr amseroedd aros hynny. Oes, wrth gwrs, mae pwysau ar draws y Deyrnas Unedig, ym mhob gwasanaeth iechyd—a chredaf fod hynny ar draws y byd, a bod yn deg. Fodd bynnag, mae'r ffigurau yr wyf i newydd eu dyfynnu i chi—cynnydd o fwy na 1,000% mewn arosiadau diagnostig—yn gwbl annerbyniol, does bosib. Rydym yn gwybod pam mae mwyafrif yr amseroedd aros hynny wedi cynyddu—oherwydd y toriadau trychinebus a achoswyd gan eich Llywodraeth chi ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad hwn.

Now, we welcome the additional money, albeit very late in the day that you have come round to that thinking, and the budget this afternoon, hopefully, will allocate that money to the health service. However, one thing that you could do today and which your colleague in Westminster, Andy Burnham, has announced, is the adoption of a cancer treatment fund here in Wales. I questioned you on this last week and, in fairness, you engaged in the discussion but you said that you were unaware of the additional monies that might be coming. We now know that there is £125 million in Barnett consequential, of which £17 million, you say, is going to be allocated to the NHS. Is Andy Burnham right and are you wrong for not instigating a cancer treatment fund here in Wales?

Nawr, rydym ni'n croesawu'r arian ychwanegol, er ei bod yn hwyr iawn yn y dydd i chi ddechrau meddwl felly, a bydd y gyllideb y prynhawn yma, gobeithio, yn drynnu'r arian hwnnw i'r gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, un peth y gallech chi ei wneud heddiw ac mae eich cydweithiwr yn San Steffan, Andy Burnham, wedi ei gyhoeddi, yw mabwysiadu cronfa triniaeth cancer yma yng Nghymru. Holais i chi am hyn yr wythnos diwethaf ac, i fod yn deg, roeddech chi'n barod i drafod ond dywedasoch nad oeddech yn ymwybodol o'r arian ychwanegol a allai fod yn dod. Rydym ni'n gwybod erbyn hyn bod £125 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett, yr ydych chi'n dweud y bydd £17 miliwn ohono'n cael ei ddrynnu i'r GIG. A yw Andy Burnham yn iawn a chithau'n anghywir am beidio â sefydlu cronfa triniaeth cancer yma yng Nghymru?

Andy Burnham does not have the responsibility for Wales; I do, as does Mark Drakeford. He is right to point out that there have been difficulties in parts of the NHS. Diagnostics is one area. That is why we look to allocate money to the area of greatest pressure, and diagnostics is one area where that has been done and we expect to see those figures improving—they are improving—over the next few months. He should look carefully at what is being proposed by Andy Burnham. It is nothing like the current cancer drugs fund that exists in England. It is nothing like it. It is a scheme that goes beyond what already exists. My view is the same as it was last week—I would not want to see a situation where patients were treated inequitably. The problem is this: if we say that cancer should be treated as a special case, what then of people who have had strokes, heart disease, multiple sclerosis or rheumatoid arthritis? Should we then ring-fence all the available drugs for them, because these are all conditions where new drugs come onto the market and are looked at by NICE? Why treat people with cancer differently to people with other conditions?

Let us go through some of the figures for Wales. Spending in cancer care in Wales is at a record high. The latest figures show that we spend £10 more per head on cancer treatment in Wales than in England. Also, we spend more per head in Wales on drugs that are available through the cancer drugs fund in England. So, we already spend more than England even with the cancer drugs fund. So, really, what the cancer drugs fund is doing is plugging a gap that has been created in the first place. We know that a greater proportion of cancer patients in Wales are treated within target times than is the case in England. We know that cancer treatment satisfaction levels in Wales are extremely high. We know that independent organisations such as Cancer Research UK and the King's Fund and journals such as 'The British Journal of Cancer' have questioned the cancer drugs fund and questioned its efficiency. It seems to be nothing more than a political fund and not one that is designed truly to help the greatest number of patients.

Nid Andy Burnham sy'n gyfrifol am Gymru; fi sydd, a Mark Drakeford. Mae'n iawn i nodi y bu anawsterau mewn rhannau o'r GIG. Mae diagnosteg yn un maes. Dyna pam yr ydym ni'n ceisio dyrannu arian i'r maes lle ceir y pwysau mwyaf, ac mae diagnosteg yn un maes lle mae hynny wedi cael ei wneud ac rydym ni'n disgwyl gweld y ffigurau hynny'n gwella—maen nhw'n gwella—dros yr ychydig fisoedd nesaf. Dylai edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei gynneg gan Andy Burnham. Nid yw'n ddim byd tebyg i'r gronfa cyffuriau canser bresennol sy'n bodoli yn Lloegr. Nid yw'n debyg o gwbl. Mae'n gynllun sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n bodoli eisoes. Mae fy marn i yr un fath ag yr oedd yr wythnos diwethaf—ni fyddwn yn dymuno gweld sefyllfa lle mae cleifion yn cael eu trin yn annheg. Y broblem yw hyn: os ydym ni'n dweud y dylid trin canser fel achos arbennig, yna beth wedyn am bobl sydd wedi cael strôc, clefyd y galon, sglerosis ymledol neu arthrits gwynegol? A ddylem ni glustnodi'r holl gyffuriau sydd ar gael iddyn nhw wedyn, gan fod y rhain i gyd yn gyflyrau lle mae cyffuriau newydd yn dod ar y farchnad ac yn cael eu hystyried gan NICE? Pam trin pobl â chanser yn wahanol i bobl â chyflyrau eraill?

Gadewch i ni fynd drwy rai o'r ffigurau ar gyfer Cymru. Mae gwariant ar ofal canser yng Nghymru ar ei uchaf erioed. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod yn gwario £10 yn fwy fesul pen ar driniaeth canser yng Nghymru nag yn Lloegr. Hefyd, rydym yn gwario mwy fesul pen yng Nghymru ar gyffuriau sydd ar gael drwy'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr. Felly, rydym ni eisoes yn gwario mwy na Lloegr hyd yn oed gyda'r gronfa cyffuriau canser. Felly, mewn gwirionedd, yr hyn y mae'r gronfa cyffuriau canser yn ei wneud yw llenwi bwlch sydd wedi cael ei greu yn y lle cyntaf. Gwyddom fod cyfran uwch o gleifion canser yng Nghymru yn cael eu trin yn unol ag amseroedd targed nag sy'n wir yn Lloegr. Gwyddom fod lefelau bodlonrwydd o ran triniaeth canser yng Nghymru yn hynod uchel. Rydym ni'n gwybod bod sefydliadau annibynnol fel Cancer Research UK a Chronfa'r Brenin a chyfnodolion fel 'The British Journal of Cancer' wedi cwestiynu'r gronfa cyffuriau canser ac wedi cwestiynu ei heffeithlonrwydd. Mae'n ymddangos nad yw'n ddim mwy na chronfa wleidyddol ac nid yw'n un sydd wedi'i chynllunio mewn gwirionedd i helpu'r nifer fwyaf o gleifion.

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I had thought that the Labour Party was a one-nation Labour Party these days, and, when you look at the writings of Owen Smith, the shadow Secretary of State, obviously, he does believe in that one-nation philosophy, while you clearly do not. When you look at what Andy Burnham is proposing in London in his speech today, I do worry somewhat because it replicates what we talked about only last week in First Minister's questions, which was a cancer treatments fund. You have the money, First Minister, from the Barnett consequential. It is entirely your prerogative as a Government to decide how you allocate that money, but will you not deliver an early Christmas present to the many thousands of patients, clinicians and cancer staff who could benefit from an allocated fund that would deal specifically with new cancer treatments here in Wales and actually put us on a par with the other parts of the United Kingdom that have best practice?

Brif Weinidog, roeddwn i wedi meddwl bod y Blaid Lafur yn Blaid Lafur un genedl y dyddiau hyn, a, phan edrychwch chi ar yr hyn a ysgrifennwyd gan Owen Smith, Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid, yn amlwg, mae e'n credu yn yr athroniaeth un genedl, ond mae'n amlwg nad ydych chi. Pan edrychwch chi ar yr hyn y mae Andy Burnham yn ei gynnis yn Llundain yn ei araith heddiw, rwy'n poeni braid gan ei fod yn ailadrodd yr hyn y siaradasom ni amdano ddim ond yr wythnos diwethaf yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog, sef cronfa triniaethau cancer. Mae'r arian gennych chi, Brif Weinidog, o gyllid canlyniadol Barnett. Eich hawl chi'n llwyr fel Llywodraeth yw penderfynu sut rydych chi'n dyrannu'r arian hwnnw, ond oni wnewch chi roi anrheg Nadolig cynnar i'r miloedd lawer o gleifion, clinigwyr ac aelodau staff cancer a allai elwa o gronfa neilltuedig a fyddai'n ymdrin yn benodol â thriniaethau cancer newydd yma yng Nghymru ac a fyddai wir yn ein rhoi ar yr un lefel â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd ag arfer gorau?

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If we were on a par with England, our waiting times would be longer. If we were on a par with England, we would be in a situation where our local health boards would be going bankrupt. There is an irony to this. For example, only last month the Minister for Health and Social Services actually launched a linear accelerator in Velindre for stereotactic radiotherapy. In a press release, the party opposite demanded that that should be done, not realising that it had already been done. It was done last month. [Laughter.] That will provide a huge amount of treatment for patients in Wales. That is something that comes from a fund that was established after discussions with the Liberal Democrats. I see the leader of the Liberal Democrats nodding at that. In fairness, it was something that she suggested and we were able to support. So, we already have that treatment in place, and, of course, we are going to invest in a brand-new cancer centre—a world-beating cancer centre—in Velindre. That is an investment of over £200 million. When it comes to cancer treatment, he talks about the cancer drugs fund, but we spend more on cancer drugs. Our waiting times are better. We are investing in a new cancer centre. We are investing in new machinery such as machinery for stereotactic radiotherapy, and it shows that when it comes to those people who, unfortunately, are diagnosed with cancer, they have a much better chance of treatment and drugs in Wales.

Pe byddem ni ar yr un lefel â Lloegr, byddai ein hamserau aros yn hwy. Pe byddem ni ar yr un lefel â Lloegr, byddem mewn sefyllfa lle byddai'n byrddau iechyd lleol yn mynd yn fethdalwyr. Mae eironi i hyn. Er enghraifft, dim ond y mis diwethaf, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflymydd llinellol yn Felindre ar gyfer radiotherapi stereotactig. Mewn datganiad i'r wasg, mynnodd y blaid gyferbyn y dylai hynny gael ei wneud, heb sylweddoli ei fod wedi ei wneud eisoes. Fe'i gwnaed fis diwethaf. [Chwerthin.] Bydd hynny'n darparu llawer iawn o driniaeth i gleifion yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth sy'n dod o gronfa a sefydlwyd ar ôl trafodaethau gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gallaf weld arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â hynny. A bod yn deg, roedd yn rhywbeth a awgrymwyd ganddi hi ac roeddem ni'n gallu ei gefnogi. Felly, mae'r driniaeth honno ar waith gennym eisoes, ac, wrth gwrs, rydym ni'n mynd i fuddsoddi mewn canolfan ganaser newydd sbon—canolfan ganaser a fydd ymhlith goreuon y byd—yn Felindre. Mae hynny'n fuddsoddiad o fwy na £200 miliwn. Pan ddaw i driniaeth cancer, mae e'n sôn am y gronfa cyffuriau cancer, ond rydym ni'n gwario mwy ar gyffuriau cancer. Mae ein hamseroedd aros yn well. Rydym ni'n buddsoddi mewn canolfan ganaser newydd. Rydym ni'n buddsoddi mewn peiriannau newydd fel peiriannau ar gyfer radiotherapi stereotactig, ac mae'n dangos pan ddaw i'r bobl hynny sydd, yn anffodus, yn cael diagnosis o ganaser, bod ganddynt lawer gwell cyfle o gael triniaeth a chyffuriau yng Nghymru.

13:45

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, I am sure that you would agree with me that the confirmation in last week's autumn statement of the full devolution of business rates is very welcome indeed. Could you outline what policies we can expect you to implement to use these new powers to help to boost the Welsh economy?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi bod y cadarnhad yn natganiad yr hydref yr wythnos diwethaf o ddatganiol ardrethi busnes yn llawn i'w groesawu'n fawr. A allech chi amlinellu pa bolisiau y gallwn ddisgwyl i chi eu rhoi ar waith i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn i helpu i roi hwb i economi Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As the leader of the Welsh Liberal Democrats knows, this is something that the Minister for Economy, Science and Transport has been looking at very intensely. The business rates panel has already been set up to consider the strategic approach towards future business rates policy; that is chaired by Chris Sutton, who is, of course, the chair of the Confederation of British Industry in Wales. We are now developing our policy leading up to April next year, when we expect business rates to be devolved. We also have to consider, of course, what the financial implications will be, but, certainly, much work has been done, including Professor Brian Morgan's work, in terms of putting in place a business rates policy that is right for Wales from April onwards.

Fel y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwybod, mae hyn yn rhywbeth y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi bod yn ei ystyried yn ddwys iawn. Mae'r panel ardrethi busnes eisoes wedi ei sefydlu i ystyried y dull strategol o ymdrin â pholisi ardrethi busnes yn y dyfodol; cadeirir hwnnw gan Chris Sutton, sef, wrth gwrs, cadeirydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru. Rydym ni'n datblygu ein polisi nawr yn arwain at fis Ebrill y flwyddyn nesaf, pan rydym ni'n disgwyl i ardrethi busnes gael eu datganoli. Mae'n rhaid i ni ystyried hefyd, wrth gwrs, beth fydd y goblygiadau ariannol, ond, yn sicr, mae llawer o waith wedi ei wneud, gan gynnwys gwaith yr Athro Brian Morgan, o ran rhoi polisi ardrethi busnes sy'n iawn i Gymru ar waith o fis Ebrill ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:46

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad to hear, First Minister, that your Government is developing policy in this area. Four years ago, you introduced regulations that meant that self-catering accommodation businesses had to demonstrate that they were occupied for 70 days a year or more to be eligible for business rate relief, which is a situation that is more onerous than the one across the border in England. In some years, businesses are unable to meet that threshold, because of cancellations or other factors beyond their control. When are you going to use your current powers to offer rate relief to those small self-catering businesses that are the backbone of our tourism industry in Wales?

Rwy'n falch o glywed, Brif Weinidog, bod eich Llywodraeth yn datblygu polisi yn y maes hwn. Bedair blynedd yn ôl, cyflwynwyd rheoliadau gennych a oedd yn golygu bod yn rhaid i fusnesau llety hunanddarpar ddangos eu bod wedi'u meddiannu am 70 diwrnod y flwyddyn neu fwy i fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes, sy'n sefyllfa fwy beichus na'r un ar draws y ffin yn Lloegr. Yn ystod rhai blynyddoedd, ni all busnesau fodloni'r trothwy hwnnw, oherwydd achosion o ganslo neu ffactorau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth. Pryd ydych chi'n mynd i ddefnyddio eich pwerau presennol i gynnig rhyddhad ardrethi i'r busnesau hunanddarpar bach hynny sy'n cynrychioli asgwrn cefn ein diwydiant twristiaeth yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is important, of course, that those businesses are able to demonstrate that they are operating as businesses, to the level that we would expect, in order to get the business rates relief. I certainly have not had any of them complain to me that this is an onerous problem for them. Yes, it is perhaps something that they have to satisfy, but we have to do that in order to make sure that they qualify for the rates relief.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y busnesau hynny'n gallu dangos eu bod yn gweithredu fel busnesau, i lefel y byddem yn ei ddisgwyl, er mwyn cael rhyddhad ardrethi busnes. Yn sicr, nid oes yr un ohonynt wedi achwyn i mi bod hon yn broblem feichus iddyn nhw. Efallai'n wir ei fod yn rhywbeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei fodloni, ond mae'n rhaid i ni wneud hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad ardrethi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography I am really surprised that you say that you have never heard anybody complain about this, First Minister. In fact, your Government commissioned a report last year into those regulations because of concerns, which reported in February. In May of this year, your Government announced specific measures that would ensure that self-catering accommodation businesses were not unfairly affected. Now, six months later, we are still waiting for your Government to act on that decision and implement those changes. When can these businesses expect your Government to finally act to support them?	Rwy'n synnu eich bod chi'n dweud nad ydych chi erioed wedi clywed neb yn cwyno am hyn, Brif Weinidog. A dweud y gwir, comisiynodd eich Llywodraeth adroddiad y llynedd ar y rheoliadau hynny oherwydd pryderon, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd eich Llywodraeth fesurau penodol a fyddai'n sicrhau nad oedd busnesau llety hunanddarpar yn cael eu heffeithio'n annheg. Nawr, chwe mis yn ddiweddarach, rydym ni'n dal i aros i'ch Llywodraeth gymryd camau yn sgil y penderfyniad hwnnw a rhoi'r newidiadau hynny ar waith. Pryd all y busnesau hyn ddisgwyl i'ch Llywodraeth gymryd camau o'r diwedd i'w cefnogi?	Senedd.tv Fideo Video
13:47	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We look at this as part of the work that we are doing in the lead up to April of next year. It is right to say that these powers already exist—I concede that, of course. I am sure that this is something that the Minister is considering following the report that was commissioned. These are matters that I am sure that she will report back to the Assembly upon in due course.	Rydym ni'n edrych ar hyn yn rhan o'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn y cyfnod hyd at fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'n iawn i ddweud bod y pwerau hyn eisoes yn bodoli—rwy'n cyfaddef hynny, wrth gwrs. Rwy'n siŵr bod hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog yn ei ystyried yn dilyn yr adroddiad a gomisiynwyd. Mae'r rhain yn faterion yr wyf yn siŵr y bydd hi'n adrodd yn ôl i'r Cynulliad arnynt maes o law.	Senedd.tv Fideo Video
13:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.	Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i> First Minister, your colleague the shadow Secretary of State for Wales, on Sunday said: 'On analysis of the numbers that were given to us in the autumn statement Wales would maybe be around a £1bn worse off had we taken responsibility, had we been forced to take responsibility for income tax varying powers back in 2010.' Do the shadow Secretary of State for Wales's figures add up, First Minister?	Brif Weinidog, dywedodd eich cydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid, ddydd Sul: O ddadansoddi'r rhifau a roddwyd i ni yn natganiad yr hydref byddai Cymru efallai tua £1bn yn waeth ei byd pe byddem ni wedi cymryd cyfrifoldeb, pe byddem ni wedi cael ein gorfodi i gymryd cyfrifoldeb am bwerau amrywio treth incwm yn ôl yn 2010. A yw ffigurau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid yn gwneud synnwyr, Brif Weinidog?	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I would have thought that it was obvious, because, first, we know—we have discussed this many times in the Chamber—about the issue of fair funding, but the income tax take would inevitably have dropped from 2008-09 onwards. One of the issues that we have to deal with as we look to gain fiscal powers is our ability to deal with volatility in the tax take. We know that that would have been the case with stamp duty from 2008 onwards. We know that it would have been the case with income tax. So, it is correct to say that, as with any Government anywhere, there would have been a drop in the income tax take. It is not just true of Wales; it is true of the UK and every western European economy.	Byddwn wedi meddwl bod hynny'n amlwg, oherwydd, yn gyntaf, rydym ni'n gwybod—rydym ni wedi trafod hyn droeon yn y Siambr—am y mater o ariannu teg, ond byddai'r enillion o dreth incwm wedi gostwng yn anochel o 2008-09 ymlaen. Un o'r materion y mae'n rhaid i ni ymdrin ag ef wrth i ni geisio ennill pwerau cyllidol yw ein gallu i ymdrin ag anwadalrwydd o ran enillion treth. Rydym ni'n gwybod y byddai hynny wedi bod yn wir gyda'r dreth stamp o 2008 ymlaen. Rydym ni'n gwybod y byddai wedi bod yn wir gyda threth incwm. Felly, mae'n gywir dweud, fel gydag unrhyw Lywodraeth yn unrhyw le, y byddai wedi bod gostyngiad i'r enillion treth incwm. Nid dim ond i Gymru mae hyn yn wir; mae'n wir i'r DU a holl economïau gorllewin Ewrop.	Senedd.tv Fideo Video

13:49

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it remains unclear whether you recognise that the £1 billion figure bandied about by the shadow Secretary of State for Wales stands up or whether you think that it is a made-up figure—a figure plucked from the air. I wrote to you recently providing detail on Plaid Cymru's calculations for underfunding. Perhaps, First Minister, you would be prepared to return the favour by providing us with the methodology behind Labour's claims that Wales would have been £1 billion worse off had it had responsibility for income tax sharing powers.

Brif Weinidog, mae'n dal yn aneglur pa un a ydych chi'n cydnabod bod y ffigur o £1 biliwn y soniwyd amdano gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid yn ddilys neu a ydych chi'n credu ei fod yn ffigur dychmygol—ffigur a dynnwyd o'r awyr. Ysgrifennais atoch yn ddiweddar yn darparu manylion ar gyfrifiadau Plaid Cymru ar gyfer tanariannu. Efallai, Brif Weinidog, y byddech chi'n barod i dalu'n ôl trwy roi'r fethodoleg i ni sy'n sail i honiadau Llafur y byddai Cymru wedi bod £1 biliwn yn waeth ei byd pe byddai wedi bod yn gyfrifol am bwerau rhannu treth incwm.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We talk about made-up figures, and she refers once again to the £1.2 billion calculations that we have not seen. As I say, it is perfectly reasonable and obvious to suggest, as was the case with the Government of the Republic of Ireland and the Governments of the UK, France, Germany, Spain, Greece and any western European country, that there was a drop in the tax take from 2008 onwards. We know that, from 9 August 2009, when the financial situation across the world started to tank, countries saw their tax takes drop. We have to build into our calculations, as we look to gain more revenue-raising powers, that possibility in the future. So, it is right to say—there is no doubt about this in my mind—that, as with any other Government anywhere in western Europe and, indeed, North America, there would have been a loss in terms of the income tax take from 2008 onwards. It seems obvious.

Rydym ni'n siarad am ffigurau dychmygol, ac mae hi'n cyfeirio unwaith eto at y cyfrifiadau £1.2 biliwn nad ydym ni wedi eu gweld. Fel rwy'n dweud, mae'n gwbl resymol ac amlwg i awgrymu, fel a oedd yn wir gyda Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon a Llywodraethau'r DU, Ffrainc, yr Almaen, Sbaen, Gwlad Groeg ac unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop, y bu gostyngiad i'r enillion treth o 2008 ymlaen. Gwyddom, o 9 Awst 2009, pan ddechreuodd y sefyllfa ariannol waethgu ledled y byd, bod enillion treth gwledydd wedi gostwng. Mae'n rhaid i ni gynnwys y posibilrwydd hynny yn ein cyfrifiadau yn y dyfodol, wrth i ni geisio ennill mwy o bwerau codi refeniw. Felly, mae'n iawn i ddweud—nid oes unrhyw amheuaeth am hyn yn fy meddwl i—, fel gydag unrhyw Lywodraeth arall yn unrhyw le yng ngorllewin Ewrop ac, yn wir, Gogledd America, y byddai wedi bod colled o ran yr enillion treth incwm o 2008 ymlaen. Mae'n ymddangos yn amlwg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There may well have been a loss, First Minister, but you have not said whether or not that loss would be £1 billion, as calculated by your shadow Secretary of State for Wales, and you also know that the calculations behind our figures are correct, because I wrote to you detailing those figures. Do you not read your correspondence, First Minister? You have said before, and I have listened very carefully, that you want Barnett addressed before income tax is devolved, and last week, you told me that

Mae'n ddigon posibl y byddai wedi bod colled, Brif Weinidog, ond nid ydych chi wedi dweud pa un a fyddai'r golled yn £1 biliwn, fel y cyfrifwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wrthblaid, ac rydych chi hefyd yn gwybod bod y cyfrifiadau sy'n sail i'n ffigurau yn gywir, gan fy mod i wedi ysgrifennu atoch chi'n rhoi manylion y ffigurau hynny. Onid ydych chi'n darllen eich gohebiaeth, Brif Weinidog? Rydych chi wedi dweud o'r blaen, ac rwyf wedi gwrandao'n ofalus iawn, eich bod eisiau mynd i'r afael â Barnett cyn datganoli treth incwm, a dywedasoich wrthyf yr wythnos diwethaf ei bod

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'it makes perfect sense to sort out the basis of funding first, to get that right, rather than lock in that underfunding through taking income tax powers'.

'yn gwneud synnwyr perffaith i gael trefn ar sail y cyllid yn gyntaf, i'w gael yn iawn, yn hytrach na gwneud y tanariannu hwnnw'n barhaol trwy gymryd pwerau treth incwm'.

That is not the first time that you have made that point. Can we take it for granted, First Minister, that a Labour Secretary of State after May would introduce a Barnett floor at the earliest opportunity and will you give us that as a guarantee this afternoon?

Nid dyna'r tro cyntaf rydych chi wedi gwneud y pwynt yna. A allwn ni ei gymryd yn ganiataol, Brif Weinidog, y byddai Ysgrifennydd Gwladol Llafur ar ôl mis Mai cyflwyno llawr Barnett ar y cyfle cyntaf ac a wnewch chi sicrhau hynny i ni'r prynhawn yma?

13:51	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> First of all, I have read her letter, it just did not make any sense, and I have responded to it. Secondly, could I say—[Interruption.] I did not heckle her when she was speaking. Secondly, I have to say that I remain of the view that we have to sort out funding before we take on board income tax. It is a trap that has been laid for us. It has been made very clear by my party that underfunding will be addressed. We support the Barnett floor, there is no question about that.	Yn gyntaf oll, rwyf wedi darllen ei llythyr, dim ond nad oedd yn gwneud unrhyw synnwyr, ac rwyf wedi ymateb iddo. Yn ail, a gaf i ddweud—[Torri ar draws.] Ni wnes i ei heclo hi pan roedd hi'n siarad. Yn ail, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n dal i fod o'r farn bod yn rhaid i ni gael trefn ar gyllid cyn i ni gymryd cyfrifoldeb am dreth incwm. Mae hwn yn drap a osodwyd ar ein cyfer. Fe'i gwnaed yn eglur iawn gan fy mhlaid i y bydd tanariannu'n cael sylw. Rydym ni'n cefnogi llawr Barnett, nid oes amheuaeth am hynny.	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Leanne Wood Bywgraffiad Biography Is that a guarantee?	A ydych chi'n sicrhau hynny?	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> First of all, I can guarantee it in the sense that she can guarantee that she has already conceded that there will be a Labour majority Government after May, having said that there will be a Labour Secretary of State. It seems to me absolutely sensible to deal with the issue of funding before taking on board major tax-varying powers, and those powers are not something that she and I would necessarily disagree with, I have to say, but I am not prepared to have income tax-varying powers foisted on the people of Wales with a duff financial settlement. That has to be dealt with first. We as a party will not let the people of Wales down in that regard.	Yn gyntaf oll, gallaf ei sicrhau o'r safbwynt y gall hi sicrhau ei bod eisoes wedi cyfaddef y bydd Llywodraeth Lafur fwyafrif ar ôl mis Mai, ar ôl dweud y bydd Ysgrifennydd Gwladol Llafur. Mae'n ymddangos i mi ei bod yn gwbl synhwyrol i ymdrin â'r mater o ariannu cyn cymryd cyfrifoldeb am bwerau amrywio trethi mawr, ac nid yw'r pwerau hynny yn rhywbeth y byddai hi a minnau'n anghytuno â nhw o reidrwydd, mae'n rhaid i mi ddweud, ond nid wyf yn fodlon i gael pwerau amrywio treth incwm yn cael eu gwthio ar bobl Cymru gyda setliad ariannol gwael. Mae'n rhaid ymdrin â hynny yn gyntaf. Ni fyddwn ni fel plaid yn siomi pobl Cymru yn hynny o beth.	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move back to questions on the agenda.	Symudwn yn ôl at gwestiynau ar yr agenda nawr.	Senedd.tv Fideo Video
Morlyn Llanw Bae Abertawe		Swansea Bay Tidal Lagoon	
13:52	Byron Davies Bywgraffiad Biography <i>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol morlyn llanw Bae Abertawe? OAQ(4)2018(FM)</i>	<i>3. Will the First Minister make a statement on the Swansea Bay tidal lagoon? OAQ(4)2018(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I welcome the acknowledgement by the UK Government last week of the potential for a tidal lagoon in Swansea bay, contained within the national infrastructure plan, and the intention to start closer discussions with the developer.	Rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth gan Lywodraeth y DU yr wythnos diwethaf o'r potensial ar gyfer morlyn llanw ym mae Abertawe, sydd wedi ei gynnwys yn y cynllun seilwaith cenedlaethol, a'r bwriad i gychwyn trafodaethau agosach gyda'r datblygwr.	Senedd.tv Fideo Video

13:53

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your response, First Minister. I am pleased that you welcome yet another significant Welsh infrastructure commitment by the Conservative-led Government. Especially given that the tidal lagoon has huge potential for job creation and confirms just how important various forms of renewable energy remain for both Wales and the UK, will you now commit, please, your Government to playing its role in supporting and ensuring the delivery of the leisure side of the development? This is crucial if Swansea is to realise the benefits from this development, because Swansea needs your full support, given that all the planning and support mechanisms for this aspect of the development are, of course, devolved to Cardiff bay.

Diolch am eich ymateb, Brif Weinidog. Rwy'n falch eich bod yn croesawu ymrwymiad seilwaith sylweddol arall eto i Gymru gan y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr. Yn enwedig o ystyried bod gan y morlyn llanw botensial enfawr i greu swyddi ac yn cadarnhau yn union pa mor bwysig yw gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy i Gymru a'r DU o hyd, a wnewch chi ymrwymo eich Llywodraeth nawr, os gwelwch yn dda, i gyflawni ei swyddogaeth o ran cefnogi a sicrhau darpariaeth ochr hamdden y datblygiad? Mae hyn yn hanfodol os yw Abertawe am wireddu'r manteision o'r datblygiad hwn, gan fod angen eich cefnogaeth lawn ar Abertawe, o gofio bod yr holl ddulliau cynllunio a chefnogi ar gyfer yr agwedd hon ar y datblygiad wedi eu datganoli i fae Caerdydd, wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The lagoon is not, we know that. However, in terms of the other developments, of course we would want to see the city have the maximum benefits as a result of the lagoon, and we will work as hard as we can in order for that to happen. We will do our bit. We would like to see the UK Government do its bit and ensure that energy consents are devolved in the same way as they are across the rest of the UK. I have said this before: the people of Wales deserve control over their resources in the same way as the people of England, Scotland and Northern Ireland. So, yes, we support the lagoon, we are glad to see that it is in what is described as the national infrastructure plan, but, again, we come back to this point that the people of Wales should be taking these decisions in order to get the maximum benefit from them.

Nid yw'r morlyn, rydym ni'n gwybod hynny. Fodd bynnag, o ran y datblygiadau eraill, wrth gwrs byddem ni eisiau gweld y ddinas yn cael y manteision mwyaf posibl o ganlyniad i'r morlyn, a byddwn yn gweithio mor galed ag y gallwn er mwyn i hynny ddigwydd. Byddwn ni yn chwarae ein rhan. Hoffem weld Llywodraeth y DU yn chwarae ei rhan a sicrhau bod caniatâd ynni'n cael ei ddatganoli yn yr un modd ag y mae ar draws gweddill y DU. Rwyf wedi dweud hyn o'r blaen: mae pobl Cymru yn haeddu rheolaeth dros eu hadnoddau yn yr un ffordd ag y mae pobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Felly, ydym, rydym ni'n cefnogi'r morlyn, rydym ni'n falch o weld ei fod yn yr hyn a ddisgrifir fel y cynllun seilwaith cenedlaethol, ond, unwaith eto, rydym ni'n dychwelyd at y pwynt hwn y dylai pobl Cymru fod yn gwneud y penderfyniadau hyn er mwyn cael y budd mwyaf ohonynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rydych yn sôn am y cynllun seilwaith cenedlaethol. Roedd adroddiad y BBC yn dweud, oherwydd ei fod yn y cynllun hwnnw, fod posibilrwydd iddo ddod gerbron cyn etholiadau San Steffan flwyddyn nesaf. Ai dyma'ch dealltwriaeth chi ac, os felly, pa drafodaethau penodol ydych wedi eu cael â Gweinidogion yn San Steffan er mwyn sicrhau bod hyn yn gallu cael ei wthio ymlaen yn sydyn?

First Minister, you mention the national infrastructure plan. The BBC report said that, because it was included within that plan, it was possible that it would be brought forward before the Westminster elections next year. Is this your understanding of the situation and, if so, what specific negotiations have you had with Ministers at Westminster in order to ensure that this can be pushed forward quickly?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hynny'n rhywbeth i'r Gweinidog, wrth gwrs, ond datganiad wythnos diwethaf oedd hwn. Cyn hynny, roedd amheuaeth ynglŷn â beth oedd barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r datblygiad hwn. Ond yn awr, wrth gwrs, rydym yn barod i weithio er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn symud yn ei flaen. Mae rôl i Lywodraeth Cymru yn y byd cynllunio gyda rhai pethau yn hyn o beth, ond os yw hwn yn mynd yn ei flaen, rydym am sicrhau bod budd mawr i'r ardal eang—nid dim ond i'r ddinas ond i fae Abertawe.

That is something for the Minister, of course, but this was a statement made last week. Before then, there was doubt about the view of the UK Government in relation to this development. However, we are now ready to work to ensure that the development does move forward. There is a role for the Welsh Government in the planning arena with certain aspects of this, but if this is to move forward, we want to ensure that the benefit there is significant for the whole region—not just for the city, but for the Swansea bay area.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I can refine Byron's question. The issue around the lagoon, if it goes ahead, is that the developers have said that there is quite a lot of tourist potential there. The Welsh Government already sponsors a stand at the Liberty Stadium. Will you start talking to developers about how we can take advantage of the opportunities offered through the lagoon in terms of attracting more tourists to the Swansea bay region, especially given that they have indicated that further lagoons may appear around the Welsh coast, and that this could actually be a model for other areas of Wales?

Brif Weinidog, gallaf fireinio cwestiwn Byron. Y broblem o ran y morlyn, os bydd yn digwydd, yw bod y datblygwyr wedi dweud bod cryn dipyn o botensial ar gyfer twristiaeth yno. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn noddï stondin yn Stadiwm Liberty. A wnewch chi ddechrau siarad â datblygwyr am sut y gallwn fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir drwy'r morlyn o ran denu mwy o dwristiaid i ardal bae Abertawe, yn enwedig o gofio eu bod wedi nodi y gallai mwy o forlynnoedd ymddangos ar hyd arfordir Cymru, ac y gallai hwn fod yn fodel ar gyfer ardaloedd eraill o Gymru mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, we will; because there are obvious benefits. First of all, there are around 5,500 jobs in the construction phase, and another 1,800 jobs plus in full-time equivalents from 2015 onwards. So, in terms of job creation, it is clearly an important driver. We will want to work, of course, with the UK Government and the local authority, where that is appropriate, in terms of planning, to make sure that those jobs come to Wales.

Gwnawn, mi wnawn; gan fod manteision amlwg. Yn gyntaf oll, ceir tua 5,500 o swyddi yn y cyfnod adeiladu, a 1,800 o swyddi cyfwerth ag amser llawn eraill o 2015 ymlaen. Felly, o ran creu swyddi, mae'n amlwg yn sbardun pwysig. Byddwn eisïau, wrth gwrs, gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r awdurdod lleol, pan fo hynny'n briodol, o ran cynllunio, er mwyn gwneud yn siŵr bod y swyddi hynny'n dod i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Awtistiaeth

Autism Services

13:56

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(4)2011(FM)

4. Will the First Minister make a statement on the provision of autism services in Wales? OAQ(4)2011(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Since 2008, the autistic spectrum disorder strategic action plan has provided over £12 million for the provision of autism services in Wales. We are working with the stakeholder advisory group in terms of working towards developing future priorities for action. That work will come to a head in the new year.

Ers 2008, mae'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig wedi darparu dros £12 miliwn ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru. Rydym ni'n gweithio gyda'r grŵp cynghori rhanddeiliaid o ran gweithio tuag at ddatblygu blaenoriaethau gweithredu'r dyfodol. Bydd y gwaith hwnnw'n dod i ben yn y flwyddyn newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the recent cross-party autism group, Members voted unanimously in favour of calling for an autism Act. Different branches and support groups have stated—and I will give you some examples—that they do not benefit, or that there is little benefit for their lives, that the difficulty is that it has no teeth, that autism services are still very limited, that adult services are basically non-existent, and that people are being pushed into further crisis. Particular concern was raised, as you will be aware, about the withdrawal of ring fencing by the Welsh Government from funding for the ASD action plan delivery, as it goes to local authorities. Last week, your Minister for Health and Social Services confirmed positively that he had written to each local authority telling them to continue to spend the money on autism, and that he would be monitoring local authorities to ensure that this happens. Will you ensure, working with the Minister for health, that a copy of that letter is shared with Assembly Members and that Assembly Members are kept informed on progress?

Yn y grŵp awtistiaeth trawsbleidiol diweddar, pleidleisiodd yr Aelodau'n unfrydol o blaid galw am Ddeddf awtistiaeth. Mae gwahanol ganghennau a grwpiau cefnogi wedi dweud —a rhoddaf rai enghreifftiau i chi—nad ydynt yn elwa, neu prin yw'r budd i'w bywydau, ac mai'r anhawster yw nad oes ganddo unrhyw rym, bod gwasanaethau awtistiaeth yn dal i fod yn gyfyngedig iawn, nad yw gwasanaethau i oedolion yn bodoli yn y bôn, a bod pobl yn cael eu gwrthio i argyfwng pellach. Codwyd pryder arbennig, fel y gwyddoch, ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i neilltuo cyllid ar gyfer darparu'r cynllun gweithredu Anhwylder Sbectrwm Awtistig, gan ei fod yn mynd i awdurdodau lleol. Yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gadarnhaol ei fod wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn dweud wrthynt i barhau i wario'r arian ar awtistiaeth, ac y byddai'n monitro awdurdodau lleol i sicrhau bod hyn yn digwydd. A wnewch chi sicrhau, gan weithio gyda'r Gweinidog Iechyd, bod copi o'r llythyr hwnnw'n cael ei rannu gydag Aelodau'r Cynulliad a bod Aelodau'r Cynulliad yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, of course; there is no difficulty with that. In terms of the proposed autism Bill—we can call it a Bill, rather than an Act at this stage—this was an issue raised with me by a constituent on Friday. It is something that I know that the Minister responded to last week during his questions, and I know that he said that he will be seeking advice as to the possible benefits of such a Bill. That is something that we will consider actively, of course. However, we know that such a Bill would not come forward now until after 2016, given the length of time left in this Assembly.

Gwnaf, wrth gwrs; nid oes unrhyw anhawster â hynny. O ran y Bil awtistiaeth arfaethedig—gallwn ei alw'n Fil, yn hytrach na Deddf ar hyn o bryd—mae hwn yn fater a godwyd gyda mi gan etholwr ddydd Gwener. Mae'n rhywbeth y gwn fod y Gweinidog wedi ymateb iddo yr wythnos diwethaf yn ystod ei gwestiynau, ac rwy'n gwybod ei fod wedi dweud y bydd yn gofyn am gyngor ar fanteision posibl Bil o'r fath. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn ymarferol, wrth gwrs. Fodd bynnag, gwyddom na fyddai Bil o'r fath yn cael ei gyflwyno tan ar ôl 2016 erbyn hyn, o ystyried faint o amser sydd ar ôl yn y Cynulliad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Bil anghenion dysgu ychwanegol eisoes yn yr arfaeth gan y Llywodraeth. Wrth weithredu'r Bil hwnnw, a fydd yn newid y gefnogaeth y bydd rhai disgyblion ag awtistiaeth yn ei chael yn ein hysgolion, er enghraifft, a ydych am roi arian ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr bod y Bill yn llwyddo?

A Government additional learning needs Bill is already in the pipeline. In bringing forward that Bill, which will change the support that some pupils with autism receive in our schools, for example, are you going to provide additional funding to ensure that the Bill succeeds?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wrth gwrs, mae hynny'n rhan o'r drafodaeth ar y Bil, ond rydym wedi dweud o'r blaen: lle mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau i awdurdodau lleol, er enghraifft, byddem yn erfyn cyllido'r newidiadau. Mae honno'n egwyddor sydd wedi bod ar waith ers blyneddau. Rydym i gyd yn deall, pan fo deddfwriaeth yn dod i rym, ei bod yn bwysig ystyried y sefyllfa ariannol a sicrhau bod yr arian yno i sicrhau bod y Bil, ac yna'r Ddeddf, yn effeithiol.

Of course, this is part of the discussion around the Bill, but I will repeat: where legislation places duties on local authorities, for example, we would expect the changes to be funded. That is a principle that has been in place for years. We all understand that, where legislation comes into force, it is important to consider the financial situation and to ensure that that funding is in place to ensure that the Bill, and then the Act, is effective.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59	William Powell Bywgraffiad Biography First Minister, with the concerns that are out there, across Wales, in terms of the dropping of the ring fencing of £40,000 per local authority, and given your Minister for health's undertaking to write to all local authorities, urging them to spend the money still within the autism field, would it not be a good idea to actually engage with your Minister to actually ask him to reconsider the removing of that ring fence, given the importance that that money has had since 2008 in underpinning the delivery of the ASD strategy, particularly as it comes to the refresh that I understand will be launched shortly?	Brif Weinidog, o ystyried y pryderon sydd allan yna, ledled Cymru, o ran cael gwared ar y cyllid a neilltuwyd o £40,000 fesul awdurdod lleol, ac o gofio ymrwymiad eich Gweinidog iechyd i ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn eu hannog i barhau i wario'r arian ym maes awtistiaeth, oni fyddai'n syniad da ymgysylltu â'ch Gweinidog i ofyn iddo ailystyried cael gwared ar y neilltuo hwnnw, o gofio pa mor bwysig y bu'r arian hwnnw ers 2008 fel sail i ddarpariaeth y strategaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistig, yn enwedig oherwydd yr adnewyddu yr wyf ar ddeall y bydd yn cael ei lansio'n fuan?	Senedd.tv Fideo Video
14:00	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Officials will be monitoring the way in which spending on autism is taken forward at local authority level over the course of the coming year. Of course, if there are signs that the service is not keeping to the standard that we would expect, then we would have to take certain actions. However, first things first, we will be monitoring the new arrangements in order to make sure that they are satisfactory.	Bydd swyddogion yn monitro'r ffordd y mae gwariant ar awtistiaeth yn cael ei ddatblygu ar lefel awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn i ddod. Wrth gwrs, os oes arwyddion nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r safon y byddem yn ei disgwyl, yna byddai'n rhaid i ni gymryd camau penodol. Fodd bynnag, yn gyntaf oll, byddwn yn monitro'r trefniadau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn foddhaol.	Senedd.tv Fideo Video
Cynlluniau Gaeaf y Byrddau Iechyd Lleol		Winter Plans for Local Health Boards	
14:00	Aled Roberts Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gaeaf y byrddau iechyd lleol? OAQ(4)2017(FM)</i>	<i>5. Will the First Minister provide an update on the winter plans of local health boards? OAQ(4)2017(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:00	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae pob un o'r byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau integredig gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a phartneriaid awdurdodau lleol ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefannau'r sefydliadau.	All local health boards have developed integrated plans with the Welsh Ambulances Services NHS Trust and local authority partners for the winter to come. These plans have been published on the organisations' websites.	Senedd.tv Fideo Video
14:01	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Mae cynllun Betsi Cadwaladr, sydd wedi'i gyhoeddi, yn dangos bod angen gwariant o ryw £3.2 miliwn yn ychwanegol i'w arian cyffredinol. Wrth gofio, ar 4 Tachwedd, bod y bwrdd iechyd wedi awgrymu ei fod yn gorwario o ryw £65 miliwn, a ydych chi'n fodlon bod yr arian ychwanegol hwnnw ar gael o fewn y bwrdd iechyd lleol?	The Betsi Cadwaladr plan, which has been published, demonstrates that there is a need for expenditure of some £3.2 million in addition to its wider budget. Bearing in mind that, on 4 November, the health board suggested that it is overspending by some £65 million, are you content that that additional funding is available within the local health board?	Senedd.tv Fideo Video
14:01	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae'n bwysig dros ben bod pob bwrdd iechyd yn paratoui ar gyfer y gaeaf wrth gofio'r setliad cyllidol sydd ganddynt. Mae hynny'n rhan hollol normal o waith unrhyw fwrdd iechyd, felly byddem yn eu herfyn i allu cyllido unrhyw bwysau a fydd yn dod drwyddo dros y gaeaf o'r gyllideb sydd ganddynt ar hyn o bryd.	It is very important that every health board prepares for the winter by remembering the financial settlement that they have. That is a normal part of the work of any health board, so we would expect them to be able to fund any pressures that come through over the winter from the budget that they have at present.	Senedd.tv Fideo Video

14:01

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the reality is that some health boards simply cannot afford the levels of staffing that they require, particularly in emergency departments. You will be aware of the fact that Ysbyty Glan Clwyd in particular has been the worst performing of all hospitals in England and Wales in terms of its emergency department, as recorded in October. Will you confirm that the Welsh Government will step in to support those health boards that are under particular financial pressure, given the demographics and given the geographical challenges in certain parts of the country?

Brif Weinidog, y gwir syml amdani yw na all rhai byrddau iechyd fforddio'r lefelau staffio sydd eu hangen arnynt, yn enwedig mewn adrannau achosion brys. Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith mai Ysbyty Glan Clwyd yn benodol fu'r ysbyty sy'n perfformio waethaf o bob ysbyty yng Nghymru a Lloegr o ran ei adran achosion brys, fel y cofnodwyd ym mis Hydref. A wnewch chi gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn camu i mewn i gefnogi'r byrddau iechyd hynny sydd dan bwysau ariannol arbennig, o ystyried y ddemograffeg ac o ystyried yr heriau daearyddol mewn rhai rhannau o'r wlad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We expect health boards to keep within the budgets they have been allocated. That is part of the normal management of resources that they would be expected to demonstrate. They have their winter plans in place. We know that last year those winter plans were effective. We expect the plans this year to be equally as effective.

Rydym ni'n disgwyl i fyrddau iechyd gadw o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd iddynt. Mae hynny'n rhan o'r broses arferol o reoli adnoddau y byddai disgwyl iddynt ei dangos. Mae eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf ar waith ganddynt. Rydym ni'n gwybod bod y cynlluniau hynny ar gyfer y gaeaf yn effeithiol y llynedd. Rydym ni'n disgwyl i'r cynlluniau eleni fod yr un mor effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it is not just the health boards that have responsibility to plan for the demands caused by the cold weather. I believe they should be working with local authorities, housing associations, and voluntary organisations as well. Can you please ensure that not only local authorities and those organisations that I mentioned are involved, but, more importantly, that we use the media and social media to reach the vulnerable people who may be at risk at home, and who are not even able to get to the hospital, should the weather turn really severe? They say that Wales is a land of twitching curtains. In severe weather, the curtains should indeed twitch.

Brif Weinidog, nid dim ond y byrddau iechyd sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer y galwadau a achosir gan y tywydd oer. Rwy'n credu y dylent fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, a mudiadau gwirfoddol hefyd. A allwch chi sicrhau os gwelwch yn dda nad awdurdodau lleol a'r sefydliadau hynny y soniais amdanynt yn unig sy'n cael eu cynnwys, ond, yn bwysicach, ein bod yn defnyddio'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i gyrraedd y bobl agored i niwed a allai fod mewn perygl gartref, ac na allant gyrraedd yr ysbyty hyd yn oed, pe byddai'r tywydd yn troi'n wirioneddol wael? Maen nhw'n dweud bod Cymru'n wlad o ysbïo drwy'r llenni. Mewn tywydd garw, mi ddylai pobl fod wir yn ysbïo drwy'r llenni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. He is right. It is not for me to comment on what he said, of course. I do not want to—. Curtain twitchers are a sizeable chunk of the electorate, and I am sure that none of us would want to upset them. [Laughter.] The serious point is that we have, of course, historically been a nation of communities where people have looked out for one another. I would encourage people to continue to do that, to support particularly the elderly and the vulnerable in their street, in their village, in their town. Secondly, of course, I would expect local health boards and local authorities to use social media as much as possible in order to get the message across. We know, of course, that that is now a normal and usual part of any communication strategy.

Ie. Mae e'n iawn. Nid yw'n fater i mi wneud sylwadau ar yr hyn a ddywedodd, wrth gwrs. Nid wyf yn dymuno—. Mae'r rhai sy'n ysbïo drwy'r llenni'n gyfran sylweddol o'r etholaeth, ac rwy'n siŵr na fyddai unrhyw un ohonom ni eisïau achosi gofid iddynt. [Chwerthin.] Y pwynt difrifol yw ein bod wedi bod yn hanesyddol, wrth gwrs, yn genedl o gymunedau lle mae pobl wedi edrych ar ôl ei gilydd. Byddwn yn annog pobl i barhau i wneud hynny, er mwyn cefnogi'n benodol yr henoed a phobl sy'n agored i niwed yn eu stryd, yn eu pentref, yn eu tref. Yn ail, wrth gwrs, byddwn yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol cymaint â phosibl er mwyn cyfleu'r neges. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, bod hynny'n rhan normal ac arferol o unrhyw strategaeth gyfathrebu erbyn hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ymweliadau â Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd

Visits to European Union Regions

14:04

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Sawl gwaith y mae'r Prif Weinidog wedi ymweld â rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? OAQ(4)2009(FM)

6. How many times has the First Minister visited European Union regions in the last year? OAQ(4)2009(FM)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, mae hynny'n dibynnu ar beth yw rhanbarth. Rwyf wedi bod i Lundain sawl gwaith ac mae honno'n rhanbarth o'r Undeb Ewropeaidd, ac wrth gwrs i sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, ond, y tu fas i'r Deyrnas Unedig, rwyf wedi ymweld â Fflandrys—rwyf wedi bod yno, wrth gwrs, i Langemark i sicrhau'r cofeb newydd yn yr ardal honno—ac es i i Frwsel ym mis Mehefin er mwyn cwrdd â Gweinidogion tramor gwledydd NATO.

Well, the question is: what is a region? I have been to London several times and that is a region of the European Union, and I have been to several regions of the United Kingdom, but, outside of the United Kingdom, I have visited Flanders—I have been there, of course, to Langemark in relation to the new Welsh memorial in that area—and I also went to Brussels in June to meet foreign ministers from the NATO countries.

14:04

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, yn ôl fy nffiniad i, Brif Weinidog, mae pob un o'r rheini yn rhanbarthau. A gaf i bwyso arno, felly, at y dyfodol, i sicrhau bod yna ddatblygiad cryf o'r berthynas uniongyrchol rhwng ei Lywodraeth ef a'r llywodraethau rhanbarthol, drwy'r Gymuned Ewropeaidd, drwy'r Undeb Ewropeaidd, ac yn arbennig gyda'r aelod-wladwriaethau llai, er mwyn i Gymru fod yn bartner cryfach o fewn yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig yn y blynyddoedd nesaf, ac y bydd pobl Cymru yn dysgu mai dim ond o fewn yr Undeb Ewropeaidd y mae dyfodol iach i Gymru?

Well, according to my definition, First Minister, all of those are regions. May I urge him, for the future, to ensure that there is a strong development of a direct relationship between his Government and the regional governments throughout the European Union, particularly with the smaller member states also, so that Wales can be a stronger partner within the European Union, particularly over the next few years, and the people of Wales will then learn that it is only within the European Union that there is a healthy future for Wales?

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, rwyf yn cytuno'n hollol gyda hynny, wrth gwrs. Rydym wedi chwarae rhan allweddol dros y blynyddoedd yn yr Undeb Ewropeaidd ar lefel—a hwn yw'r diffiniad—ranbarthol. Yn enwedig, rwyf wedi cwrdd â llywodraethau Llydaw a Chatalonia. Wrth gwrs, rwyf yn dal i siarad â phobl ledled Ewrop a chynrychiolwyr llywodraethau fel Fflandrys hefyd. Mae'n bwysig dros ben bod llais Cymru'n cael ei glywed yn Ewrop, ac mae hynny'n digwydd drwy swyddfa sydd gennym ym Mrwsel.

Well, I agree entirely with that, of course. We have played a key role over the years within the European Union on a regional level—that is the definition. I have met with governments in Brittany and Catalonia. Of course, I am continuing to have discussions with people across Europe and the representatives of governments such as that of Flanders as well. It is important that the Welsh voice is being heard within Europe, and that is happening through the office that we have in Brussels.

14:06

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, as you know, we hosted a conference outlining the success that the Welsh Government has achieved on youth unemployment and outlining how well received that is in other parts of Europe, looking at the Welsh model as a successful model to emulate in the future. Does the First Minister agree with me that Wales is now really beginning to find its feet within Europe, that its profile in Europe is developing, and that its reputation is developing? Does the First Minister also agree with me that we have to continue with that sort of work in order to ensure that the Welsh Government has a high profile within Europe and within the regions of Europe, that we learn from Europe and that we also showcase the successes that we are achieving within Wales?

Brif Weinidog, fel y gwyyddoch, cynhaliwyd cynhadledd gennym yn amlinellu'r llwyddiant y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gael o ran diweithdra ymhlith pobl ifanc ac yn amlinellu faint o glod mae hynny wedi ei gael mewn rhannau eraill o Ewrop, sydd o'r farn bod model Cymru'n fodel llwyddiannus i'w efelychu yn y dyfodol. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi bod Cymru wir yn dechrau sefydlu ei hun yn Ewrop bellach, a bod ei phroffil yn Ewrop yn datblygu, a bod ei henw da yn datblygu? A yw'r Prif Weinidog hefyd yn cytuno â mi bod yn rhaid i ni barhau â'r math hwnnw o waith er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru broffil uchel o fewn Ewrop ac o fewn rhanbarthau Ewrop, ein bod yn dysgu gan Ewrop a'n bod hefyd yn arddangos y llwyddiannau rydym ni'n eu cyflawni yng Nghymru?

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is absolutely true—we can learn from each other. It was with some relief this morning that I saw the latest polling that suggests that, if there were to be a vote, people would vote to remain within the European Union. There was not enough of a gap to be comfortable. Nevertheless, given the Eurosceptic propaganda that we see so often, it is unsurprising that the negative voices against the EU should be so strong. However, I am very glad of the fact that we are able to play our full part within the European Union. I am very glad, of course, as well to make sure that Wales's voice is heard in the way that I have described earlier.

Mae hynny'n hollol wir—gallwn ddysgu gan ein gilydd. Gwelais gyda chryn ryddhad y bore yma bod yr arolygon diweddaraf yn awgrymu, pe bai pleidlais, y byddai pobl yn pleidleisio i aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Nid oedd digon o fwllch i fod yn gyfforddus. Serch hynny, o ystyried y propaganda Ewrosgeptig yr ydym ni'n ei weld mor aml, nid yw'n syndod bod y lleisiau negyddol yn erbyn yr UE mor gryf. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn o'r ffaith ein bod yn gallu chwarae ein rhan lawn yn yr Undeb Ewropeaidd. Rwy'n falch iawn hefyd, wrth gwrs, o wneud yn siŵr bod llais Cymru'n cael ei glywed yn y modd a ddisgrifiais yn gynharach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, travelling around Europe, First Minister, gives you the opportunity to look at other experiences in other countries. Your Government has taken a conscious decision to have the highest rate of modulation on farm incomes here of 15%. It has also decided to cut the rural affairs budget by 18%. If you just go over the Irish sea, the exact opposite prevails there: 0% modulation and an aspiration to double output in the field of agriculture. Which philosophy do you think is correct when you visit these countries—your philosophy of cutting production and cutting support here in Wales, or the Irish philosophy of supporting and growing the rural economy?

Yn amlwg, mae teithio o gwmpas Ewrop, Brif Weinidog, yn rhoi cyfle i chi edrych ar brofiadau eraill mewn gwledydd eraill. Mae eich Llywodraeth wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i fod â'r gyfradd uchaf o fodiwleiddio ar incwm ffermydd yma, sef 15%. Mae hefyd wedi penderfynu torri'r gyllideb materion gwledig gan 18%. Pe byddech chi ond yn croesi môr Iwerddon, mae'r union wrthwyneb yn wir yno: ceir modiwlleiddio o 0% a dyhead i ddyblu cynnyrch ym maes amaethyddiaeth. Pa athroniaeth ydych chi'n ei gredu sy'n gywir pan fyddwch chi'n ymweld â'r gwledydd hyn—eich athroniaeth chi o dorri cynhyrchu a thorri cefnogaeth yma yng Nghymru, neu athroniaeth Iwerddon o gefnogi a thyfu'r economi wledig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think that we will have a more sustainable farming industry. Production has to be linked to the market, end of story. You cannot just subsidise production. All that means—and he will know this full well—is that it encourages people to produce more than the market can absorb; it depresses prices; and it also does not help the quality producers—those people who really focus on what they produce. Instead, there will be some producers who are producing animals that are of a lower quality than would—. Well, they would not be there at all, actually, if we had production subsidies. What is important is that there is sufficient money available to make sure that farming businesses become more sustainable. That is why we have taken the decision to make sure that that money is available through the rural development plan, and that money is available through modulation, to help farmers look to the future. In other countries, they have decided to keep on with the old subsidies. That does not make farming viable for the future. What we are doing in the medium to long term will certainly ensure that farming in Wales is on a much more sustainable and sounder footing than will be the case, unfortunately, in other countries.

Rwy'n credu y bydd gennym ni ddiwydiant ffermio mwy cynaliadwy. Mae'n rhaid i gynhyrchu fod yn gysylltiedig â'r farchnad, dyna'i diwedd hi. Ni allwch chi ddim ond rhoi cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu. Y cwbl y mae hynny'n ei olygu—a bydd ef yn gwybod hyn yn iawn—yw ei fod yn annog pobl i gynhyrchu mwy nag y gall y farchnad ymdrin ag ef; mae'n cadw prisiau'n isel; ac nid yw'n helpu'r cynhyrchwyr o ansawdd ychwaith—y bobl hynny sydd wir yn canolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei gynhyrchu. Yn hytrach, bydd rhai cynhyrchwyr sy'n cynhyrchu anifeiliaid o ansawdd is na fyddai—. Wel, ni fyddent yno o gwbl, a dweud y gwir, pe byddai gennym gymorthdaliadau cynhyrchu. Yr hyn sy'n bwysig yw bod digon o arian ar gael i wneud yn siŵr bod busnesau ffermio'n fwy cynaliadwy. Dyna pam rydym ni wedi gwneud y penderfyniad i wneud yn siŵr bod yr arian hwnnw ar gael drwy'r cynllun datblygu gwledig, a bod arian ar gael trwy fodiwleiddio, i helpu ffermwyr i ystyried y dyfodol. Mewn gwledydd eraill, maen nhw wedi penderfynu parhau â'r hen gymorthdaliadau. Nid yw hynny'n gwneud ffermio'n hyfyw ar gyfer y dyfodol. Bydd yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yn y tymor canol i'r hirdymor yn sicr yn gwneud yn siŵr bod sylfaen llawer mwy cynaliadwy a chadarn i ffermio yng Nghymru na'r hyn fydd yn digwydd, yn anffodus, mewn gwledydd eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, in the course of your visits across Europe, have you discussed various models of train franchises? We know that lots of train companies that run British franchises, including Arriva Trains Wales, are publicly owned, but by other European countries. Eighty-two per cent of UK voters, and even 52% of Tory voters, support a not-for-profit model, yet the Tory transport spokesman says that the idea is pure Marxism. Do you agree with me that it is no wonder, then, that the people of Wales will never again trust the Tories with their railways?

Brif Weinidog, yn ystod eich ymweliadau ar draws Ewrop, a ydych chi wedi trafod gwahanol fodelau o fasnachfreintiau trên? Rydym ni'n gwybod bod llawer o gwmnïau trenau sy'n rhedeg masnachfreintiau Prydain, gan gynnwys Trenau Arriva Cymru, yn eiddo cyhoeddus, ond i wledydd Ewropeaidd eraill. Mae wyth deg dau y cant o bleidleiswyr y DU, a hyd yn oed 52% o bleidleiswyr Toriaidd, yn cefnogi model dielw, ac eto mae llefarydd trafndiaeth y Toriaid yn dweud bod y syniad yn Farcsiaeth pur. A ydych chi'n cytuno â mi nad oes rhyfedd, felly, na fydd pobl Cymru byth eto'n ymddiried yn y Toriaid gyda'u rheilffyrdd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it means that the Minister for transport is also a Marxist, given the fact, of course, that some franchises in England are run, indeed, by the UK Government. I thought that it was a bit over the top—it is Christmas, so let us be generous; Byron sometimes takes it in the neck from me—in terms of the description that he gave. I think that a not-for-profit company running our railways is certainly something that we should be looking at—I think that it would gain strong support from the people of Wales. Of course, we also know that transport is important, despite the fact that I do not think that there is anybody in this Chamber who has ever been late for an event and laid the blame on immigrants. [Laughter.]

Wel, mae'n golygu bod y Gweinidog trafndiaeth hefyd yn Farcsydd, o gofio'r ffaith, wrth gwrs, bod rhai masnachfreintiau yn Lloegr yn cael eu rhedeg, mewn gwirionedd, gan Lywodraeth y DU. Roeddwn i'n meddwl ei fod dros ben llestri braidd—mae'n adeg y Nadolig, felly gadewch i ni fod yn hael; mae Byron yn ei chael hi gennyf i weithiau—o ran y disgrifiad a roddodd. Rwy'n credu bod cwmni dielw'n rhedeg ein rheilffyrdd yn sicr yn rhywbeth y dylem fod yn ei ystyried—rwy'n meddwl y byddai'n cael cefnogaeth gref gan bobl Cymru. Wrth gwrs, rydym ni hefyd yn gwybod bod trafndiaeth yn bwysig, er gwaethaf y ffaith nad wyf yn credu bod unrhyw un yn y Siambr hon sydd erioed wedi bod yn hwyr i ddigwyddiad ac wedi rhoi'r bai ar fewnfudwyr. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweithwyr Medrus

Skilled Workforce

14:10

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir o 8,000 o weithwyr medrus o fewn ein diwydiannau gweithgynhyrchu erbyn 2017? OAQ(4)2019(FM)

7. Will the First Minister outline how the Welsh Government will address the anticipated shortfall of 8,000 skilled workers within our manufacturing industries by 2017? OAQ(4)2019(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Our skills implementation plan, which was published in July, does highlight the actions that we are taking with employers in order to maximise the opportunities to grow the skills base and, of course, particular attention has been given in the enterprise zones to them developing the skills plans that they need as well.

Gwnaf. Mae ein cynllun gweithredu sgiliau, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn nodi'r camau yr ydym ni'n eu cymryd gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i dyfu'r sylfaen sgiliau ac, wrth gwrs, rhoddwyd sylw arbennig yn yr ardaloedd menter i ddatblygu'r cynlluniau sgiliau sydd eu hangen arnynt hwy hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your answer, First Minister. I was recently with the Anglesey enterprise zone people and although they welcomed the commitment to the £12 billion nuclear power station, in outline granted by the Conservative-led Government at Westminster, they were concerned that, with your cuts in the education budget, they would not be able to meet the aspirations of those people who want jobs on that site and when it is completed.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Roeddwn i gyda phobl ardal fenter Ynys Môn yn ddiweddar, ac er eu bod yn croesawu'r ymrwymiad i'r orsaf ynni niwclear £12 biliwn, a gymeradwywyd yn amlinellol gan y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan, roeddent yn bryderus, yn sgil eich toriadau chi yn y gyllideb addysg, na fyddent yn gallu bodloni dyheadau'r bobl hynny sydd eisiau swyddi ar y safle hwnnw a phan gaiff ei gwblhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If you look at the apprenticeships that we have delivered since 2012, they are many. We expect the enterprise zones, as I say, to develop their skills plans and to work closely with the sector skills councils to understand what they require as well. We are supporting the regional skills partnerships to develop and publish annual regional employment and skills plans as well, and, of course, in the early part of next year, we will launch the skills gateway, which will simplify arrangements for accessing skills and employment support. We believe, just to give some examples there, that there will be plenty of support available in order to develop the skills that we need in the future.

Os edrychwch chi ar y prentisiaethau yr ydym ni wedi eu cyflwyno ers 2012, mae llawer ohonynt. Rydym ni'n disgwyl i'r ardaloedd menter, fel y dywedais, ddatblygu eu cynlluniau sgiliau ac i weithio'n agos gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt hwythau hefyd. Rydym ni'n cefnogi'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol i ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol blynyddol hefyd, ac, wrth gwrs, yn gynnar y flwyddyn nesaf, byddwn yn lansio'r porth sgiliau, a fydd yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar gymorth sgiliau a chyflogaeth. Rydym ni'n credu, dim ond i roi rhai enghreifftiau yna, y bydd digon o gefnogaeth ar gael i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am proud of this Welsh Government's record on apprenticeships, which has seen all targets exceeded over the last two years, thanks in large part to the £40 million in extra funding provided to boost numbers through the Young Recruits programme. This, of course, will result in more learners aged between 16 and 24 completing higher level apprenticeships, helping to provide our labour market with the skills needed for a high-tech, manufacturing based economy. First Minister, would you therefore agree with me, despite the cuts imposed upon us by the UK Government, about the importance of partnership working between the Welsh Government, employers, learners, learning providers and FE colleges, so that we can continue to deliver a successful apprenticeship programme during times of tightened public finances?

Brif Weinidog, rwy'n falch o hanes y Llywodraeth Cymru hon o ran prentisiaethau, ar ôl iddi ragori ar bob targed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, diolch i raddau helaeth i'r £40 miliwn o gyllid ychwanegol a ddarparwyd i roi hwb i niferoedd drwy'r rhaglen Recriwtiaid Newydd. Bydd hyn, wrth gwrs, yn arwain at fwy o ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed yn cwblhau prentisiaethau lefel uwch, gan helpu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ein marchnad lafur ar gyfer economi sy'n seiliedig ar uwch dechnoleg a gweithgynhyrchu. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi felly, er gwaethaf y toriadau a orfodwyd arnom gan Lywodraeth y DU, am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, dysgwyr, darparwyr addysg a cholegau addysg bellach, fel y gallwn barhau i ddarparu rhaglen brentisiaeth lwyddiannus yn ystod cyfnodau o gyllid cyhoeddus cyfyngedig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, there are always challenges, of course, as the Member knows, but we know that we have a long history in Wales of providers and employers working together to make sure that we have the flow of skills that we need. We know how important that is. If we do not have the skills, we cannot attract the investment and we cannot help our SMEs to grow. So, we fully understand how important it is to make sure that the skills flow remains in place.

Ydw, ceir heriau bob amser, wrth gwrs, fel y gwyr yr Aelod, ond gwyddom fod gennym hanes hir yng Nghymru o ddarparwyr a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gennym y llif o sgiliau sydd ei angen arnom. Rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw hynny. Os nad yw'r sgiliau gennym, ni allwn ddenu'r buddsoddiad ac ni allwn helpu ein busnesau bach a chanolig i dyfu. Felly, rydym ni'n deall yn llwyr pa mor bwysig yw sicrhau bod y llif sgiliau hwnnw'n dal i fod ar gael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O'r agenda prentisiaethau, a gafodd ei wthio gan Plaid Cymru a'i dorri gan Lafur, mi drow'n ni yn ôl at Ynys Môn. Efallai bod y Prif Weinidog yn ymwybodol o sylwadau gan Gyngor Sir Ynys Môn, sydd wedi datgan nifer o bryderon ynglŷn â sawl agwedd ar ddatblygiad Wylfa, gan gynnwys arafwch Horizon i ddatblygu map manwl o'r sgiliau y bydd eu hangen a phryd fel rhan o'r datblygiad hwnnw. Mae'r rhain yn bethau yr wyf wedi bod rhybuddio amdany'n nhw ers tro hefyd. Pa bwysau a all y Llywodraeth ei roi ar Horizon i sicrhau bod y map manwl hwnnw o anghenion sgiliau yn cael ei ddatblygu, yn gynhwysfawr ac ar frys, er mwyn sicrhau y bydd Wylfa, os bydd yn digwydd, yn digwydd er lles pobl Ynys Môn?

From the apprenticeship agenda, which was pushed forward by Plaid Cymru and broken by Labour, we turn back to Anglesey. Perhaps the First Minister is aware of comments made by Anglesey council, which has expressed a number of concerns about many aspects of the Wylfa development, including the lack of pace by Horizon in producing a detailed map of the skills that will be required as part of that development. These are things that I have been warning about over a long period of time. What pressure can the Government place on Horizon to ensure that that detailed map of skills needs is developed in a comprehensive manner and with haste in order to ensure that Wylfa, if it happens, actually benefits the people of Anglesey?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddwn i'n erfyn i Horizon wneud hyn beth bynnag. Byddai'n rhywbeth a fyddai'n bwysig i Horizon i sicrhau bod y sgiliau ar gael yn lleol. Rhaid imi ddweud fy mod i wedi siarad â Choleg Menai. Es i i Goleg Menai bum mlynedd yn ôl, bron i'r dydd, ac roedd yn meddwl am y sgiliau pryd hynny y byddai eu heisiau ar Wylfa. Felly, rwy'n gwybod bod y coleg ei hun wedi bod yn gweithio yn fanwl er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cynyddu'r sgiliau y bydd eu heisiau ar Wylfa, ond byddwn i'n erfyn, wrth gwrs, i Horizon sicrhau ei fod yn rhoi mwy o fanylion i'r coleg lleol er mwyn i'r coleg hwnnw allu sicrhau bod y sgiliau ar gael i Horizon.

We would expect Horizon to do that regardless. It is something that would be important for Horizon to ensure that the skills are available locally. I have to say that I have spoken to Coleg Menai—I went there five years ago, almost to the day—and it was thinking then about the skills that would be needed by Wylfa. I know that the college has been working in detail to ensure that it can increase the skills base that will be needed in Wylfa, but, of course, it is up to Horizon to ensure that it provides additional detail to the local college so that that college can ensure that the skills are available for Horizon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I was delighted that funding for 5,000 apprenticeship places was protected by our budget agreement. While there has been a lot of focus on Young Recruits and youth programmes, it is still the case that the over-50s in Wales are more likely to die in the next year than to get a new job in that time if they are unfortunate enough to lose their work. How is the Welsh Government ensuring that older members of the workforce have access to the training and skills development that they need as well?

Brif Weinidog, roeddwn i wrth fy modd bod cyllid ar gyfer 5,000 o leodedd prentisiaeth wedi ei ddiogelu gan ein cytundeb cyllideb. Er y bu llawer o bwyslais ar Recriwtiaid Newydd a rhaglenni ieuencid, mae'n dal yn wir fod y rhai dros 50 oed yng Nghymru yn fwy tebygol o farw yn y flwyddyn nesaf nag i gael swydd newydd yn y cyfnod hwnnw os ydynt yn ddigon anffodus i golli eu gwaith. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan aelodau hŷn o'r gweithlu fynediad at yr hyfforddiant a'r datblygiad sgiliau y mae hwythau eu hangen hefyd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course, of the schemes that we have, there are some that are targeted at young people—Jobs Growth Wales clearly is one of them—but we have worked with the Department for Work and Pensions, we have worked with the city regions, and we have worked with the enterprise zones to make sure that skills are available for those of all ages. We know that it is important that people are able to develop new skills as they get older in order to make themselves attractive in the employment market. That is something, of course, that we will continue to do.

Wrth gwrs, o'r cynlluniau sydd gennym, ceir rhai sydd wedi eu targedu at bobl ifanc—mae Twf Swyddi Cymru yn amlwg yn un ohonynt—ond rydym ni wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, rydym ni wedi gweithio gyda'r dinas-ranbarthau, ac rydym ni wedi gweithio gyda'r ardaloedd menter i sicrhau bod sgiliau ar gael i bobl o bob oed. Rydym ni'n gwybod ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu datblygu sgiliau newydd wrth iddynt fynd yn hŷn er mwyn gwneud eu hunain yn ddeniadol yn y farchnad gyflogaeth. Mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, y byddwn yn parhau i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tarfu yn y Gaeaf

Winter Disruption

14:15

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith tarfu yn y gaeaf ar weithwyr y gwasanaethau brys?
OAQ(4)2022(FM)

8. How will the Welsh Government monitor the impact of winter disruption on emergency services workers?
OAQ(4)2022(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We will maintain close contact with the emergency services and with the local resilience forums to monitor the effects of winter on all aspects of public service delivery.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos â'r gwasanaethau brys a chyda'r fforymau cydnerth lleol i fonitro effeithiau'r gaeaf ar bob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that. As we approach Christmas time, I suppose it is incumbent on all of us to spare a thought for those people who will work Christmas Eve, Christmas Day and Boxing Day, in the health service, the ambulance service, the police or the fire service, but also the volunteers from the mountain rescue and from the Royal National Lifeboat Institution, and people like that, who may respond to a call-out on Christmas Day as we are all sitting down, hopefully with families, and having a rest. What will you do, First Minister, to make sure that we do pay tribute to those people, and will you join me in paying tribute here and now to those people who will be keeping us safe over the Christmas period? How will we monitor the strain on emergency workers? It may also then have to come down to the flu vaccinations; how can we provide for them to ensure that they keep us safe?

Diolch yn fawr am hynna. Wrth i ni nesáu at y Nadolig, mae'n debyg ei bod yn ddyletswydd ar bob un ohonom i gofio am y bobl hynny a fydd yn gweithio ar Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan, yn y gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth ambiwlans, yr heddlu neu'r gwasanaeth tân, ond hefyd y gwirfoddolwyr o'r gwasanaeth achub mynydd ac o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, a phobl o'r fath, a allai ymateb i alwad ar ddydd Nadolig wrth i ni i gyd eistedd i lawr, gyda theuluoedd gobeithio, a chael gorffwys. Beth fyddwch chi'n ei wneud, Brif Weinidog, i wneud yn siŵr ein bod yn talu teyrnged i'r bobl hynny, ac a wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged yma nawr i'r bobl hynny a fydd yn ein cadw ni'n ddiogel dros gyfnod y Nadolig? Sut y byddwn ni'n monitro'r straen ar weithwyr gwasanaethau brys? Gallai hefyd olygu brechiadau ffluiw yn y pen draw; sut allwn ni ddarparu ar eu cyfer nhw er mwyn sicrhau eu bod yn ein cadw ni'n ddiogel?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I am sure that all Members would wish to join the Member in paying tribute to those who will be working over the Christmas period. It is never easy, of course, particularly for those with families. We know that the health service, the fire service, mountain rescue, the ambulance service and many other services would not be able to function without their dedication. Of course, we always monitor the local health boards' winter plans and the effect of winter on those plans. We will, of course, continue to monitor the effect on all emergency services and beyond in order to make sure that, if there are any lessons that can be learned in any one winter, they are applied in winters to come.

Rwy'n siŵr y byddai pob Aelod yn dymuno ymuno â'r Aelod i dalu teyrnged i'r rhai a fydd yn gweithio dros gyfnod y Nadolig. Nid yw byth yn hawdd, wrth gwrs, yn enwedig i'r rhai â theuluoedd. Rydym ni'n gwybod na fyddai'r gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth tân, y gwasanaeth achub mynydd, y gwasanaeth ambiwlans a llawer o wasanaethau eraill yn gallu gweithredu heb eu hymroddiad hwy. Wrth gwrs, rydym ni bob amser yn monitro cynlluniau gaeaf y byrddau iechyd lleol ac effaith y gaeaf ar y cynlluniau hynny. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r effaith ar yr holl wasanaethau brys a thu hwnt, er mwyn gwneud yn siŵr, os oes unrhyw wersi y gellir eu dysgu yn ystod unrhyw un gaeaf, eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ystod gaeafau i ddod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ann Jones makes an absolutely excellent point, but of course winter pressures apply throughout the whole of the winter season. I worry that, in Carmarthen West and South Pembrokeshire, we are approaching a perfect storm throughout this winter, because we have an accident and emergency department at Withybush General Hospital where we no longer offer paediatric care 24/7, we have an A&E at Withybush that is already under immense pressure, so we will have more and more ambulances going from Withybush up to Glangwili hospital, and Glangwili itself will be under more pressure and the staff will be under immense pressure, both in the ambulance service and at both hospitals. I wonder what the Welsh Government will be able to do to mitigate that, given that we are having such a hard time making ambulance response times in Carmarthen West and South Pembrokeshire. It was 84 minutes that one of my constituents had to wait for an ambulance not very long ago. As we know, in the winter, more people get more ill more quickly and children have more accidents. I think, as I said earlier, there is a perfect storm brewing and I would like your assurance, First Minister, that you are going to keep tabs on this, because of the pressure on staff, the pressure on services and the pressure that it puts on the people who use these services.

Mae Ann Jones yn gwneud pwynt hollol ardderchog, ond mae pwysau'r gaeaf yn berthnasol trwy gydol tymor y gaeaf, wrth gwrs. Rwy'n poeni, yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, ein bod yn nesáu at storm berffaith drwy gydol y gaeaf hwn, gan fod gennym adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelig lle nad ydym yn cynnig gofal pediatriig 24/7 mwyach, mae gennym adran damweiniau ac achosion brys yn Llwynhelig sydd dan bwysau aruthrol eisoes, felly bydd gennym fwy a mwy o ambiwlansys yn mynd o Llwynhelig i fyny i ysbyty Glangwili, a bydd Glangwili ei hun dan fwy o bwysau a bydd yr aelodau staff dan bwysau aruthrol, yn y gwasanaeth ambiwlans ac yn y ddau ysbyty. Tybed beth fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ei wneud i liniaru hynny, o gofio ein bod ni'n cael amser mor anodd yn bodloni amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Bu'n rhaid i un o'm hetholwyr aros 84 o funudau am ambiwlans yn gymharol ddiweddar. Fel y gwyddom, yn y gaeaf, mae mwy o bobl yn mynd yn salach yn gyflymach ac mae plant yn cael mwy o ddamweiniau. Rwy'n credu, fel y dywedais yn gynharach, bod storm berffaith ar ei ffordd a hoffwn gael sicrwydd gennych, Brif Weinidog, eich bod yn mynd i gadw golwg ar hyn, oherwydd y pwysau ar aelodau staff, y pwysau ar wasanaethau a'r pwysau y mae'n ei roi ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We know that people's fears over Withybush A&E were allayed last week. The A&E will be there, of course, and will be there through the winter at the level that people would expect. As with any hospital, we would expect people to go to the hospital that has the expertise to treat them, in the same way that, if somebody receives a head injury in Bridgend, they would end up in the University Hospital of Wales, and, if somebody has been affected by burns in Bristol, they end up in Morriston. So, we would expect people to be taken to the right hospital for specialist treatments, that much is true, but of course we would expect the A&E in Withybush to be able to cope with winter pressures, as with Glangwili and Bronglais, and Hywel Dda local health board, of course, will have put plans in place in order to deal with that.

Rydym ni'n gwybod bod ofnau pobl am adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg wedi cael eu lleddfu yr wythnos diwethaf. Bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yno, wrth gwrs, a bydd yno drwy gydol y gaeaf ar y lefel y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Fel gydag unrhyw ysbyty, byddem yn disgwyl i bobl fynd i ysbyty sydd â'r arbenigedd i'w trin, yn yr un ffordd â phe byddai rhywun yn cael anaf i'r pen ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y byddai'n mynd i Ysbyty Prifysgol Cymru, ac, os bydd rhywun wedi ei effeithio gan losgiadau ym Mryste, y bydd yn mynd i Dreforys. Felly, byddem yn disgwyl i bobl gael eu hebrwng i'r ysbyty cywir ar gyfer triniaethau arbenigol, mae cymaint â hynny'n wir, ond byddem yn disgwyl wrth gwrs i'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Llwynhelyg allu ymdopi â phwysau'r gaeaf, fel, wrth gwrs, yw'r sefyllfa gyda Glangwili a Bronglais, a bwrdd iechyd Hywel Dda, a fydd wedi rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pan ydym yn sôn am weithwyr yn y gwasanaeth brys, mae nifer ohonom, rwy'n siŵr, yn rhannu'r rhwystredigaeth bod parafeddygon yn aml iawn yn sownd mewn ambiwlansys tu allan i unedau damweiniau. Mae adroddiadau wedi bod am y sefyllfa yn Wrecsam Maelor yn yr wythnos diwethaf. Rydym i gyd yn croesawu'r ffaith bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd i ddarparu 30 o welyau ychwanegol yn y Maelor i ddelio â rhai o'r pwysau tymhorol, ond onid yw hynny, mewn gwirionedd, yn gyfaddefiad ei fod yn gamgymeriad ein bod wedi colli cymaint o welyau yn ein hysbytai cymunedol ni yn yr ardal honno dros y flwyddyn ddiwethaf?

When we talk about workers in the emergency services, many of us, I am sure, share the frustration that paramedics are very often stuck in ambulances outside A&E departments. There have been reports about the situation in Wrexham Maelor Hospital in the last week. We all welcome the fact that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is to provide an additional 30 beds in Maelor to deal with some of the seasonal pressures, but is that not an admission, truth be told, that it was a mistake to have lost so many beds in our community hospitals in that area over the last year?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'n gymhleth, yr hyn sy'n digwydd mewn adrannau damweiniau ac argyfwng. Y peth cyntaf i'w ystyried yw ei bod bron yn amhosibl gwybod faint o bobl sy'n mynd i ddod i mewn. Rwyf wedi gweld yr adran yn fy ysbyty lleol yn orlawn ar nos Sadwrn, ac rwyf wedi gweld neb yno ar nos Sadwrn. Mae'n anodd gwybod pwy sy'n mynd i fod yno. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd wedyn i drio sicrhau bod y gwasanaeth yno fel y byddai pobl yn erfyn.

It is complicated, what is happening in A&E departments. The first thing is that it is almost impossible to know how many cases are going to come in. I have seen the department in my local hospital full on a Saturday night, and I have seen it empty on a Saturday night. It is difficult to predict how many people are going to be there, so it is difficult then to ensure that the services that people would expect are available.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn ail, mae'n dal i fod yn wir bod llawer o bobl yn mynd i adran damweiniau pan nad oes eisiau; rwyf wedi siarad gyda doctoriaid yn lleol sydd wedi dweud hynny, a bod opsiynau eraill iddyn nhw. Yr hyn sy'n bwysig yw bod byrddau iechyd lleol yn gallu sicrhau bod pobl yn gallu mynd drwy'r adran cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod yr ambiwlansys ar gael i fynd i rywle arall wedi hynny.

The second issue is that it remains true that people still go to A&E departments when they do not need to; I have spoken with doctors locally who have said that to me, and that there are other options available. What is important is that local health boards can ensure that people can go through the department as quickly as possible to ensure that the ambulances are available to go to other locations.

14:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Llywydd. There have been no changes to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch i chi, Lywydd. Ni fu unrhyw newidiadau i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:21

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Leader of the house, could I request a statement from the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the roadworks around the Cardiff West junction 33 exit and entry on to the M4 and Cardiff link road? I appreciate that this work, when it is completed, will have huge benefits for that particular junction, but, on the weekend, the second weekend out from Christmas, the roundabout was closed because of works going on there. The traffic was piled back two lanes solid to Leckwith, and then coming off the M4 from the west it stretched back as far as Miskin and on the eastern stretch it stretched back about two to two and a half miles. This is a critical time of the year for retailers and people with attractions to be able to get people into the southern parts of Cardiff and the western side of Cardiff, but importantly into Barry and the Vale of Glamorgan shopping experience as well, because, obviously, that is the exit route that most people would take if they want to access these attractions and shopping venues. I would suggest that there would have been a far better time to have undertaken this closure. So, could I have a statement from the Minister for transport as to how the department manages road closures, in particular on important junctions, and, obviously, relates the closure back to commuters so that this congestion can be avoided?

Arweinydd y tŷ, a gaf i ofyn am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y gwaith ffordd o amgylch ffordd ymadael ac ymuno cyffordd 33 Gorllewin Caerdydd â'r M4 a ffordd gyswllt Caerdydd? Rwy'n gwerthfawrogi y bydd y gwaith hwn, ar ôl ei gwblhau, yn cynnig manteision enfawr ar gyfer y gyffordd benodol honno, ond, ar y penwythnos, yr ail benwythnos cyn y Nadolig, roedd y gylchfan ar gau oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud yno. Roedd y traffig yn pentyrru yn ôl mewn dwy lôn ddi-dor cyn belled â Lecwydd, ac wrth ddod oddi ar yr M4 o'r gorllewin roedd yn ymestyn yn ôl mor bell â Meisgyn ac ar y darn dwyreiniol roedd yn ymestyn yn ôl tua dwy filltir i ddwy filltir a hanner. Mae hon yn adeg hollbwysig o'r flwyddyn i fanwerthwyr a phobl ag atyniadau i allu cael pobl i mewn i rannau deheuol Caerdydd ac ochr orllewinol Caerdydd, ond, yn bwysig hefyd, i mewn i brofiad siopa'r Barri a Bro Morgannwg hefyd, oherwydd, yn amlwg, dyna'r llwybr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei ddilyn pe byddent eisiau cael mynediad at yr atyniadau a'r manau siopa hyn. Byddwn yn awgrymu bod amser llawer gwell y gellid bod wedi manteisio arno i gau'r ffordd hon. Felly, a gaf fi ddatganiad gan y Gweinidog trafniadaeth ar sut mae'r adran yn rheoli'r broses o gau ffyrdd, yn enwedig ar gyffyrdd pwysig, ac, yn amlwg, yn hysbysu'r cymudwyr am yr achosion o gau fel y gellir osgoi'r tagfeydd hyn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:22

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I know, and you recognise, Andrew R.T. Davies, that the benefits will be enormous when this very important project has been completed. I think, if you would like to write to the Minister, she will respond accordingly.

Rwy'n gwybod, ac rydych chi'n cydnabod, Andrew R.T. Davies, y bydd y manteision yn enfawr pan fydd y prosiect pwysig iawn hwn wedi ei gwblhau. Rwy'n credu, os hoffech chi ysgrifennu at y Gweinidog, y bydd yn ymateb yn unol â hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:22

Eluned Parrott [Bywgraffiad Biography](#)

May I request a statement from the Minister for transport regarding the written statement that she was kind enough to publish last week? Clearly, the aspiration for a not-for-dividend company to run rail services in Wales is a very complex and very detailed matter, and probably not something, I think, that can be outlined in full in the course of a single written statement. I am sure that there will be further details in due course, but I would welcome the opportunity for Members of this Chamber to question the Minister and potentially in future to debate it as well.

A gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog trafniadaeth ar y datganiad ysgrifenedig yr oedd hi'n ddigon caredig i'w gyhoeddi yr wythnos diwethaf? Yn amlwg, mae'r dyhead i gael cwmni di-ddifidend i redeg gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn fater cymhleth iawn a manwl iawn, ac mae'n debyg nad yw'n rhywbeth, yn fy marn i, y gellir ei amlinellu'n llawn yn ystod un datganiad ysgrifenedig. Rwy'n siŵr y bydd mwy o fanylion ar gael maes o law, ond byddwn yn croesawu'r cyfle i Aelodau'r Siambr hon gael holi'r Gweinidog ac o bosibl, trafod hyn yn y dyfodol hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Of course, there will be opportunities. It was very important that the Minister did outline this very important development in terms of transport policy, which has been widely welcomed, not only in terms of the not-for-profit mechanism in terms of transport infrastructure but also in highlighting the potential of that, not just in terms of roads but also rail infrastructure.

Bydd cyfleoedd ar gael, wrth gwrs. Roedd yn bwysig iawn bod y Gweinidog yn amlinellu'r datblygiad pwysig iawn hwn o ran polisi trafniadaeth, sydd wedi cael croeso eang, nid yn unig o ran y dull dielw o ran seilwaith trafniadaeth, ond hefyd o ran amlygu potensial hynny, nid yn unig o ran ffyrdd, ond seilwaith rheilffyrdd hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to request a statement by the Minister for Health and Social Services on the success of the hub-and-spoke model of renal services covering Hywel Dda and Abertawe Bro Morgannwg University local health boards, where Morriston Hospital acts as a hub.

Hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar lwyddiant y model prif ganolfan a lloerennau gwasanaethau arenol sy'n gwasanaethu byrddau iechyd lleol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe Bro Morgannwg, lle mai Ysbyty Treforys yw'r brif ganolfan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for that question. I understand the Minister for health did visit Morriston Hospital renal services earlier this year, which provides services, as you say, Mike Hedges, to patients in Hywel Dda. What is clear is that they are providing renal services to patients across west Wales and pushing the boundaries of service delivery through patient-centred, professionally integrated and prudent practices.

Diolchaf i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Rwy'n deall bod y Gweinidog Iechyd wedi ymweld â gwasanaethau arenol Ysbyty Treforys yn gynharach eleni, sy'n darparu gwasanaethau, fel y dywedwch, Mike Hedges, i gleifion yn Hywel Dda. Yr hyn sy'n amlwg yw eu bod yn darparu gwasanaethau arenol i gleifion ledled gorllewin Cymru ac yn gwrthio ffiniau'r ddarpariaeth o wasanaethau trwy arferion sy'n canolbwyntio ar y claf, wedi'u hintegreiddio'n broffesiynol ac sy'n ochelgar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my colleague Angela Burns has already highlighted in questions to the First Minister the problems affecting our ambulance service in Wales in light of the recent figures. The figures for ambulances and the missed eight-minute target in my constituency of Monmouthshire were particularly bad. I think, in the light of those figures, it is no longer enough to simply leave it to the ambulance service. Would you please arrange for a statement as soon as possible in this Chamber as to what guidance you will give to solve that problem? Secondly, it was mentioned again during First Minister's questions that the Labour Party in Westminster is planning, if it wins the election, to introduce a cancer therapy fund. I think that this is an opportune moment for your Government to revisit the idea of having a cancer treatment fund, or whatever you might want to call it, here in Wales. Patients are waiting for it; Assembly Members are calling for it. Can we please now have plans brought forward as soon as possible from your Government to make sure that cancer sufferers in Wales get the treatment they deserve?

Weinidog, mae fy nghydweithiwr Angela Burns eisoes wedi tynnu sylw yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog at y problemau sy'n effeithio ar ein gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yng ngoleuni'r ffigurau diweddar. Roedd y ffigurau ar gyfer ambiwlansys a'r targed wyth munud a fethwyd yn fy etholaeth i yn Sir Fynwy yn arbennig o wael. Rwy'n credu, yng ngoleuni'r ffigurau hynny, nad yw'n ddigon mwyach gadael y mater i'r gwasanaeth ambiwlans. A wnewch chi drefnu datganiad cyn gynted â phosibl yn y Siambr hon os gwelwch yn dda o ran pa arweiniad y byddwch chi'n ei roi i ddatrys y broblem honno? Yn ail, soniwyd eto yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog fod y Blaid Lafur yn San Steffan, os bydd yn ennill yr etholiad, yn bwriadu cyflwyno cronfa therapi cancer. Rwy'n credu bod hwn yn gyfle da i'ch Llywodraeth ailystyried y syniad o gael cronfa triniaeth cancer, neu beth bynnag y gallech chi fod eisau ei alw, yma yng Nghymru. Mae cleifion yn aros amdani; mae Aelodau'r Cynulliad yn galw amdani. A allwn ni weld cynlluniau'n cael eu gwneud gan eich Llywodraeth cyn gynted â phosibl nawr os gwelwch yn dda i wneud yn siŵr bod dioddefwyr cancer yng Nghymru yn cael y driniaeth y maen nhw'n ei haeddu?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:25

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the First Minister did respond very clearly to the question raised by Angela Burns regarding ambulance response times, and, of course, those latest response time figures are disappointing. They are not where we want the ambulance service, health boards or the public to be. It is very clear, in terms of the ambulance service and ensuring a swift response to life-threatening calls across Wales, that health boards must ensure that patients are taken off ambulances quickly, particularly when they arrive at hospital, so that they can be released. Of course, that is the key in terms of joint working. However, it is clear that this is something that the health boards are responsible for, working with the Welsh Ambulance Service NHS Trust.

Rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi ymateb yn eglur iawn i'r cwestiwn a godwyd gan Angela Burns ynghylch amseroedd ymateb ambiwlansys, ac, wrth gwrs, mae'r ffigurau amser ymateb diweddaraf hynny'n siomedig. Nid dyna'r sefyllfa yr ydym ni'n dymuno i'r gwasanaeth ambiwlans, y byrddau iechyd na'r cyhoedd fod ynddi. Mae'n eglur iawn, o ran y gwasanaeth ambiwlans a sicrhau ymateb cyflym i alwadau sy'n bygwth bywyd ledled Cymru, bod yn rhaid i fyrdau iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu symud oddi ar ambiwlansys yn gyflym, yn enwedig pan eu bod yn cyrraedd yr ysbyty, fel y gellir eu rhyddhau. Wrth gwrs, dyna sy'n allweddol o ran gweithio ar y cyd. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai rhywbeth y mae'r byrddau iechyd yn gyfrifol amdano yw hyn, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlsans Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the cancer treatment fund, again, the First Minister answered this very adequately in his answers to questions, and our position on the matter is quite clear. We are committed as the Welsh Labour Government to providing the best deal for all patients who require any kind of specialist treatment and medicines. That is why we are improving—and I think that this is important; we are improving—our individual patient funding request process.

O ran y gronfa triniaeth canser, unwaith eto, atebodd y Prif Weinidog hyn yn ddigonol iawn yn ei atebion i gwestiynau, ac mae ein safbwynt ar y mater yn gwbl eglur. Rydym ni wedi ymrwmo fel Llywodraeth Lafur Cymru i sicrhau'r fargen orau i bob claf sydd angen unrhyw fath o driniaeth a meddyginiaethau arbenigol. Dyna pam rydym ni'n gwella—ac rwy'n credu bod hyn yn bwysig; rydym ni'n gwella—ein proses ceisiadau am gyllid gan gleifion unigol.

14:26 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in October, I enquired of the Minister for Economy, Science and Transport what evaluation she had made of the Federation of Small Businesses' report, 'Better Regulation for Wales'. The Minister kindly replied that the Government was going through the report in some detail—not only her department but others for which there would be implications. Could we ask for a statement on that in the early new year? As the Minister will be well aware, Christmas is a very busy time for most retail businesses and anything the Government can do to support Welsh businesses at this time would be greatly encouraging.

Weinidog, ym mis Hydref, gofynnais i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth pa werthusiad yr oedd wedi ei wneud o adroddiad 'Better Regulation for Wales' y Ffederasiwn Busnesau Bach. Atebodd y Gweinidog yn garedig bod y Llywodraeth yn mynd drwy'r adroddiad yn fanwl—nid yn unig yn ei hadran hi ond eraill lle byddai goblygiadau. A gawn ni ofyn am ddatganiad ar hynny yn gynnar yn y flwyddyn newydd? Fel y bydd y Gweinidog yn gwbl ymwybodol, mae'r Nadolig yn adeg prysur iawn i'r rhan fwyaf o fusnesau manwerthu a byddai unrhyw beth y gall y Llywodraeth ei wneud i gefnogi busnesau Cymru ar yr adeg hon yn galonogol dros ben.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister will provide an updated statement on developments in the new year.

Bydd y Gweinidog yn gwneud y datganiad diweddaraf ar ddatblygiadau yn y flwyddyn newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements, the first on farm incomes. Given the publication three weeks ago of the Welsh farm income booklet for 2013-14, which showed that the average farmer has made a profit of just £3.81 per beef animal, farmers in my village have asked how farmers can afford to lose the 15% common agricultural policy pillar transfer imposed by the Welsh Government, which will mean that farmers have lost altogether nearly a quarter of their subsidies in just one year. It has been emphasised that beef prices are volatile and that prices have gone up since, but then they went down again. Margins fell and losses at one stage were up to £300 per head. Only yesterday, the National Farmers Union Clwyd told me that lambskin prices are also down and that someone with 1,000 lambs would be losing £3,000 in the current market. It emphasised that the impact of this is that farmers stop spending. They stop spending on local suppliers at a time when their sales are usually going up, and that has an impact on selling into the local economy more broadly. For them, it is a perfect storm, and I do call for a statement accordingly.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf ar incwm ffermydd. O gofio cyhoeddiad llyfryn incwm ffermydd yng Nghymru ar gyfer 2013-14 dair wythnos yn ôl, a ddangosodd bod y ffermwr cyfartalog wedi gwneud elw o ddim ond £3.81 fesul pob anifail cig eidion, mae ffermwyr yn fy mhentref i wedi gofyn sut all ffermwyr fforddio i golli trosglwyddiad colofn 15% y polisi amaethyddol cyffredin a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn golygu bod ffermwyr wedi colli cyfanswm o bron i chwarter eu cymorthdaliadau mewn dim ond blwyddyn. Pwysleisiwyd bod prisiau cig eidion yn gyfnewidiol a bod prisiau wedi codi ers hynny, ond aethant i lawr eto wedyn. Gostyngodd elw ac roedd colledion i fyny i £300 ar un adeg. Ddoe ddiwethaf, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Clwyd wrthyf fod prisiau croen oen hefyd wedi gostwng ac y byddai rhywun sydd â 1,000 o ŵyn yn colli £3,000 yn y farchnad gyfredol. Pwysleisiodd mai effaith hyn yw bod ffermwyr yn rhoi'r gorau i wario. Maen nhw'n rhoi'r gorau i wario ar gyflenwyr lleol ar adeg pan fydd eu gwerthiannau yn codi fel rheol, ac mae hynny'n cael effaith ar werthu i'r economi leol yn fwy cyffredinol. Iddyn nhw, mae'n storm berffaith, ac rwy'n galw am ddatganiad yn unol â hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

My second request is for a statement on water regulations. The Welsh Government is enacting the regulations of the Flood and Water Management Act 2010, making landlords jointly liable for their tenants' water bills unless notified. This clearly is something that landlords agree they should be doing as part of good housekeeping. However, the last-minute changes proposed in the regulations are different from those proposed originally and are intended to start from 1 January, according to the Welsh Government. Landlords are calling for a delay until 1 April. They were promised a communications strategy, which has not yet arrived. The water portal to register is not yet up and functioning, and everything is being left to the last minute if the Welsh Government is intending for this to work from 1 January. It is far more sensible, they say, to defer to 1 April, which would postdate the normal non-metered supply billings sent out by Welsh Water, in which it can include notification generally to landlords. They also highlight one further concern, which is the absence from the regulations of any provision to get out of jail if the landlord misses the 21-day notification period, which is contrary to what they were led to believe would happen from the original consultation and earlier discussions with the Welsh Government.

Mae fy ail gais am ddatganiad ar reoliadau dŵr. Mae Llywodraeth Cymru yn deddfu rheoliadau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gan wneud landlordiaid yn atebol ar y cyd am filiau dŵr eu tenantiaid oni hysbysir. Mae hyn yn amlwg yn rhywbeth y mae landlordiaid yn cytuno y dylent fod yn ei wneud fel rhan o waith cadw tŷ da. Fodd bynnag, mae'r newidiadau munud olaf a gynigiwyd i'r rheoliadau yn wahanol i'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol ac y bwriedir iddynt gychwyn o 1 Ionawr, yn ôl Llywodraeth Cymru. Mae landlordiaid yn galw am oedi tan 1 Ebrill. Addawyd strategaeth gyfathrebu iddynt, ac nid yw wedi cyrraedd eto. Nid yw'r porth dŵr i gofrestru ar gael ac yn weithredol hyd yn hyn, ac mae popeth yn cael ei adael tan y funud olaf os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i hyn weithio o 1 Ionawr. Mae'n llawer mwy synhwyrol, maen nhw'n dweud, i ohirio tan 1 Ebrill, a fyddai'n ôl-ddyddio'r biliau cyflenwadau nad ydynt ar fesuryddion arferol a anfonir gan Ddŵr Cymru, lle y gall gynnwys hysbysiadau'n gyffredinol i landlordiaid. Maen nhw hefyd yn tynnu sylw at un pryder arall, sef absenoldeb o'r rheoliadau unrhyw ddarpariaeth ail gyfle os bydd y landlord yn methu'r cyfnod hysbysu o 21 diwrnod, sy'n groes i'r hyn y rhoddwyd yr argraff iddynt a fyddai'n digwydd o'r ymgynghoriad gwreiddiol a thrafodaethau cynharach â Llywodraeth Cymru.

14:29

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood for those questions. Of course, again, as the First Minister responded during his questions, we are working as a Welsh Government to make farming sustainable, and it is important that we look to the opportunities with the new rural development programme and, also, to the very important report produced recently by Gareth Williams on Farming Connect, which the Deputy Minister for Farming and Food has accepted in terms of all of the recommendations.

On the point about changes to water charges arrangements, that is for consultation and clear scrutiny in terms of the regulations.

Diolchaf i Mark Isherwood am y cwestiynau yna. Wrth gwrs, unwaith eto, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ystod ei gwestiynau, rydym ni'n gweithio fel Llywodraeth Cymru i wneud ffermio'n gynaliadwy, ac mae'n bwysig ein bod yn ystyried y cyfleoedd gyda'r rhaglen datblygu gwledig newydd a, hefyd, yr adroddiad pwysig iawn a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan Gareth Williams ar Cyswllt Ffermio, y mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi ei dderbyn o safbwynt yr holl argymhellion.

O ran y pwynt ynglŷn â newidiadau i drefniadau taliadau dŵr, mae hwnnw'n fater ar gyfer ymgynghori a chraffu eglur o ran y rheoliadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:30

Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Statement: The Welsh Government's Response to the Report of the Expert Review of Libraries

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Presiding Officer. Public libraries play a vital role as community hubs at the heart of our communities and make a real difference to people's lives by improving literacy, extending digital skills, providing access to knowledge, tackling poverty, and supporting health and wellbeing—important priorities for us all. According to the latest Chartered Institute of Public Finance and Accountancy statistics, over 14.6 million visits were made to our public libraries in 2012-13, and over 1.9 million hours of public computer and internet use was recorded. They also show that we invested more per 1,000 resident population in our public libraries than England in 2013-14. English libraries look with envy on our approach as a Government, which has established a national strategy underpinned by robust quality standards.

I am pleased to have this opportunity to provide the Government's response to the recent report of the expert review of public library services in Wales commissioned by my predecessor. My response will also touch on the recommendations of the inquiry into public libraries published by the Communities, Equality and Local Government Committee. My response to its recommendations is on the committee's website. Both reports suggest that we are at an important crossroads in the delivery of public library services. An increasing fragmentation in the approach to the management and resourcing of libraries across local authorities in Wales demonstrates that this valuable statutory service is in need of detailed review to avoid wholesale closures and reductions in service quality. The expert panel's recommendations are clear and persuasive in being grounded on an evidence-based assessment of the requirements, the current position and the need for strategic change. I would like to thank Claire Creaser as chair and the panel members for their valuable work. I fully support the recommendations of this report and I am pleased that we are already seeing more comprehensive consultation documents being issued by local authorities when proposing changes to library provision.

The recommendations identify tasks for my officials to take forward in partnership with the library sector and with relevant stakeholders. The allocation for libraries in the Welsh Government's budget for 2015-16 is £800,000 in revenue and £1 million in capital. I intend to focus available funding on activities that develop a transformational agenda to ensure that libraries remain at the heart of local community life. We need to establish community hubs where co-located services provide access to vital information services, supported by a professional infrastructure. Both the recommendations of the expert panel and the committee highlight the need for greater clarity around what constitutes a comprehensive and efficient public library service under the Public Libraries and Museums Act 1964 and the legal status of the Welsh public library standards.

Diolch, Lywydd. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol fel canolfannau cymunedol wrth wraidd ein cymunedau ac maent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl drwy wella llythrennedd, gan ymestyn sgiliau digidol, darparu mynediad at wybodaeth, mynd i'r afael â thlodi, a chefnogi iechyd a lles—blaenoriaethau pwysig i bob un ohonom. Yn ôl ystadegau diweddaraf Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, bu dros 14.6 miliwn o ymweliadau â'n llyfrgelloedd cyhoeddus yn 2012-13, a chofnodwyd dros 1.9 miliwn o oriau o ddefnydd o'r cyfrifiaduron cyhoeddus a'r rhyngwyd. Maent hefyd yn dangos ein bod wedi buddsoddi mwy fesul 1,000 o drigolion yn ein llyfrgelloedd cyhoeddus na Lloegr yn 2013-14. Mae llyfrgelloedd yn Lloegr yn edrych gydag eiddgedd ar ein hymagwedd fel Llywodraeth, sydd wedi sefydlu strategaeth genedlaethol yn seiliedig ar safonau ansawdd cadarn.

Rwyf yn falch o gael y cyfle hwn i roi ymateb y Llywodraeth i adroddiad diweddar yr adolygiad arbenigol o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru a gomisïynwyd gan fy rhagflaenydd. Bydd fy ymateb hefyd yn crybwyll argymhellion yr ymchwiliad i lyfrgelloedd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Mae fy ymateb i'w argymhellion ar wefan y pwyllgor. Mae'r ddau adroddiad yn awgrymu ein bod ar groesffordd bwysig o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r darnio cynyddol o'r dull o reoli a darparu adnoddau i lyfrgelloedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn dangos bod angen adolygiad manwl ar y gwasanaeth statudol gwerthfawr hwn er mwyn osgoi cau ar raddfa fawr a gostyngiadau o ran ansawdd y gwasanaeth. Mae argymhellion y panel arbenigol yn glir ac yn ddarbwyllol gan eu bod ar sail asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r gofynion, y sefyllfa bresennol a'r angen am newid strategol. Hoffwn ddiolch i Claire Creaser y cadeirydd ac aelodau'r panel am eu gwaith gwerthfawr. Yr wyf yn llwyr gefnogi argymhellion yr adroddiad hwn ac rwy'n falch ein bod eisoes yn gweld dogfennau ymgynghori mwy cynhwysfawr yn cael eu cyhoeddi gan awdurdodau lleol wrth iddynt gynnig newidiadau i'r ddarpariaeth llyfrgell.

Mae'r argymhellion yn nodi tasgau ar gyfer fy swyddogion i fwrw ymlaen â nhw mewn partneriaeth â'r sector llyfrgelloedd a chyda rhanddeiliaid perthnasol. Mae'r dyraniad ar gyfer llyfrgelloedd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn £800,000 mewn refeniw ac yn £1 miliwn mewn cyfalaf. Yr wyf yn bwriadu canolbwyntio arian sydd ar gael ar weithgareddau sy'n datblygu agenda gweddnewid i sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i fod wrth wraidd bywyd cymunedau lleol. Mae angen i ni sefydlu canolfannau cymunedol lle mae gwasanaethau sydd wedi'u cydleo'i yn darparu gwasanaethau gwybodaeth hanfodol, gyda chefnogaeth seilwaith proffesiynol. Mae argymhellion y panel arbenigol a'r pwyllgor yn tynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder ynghylch beth yw gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus cynhwysfawr ac effeithlon o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 a statws cyfreithiol safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

The expert panel makes sensible proposals for further research to clarify the role of volunteers in maintaining our smaller libraries. Community participation has an important part to play in assisting service delivery, but there are many different models of community-managed libraries. My officials are preparing an evidence-based report that I will use to consider whether community-managed libraries can be considered as part of the statutory service. I intend to respond by April 2015.

One of the key recommendations of both reports is the need for greater collaboration between libraries and other public services to help maintain and, in some cases, develop services. I am pleased that Wales is at the forefront of delivering collaborative library services. The community learning libraries capital grant programme has enabled the transformation of library buildings across Wales. The Welsh Government has allocated £13 million to modernise 98 public libraries since 2007-08. The co-location of services to create a vibrant community hub has been central to the programme. The Welsh Government's budget for 2015-16 includes a further £1 million of capital to modernise libraries, to deliver sustainable co-located community services.

Last week, I visited the new library facility that is part of the Ely and Caerau community hub. The hub also includes housing information services and the local Communities First office. The meeting and interview rooms and the ICT training suites are used by a range of partners, including Communities 2.0, the citizens advice bureau and the credit union. This development exemplifies the way that we need local libraries to innovate and transform into sustainable services, sharing costs with other partners.

At the regional level, I want to build on the success of existing collaboration with higher and further education and health information providers. Sharing professional expertise and resources regionally will help to sustain high-quality services in difficult financial contexts. At the national level, there is a clear rationale in developing an innovative digital service. I intend to develop a national digital library for Wales, available to all library users, centrally procuring information services and ensuring value for money, co-ordinated by the National Library of Wales.

Ensuring that children benefit from library services is central to our library strategy. Research demonstrates that reading for pleasure is an important factor in increasing literacy levels. Since its inception, 16 local authorities have joined the Every Child a Library Member initiative, which aims to automatically enrol all year 4 pupils across Wales by the end of 2015-16. This Welsh initiative is the first national scheme of its type in the UK.

Mae'r panel arbenigol yn gwneud cynigion synhwyrol ar gyfer ymchwil pellach i egluro swyddogaeth gwirfoddolwyr wrth gynnal ein llyfrgelloedd llai. Mae gan gyfranogiad cymunedol ran bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau, ond ceir llawer o wahanol fodelau o lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Mae fy swyddogion yn paratoi adroddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth y byddaf yn ei ddefnyddio i ystyried a all llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu hystyried fel rhan o'r gwasanaeth statudol. Rwyf yn bwriadu ymateb erbyn mis Ebrill 2015.

Un o brif argymhellion y ddau adroddiad yw'r angen am fwy o gydweithio rhwng llyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn helpu i gynnal a, mewn rhai achosion, datblygu gwasanaethau. Rwy'n falch bod Cymru ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau llyfrgell ar y cyd. Mae rhaglen grant cyfalaf y llyfrgelloedd dysgu cymunedol wedi galluogi gweddnewid adeiladau llyfrgelloedd ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £13 miliwn ar gyfer moderneiddio 98 o lyfrgelloedd cyhoeddus ers 2007-08. Mae cyd-leoli gwasanaethau i greu canolfan gymunedol fywiog wedi bod yn ganolog i'r rhaglen. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cynnwys gwerth £1 miliwn arall o gyfalaf i foderneiddio llyfrgelloedd, er mwyn darparu gwasanaethau cymunedol cynaliadwy wedi'u cydleo. i.

Yr wythnos diwethaf, ymwelais â'r cyfleuster llyfrgell newydd sy'n rhan o ganolfan cymunedol Trelái a Chaerau. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnwys gwasanaethau gwybodaeth am dai a'r swyddfa Cymunedau yn Gyntaf leol. Mae'r ystafelloedd cyfarfod a chyfweld a'r ystafelloedd hyfforddiant TGCh yn cael eu defnyddio gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Cymunedau 2.0, y ganolfan cyngor ar bopeth a'r undeb credyd. Mae'r datblygiad hwn yn enghraifft o'r ffordd y mae angen i lyfrgelloedd lleol arloesi a gweddnewid i fod yn wasanaethau cynaliadwy sy'n rhannu costau â phartneriaid eraill.

Ar y lefel rhanbarthol, rwyf eisiau adeiladu ar lwyddiant y cydweithio presennol gyda darparwyr addysg uwch ac addysg bellach a darparwyr gwybodaeth am ieuchyd. Bydd rhannu arbenigedd ac adnoddau proffesiynol yn rhanbarthol yn helpu i gynnal gwasanaethau o ansawdd uchel mewn cyd-destunau ariannol anodd. Ar lefel cenedlaethol, ceir rhesymeg clir o ran datblygu gwasanaeth digidol arloesol. Rwy'n bwriadu datblygu llyfrgell ddigidol genedlaethol i Gymru, a fydd ar gael i bob defnyddiwr llyfrgell, gan gaffael gwasanaethau gwybodaeth yn ganolog a sicrhau gwerth am arian, wedi'u cydgyssylltu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae sicrhau bod plant yn elwa ar wasanaethau llyfrgell yn ganolog i'n strategaeth llyfrgell. Mae ymchwil yn dangos bod darllen er pleser yn ffactor pwysig mewn cynyddu lefelau llythrennedd. Ers ei sefydlu, mae 16 o awdurdodau lleol wedi ymuno â'r fenter Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell, sydd â'r nod o gofrestru pob disgybl blwyddyn 4 ledled Cymru yn awtomatig erbyn diwedd 2015-16. Y fenter hon yng Nghymru yw'r cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y DU.

Now, while much work is under way, I recognise that more needs to be done to safeguard our library network and promote services to users. In accepting the recommendations of both reports, I am determined to adopt a transformational approach, working with key stakeholders to develop a new delivery framework for library services. The 'Devolution, Democracy and Delivery' White Paper, which was published in July, makes it clear that we need to start now if the people of Wales are to continue to benefit from high-quality public library services.

The expert report outlines the challenges facing all of us. It is clear that the current model of small library services will simply not survive the changes ahead. I want to start the discussion today on how we will deliver library services in Wales in the future. I have not ruled out any models for future management, and my officials are researching potential options.

To conclude, I intend to use the recommendations as the basis for a new approach for defining, managing and resourcing library services in Wales. I want to encourage the enthusiasm and energy that local communities bring to this debate, coupled with the professionalism of our librarians. As community hubs, I am convinced that libraries can continue to play an essential role in people's lives. The challenges remain, however, working together, there is a real opportunity to genuinely transform how our libraries deliver the services that people value.

Er bod llawer o waith wedi dechrau, rwyf yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ddiogelu ein rhwydwaith o lyfrgelloedd a hyrwyddo gwasanaethau i ddefnyddwyr. Wrth dderbyn argymhellion y ddau adroddiad, rwy'n benderfynol o fabwysiadu dull gweddnewidiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu fframwaith cyflenwi newydd ar gyfer gwasanaethau llyfrgell. Mae'r Papur Gwyn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflenwi', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn ei gwneud yn glir bod angen i ni ddechrau nawr os yw pobl Cymru i barhau i elwa ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o ansawdd uchel.

Mae'r adroddiad arbenigol yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu pob un ohonom. Mae'n amlwg na fydd y model presennol o wasanaethau mewn llyfrgelloedd bach yn goroesi'r newidiadau sydd i ddod. Rwyf eisiau cychwyn y drafodaeth heddiw o ran sut y byddwn yn cyflwyno gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru yn y dyfodol. Nid wyf wedi diystyru unrhyw fodelau ar gyfer rheoli yn y dyfodol, ac mae fy swyddogion yn ymchwilio i ddewisiadau posibl.

I gloi, rwyf yn bwriadu defnyddio'r argymhellion fel sail ar gyfer dull newydd o ddiffinio, rheoli a darparu adnoddau ar wasanaethau llyfrgell yng Nghymru. Rwyf eisiau annog y brwdfrydedd a'r egni y mae cymunedau lleol yn eu cyfrannu at y ddadl hon, yn ogystal â phroffesiynoldeb ein llyfrgellwyr. Fel canolfannau cymunedol, yr wyf yn argyhoeddedig y gall llyfrgelloedd barhau i chwarae rhan hanfodol ym mywydau pobl. Mae'r heriau yn parhau, ond trwy weithio gyda'n gilydd, mae cyfle gwirioneddol i weddnewid yn sylfaenol y modd y mae ein llyfrgelloedd yn darparu'r gwasanaethau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi.

14:38

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister—sorry, Deputy Minister—for your statement. I do not think that any of us will disagree with the wider point of how valuable libraries are to us as a country and, specifically, in our communities. I have listened to what you said, which I am taking on board hand in hand, if you like, with your written response to the Communities, Equality and Local Government Committee report. I am also very pleased to hear that you have not actually ruled out any models as well, because the role of the community in the future of our libraries is something that is of particular interest to me.

I see that you fully support your expert panel's recommendations. So, my first question is: will you be asking, or advising, councils to introduce a moratorium on closures, pending the implementation of recommendation 3 of the expert panel, which says that proposed changes to public library services should only be progressed following the production of costed options, and three other criteria? It is a recommendation, it has said, that should be implemented immediately. I know that there will be Members in this Chamber who are very concerned about the imminent closure of their library, so time is definitely of interest there. I am thinking in particular of Neath Port Talbot, in my region.

Diolch i chi, Weinidog—mae'n ddrwg gennyf, Ddirprwy Weinidog—am eich datganiad. Nid wyf yn credu y bydd unrhyw un ohonom yn anghytuno â'r pwynt ehangach ynglŷn â pha mor werthfawr yw llyfrgelloedd i ni fel gwlad ac, yn benodol, yn ein cymunedau. Rwyf wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedasoch, ac rwyf yn ei ystyried law yn llaw, os mynnwch chi, gyda'ch ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rwy'n falch iawn hefyd o glywed nad ydych wedi diystyru unrhyw fodelau mewn gwirionedd, gan fod rhan y gymuned yn nyfodol ein llyfrgelloedd yn rhywbeth sydd o ddiddordeb arbennig i mi.

Rwy'n gweld eich bod yn llwyr gefnogi argymhellion eich panel arbenigol. Felly, fy nghwestiwn cyntaf yw: a fyddwch chi'n gofyn i gynghorau, neu'n eu cyngori, i gyflwyno moratoriwm ar gau llyfrgelloedd, hyd nes y gweithredir argymhelliad 3 y panel arbenigol, sy'n nodi y dylai newidiadau arfaethedig i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus gael eu datblygu dim ond ar ôl cyflwyno dewisiadau wedi'u costio, a thri maen prawf arall? Mae'n argymhelliad, y mae wedi ei ddweud, y dylid ei weithredu ar unwaith. Gwn y bydd Aelodau yn y Siambr hon yn bryderus iawn bod eu llyfrgell ar fin cau, felly mae amser yn bendant yn bwysig yn hynny o beth. Rwyf yn meddwl yn arbennig am Gastell-nedd Port Talbot, yn fy rhanbarth i.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of greater collaboration, yes, of course, this should be explored. It exists to some degree already, and I note your comments on community hubs. Can you tell us a little bit about the likelihood of co-location with services that are not necessarily what we would consider to be public services—different types of libraries, for example? You talk about community-managed libraries—which I will mention again in a minute—so how would they fit in with something that we would recognise as more public sector delivered services? Your expert panel seems to be hinting at a regional consortium idea, which I suspect might be inspired by what is happening in education at the moment. Can you reassure us why you think that that proposal might be value for money in the current climate, and I am not just talking about changes to do with local council mergers? We are talking about a period of only three to five years on your own predictions—sorry, your expert panel's predictions—so why is that not work that Cymal could do? Why do you need another body to deal with that?

In terms of community-run and community-managed libraries, I am glad, as I said, that you have not ruled these out as a way forward. I know that you have the standards. Will you be expecting all community-managed libraries to adhere to those standards or will it be possible for certain groups to opt out of those? For those that opt in, who will you be expecting to monitor and quality assure the provision? Are you looking for, for example, local authorities to still provide some sort of professional support to community-managed libraries? There may, of course, be organisations that do not want that help, and, if there are community-managed libraries that do not want to be part of the system, will they then be refused access to applications for funding and support from other sources?

Finally, you place a lot of emphasis on digital inclusion. Obviously, the Office of Communications infrastructure report is due out shortly, but we are all in this Chamber aware of some gaps in provision at the moment. If your plans mean that children in particular will not be able to walk through the doors of libraries in quite the way that they could, despite the roll-out of the card, what pressure are you putting on your own Minister to make sure that these notspots and difficult-to-reach areas are dealt with as a priority now?

O ran mwy o gydweithio, ie, wrth gwrs y dylid archwilio hynny. Mae'n bodoli i ryw raddau eisoes, a nodaf eich sylwadau ar ganolfannau cymunedol. A allwch chi ddweud ychydig wrthym am y tebygolrwydd y bydd cyd-leoli gyda gwasanaethau nad ydynt o reidrwydd yr hyn y byddem yn eu hystyried yn wasanaethau cyhoeddus—gwahanol fathau o lyfrgelloedd, er enghraifft? Rydych chi'n sôn am lyfrgelloedd sy'n cael eu rheoli gan y gymuned—a byddaf yn crybwyll hynny eto mewn munud—felly sut y byddent yn cyd-fynd â rhywbeth y byddem yn ei ystyried yn fwy fel gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus? Mae'n ymddangos bod eich panel arbenigol yn awgrymu'r syniad o gonsortiw rhanbarthol, ac rwyf yn amau y gallai hynny fod wedi ei ysbrydoli gan yr hyn sy'n digwydd ym myd addysg ar hyn o bryd. A allwch chi roi sicrwydd i ni pam yr ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwnnw fod yn cynrychioli gwerth am arian yn yr hinsawdd bresennol, ac nid wyf yn sôn am newidiadau sy'n ymwneud ag uno cynghorau lleol yn unig? Rydym yn sôn am gyfnod o ddim ond tair i bum mlynedd ar sail eich rhagfynegiadau chi eich hun—mae'n ddrwg gennyf, rhagfynegiadau eich panel arbenigol—felly pam nad yw hwnnw'n waith y gallai Cymal ei wneud? Pam mae angen corff arall arnoch chi i ymdrin â hynny?

O ran llyfrgelloedd a weithredir gan y gymuned a llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, rwyf yn falch, fel y dywedais, nad ydych wedi diystyru hyn fel ffordd ymlaen. Rwyf yn gwybod bod y safonau gennych. A fyddwch chi'n disgwyl i'r holl lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gadw at y safonau hynny, neu a fydd hi'n bosibl i rai grwpiau optio allan o hynny? Ar gyfer y rhai sy'n dewis eu dilyn, pw yddech chi'n ddisgwyl y byddai'n monitro ac yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth? A ydych chi'n disgwyl, er enghraifft, i awdurdodau lleol barhau i ddarparu rhyw fath o gefnogaeth broffesiynol i lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned? Efallai, wrth gwrs, fod sefydliadau nad ydynt eisiau'r cymorth hwnnw, ac, os oes llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned nad ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r system, a fyddant wedyn yn cael eu gwrthod ar gyfer mynediad at geisiadau am gyllid a chymorth o ffynonellau eraill?

Yn olaf, rydych yn rhoi llawer o bwyslais ar gynhwysiant digidol. Yn amlwg, mae adroddiad seilwaith y Swyddfa Gyfathrebiadau am gael ei gyhoeddi yn fuan, ond mae pob un ohonom yn y Siambr hon yn ymwybodol o rai bylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd. Os yw eich cynlluniau yn golygu na fydd plant yn arbennig yn gallu cerdded trwy ddrysau llyfrgelloedd yn yr un ffordd yn union ag yr oeddent yn arfer gwneud hynny, er gwaethaf y broses o gyflwyno'r cerdyn, pa bwysau yr ydych chi'n ei roi ar eich Gweinidog eich hun i wneud yn siŵr bod y mannau gwan ac ardaloedd anodd eu cyrraedd yn cael eu trin fel blaenoriaeth nawr?

I thank Suzy Davies for her contribution. I think that she makes a number of important points and I very much welcome the support that she has given to both the expert panel review and the committee's report on the future of libraries. It is true that I am not ruling out any future models and we are investigating all options. In terms of the rush towards potential closure, I would urge all local authorities to ensure that they give all consideration to options available to them prior to closing any services. It may be inevitable that some small and unsustainable libraries will close, but it is absolutely essential that local authorities work with one another and with their communities in sharing best practice and exploring every option available. I think that it is fair to say that a number of the report's recommendations are encouraged and, indeed, aimed at ensuring that local authority library services adopt best practice in consultation and in terms of conducting the equality impact assessments. This is absolutely essential. It is also fair to say that we are now seeing a more comprehensive consultation process being undertaken by local authorities in relation to library services. The reason that this is so important, of course, is that when impact assessments, particularly equality impact assessments, are undertaken, it ensures that those who live in the most deprived areas are protected most. I would very much look to ensure that councils continue to embark on meaningful and robust consultations.

In terms of hubs and the hub model, there is, of course, potential for private sector investment. I look very keenly at what has happened in recent years in the United States of America, where there has been quite considerable private sector investment in libraries, not just in terms of cafes but other services. This has led, in parts of the United States, to very sustainable and successful models. We know that, where community hubs have been created, there have been significant increases in the number of people walking through the doors. So, for example, in Bridgend, where the library moved to the front of the leisure centre—inside the leisure centre—there was an increase in visitor numbers of around 40%, which is considerable and ensures that both the leisure centre and the library are sustainable. This is the sort of model that I would like to see replicated elsewhere. Indeed, the example that I used of Ely actually has a cafe that is run by Hafal, which helps to make not just that cafe sustainable, but also the multitude of services that are within that building sustainable. So, I very much look for opportunities not just for the public sector, but also the third sector and the private sector, in each of the hub models. This again is something that I would expect local authorities to investigate as part of the consultation.

Diolchaf i Suzy Davies am ei chyfraniad. Rwy'n credu ei bod hi'n gwneud nifer o bwyntiau pwysig ac rwyf yn croesawu'n fawr y gefnogaeth y mae hi wedi'i rhoi i adolygiad y panel o arbenigwyr ac i adroddiad y pwyllgor ar ddyfodol llyfrgelloedd. Mae'n wir na fyddaf yn diystyru unrhyw fodelau ar gyfer y dyfodol ac rydym yn ymchwilio i bob dewis. O ran y rhuthr tuag at achosion posibl o gau llyfrgelloedd, byddwn yn annog pob awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn rhoi pob ystyriaeth i'r dewisiadau sydd ar gael iddynt cyn cau unrhyw wasanaethau. Efallai y bydd yn anochel y bydd rhai llyfrgelloedd bach ac anghynaliadwy yn cau, ond mae'n gwbl hanfodol bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd a chyda'u cymunedau ar gyfer rhannu arfer gorau ac archwilio pob dewis sydd ar gael. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod nifer o argymhellion yr adroddiad yn annog ac, yn wir, â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol yn mabwysiadu arfer gorau o ran ymgynghori ac o ran cynnal yr asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae hyn yn gwbl hanfodol. Mae hefyd yn deg i ddweud ein bod yn gweld awdurdodau lleol yn defnyddio proses ymgynghori fwy cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau llyfrgell erbyn hyn. Y rheswm pam y mae hyn mor bwysig, wrth gwrs, yw pan gynhelir asesiadau o effaith, yn enwedig asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, mae hynny'n sicrhau mai'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf diffreintiedig sy'n cael eu diogelu fwyaf. Byddwn yn sicr yn ceisio gwneud yn siŵr bod cynghorau yn parhau i gynnal ymgynghoriadau ystyrlon a chadarn.

O ran canolfannau a'r model canolfannau, mae, wrth gwrs, botensial ar gyfer buddsoddi gan y sector preifat. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn yr hyn sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar yn Unol Daleithiau America, lle y gwelwyd buddsoddiad tra sylweddol gan y sector preifat mewn llyfrgelloedd, nid yn unig o ran caffis ond gwasanaethau eraill hefyd. Mae hyn wedi arwain, mewn rhannau o'r Unol Daleithiau, at fodelau cynaliadwy a llwyddiannus iawn. Rydym yn gwybod, lle mae canolfannau cymunedol wedi cael eu creu, y gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dod i mewn drwy'r drysau. Felly, er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle y symudwyd y llyfrgell i ran flaen y ganolfan hamdden—y tu mewn i'r ganolfan hamdden—bu cynnydd o oddeutu 40% yn nifer yr ymwelwyr, sy'n sylweddol ac sy'n sicrhau bod y ganolfan hamdden a'r llyfrgell yn gynaliadwy. Dyma'r math o fodel yr hoffwn ei weld yn cael ei ailadrodd mewn mannau eraill. Yn wir, mae gan Drelái, yr enghraifft a ddefnyddiais, gaffi sy'n cael ei redeg gan Hafal, ac yn ogystal â gwneud y caffi hwnnw'n gynaliadwy, mae'r llw o wasanaethau sydd o fewn yr adeilad hefyd yn gynaliadwy. Felly, rwyf yn awyddus iawn i chwilio am gyfleoedd, nid yn unig ar gyfer y sector cyhoeddus, ond hefyd y trydydd sector a'r sector preifat, ym mhob un o'r modelau ar gyfer canolfannau. Mae hyn eto yn rhywbeth y byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol ymchwilio iddo yn rhan o'r ymgynghoriad.

On community-managed libraries, where there is an asset transfer, there would also still be the standard set for local authorities to ensure that they comply with the legislation that is already in place. In terms of digital, I am very keen to look at the evaluation of Communities 2.0 and I am looking forward to seeing how that programme can lead to recommendations that may be considered in terms of delivering digital skills training in the future. We are aware, of course, that Wales is at the very forefront of delivering superfast broadband and we remain on track to be able to deliver superfast broadband to 96% of households and businesses in Wales by spring/summer 2016.

Ynglŷn â llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, pan drosglwyddir ased, byddai'r safon yn parhau i gael ei osod hefyd ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sydd eisoes wedi ei sefydlu. O ran digidol, rwy'n awyddus iawn i edrych ar werthusiad Cymunedau 2.0 ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut y gall y rhaglen arwain at argymhellion y gellir eu hystyried o ran darparu hyfforddiant sgiliau digidol yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol, wrth gwrs, bod Cymru ar flaen y gad o ran cyflwyno band eang cyflym iawn, ac rydym yn parhau i fod ar y trywydd iawn i allu cyflwyno band eang cyflym iawn i 96% o gartrefi a busnesau Cymru erbyn gwanwyn/haf 2016.

14:46

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just like Suzy Davies, I do not think that anyone here would disagree with the general conclusion of the Assembly committee and the panel, which has looked at these services and said that it is important that they should be embedded into our future, in a sustainable way, in the new strategy from 2016.

Library support is often the key to literacy. I certainly see them in that way. They play an important part in culture as well as education. As you said, 14.67 million visits were made to public libraries in Wales in 2013-14—I think that I made quite a few of those myself. I am a very regular library user and I have been since I was at primary school. These reports emphasise that, in future, libraries must meet the challenge of an ever-changing digital age, as well as provide products that traditionalists like me, who normally just go to the books, can recognise and love.

However, my local library in Holywell, which I visit regularly, does come up to the challenge in many ways already. For example, I can go to hear popular authors giving talks there; I can use computers there, which are also used for training and so on; I hold surgeries there; I can hold meetings there; I can see local arts and crafts exhibited there; and I can buy Christmas presents there. I know that there are always things going on for young people too; there are history talks and so on. So, it really does meet the challenge for all ages.

Suggestions made include co-location of services and introducing a Welsh standard. I have no problem with the latter, but I think that we must be careful when we talk about co-location and small libraries. Library services are necessary and I think that they are as necessary for people in rural areas where, perhaps, public transport is not good enough for them to go somewhere else, as they are in urban areas. So, we must be flexible to find solutions that meet different needs.

Yn union fel Suzy Davies, nid wyf yn credu y byddai unrhyw un yma yn anghytuno â chasgliad cyffredinol pwyllgor y Cynulliad a'r panel, sydd wedi edrych ar y gwasanaethau hyn ac wedi dweud ei bod yn bwysig y dylent gael eu hymgorffori yn ein dyfodol, mewn modd cynaliadwy, yn y strategaeth newydd o 2016 ymlaen.

Mae cefnogaeth llyfrgell yn aml yn allweddol i lythrennedd. Rwyf fi yn sicr yn eu gweld felly. Maent yn chwarae rhan bwysig mewn diwylliant yn ogystal ag mewn addysg. Fel y dywedaso, gwnaed 14.67 miliwn o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn 2013-14—credaf imi wneud cryn dipyn o'r rheini fy hunan. Rwyf yn ddefnyddiwr llyfrgell rheolaidd iawn ac wedi bod ers pan roeddwn yn yr ysgol gynradd. Mae'r adroddiadau hyn yn pwysleisio ei bod yn ofynnol i lyfrgelloedd yn y dyfodol, fodloni her oes ddigidol sy'n newid yn gyson, yn ogystal â darparu cynnyrch y gall pobl draddodiadol fel fi, sydd ddim ond yn mynd at y llyfrau fel arfer, ei gydnabod a'i werthfawrogi.

Er hyn, mae fy llyfrgell leol yn Nhreffynnon, yr wyf yn ymweld â hi'n rheolaidd, yn bodloni'r her mewn nifer o ffyrdd eisoes. Er enghraifft, gallaf fynd i glywed awduron poblogaidd yn rhoi sgysiau yno; gallaf ddefnyddio cyfrifiaduron yno, sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant ac yn y blaen; rwyf yn cynnal cymorthfeydd yno; gallaf gynnal cyfarfodydd yno; gallaf weld celf a chrefftau lleol sy'n cael eu harddangos yno; a gallaf brynu anrhegion Nadolig yno. Gwn fod pethau yn mynd ymlaen ar gyfer pobl ifanc drwy'r amser; ceir sgysiau hanes ac yn y blaen. Felly, mae wir yn ateb yr her ar gyfer pob oedran.

Roedd yr awgrymiadau a wnaed yn cynnwys cyd-leoli gwasanaethau a chyflwyno safon ar gyfer Cymru. Nid oes gennyf unrhyw broblem gyda'r olaf, ond yr wyf yn meddwl bod yn rhaid i ni fod yn ofalus wrth sôn am gyd-leoli a llyfrgelloedd bychain. Mae gwasanaethau llyfrgell yn angenrheidiol ac rwyf o'r farn eu bod yn angenrheidiol i bobl mewn ardaloedd gwledig, lle efallai nad yw cludiant cyhoeddus yn ddigon da iddyn nhw allu mynd i rywle arall, fel y maent mewn ardaloedd trefol. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn hyblyg wrth ddod o hyd i atebion sy'n bodloni gwahanol anghenion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am also pleased to note that you are looking as well at the services provided by volunteers, as happens in Bagillt library in my constituency, which is run by volunteers. The Welsh Government pilot scheme giving primary school children a library card has, I understand, been a great success, but the challenges faced by local authorities must be recognised, because the bottom line is that without libraries, a card is just that—a card.

I welcome the statement and many of the ideas expressed, Deputy Minister, so I urge you to continue to work with all stakeholders to ensure that, in Wales, we do everything that we can to ensure that the public library service continues to contribute so much to us all. May I also ask that the voice of the library user comes into this as well?

Rwyf yn falch o nodi eich bod hefyd yn edrych ar y gwasanaethau a ddarperir gan wirfoddolwyr, fel sy'n digwydd yn llyfrgell Bagillt yn fy etholaeth i, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr. Rwyf yn deall bod cynllun arbrofol Llywodraeth Cymru i roi cerdyn llyfrgell i blant ysgol gynradd wedi bod yn llwyddiant mawr, ond mae'n rhaid i'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol gael eu cydnabod, oherwydd yn y pen draw, heb lyfrgelloedd, nid oes pwrpas mewn cael cerdyn.

Rwyf yn croesawu'r datganiad a llawer o'r syniadau a fynegwyd, Ddirprwy Weinidog, felly yr wyf yn eich annog i barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau ein bod ni, yng Nghymru, yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yn parhau i gyfrannu cymaint i bob un ohonom. A gaf fi ofyn hefyd bod llais y defnyddiwr llyfrgell yn cael ei gynnwys yn hyn hefyd?

14:49

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Sandy Mewies for her contribution. I think that the example that she used of Holywell demonstrates clearly how community hubs should be considered learning and leisure centres, rather than just single service provisions.

Essentially, the idea of a hub is to drive up activity and, therefore, to drive up the value that the community places in it. So, in many respects, they are even more important in rural areas where the options available for individual centres, whether they are libraries or leisure centres, are few and far between.

In terms of hubs, the essential point that I would make is that we do need something of a culture change to actually adopt and embrace a learning and leisure hub as something of, if you like, a supermarket for leisure and learning activities, where you can access under one roof a plethora of activities and services. In that regard, we have, subject to this afternoon's approval, £1 million to invest in community learning libraries, where the funding will be conditional on co-location of other services. It is simply not possible in the majority of cases to imagine a scenario where a library can operate in the guise operated in the twentieth century. The twenty-first century is a very different environment. People lead different lives, and there are different services and demands every single day.

In terms of Every Child a Library Member, this has been an enormous success. It has shown not only a marked increase in library use by young people who would otherwise not use a library, but also quite an incredible increase in the number of adults—their parents—who, for many reasons, may never have accessed a library in the past.

Finally, I would say that, in terms of the value and the investment that we as a nation place in our library services, and the reason why I am confident that they have a very strong and powerful purpose in our communities, it comes from the fact that, since the financial crash of 2008, Wales is the only part of the United Kingdom where there has been an increase in public library use.

Hoffwn ddiolch i Sandy Mewies am ei chyfraniad. Credaf fod yr enghraifft y nododd, sef Treffynnon, yn dangos yn glir sut y dylai canolfannau cymunedol gael eu hystyried fel canolfannau dysgu a hamdden, yn hytrach na darpariaethau un gwasanaeth yn unig.

Yn y bôn, bwriad canolfan yw cynyddu gweithgarwch ac o ganlyniad i hynny, cynyddu ei werth i'r gymuned. Felly, mewn sawl ystyr, maent hyd yn oed yn fwy pwysig mewn ardaloedd gwledig lle y mae'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer canolfannau unigol, pa un a ydynt yn llyfrgelloedd neu'n ganolfannau hamdden, yn brin iawn.

O ran canolfannau, y pwynt hanfodol yr hoffwn ei wneud yw bod angen tipyn o newid diwylliant arnom i fabwysiadu a chofleidio canolfan dysgu a hamdden fel rhyw fath o archfarchnad, os mynnwch chi, ar gyfer gweithgareddau hamdden a dysgu, lle y gallwch gael gafael ar lu o weithgareddau a gwasanaethau o dan yr un to. Yn hynny o beth, mae gennym, yn amodol ar gymeradwyaeth y prynhawn yma, £1 filiwn i fuddsoddi mewn llyfrgelloedd dysgu cymunedol, lle y bydd y cyllid yn amodol ar gyd-leoli gwasanaethau eraill. Nid yw'n bosibl bellach, yn y rhan fwyaf o achosion, i ddychmygu sefyllfa lle y gall llyfrgell weithredu yn y modd yr oedd yn gweithredu yn yr ugeinfed ganrif. Mae'r unfed ganrif ar hugain yn amgylchedd gwahanol iawn. Mae pobl yn byw bywydau gwahanol, a cheir gwahanol wasanaethau a galwadau bob dydd.

O ran Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell, mae hynny wedi bod yn llwyddiant enfawr. Mae wedi dangos nid yn unig gynnydd amlwg yn y defnydd o lyfrgelloedd gan bobl ifanc, na fyddent fel arall yn defnyddio llyfrgell, ond hefyd cynnydd eithaf anhygoel yn nifer yr oedolion—eu rhieni—sydd, am nifer o resymau, efallai erioed wedi defnyddio llyfrgell yn y gorffennol.

Yn olaf, byddwn yn dweud bod y gwerth a'r buddsoddiad yr ydym ni fel cenedl yn ei roi i'n gwasanaethau llyfrgell, a'r rheswm pam yr wyf yn hyderus bod ganddynt bwrpas cryf a phwerus iawn yn ein cymunedau, yn deillio o'r ffaith, ers chwalfa ariannol 2008, mai Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle y gwelwyd cynnydd yn y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, I am glad that, at a time when libraries are being shut with alarming frequency, we have returned to the statutory duty placed on local authorities to provide a comprehensive and efficient library service for all persons, as set out in the Public Libraries and Museums Act 1964. I am also pleased that this report has come about, because the Welsh Government has reaffirmed that it is your duty, as the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, to superintend and promote the improvement of public library services in Wales.

The question arises, of course, as to how you are going to ensure that we have a service fit for public use in the future. The report says that the Welsh Government should work with the Welsh Local Government Association and local authorities to progress a number of actions, including the necessary legislative process, which would make the Welsh public library standards statutory guidance. In your statement, you mentioned the fragmentation of the system. Surely, it should be your role, as Deputy Minister, to oversee the situation so that these standards are not fragmented. How do you see the situation with the standards becoming statutory working on the ground, as Suzy Davies indicated earlier, given that libraries are clearly being selected for closure because they are not deemed currently to be seen as essential services?

The report also says that your Government should consider introducing new legislation to reflect the changing requirements for public libraries to deliver services collaboratively in digital environments. Is that something that you intend to do in this term or is that something that would have to be done after this Assembly term?

What most worried me from the evidence is that, yet again, I am sad to say, it appears that former industrial areas, such as Rhondda Cynon Taf and Neath Port Talbot, as has been mentioned earlier, in my own area, are suffering the biggest reduction of council support. Given the role that libraries can play in getting people back to work, back into education, and their potential for lifting people out of poverty—a core mission for your Government—how do you square this with the closures and transfers that we are currently seeing?

I was glad that the report recommended that community-managed libraries should not be considered part of statutory library provision at the present time. Given that responsibility for nine of 17 libraries in Neath Port Talbot is being transferred to the community, this is already happening.

Weinidog, yr wyf yn falch, ar adeg pan fo llyfrgelloedd yn cael eu cau yn frawychus o aml, ein bod wedi dychwelyd at y ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon ar gyfer pob person, fel y nodir yn Neddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Rwyf hefyd yn falch bod yr adroddiad hwn wedi ymddangos, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai eich dyletswydd chi, fel y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yw arolygu a hyrwyddo'r gwaith o wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cwestiwn yn codi, wrth gwrs, ynglŷn â sut yr ydych chi'n mynd i sicrhau bod gennym wasanaeth sy'n addas at ddefnydd y cyhoedd yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys y broses deddfwriaethol angenrheidiol, a fyddai'n gwneud safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn ganllawiau statudol. Yn eich datganiad, soniasoch am y darnio yn y system. Onid eich swyddogaeth chi, fel Dirprwy Weinidog, yw goruchwyllo'r sefyllfa fel nad yw'r safonau hyn yn cael eu darnio. Sut ydych chi'n gweld y sefyllfa gyda'r safonau dod yn weithredol yn statudol ar lawr gwlad, fel y nododd Suzy Davies yn gynharach, o gofio bod llyfrgelloedd yn amlwg yn cael eu dewis ar gyfer eu cau gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn wasanaethau hanfodol ar hyn o bryd?

Mae'r adroddiad hefyd yn dweud y dylai eich Llywodraeth ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar y cyd mewn amgylcheddau digidol. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych chi'n bwriadu ei wneud yn y tymor hwn neu a yw'n rhywbeth y byddai'n rhaid ei wneud ar ôl tymor y Cynulliad hwn?

Yr hyn sy'n fy mhoeni fwyaf o'r dystiolaeth yw, unwaith eto, ac mae'n ddrwg gennyf ddweud, ei bod yn ymddangos mai'r hen ardaloedd diwydiannol, megis Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot, fel y crybwyllwyd yn gynharach, yn fy ardal i fy hun, sy'n dioddef y gostyngiad mwyaf o ran cefnogaeth gan y cyngor. O ystyried y rhan y gall llyfrgelloedd ei chwarae yn cael pobl yn ôl i'r gwaith, yn ôl i addysg, a'u potensial i godi pobl allan o dlodi—cenhadaeth graidd ar gyfer eich Llywodraeth—sut ydych chi'n cysoni hyn â'r cau a'r trosglwyddiadau yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd?

Roeddwn yn falch bod yr adroddiad yn argymhell na ddylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd. O gofio bod y cyfrifoldeb am naw o'r 17 o lyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael ei throsglwyddo i'r gymuned, mae hyn eisoes yn digwydd.

Data collected by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy show that the number of volunteers in public libraries has increased, with the rate of increase in Wales considerably greater than in England. The report recommends community-supported partnership libraries, but is it not the truth that this particular horse has already bolted and that recommendations like these give local authorities the green light to transfer more public services out of their control?

Following on from our previous debate on libraries, what happens to areas like Pennard, which is socially excluded, and in rural areas, where they try to have constructive debates with the council, try to find funding for their library, only to see that the council removed its support for that library. We cannot have wise words and constant statements from the Government, saying how important libraries are, when they are closing every day on our doorsteps.

Mae data a gasglwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn dangos bod nifer y gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cynyddu, a bod cyfradd y cynnydd yng Nghymru yn sylweddol uwch nag yn Lloegr. Mae'r adroddiad yn argymhell llyfrgelloedd partneriaeth a gefnogir gan y gymuned, ond onid yw'n wir bod hynny'n digwydd eisoes a bod argymhellion fel hyn yn rhoi'r golau gwyrdd i awdurdodau lleol drosglwyddo mwy o wasanaethau cyhoeddus allan o'u rheolaeth?

Yn dilyn ymlaen o'n dadl flaenorol ar lyfrgelloedd, beth fydd yn digwydd i ardaloedd fel Pennard, sydd wedi'i heithrio yn gymdeithasol, ac mewn ardaloedd gwledig, lle maent yn ceisio cael trafodaethau adeiladol gyda'r cyngor, yn ceisio dod o hyd i gyllid ar gyfer eu llyfrgell, dim ond i weld y cyngor yn rhoi'r gorau i gefnogi'r llyfrgell honno. Ni allwn dderbyn geiriau doeth a datganiadau cyson gan y Llywodraeth, yn dweud pa mor bwysig yw llyfrgelloedd, pan eu bod yn cau bob dydd yn ein cymunedau.

14:55

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Bethan Jenkins for her contribution also. In terms of looking at making the standards statutory, I think that there is a need to look for a strategic overview of library services across Wales, so I have asked my officials to evaluate various models of service delivery, both in the UK and further afield, with a view not to exclude any models at this stage. To ensure that there is consistency on quality of service across Wales, there will be a need for a co-ordinating body to help develop the library service. We must ensure that we do not divert central funding from front-line services, and, therefore, any future development, I think that it is fair to say, would also involve a review of the way that Welsh Government could support the transformation of library services.

In terms of legislation, the Public Libraries and Museums Act 1964 enables local and regional co-operation between local authority and public library services, but I recognise that any major change is likely to require us to consider the legal position and, in addition, governance issues will form part of the assessment of potential delivery models undertaken by my officials.

Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins am ei chyfraniad hefyd. O ran edrych ar wneud y safonau'n rhai statudol, rwyf yn credu bod angen chwilio am drosolwg strategol o wasanaethau llyfrgell ledled Cymru, felly rwyf wedi gofyn i fy swyddogion werthuso gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaethau, yn y DU a thu hwnt, gyda'r bwriad o beidio â diystyru unrhyw fodelau ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod cysondeb o ran ansawdd y gwasanaeth ledled Cymru, bydd angen corff cydlynu i helpu i ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgell. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn dargyfeirio cyllid canolog oddi wrth wasanaethau rheng flaen, ac felly, byddai unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol, rwy'n credu ei bod yn deg i ddweud, hefyd yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r gwaith o weddnewid gwasanaethau llyfrgell.

O ran deddfwriaeth, mae Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn galluogi cydweithredu lleol a rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, ond rwyf yn cydnabod bod unrhyw newid mawr yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i ni ystyried y sefyllfa gyfreithiol ac, yn ogystal, bydd materion llywodraethu yn ffurfio rhan o'r asesiad o fodelau cyflenwi posibl a gynhelir gan fy swyddogion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that, in terms of divesting themselves of their assets or responsibilities, it is important to note that councils still remain responsible for their statutory duties. Until we have more evidence available from the research that is under way, I do not think that it is appropriate to include community-managed or supported libraries as part of the statutory service provision at this stage. I will ask CyMAL to action one of the recommendations of the report and look at different models to provide me with definitive advice as to whether or how they can be included as part of the statutory service. I do not believe that the horse has yet bolted. We have great examples of responsible action. We have also imminent difficult decisions as a consequence of the strangulation of public funding from UK Government. That is why we are taking decisive action here in Wales—action that is already being noticed across the border. Indeed, I understand that at a recent Westminster Hall debate, Helen Goodman MP stated:

‘When I have talked to councillors involved in library provision, and to the professional bodies, they have praised standards in Wales. We should perhaps go back and borrow from the Welsh model for our system.’

Rwyf yn credu, o ran cael gwared ar eu hasedau neu eu cyfrifoldebau, ei bod yn bwysig nodi bod cynghorau yn dal i fod yn gyfrifol am eu dyletswyddau statudol. Hyd nes y bydd mwy o dystiolaeth ar gael o'r ymchwil sydd yn cael ei wneud, nid wyf yn credu ei bod yn briodol cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned neu a gefnogir gan y gymuned yn rhan o'r ddarpariaeth gwasanaethau statudol ar hyn o bryd. Byddaf yn gofyn i CyMAL weithredu un o argymhellion yr adroddiad ac edrych ar wahanol fodelau er mwyn rhoi cyngor pendant i mi ynghylch pa un a ellir eu cynnwys yn rhan o'r gwasanaeth statudol neu sut y gellir gwneud hynny. Nid wyf yn credu ei bod yn rhy hwyr. Mae gennym enghreifftiau gwych o gamau gweithredu cyfrifol. Mae gennym hefyd benderfyniadau anodd i'w gwneud yn fuan o ganlyniad i'r dagfa o ran arian cyhoeddus gan Lywodraeth y DU. Dyna pam yr ydym yn cymryd camau pendant yma yng Nghymru—camau sydd eisoes yn tynnu sylw ar draws y ffin. Yn wir, deallaf fod Helen Goodman AS wedi dweud mewn trafodaeth ddiweddar yn Neuadd San Steffan:

Pan wyf wedi siarad â chynghorwyr sy'n ymwneud â darpariaeth llyfrgell, a gyda chyrff proffesiynol, maent wedi canmol safonau yng Nghymru. Dylem efallai fynd yn ôl a benthycu gan fodel Cymru ar gyfer ein system ni.

14:57

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, one of the outcomes from the committee review was that the committee recognised the changing nature of the library service in Wales and, in particular, as has been alluded to already, what has happened in Neath Port Talbot and Rhondda Cynon Taf in terms of the development of community-based libraries, often co-located with other services, run by their communities and being effective with local authority support. In the light of that, it seems to me to be a bit strange that, given that there will be further cuts or changes to library provision in the forthcoming financial year—there is talk of Swansea already closing or moving half its libraries to similar provision and other authorities will be following suit and there are some local authorities that are not consulting to close libraries, but considering including them in leisure trusts—that we are waiting for another 12 months while we study the outcome of these changes and decide whether or not these community libraries will be considered as part of the statutory provision. I am concerned that, by the time that you come to consider that in April 2015, essentially, most of the statutory provision, as fairly narrowly defined by this report, will, effectively, be the central library in each local authority in Wales, and most of the smaller libraries will be delivered through provision that is not recognised in this report as a statutorily provided service.

Ddirprwy Weinidog, un o ganlyniadau adolygiad y pwyllgor oedd bod y pwyllgor yn cydnabod natur newidiol y gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru ac, yn arbennig, fel y cyfeiriwyd ato eisoes, yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf o ran datblygu llyfrgelloedd yn y gymuned, yn aml wedi eu cyd-leoli gyda gwasanaethau eraill, yn cael eu rhedeg gan eu cymunedau ac yn bod yn effeithiol gyda chymorth yr awdurdod lleol. O ystyried hyn, mae'n ymddangos braidd yn rhyfedd i mi, o gofio y bydd mwy o doriadau neu newidiadau i ddarpariaeth llyfrgelloedd yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod—mae sôn bod Abertawe eisoes wedi penderfynu cau neu symud hanner ei llyfrgelloedd i ddarpariaeth debyg ac y bydd awdurdodau eraill yn dilyn y patrwm hwn, ac mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt yn ymgynghori ynglŷn â chau llyfrgelloedd, ond yn ystyried eu cynnwys mewn ymddiriedolaethau hamdden—ein bod yn aros am 12 mis arall tra byddwn yn astudio canlyniad y newidiadau hyn a phenderfynu a fydd y llyfrgelloedd cymunedol hyn yn cael eu hystyried fel bod yn rhan o'r ddarpariaeth statudol ai peidio. Rwyf yn pryderu, erbyn i chi ddod i ystyried hynny ym mis Ebrill 2015, y bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth statudol, a ddiffinnir yn eithaf cul yn yr adroddiad hwn, mewn gwirionedd yn cynnwys y llyfrgell ganolog ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn unig, a bydd y rhan fwyaf o'r llyfrgelloedd llai yn cael eu cyflenwi drwy ddarpariaeth nad yw'n cael ei chydabod yn yr adroddiad hwn fel gwasanaeth a ddarperir yn statudol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, may I ask what interim arrangements you are putting in place, while your study goes on, to consider the status of community libraries as they continue to develop in Wales between now and April 2015? How will you be maintaining the statutory provision that you still have a duty to maintain, irrespective of your overview and any forthcoming legislation, in communities around Wales, particularly the provision that says that a library should be available within a few miles of each community and given that some of those libraries may not even be recognised as libraries? I am concerned that we are allowing—. Although the horse may not have bolted, the stable door is wide open, and there are people trying to shove the horse out of it even as we speak. I do think that we need to try to do something with that, Minister.

The issue that I note from the report—the expert review—is the recommendation that:

‘The Welsh Government should undertake the necessary legislative process which would make the Welsh Public Library Standards statutory guidance’

and,

‘should also consider introducing new legislation to reflect the changing requirements for the public library to deliver services collaboratively in digital environments.’

I notice that you say that you have accepted all of the recommendations of this report, but you have not explicitly said in your statement whether or not this means that you will be introducing a new Welsh libraries Act. Could you confirm that that is the case and give us some sort of timescale as to when we would expect consultation on a new Welsh libraries Act to take place?

Finally, Minister, in relation to the library service, we have talked—as I have just done now—about the community model. You have also talked about co-location and collaboration as part of the development of library services in Wales. Bethan Jenkins has referred to the example in Pennard, where they have exactly followed that model only to find that the promises made to them by the local authority have been reneged on. They are basically being left out in the cold, presumably with no library service after April 2015. What work are you doing with local authorities to try to make sure that they sign up to this model and that they will work in a genuine way with local authorities to deliver the sort of vision that you have set out, and which is set out in this expert review, instead of just going headlong into cutting the service and leaving local communities, like Pennard, with no service whatsoever?

Felly, a gaf fi ofyn pa drefniadau dros dro yr ydych yn eu rhoi ar waith, tra bod eich astudiaeth yn mynd rhagddi, i ystyried statws lyfrgelloedd cymunedol wrth iddynt barhau i ddatblygu yng Nghymru rhwng nawr a mis Ebrill 2015? Sut y byddwch yn cynnal y ddarpariaeth statudol y mae gennych ddyletswydd barhaus i'w chynnal, heb ystyried eich trosolwg nac unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod, mewn cymunedau ledled Cymru, yn enwedig y ddarpariaeth sy'n dweud y dylai llyfrgell fod ar gael o fewn ychydig filltiroedd o bob cymuned, ac o gofio na fydd rhai o'r llyfrgelloedd hynny o bosibl yn cael eu cydnabod fel llyfrgelloedd hyd yn oed? Rwyf yn pryderu ein bod yn caniatáu—. Er nad yw hi'n rhy hwyr, mae hi'n unfed awr ar ddeg arnom, ac mae pobl yn ceisio cau llyfrgelloedd ar yr eiliad hwn. Rwyf yn credu bod angen i ni geisio gwneud rhywbeth gyda hynny, Weinidog.

Y mater yr wyf yn ei nodi o'r adroddiad—yr adolygiad arbenigol—yw'r argymhelliad y dylai:

Llywodraeth Cymru ymgymryd â'r broses ddeddfwriaethol angenrheidiol a fyddai'n gwneud Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ganllawiau statudol,

ac,

y dylai hefyd ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol i'r llyfrgell gyhoeddus ddarparu gwasanaethau ar y cyd mewn amgylcheddau digidol.

Rwyf yn sylwi eich bod yn dweud eich bod wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ond nid ydych wedi dweud yn benodol yn eich datganiad pa un a yw hyn yn golygu y byddwch yn cyflwyno Deddf Llyfrgelloedd Cymru newydd. A allwch chi gadarnhau bod hynny'n wir a rhoi rhyw fath o amserlen inni o ran pryd y byddem yn disgwyl i ymgynghoriad ar Ddeddf Llyfrgelloedd Cymru newydd gael ei gynnal?

Yn olaf, Weinidog, o ran y gwasanaeth llyfrgell, yr ydym wedi siarad—fel yr wyf newydd wneud yn awr—am y model cymunedol. Rydych hefyd wedi sôn am gydleoli a chydweithio fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae Bethan Jenkins wedi cyfeirio at achos Pennard, lle maent wedi dilyn yn union y model hwnnw dim ond i ddarganfod bod yr addewidion a wnaed iddynt gan yr awdurdod lleol wedi eu torri. Maent yn y bôn yn cael eu gadael, yn ôl pob tebyg, heb unrhyw wasanaeth llyfrgell ar ôl Ebrill 2015. Pa waith ydych chi'n ei wneud gydag awdurdodau lleol i geisio sicrhau eu bod yn ymrwymo i'r model hwn ac y byddant yn gweithio mewn modd diffuant gydag awdurdodau lleol i gyflawni'r math o weledigaeth yr ydych wedi ei nodi, ac sydd wedi'i nodi yn yr adolygiad arbenigol hwn, yn hytrach na'u bod yn torri'r gwasanaeth heb roi unrhyw ystyriaeth i hynny, a gadael cymunedau lleol, fel Pennard, heb unrhyw wasanaeth o gwbl?

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Peter Black for his comments and questions. First, in terms of Pennard library, it is a library that has raised a number of queries in recent times in this Chamber. I am fully aware of the hard work of the community group and the library service in trying to bring the initial project to fruition. However, I am also informed that no final decision has been made by the local authority in relation to the future of that specific library, pending the findings of its full review of library services. That full review, of course, is a responsible course of action to take.

With regard to the development of co-located services and the question of community-managed libraries, we will not be waiting 12 months—as I say, I will be responding within the next four to five months. It will not necessarily be a question of whether they can be part of the statutory service, but how they can be incorporated and become part of the statutory service.

Meanwhile, the fifth framework of Welsh public library standards does provide guidance on the use of libraries and community libraries, and it reflects the guidelines of the Wales Council for Voluntary Action on ensuring that the high quality of service that we have come to expect is maintained. In addition to this, CyMAL has already run courses on fundraising and managing volunteers, and it will continue to make these courses available and free of charge to volunteers across the museums, archives and libraries sector. I do think that the research under way may also highlight additional training that we will potentially need to consider in the future.

Diolchaf i Peter Black am ei sylwadau a'i gwestiynau. Yn gyntaf, o ran llyfrgell Pennard, mae'n llyfrgell sydd wedi codi nifer o gwestiynau yn ddiweddar yn y Siambr hon. Rwyf yn gwbl ymwybodol o waith caled y grŵp cymunedol a'r gwasanaeth llyfrgell wrth geisio sicrhau bod y prosiect cychwynnol yn dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn gwybod nad oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol ynglŷn â dyfodol y llyfrgell benodol honno, hyd nes y ceir canfyddiadau ei adolygiad llawn o wasanaethau llyfrgell. Mae'r adolygiad llawn hwnnw, wrth gwrs, yn gam cyfrifol i'w gymryd.

O ran datblygu gwasanaethau wedi'u cydleoli a'r cwestiwn ynglŷn â llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, ni fyddwn yn aros 12 mis—fel y dywedais, byddaf yn ymateb o fewn y pedwar i bum mis nesaf. Ni fydd o reidrwydd yn gwestiwn o ba un a allant fod yn rhan o'r gwasanaeth statudol, ond sut y gellir eu hymgorffori a sut y byddant yn dod yn rhan o'r gwasanaeth statudol.

Yn y cyfamser, mae'r pumed fframwaith o safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn darparu canllawiau ar y defnydd o lyfrgelloedd a llyfrgelloedd cymunedol, ac mae'n adlewyrchu canllawiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar sicrhau bod yr ansawdd uchel o wasanaeth yr ydym wedi dod i'w ddisgwyl yn cael ei gynnal. Yn ogystal â hyn, mae CyMAL eisoes wedi cynnal cyrsiau ar godi arian a rheoli gwirfoddolwyr, a bydd yn parhau i sicrhau bod y cyrsiau hyn ar gael a'u bod yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ym mhob rhan o'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Rwyf yn credu y gall y gwaith ymchwil sydd yn cael ei wneud hefyd amlygu hyfforddiant ychwanegol a fydd o bosibl angen i ni ei ystyried yn y dyfodol.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have just one question for you, Deputy Minister, you will be pleased to know. It ties in with this issue that we have just been talking about regarding statutory provision. You may be aware that some local authorities are citing local government cuts as a reason to pass on—or palm off, if you like—some provision, such as that for libraries, to community councils, town councils, and the like, but without the appropriate funding. Are you aware of this? Are you going to look at this because it seems to me to be an unfair burden on community councils to be the ones who have to tell the public, 'Look, we can't really afford this without the necessary funding'? There needs to be a joint ownership of responsibility.

Mae gennyf i un cwestiwn i chi, Ddirprwy Weinidog, byddwch yn falch o wybod. Mae'n cyd-fynd â'r mater hwn yr ydym newydd fod yn ei drafod ynglŷn â darpariaeth statudol. Efallai eich bod yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yn nodi toriadau llywodraeth leol fel rheswm i drosglwyddo—neu waredu, os mynnwch chi—rhywfaint o'r ddarpariaeth, fel yr un ar gyfer llyfrgelloedd, i gynghorau cymuned, cynghorau tref, ac yn y blaen, ond heb y cyllid priodol. A ydych chi'n ymwybodol o hyn? A ydych chi'n mynd i edrych ar hyn oherwydd mae'n ymddangos i mi ei fod yn faich annheg ar gynghorau cymuned i fod y rhai sy'n gorfod dweud wrth y cyhoedd, 'Edrychwch, ni allwn fforddio hyn heb yr arian angenrheidiol'? Mae angen perchnogaeth ar y cyd o'r cyfrifoldeb.

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank Nick Ramsay for his question and offer him the answer 'yes'? That is why we, as a Government, have already invested £13 million in the transformation of libraries, and why we will be offering a further £1 million support in the next financial year, and why, of course, we are ensuring that greater amounts of best practice are disseminated, not just among councils, but among community groups and community councils. However, I do think that we need to reflect the fact that, right now, we are passing through pretty unprecedented times. The Welsh Government can no longer protect local authorities from the impact of decisions by the UK Government in relation to funding for Wales. As a consequence of that, we are at a very significant crossroads in the delivery of our public libraries. I do think that we need to find imaginative solutions where the communities that will and could be affected are at the very heart of them. It is essential that local authorities in planning their library services consider a wide range of options based on sound evidence, and that appropriate consultation and robust impact assessments are undertaken.

Hoffwn ddiolch i Nick Ramsay am ei gwestiwn a chynnig yr ateb 'ydym' iddo? Dyna pam yr ydym ni, fel Llywodraeth, eisoes wedi buddsoddi £13 miliwn mewn gwaith i weddnewid llyfrgelloedd, a dyna pam y byddwn yn cynnig cymorth ychwanegol o £1 filiwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a dyna pam, wrth gwrs, yr ydym yn sicrhau bod mwy o arfer gorau yn cael ei lledaenu, nid yn unig ymhlith cynghorau, ond ymhlith grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod angen i ni adlewyrchu'r ffaith ein bod, ar hyn o bryd, yn mynd trwy gyfnod na welwyd ei debyg erioed o'r blaen. Ni all Llywodraeth Cymru bellach amddiffyn awdurdodau lleol rhag effaith penderfyniadau gan Lywodraeth y DU o ran cyllid ar gyfer Cymru. O ganlyniad i hynny, rydym ar groesffordd arwyddocaol iawn wrth ddarparu gwasanaethau ein llyfrgelloedd cyhoeddus. Rwyf yn credu bod angen i ni ddod o hyd i atebion creadigol lle y mae'r cymunedau a allai gael eu heffeithio yn ganolog iawn iddynt. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol, wrth gynllunio eu gwasanaethau llyfrgell, yn ystyried amrywiaeth eang o ddewisiadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, a bod ymgynghoriadau priodol ac asesiadau effaith cadarn yn cael eu cynnal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome both the statement and the report of the expert review panel. Libraries are very important for both education and job hunting. They provide opportunities to use ICT equipment for children and adults who do not have access to them in their own homes, and they have access to them so that they are not disadvantaged from carrying out projects or coursework. They also allow adults to job hunt and write CVs, so as to help stop them being sanctioned. They can provide a community hub as Penlan library does in my constituency. St Thomas library, over 10 years ago, was co-located with the local primary school.

Rwy'n croesawu'r datganiad ac adroddiad y panel adolygu arbenigol. Mae llyfrgelloedd yn bwysig iawn ar gyfer addysg a chwilio am swydd. Maent yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio offer TGCh i blant ac oedolion pan nad yw ar gael yn eu cartrefi eu hunain, a'i fod ar gael fel nad ydynt o dan anfantais o ran cyflawni prosiectau neu waith cwrs. Maent hefyd yn caniatáu i oedolion chwilio am swyddi ac ysgrifennu CV, er mwyn eu helpu i beidio â bod dan anfantais. Gallant ddarparu canolbwynt cymunedol fel y mae llyfrgell Penlan yn ei wneud yn fy etholaeth i. Cafodd llyfrgell St Thomas, dros 10 mlynedd yn ôl, ei chyd-leoli â'r ysgol gynradd leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to ask three questions. What could be done to open up university libraries to the wider public? Secondly, does the Deputy Minister support co-location with primary schools as well as, or instead of, community centres? Does the Deputy Minister also support the continued provision of free ICT access, because, in many ways, those are the things that are most loved by younger people in libraries?

Hoffwn ofyn tri chwestiwn. Beth ellid ei wneud i agor llyfrgelloedd prifysgolion i'r cyhoedd ehangach? Yn ail, a yw'r Dirprwy Weinidog yn cefnogi cyd-leoli ag ysgolion cynradd yn ogystal â gyda chanolfannau cymunedol neu yn hytrach na hynny? A yw'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cefnogi parhau i ddarparu adnoddau TGCh yn rhad ac am ddim, oherwydd, mewn sawl ffordd, dyma'r pethau y mae pobl ifanc mewn llyfrgelloedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf?

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do think that Mike Hedges raises some crucial points there about removing barriers to accessing information and learning resources. I would agree entirely with the need to maintain free access to ICT services. I am also very pleased that a huge proportion of libraries are moving towards offering free Wi-Fi in their premises. In terms of collaboration with others, my officials are in regular contact with officials in the Department for Education and Skills to make sure that the twenty-first century schools project delivers the best possible access in terms of learning resources. I do think that Wales has been leading the way for many years in the level of collaboration between different types of libraries. I would like to commend the partnership working between public and academic libraries in opening up public access to the wealth of valuable resources available in all of these libraries. It is something that I do wish to see encouraged and will expect a greater degree of going forward, in terms of how libraries co-ordinate services with the services that are existing in both further and higher education.

Rwyf yn credu bod Mike Hedges yn codi rhai pwyntiau allweddol am ddileu rhwystrau i gael gafael ar wybodaeth ac adnoddau dysgu. Byddwn yn cytuno'n llwyr gyda'r angen i gynnal y defnydd o wasanaethau TGCh am ddim. Rwyf hefyd yn falch iawn bod cyfran enfawr o lyfrgelloedd yn symud tuag at gynnig Wi-Fi am ddim ar eu safleoedd. O ran cydweithredu ag eraill, mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau bod prosiect ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn darparu'r defnydd gorau posibl o ran adnoddau dysgu. Rwyf yn credu bod Cymru wedi bod yn arwain y ffordd ers blyneddau lawer o ran y lefel o gydweithio rhwng gwahanol fathau o lyfrgelloedd. Hoffwn ganmol y gwaith partneriaeth rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd o ran agor mynediad cyhoeddus at y cyfoeth o adnoddau gwerthfawr sydd ar gael ym mhob un o'r llyfrgelloedd hyn. Mae'n rhywbeth yr wyf yn dymuno ei weld yn cael ei annog a byddaf yn disgwyl mwy o symud ymlaen, o ran sut y mae llyfrgelloedd yn cydlynu gwasanaethau gyda'r gwasanaethau sy'n bodoli mewn addysg bellach ac addysg uwch.

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Deputy Minister, I very much welcome the report and the Welsh Government response. When I grew up in Pill in Newport the Pill library had and still has 'Knowledge is Power' at the top of the building, which I think speaks volumes about the need for our libraries to support community empowerment and equal opportunities.

Ddirprwy Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru. Pan gefais i fy magu yn Pill yng Nghasnewydd roedd 'Knowledge is Power' wedi'i nodi ar frig adeilad llyfrgell Pill, ac mae yno o hyd, ac rwy'n credu bod hynny'n adrodd cyfrolau am yr angen i'n llyfrgelloedd gefnogi grymuso cymunedau a chyfle cyfartal.

I have a few quick questions. I think it is very important that deliverers of public services now provide new energy and ideas, and in that context, I think it is very laudable that the National Library of Wales is taking part in the project to take forward a national digital library. I know that it is very keen to show the wider value that the national library can provide in these difficult times. I am sure that you would agree with me that that is very commendable and useful. Would you agree with me as well that there is not, in fact, necessarily a conflict between a professional library service and greater volunteer involvement? We do need a professional service, but we also need many more volunteers, and we can strike that balance.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau cyflym. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus bellach yn darparu egni a syniadau newydd, ac yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn credu ei bod yn ganmoladwy iawn bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cymryd rhan yn y prosiect y ddatblygu llyfrgell ddigidol genedlaethol. Gwn ei bod yn awyddus iawn i ddangos y gwerth ehangach y gall y llyfrgell genedlaethol ei ddarparu yn y cyfnod anodd hwn. Rwyf yn siŵr y bydddech yn cytuno â mi bod hynny'n ganmoladwy ac yn ddefnyddiol iawn. A ydych chi'n cytuno â mi hefyd, nad oes, mewn gwirionedd, wrthdaro o reidrydd rhwng gwasanaeth llyfrgell proffesiynol a mwy o gyfranogiad gan wirfoddolwyr? Mae angen gwasanaeth proffesiynol arnom, ond mae angen llawer mwy o wirfoddolwyr arnom hefyd, a gallwn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw.

Finally, with regard to universal credit, obviously some people do not have access to computers, nor the necessary skills, but they are required to use online services to meet the demands placed on them by jobcentres and the benefits agency with regard to universal credit. So, libraries are fulfilling a new and very important role as far as that is concerned. Would you agree that that needs to be recognised increasingly in terms of DWP funding for those vital services?

Yn olaf, o ran credyd cynhwysol, yn amlwg nid oes gan rai pobl gyfrifiadur ar gael iddynt, na'r sgiliau angenrheidiol, ond mae gofyn iddynt ddefnyddio gwasanaethau ar-lein i ateb y galw a osodir arnynt gan ganolfannau gwaith a'r asiantaeth fudd-daliadau ynglŷn â chredyd cynhwysol. Felly, mae llyfrgelloedd yn cyflawni swyddogaeth newydd a phwysig iawn yn hynny o beth. A ydych chi'n cytuno bod angen cydnabod hynny fwyfwy o ran cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hynny?

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Could I place on record my thanks to John Griffiths who initiated this work and who made a quite phenomenal contribution to what has been an incredible salvation of library services in Wales? When we look across at other countries right now, at how their library services have gone into sharp decline in terms of funding per 1,000 of the population and also in terms of user numbers, I think that we should look with pride at what is happening in Wales and thank my predecessor for the work that he did.

A gaf fi gofnodi fy nioch i John Griffiths a ddechreuodd y gwaith hwn ac a wnaeth gyfraniad rhyfeddol iawn i'r hyn sydd wedi bod yn achubiaeth anhygoel o wasanaethau llyfrgell yng Nghymru? Pan fyddwn yn edrych ar wledydd eraill ar hyn o bryd, ar y ffordd y mae eu gwasanaethau llyfrgell wedi dirywio'n sydyn o ran cyllid fesul 1,000 o'r boblogaeth a hefyd o ran nifer y defnyddwyr, rwyf yn meddwl y dylem edrych gyda balchder ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru ac rwyf yn diolch i fy rhagflaenydd am y gwaith a wnaeth.

I also look around at some of the slogans, logos and mottos of organisations and buildings. My favourite one appears above the local school in my village of Ruabon, which reads, 'Nothing Without Labour', and I clearly could not agree more.

Rwyf hefyd yn edrych ar rai o sloganau, logos ac arwyddeiriau sefydliadau ac adeiladau. Mae fy hoff un yn ymddangos uwchben yr ysgol leol yn fy mhentref, Rhiwabon, sy'n nodi, 'Nothing Without Labour', ac yn amlwg ni allwn gytuno mwy â hynny.

We are in the age of digital innovation, and I am absolutely delighted that we are able to lead on the creation of a national digital library for Wales. This is something that I believe we will be very proud of. The Member is absolutely right: in these difficult times, I think that it is absolutely vital that we give our national organisations something really powerful and positive to embrace. I am sure that the National Library of Wales will be very proactive in making sure that the national digital library serves the people of our country.

Rydym mewn oes o arloesi digidol, ac rwyf wrth fy modd ein bod yn gallu arwain y gwaith o greu llyfrgell ddigidol genedlaethol i Gymru. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn credu y byddwn yn falch iawn ohono. Mae'r Aelod yn llygad ei le: yn y cyfnod anodd hwn, rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn rhoi rhywbeth gwirioneddol bwerau a chadarnhaol i'n sefydliadau cenedlaethol ei gofleiddio. Rwyf yn sicr y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau bod y llyfrgell ddigidol genedlaethol yn gwasanaethu pobl ein gwlad.

I would agree that the choice, if you like, of voluntary personnel or professional personnel will be very much a false dichotomy as we make standards statutory. I believe that, in terms of what we can offer through CyMAL, through our training programmes, through maintaining standards, through exploring all options for future delivery, we will ensure that volunteers are at the heart of services, but that professionalism remains the top priority.

Byddwn yn cytuno bod y dewis, os mynnwch chi, o bersonél gwirfoddol neu bersonél proffesiynol yn ddeuliaeth hynod ffug wrth i ni wneud safonau yn statudol. Credaf y byddwn, o ran yr hyn y gallwn ei gynnig drwy CyMAL, drwy ein rhaglenni hyfforddi, drwy gynnal safonau, trwy archwilio pob dewis ar gyfer darparu yn y dyfodol, yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ganolog i wasanaethau, ond bod proffesiynoldeb yn parhau i fod y brif flaenoriaeth.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Farming and Food to move the motion.

The Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5649 Jane Hutt

Motion NDM5649 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2014.

Approves that the draft The Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 November 2014.

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:11

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We scrutinised regulations relating to the breeding of dogs in the summers of 2013 and this year, 2014. On each occasion, we reported to the Assembly specific issues of concern with the regulations, which were subsequently withdrawn by the Welsh Government. Issues relating to dogs are incredibly important to the public. I think that we would all agree with that, given the number of e-mails that we have received from constituents on this issue. So, it is welcome that we have been able to report to the Assembly on the regulations laid on 18 November without any concerns, and they are very likely to proceed. We also hope that there is a speedy resolution to concerns that we have raised with the regulations relating to the microchipping of dogs, and that they will be brought forward by the Welsh Government for further scrutiny as soon as possible.

There are some lessons to be learned about the drafting of these regulations and how they are scrutinised. I hope that the Welsh Government and the Deputy Minister, who is new to this particular policy area—or the responsibility for it—learn those lessons, and indeed that they are applied across the board in other policy areas. It has taken us too long to get where we are today, but I hope that things will now proceed satisfactorily.

Buom yn craffu ar y rheoliadau sy'n ymwneud â bridio cŵn yn ystod haf 2013 ac eleni, 2014. Ar y ddau achlysur, rhoddasom wybod i'r Cynulliad am faterion penodol a oedd yn peri pryder ynglŷn â'r rheoliadau, a chawsant eu tynnu'n ôl yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru. Mae materion yn ymwneud â chŵn yn hynod bwysig i'r cyhoedd. Credaf y byddai pob un ohonom yn cytuno â hynny, o ystyried nifer y negeseuon e-bost a gawn gan etholwyr ar y mater hwn. Felly, mae'n dda o beth ein bod wedi gallu adrodd i'r Cynulliad ar y rheoliadau a osodwyd ar 18 Tachwedd heb ddim pryderon, ac maent yn debygol iawn o fynd rhagddynt. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd y pryderon a godasom ynglŷn â'r rheoliadau sy'n ymwneud â meicrosglodynnu cŵn yn cael eu datrys yn fuan, ac y byddant yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar gyfer craffu pellach cyn gynted â phosibl.

Mae rhai gwersi i'w dysgu ynglŷn â phroses ddrafftio'r rheoliadau hyn a'r modd y craffir arnynt hefyd. Rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog, sy'n newydd i'r maes polisi penodol hwn—neu i'r cyfrifoldeb amdano—yn dysgu'r gwersi hynny, ac yn wir y byddant yn cael eu gweithredu mewn meysydd polisi eraill. Mae wedi cymryd gormod o amser inni i gyrraedd ble yr ydym heddiw, ond rwyf yn gobeithio y bydd pethau'n symud yn eu blaen yn foddhaol yn awr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I thank you for laying the motion today. I would like to indicate the Welsh Conservatives' support for the new regulations this afternoon. The Deputy Minister will be aware that I have previously stated concerns that the proposed minimum staff-to-dog ratio of 1:20 is not adequate to ensure dog welfare. Indeed, I have suggested a sliding scale that could have taken into account the differences between small-scale breeders and much larger commercial operators. There is no mention of this in the proposed regulations, so I would be grateful if the Deputy Minister could confirm whether, in her mind, the regulations provide sufficient flexibility to ensure that local authorities decide whether a higher staff-to-adult-dog ratio is appropriate, based on the size and type of premises, and based on the breed and litter size.

Puppy farming, of course, can happen anywhere, not just on working farms. So, will the Deputy Minister consider publishing explanatory guidance for local authorities to ensure that best practice is observed and that there is a consistent approach across the country?

Ddirprwy Weinidog, diolch ichi am gyflwyno'r cynnig heddiw. Hoffwn nodi cefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig i'r rheoliadau newydd y prynhawn yma. Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod bod gennyf bryderon yr wyf wedi eu lleisio o'r blaen nad yw'r gymhareb isaf arfaethedig o 1:20 o ran staff a chŵn yn ddigonol er mwyn sicrhau lles cŵn. Yn wir, rwyf wedi awgrymu graddfa symudol a allai fod wedi rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng bridwyr ar raddfa fach a gweithredwyr masnachol llawer mwy. Nid oes sôn am hyn yn y rheoliadau arfaethedig, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog gadarnhau a yw'r rheoliadau'n darparu digon o hyblygrwydd yn ei barn hi i sicrhau bod awdurdodau lleol yn penderfynu a yw cymhareb uwch o ran staff a chŵn yn eu llawn dwf yn briodol, yn seiliedig ar faint a math y safle, ac yn seiliedig ar y brîd a maint y torllwyth.

Gall ffermio cŵn bach ddigwydd, wrth gwrs, yn rhywle, ac nid dim ond ar ffermydd. Felly, a wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried cyhoeddi canllawiau esboniadol i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gweithredu'r arfer gorau a bod yr ymagwedd yn gyson ledled y wlad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is clear that the resources of local authorities will only go so far in terms of the enforcement of these regulations, and, given that the estimated cost to local authorities will be £65,000, how will the local authorities fund any shortfall relating to the enforcement of these new regulations that is not covered by licence fees from breeders? I would also welcome clarification from the Deputy Minister on what happens to breeding bitches and their puppies following a licence being revoked. I was not sure that this was clear in the regulations. Also, with regard to the extension of a licence to personal representatives upon a licence holder's death, would the Deputy Minister state the rationale behind the extension of a licence beyond the initial three-month period?

Finally, I would be grateful for the Deputy Minister's confirmation that she intends to publish separate guidance for enforcement officers with regard to hunt kennels. I hope that the Deputy Minister will be able to confirm that today.

To conclude, these regulations will undoubtedly deliver practical improvements in dog welfare in Wales and they therefore garner our support. We also look forward to the Welsh Government's tabling revised regulations in due course on microchipping standards to further improve traceability and the welfare of dogs, and I would therefore be grateful if the Deputy Minister could set out a timetable for the introduction of these revised standards for microchipping at the earliest opportunity.

Mae'n amlwg mai dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud i orfodi'r rheoliadau hyn gydag adnoddau awdurdodau lleol, ac o ystyried yr amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £65,000 i awdurdodau lleol, sut y bydd yr awdurdodau lleol yn ariannu unrhyw ddiffyg sy'n ymwneud â gorfodi'r rheoliadau newydd hyn nad yw'r incwm a geir o ffioedd trwyddedau bridwyr yn talu amdano? Byddai'n dda gennyf hefyd gael eglurhad gan y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i eist bridio a'u cŵn bach ar ôl i drwydded gael ei diddymu. Nid oeddwn yn siŵr bod hyn yn glir yn y rheoliadau. Hefyd, o ran estyn trwydded i gynrychiolwyr personol ar farwolaeth deilydd trwydded, a wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatgan y rhwymeg dros estyn trwydded y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o dri mis?

Yn olaf, byddai'n dda gennyf gael cadarnhad gan y Dirprwy Weinidog ei bod yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar wahân i swyddogion gorfodi mewn perthynas â chynelau hela. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn gallu cadarnhau hynny heddiw.

I gloi, bydd y rheoliadau hyn yn ddi-os yn sicrhau gwelliannau ymarferol o ran lles cŵn yng Nghymru ac felly rydym yn eu cefnogi. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rheoliadau diwygiedig maes o law o ran safonau meicrosglodynno i wella lles cŵn a'r gallu i'w olrhain hyd yn oed yn fwy, a byddwn yn ddiolchgar felly pe gallai'r Dirprwy Weinidog nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r safonau diwygiedig ar gyfer meicrosglodynno cyn gynted â phosibl.

15:16

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome these regulations, which I believe put Wales in the vanguard on these very important matters, which I, too, have received a considerable postbag in relation to—they really do matter to people. People in my constituency, and right across Wales—and organisations, I believe—want to see these higher standards in place. So, I do very much welcome these regulations. I believe that there are aspects of them that perhaps the Deputy Minister could provide a little further information on, such as the vital ratio, for example, of 1:20, and the extent to which the statutory guidance will enable greater flexibility within that. So, there might be a lower figure for the adult dogs involved where, for example, it involves bitches with litters and particular dogs that require more exercise or grooming. I think that the statutory guidance will, hopefully, deal with concerns that the ratio needs to be looked at in the light of particular circumstances, such as those that I have mentioned, and I would be very grateful for some clarification on that.

Rwyf yn croesawu'r rheoliadau hyn yn fawr iawn, a chredaf eu bod yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran y materion pwysig iawn hyn, ac rwyf finnau hefyd wedi derbyn cryn dipyn o ohebiaeth ynglŷn â hwy—maent yn wirioneddol bwysig i bobl. Mae pobl yn fy etholaeth i, ac ym mhob cwr o Gymru—a sefydliadau hefyd, rwyf yn credu—am weld y safonau uwch hyn ar waith. Felly, rwyf yn croesawu'r rheoliadau hyn yn fawr iawn. Credaf fod agweddau arnynt y gallai'r Dirprwy Weinidog efallai roi ychydig mwy o wybodaeth amdanynt, megis y gymhareb hollbwysig, er enghraifft, o 1:20, ac i ba raddau y bydd y canllawiau statudol yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn hynny. Felly, gallai fod ffigur is ar gyfer cŵn yn eu llawn dwf lle, er enghraifft, mae'n ymwneud â geist â thorllwythi o gŵn bach a chŵn penodol y mae angen mwy o ymarfer corff neu waith twtio arnynt. Credaf y bydd y canllawiau statudol, gobeithio, yn ymdrin â phryderon bod angen ailystyried y gymhareb mewn amgylchiadau penodol, megis y rhai yr wyf wedi'u crybwyll, a byddwn yn ddiolchgar iawn o gael mwy o oleuni ar y mater hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also think that one very great gain from these regulations is the recognition of the importance of early socialisation and environmental enrichment. In the meetings that I have had with organisations concerned with these regulations, they are very grateful for the new standards that will be achieved as part of those vital matters of concern. I think that all Members will know that there are considerable issues with dogs in Wales. There are, I think, in excess of 400,000 dogs in Wales, which is quite a figure for some 3 million people, and there are a number of issues. A lot of those issues of behavioural problems could be prevented by better early socialisation. So, these really are important matters that will benefit our communities.

Finally, Deputy Minister, I wonder whether you could say little bit about local authority enforcement, because I think that everybody is very much aware of the importance of ensuring that these regulations are implemented effectively if we are to get the higher standards that we all want to see. Local authorities are obviously under a great deal of pressure with their budgets, with their staffing and their general resources, and I think that that applies to these areas of activity as well as many others. I know that some of the organisations concerned with dog welfare in Wales are willing to offer assistance in terms of their own inspectors, their own training capacity, and new courses that they might be able to provide. I wonder whether you could tell Members today how you will work with those organisations to ensure that that support and resource for our hard-pressed local authorities is brought to bear to ensure that the implementation of these welcome regulations is as effective as possible.

Rwyf hefyd yn credu mai un o fanteision mawr iawn y rheoliadau hyn yw eu bod yn cydnabod pwysigrwydd cymdeithasoli cynnar a chyfoethogi amgylcheddol. Yn y cyfarfodydd yr wyf wedi'u cael â sefydliadau sydd â buddiant yn y rheoliadau hyn, maent yn ddiolchgar dros ben am y safonau newydd a fydd yn cael eu cyflawni yn rhan o'r materion hollbwysig hyn. Credaf y bydd pob Aelod yn gwybod bod cryn dipyn o broblemau â chŵn yng Nghymru. Credaf fod dros 400,000 o gŵn yng Nghymru, sy'n nifer eithaf mawr i tua 3 miliwn o bobl, ac mae nifer o faterion sy'n achosi pryder. Gallai llawer o'r materion hynny ynglŷn â phroblemau ymddygiad gael eu hatal drwy well cymdeithasoli cynnar. Felly, mae'r rhain yn faterion gwirioneddol bwysig a fydd o fudd i'n cymunedau.

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, tybed a allech sôn ychydig am orfodaeth gan awdurdodau lleol, oherwydd credaf fod pawb yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol os ydym am gael y safonau uwch y dymunwn i gyd eu gweld. Mae awdurdodau lleol yn amlwg o dan lawer iawn o bwysau o ran eu cyllidebau, eu staffio a'u hadnoddau'n gyffredinol, a chredaf fod hynny'n berthnasol i'r meysydd gweithgarwch hyn yn ogystal â llawer o rai eraill. Gwn fod rhai o'r sefydliadau sy'n ymwneud â lles cŵn yng Nghymru'n barod i gynnig cymorth o ran eu harolygwyr eu hunain, eu gallu hyfforddi eu hunain, a chysiau newydd y gallent o bosibl eu darparu. Tybed a allech ddweud wrth yr Aelodau heddiw sut y byddwch yn gweithio gyda'r sefydliadau hynny i sicrhau bod cymorth ac adnoddau ar gael i'n hawdurdodau lleol sydd o dan y fath bwysau, er mwyn sicrhau bod y rheoliadau hyn, sy'n dda o beth, yn cael eu rhoi ar waith yn y modd mwyaf effeithiol.

15:20

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn synnu nad oedd y Ddirprwy Weinidog yn teimlo rheidrwydd i ddweud ychydig o eiriau wrth gyflwyno'r rheoliadau heddiw. Rwy'n credu nad yw ond eu cynnig yn ffurfiol efallai yn ddigonol achos gallwn olrhain hanes y rheoliadau hyn yn ôl i ddyddiau Llywodraeth Cymru'n Un ac mae wedi cymryd bron i bedair blynedd i ni gyrraedd y pwynt yr ydym yn ei gyrraedd heddiw. Mae cwestiynau difrifol, yn fy marn i, ynglŷn â'r oedi sydd wedi digwydd—y gosod a thynnu yn ôl y rheoliadau ar dri achlysur gwahanol—ac mae hynny'n adlewyrchu yn wael iawn ar y Llywodraeth. Wrth gwrs, mae'r oedi hwnnw hefyd wedi arwain at barhad yn nioddefaint nifer o'r cŵn sy'n ffeindio'u hunain yn cael eu camddefnyddio yn y sector hwn.

Fodd bynnag, dyna ni, rydym yma yn awr, ac rwy'n croesawu'r ffaith fod y rheoliadau o'r diwedd ger ein bron ni yn y fan hon yn y Senedd. Mae'n resyn, efallai, na allwn gynnig gwelliannau a'r unig ddewis sydd gennym yw derbyn neu wrthod y rheoliadau fel ag y maent. Byddaf yn pleidleisio i dderbyn y rheoliadau; er eu bod ymhell o fod yn berffaith, maent yn gam i'r cyfeiriad iawn ac yn gyfle inni gychwyn mynd i'r afael, efallai, â'r tramgwyddwyr mwyaf yn y maes hwn.

I would like to start by saying that I am surprised that the Deputy Minister did not feel the need to say a few words in introducing these regulations today. I think that just moving them formally is not perhaps adequate because we can trace the history of these regulations back to the days of the One Wales Government and it has taken almost four years for us to reach the point that we are reaching today. There are some serious questions, in my view, on the delays that there have been—the laying and withdrawing of the regulations on three different occasions—and that reflects very poorly on the Government. Of course, those delays have also led to the continuation of the suffering of many of those dogs who find themselves abused in this sector.

However, we are where we are, and I welcome the fact that the regulations are at last before us here in the Senedd. It is regrettable, perhaps, that we cannot move amendments and the only option that we have is to approve or reject the regulations as they stand. I will be voting in favour of the regulations; although they are far from perfect, they are a step in the right direction and give us an opportunity to start to address the most serious offenders in this area.

Senedd.tv
[Video](#)

Mae'r 'ratio' staff i gŵn bridio eisoes wedi cael ei grybwyll, ac rwy'n croesawu'r hyblygrwydd yn y memorandwm esboniadol sy'n esbonio sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu amrywio'r 'ratios' hynny yn ôl brid, maint y ci a faint o gŵn bach maent yn eu cael, ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae angen gwahaniaethu rhwng cŵn sy'n cael eu bridio i fod yn anifeiliaid anwes a chŵn gweithio. Mae hynny'n ystyriaeth sydd, yn amlwg, wedi cael ei godi gyda chi yn flaenorol. Wrth gwrs, mae'n rhaid amddiffyn lles pob ci, ond mae anghenion gwahanol o ran cynelau ac o ran cymdeithasoli, ac yn y blaen, pan mae'n dod i gŵn sy'n gweithio. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog mewn llythyr ddoe i gynnwys cyngor penodol ar drwyddedu cynelau hela yn y canllawiau, a gobeithiaf y bydd y rheiny yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed.

Un cwestiwn allweddol arall, wrth gwrs, fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll yw gorfodaeth—'enforcement'. Gallwn basio rheoliadau yma heddiw, mae hynny'n un peth, wrth gwrs, ond bydd ond mor effeithiol â gallu'r awdurdodau lleol i wneud defnydd effeithiol ohonynt wrth eu gorfodi nhw a'u rhoi mewn lle. Mae toriadau cyllidol, wrth gwrs, yn mynd i gael effaith ar hynny. Nid wyf yn mynd i alw yma heddiw am fwy o gyllid yn benodol ar gyfer hynny oherwydd bod cymaint o wahanol flaenoriaethau, ond mae'n rhaid, efallai, i ni fod yn realistig yn yr hinsawdd sydd ohoni ynglŷn â'r hyn fydd y rheoliadau hyn yn ei gyflawni ar lawr gwlad mewn gwirionedd.

Felly, mae angen edrych y tu hwnt i'r rheoliadau hyn er mwyn helpu. Un enghraifft, neu awgrym, sydd wedi cael ei wneud yw bod mwy o bwyslais ar gynlluniau bridwyr achrededig. Os wyf am osod system gwres canolog, rwy'n edrych ian pwy sydd wedi eu cofrestru gydag OFTEC er mwyn gwneud yn siŵr bod darparwr y gwasanaeth rwy'n ei gaffael wedi cael ei gymeradwyo gan gorff sy'n gwarantu ansawdd, sy'n sicrhau i mi fod y gwasanaeth wedi cael ei ddarparu mewn modd addas ac i safon benodol. Mae cynlluniau tebyg yn bodoli, wrth gwrs, fel un y Kennel Club, ond mae lle i gryfhau a hyrwyddo ymhellach yr 'approach' hwn yn fy marn i—un cynllun cenedlaethol Cymreig, o bosibl—ond mater y tu hwnt, efallai, i'r rheoliadau yw hynny.

Felly, fel y dywedais, byddaf yn cefnogi'r rheoliadau oherwydd, er nad ydynt yn berffaith ac er ein bod wedi gweld proses lafurus ac aneffeithiol iawn yn cyrraedd y pwynt hwn, maent yn sicr yn gam i'r cyfeiriad iawn.

The ratio of staff to dogs has already been mentioned, and I welcome the flexibility in the explanatory memorandum, which explains how local authorities will be able to vary those ratios according to the breed, the size of dog and the size of the litters, and so on. However, we need to differentiate between dogs that are bred to be pets and working dogs. That is a consideration that has obviously been raised with you previously. Of course, we need to protect the welfare of all dogs, but there are different needs in terms of kennelling and socialisation, and so on, when it comes to working dogs. I welcome the Deputy Minister's commitment in a letter yesterday to include specific advice on licensing kennels for hunting dogs in the guidelines, and I hope that those will be brought forward without delay.

Another key question, of course, as has already been mentioned, is enforcement. We can pass regulations here today, and that is one thing, of course, but they will only be as effective as the ability of the local authority to make use of them in enforcement and implementation. Budgetary cuts, of course, are going to have an impact on that. I am not going to call here this afternoon for more funding specifically for that because there are so many different priorities, but we do have to be realistic in the current climate about what these regulations will achieve on the ground.

Therefore, we need to look beyond these regulations in order to help. One example or suggestion that has been given is that there should be greater emphasis on accredited breeder schemes. If I want a new central heating system, I look up who is accredited with OFTEC in order to ensure that the service provider I am contracting has been approved by a body that guarantees quality, giving me assurances that the service has been provided in an appropriate way and to a specific standard. There are similar schemes, of course, such as that of the Kennel Club, but there is room to strengthen and further promote this approach in my view—perhaps through one national Welsh scheme—but that maybe a matter beyond the regulations.

So, as I said, I will be supporting the regulations because, although they are not perfect and we have seen a laboured and ineffective process in reaching this point, they are certainly a step in the right direction.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let me begin by saying that, as a group, we deliberated at length over the regulations before us today. Unfortunately, we find ourselves in a position where we are not able to support the regulations as they stand. I have spoken in the Chamber on a number of occasions about the scourge of puppy farming, and I am disappointed to see that, in our view, this issue has not been properly addressed. A key issue for us is what has already been mentioned around the Chamber: the exclusion of puppies from the staffing ratio. As I have highlighted in the past, many dogs can have litters of 10 puppies or more. With the current ratio of one staff member to 20 adult dogs, it is not inconceivable that one staff member could have responsibility for hundreds of animals, inevitably resulting in a shortfall in terms of those dogs' welfare. This is simply not acceptable, and it is regrettable that, despite having urged Ministers over time and the substantial feedback from the consultation, this issue has not been fully addressed in the revised regulations. In the light of those concerns, Deputy Minister, I would ask you for assurance that should the regulations be passed today, as seems likely, they will be subject to close monitoring and there will be an opportunity to review them during the course of the next Assembly.

I also echo calls from the Dogs Trust and other organisations for the Welsh Government to ensure that these regulations are properly enforced by local authorities, and that appropriate measures are taken to ensure that this happens. Without effective enforcement, it is clear that none of the good intentions beneath these regulations will materialise, and that is important. Deputy Minister, in this context, will you please commit to continued close working with the Welsh Local Government Association, and, as John Griffiths said, the third sector organisations that have such a key role to play in this policy area, to be certain that local authorities can, in partnership, retain the capacity to carry out this vital work? It is very telling that the RSPCA, the Countryside Alliance, the Dogs Trust and, indeed, the Kennel Club have all expressed some concerns with regard to what these regulations deliver, and I very much hope that the Deputy Minister will continue to work with these organisations to seek out advice and best practice in implementing the regulations, should they go forward.

Deputy Minister, given your commitment to being open and accessible, may I also seek assurance that you will continue to have an open dialogue with all these organisations within the sector so as to maximise the opportunity that, potentially, these regulations present? We have waited for far too long for more effective regulation in this sector, and it is more in sorrow than in anger that the Welsh Liberal Democrat group will be unable to support the regulations today.

Gadewch imi ddechrau drwy ddweud ein bod, fel grŵp, wedi trafod y rheoliadau sydd ger ein bron heddiw yn helaeth. Yn anffodus, rydym mewn sefyllfa lle nad ydym yn gallu cefnogi'r rheoliadau fel ag y maent. Rwyf wedi siarad yn y Siambr ar sawl achlysur am felltith ffermio cŵn bach, ac rwyf yn siomedig o weld nad yw'r mater hwnnw, yn ein barn ni, wedi cael sylw priodol. Un o'r materion allweddol i ni yw'r hyn sydd eisoes wedi'i grybwyll yn y Siambr: eithrio cŵn bach o'r gymhareb staffio. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, gall llawer o gŵn eni torllwythi o 10 neu fwy o gŵn bach. Gyda'r gymhareb gyfredol o un aelod o staff i 20 o gŵn yn eu llawn dwf, nid yw'n amhosibl y gallai un aelod o staff fod yn gyfrifol am gannoedd o anifeiliaid, a fyddai'n arwain yn anochel at ddiffyg o ran lles y cŵn hynny. Mae hyn yn gwbl annerbiniol, ac mae'n resyn o beth, er gwaetha'r ffaith inni alw ar Weinidogion dros gyfnod o amser ac er gwaethaf yr adborth sylweddol a gafwyd yn yr ymgynghoriad, nad yw'r rheoliadau diwygiedig yn mynd i'r afael yn llawn â'r broblem hon. Yng nghyd-destun y pryderon hynny, Ddirprwy Weinidog, byddwn yn gofyn ichi am sicrwydd, os caiff y rheoliadau eu derbyn heddiw, sy'n ymddangos yn debygol, y byddant yn destun monitro manwl ac y bydd cyfle i'w hadolygu yn ystod y Cynulliad nesaf.

Ategef hefyd alwadau gan y Dogs Trust a sefydliadau eraill i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gorfodi'n briodol gan awdurdodau lleol, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd. Heb orfodaeth effeithiol, mae'n eglur na fydd yr un o fwriadau da'r rheoliadau hyn yn cael eu gwireddu, ac mae hynny'n bwysig. Ddirprwy Weinidog, yn y cyd-destun hwn, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac, fel y dywedodd John Griffiths, gyda mudiadau'r trydydd sector sydd â rhan mor allweddol i'w chwarae yn y maes polisi hwn, er mwyn bod yn sicr y gall awdurdodau lleol, mewn partneriaeth, gadw'r gallu i gyflawni'r gwaith hanfodol hwn? Mae'n ddadlennol iawn fod yr RSPCA, y Gynghrair Cefn Gwlad, y Dogs Trust ac, yn wir, y Kennel Club i gyd wedi mynegi rhai pryderon o ran yr hyn y mae'r rheoliadau hyn yn ei gyflawni, ac rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd y Ddirprwy Weinidog yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau hyn i geisio cyngor ac arfer gorau wrth weithredu'r rheoliadau, os byddant yn mynd rhagddynt.

Ddirprwy Weinidog, o ystyried eich ymrwymiad i fod yn agored ac yn hygyrch, a gaf fi hefyd geisio sicrwydd y byddwch yn parhau i gael deialog agored â'r holl sefydliadau hyn o fewn y sector er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle y mae'r rheoliadau hyn, o bosibl, yn ei gynnig inni? Rydym wedi aros yn rhy hir o lawer am reoleiddio mwy effeithiol yn y sector hwn, ac mae'n dristwch inni na fyddwn ni yng ngrŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n gallu cefnogi'r rheoliadau heddiw.

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also welcome the regulations. I also welcome the positive and constructive comments that have been made across the Chamber about what we see as some of the inadequacies, and I do not intend to reiterate those. I find it difficult, though, to understand the position of Lib Dems, who would reject regulations that improve the existing situation in favour of a worse situation. I have never understood where the logic of that position lies.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r rheoliadau. Croesawaf hefyd y sylwadau cadarnhaol ac adeiladol a wnaed ar draws y Siambr ynglŷn â'r hyn a ystyriwn yn rhai o'u diffygion, ac nid wyf yn bwriadu ailadrodd y rheini. Rwyf yn ei chael yn anodd, fodd bynnag, deall safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol, a fyddai'n gwrthod rheoliadau sy'n gwella'r sefyllfa sydd ohoni o blaid sefyllfa sy'n waeth. Nid wyf erioed wedi deall rhesymeg y safbwynt hwnnw.

Could I ask the Deputy Minister to consider some of the more long-term issues that have been raised? We know that in Wales at least 8,000 strays a year are collected by local authorities, and that is just the tip of the iceberg. We also know that some 20% of puppies that are bought end up as strays within two years. Those statistics are quite frightening. It is perhaps appropriate that, as Christmas approaches, we are considering this particular issue. It seems to me that there is an awful lot that we need to do as a Welsh Government, in terms of not only the regulation of puppy farming—and I have always thought that the quality of civilisation is how we look after animals and the respect we have for animals and wildlife—but the fact that this whole business has become a business. It has become, often, about fashion accessories, and the mass production of puppies within that sort of environment is something that we ought to be looking at in terms of education about responsibility and respect for animals per se, rather than as some sort of fashion accessories or playthings for society. We have much further to go on that particular issue, and I wonder what your thoughts are about what Welsh Government could be doing about that particular issue.

A gaf fi ofyn i'r Dirprwy Weinidog ystyried rhai o'r materion mwy hirdymor a godwyd? Rydym yn gwybod bod o leiaf 8,000 o gŵn strae yn cael eu casglu bob blwyddyn gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a dim ond crafu'r wyneb y mae hynny. Rydym hefyd yn gwybod bod tua 20% o'r cŵn bach sy'n cael eu prynu yn gŵn strae ymhen dwy flynedd. Mae'r ystadegau hyn yn eithaf brawychus. Mae'n briodol efallai, wrth i'r Nadolig nesáu, ein bod yn ystyried y mater penodol hwn. Mae'n ymddangos i mi fod llawer iawn y mae angen inni ei wneud yn Llywodraeth Cymru, nid yn unig o ran rheoleiddio ffermio cŵn bach—ac rwyf bob amser wedi meddwl mai'r hyn sy'n tystio i ansawdd gwareiddiad yw'r ffordd yr ydym yn gofalu am anifeiliaid a'r parch sydd gennym at anifeiliaid a bywyd gwyllt—ond hefyd y ffaith bod yr holl fusnes hwn wedi troi'n fusnes. Mae wedi dod, yn aml, yn fater o gadw cŵn fel ategolion ffasiwn, ac mae cynhyrchu cŵn bach ar raddfa enfawr yn y math hwnnw o amgylchedd yn rhywbeth y dylem fod yn ei ystyried o ran addysg ynglŷn â chyfrifoldeb a pharch tuag at anifeiliaid fel y cyfryw, yn hytrach na'u hystyried yn rhyw fath o ategolion ffasiwn neu'n deganau i gymdeithas. Mae gennym lawer o ffordd i fynd ar y mater penodol hwnnw, a tybed beth yw eich barn chi am yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud ynglŷn â'r mater penodol hwn.

15:29

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I stand to support the proposed new dog breeding regulations for Wales. However, I also have great sentiment for the comments made by William Powell AM. The RSPCA and the Dogs Trust echo themselves that these regulations do not go far enough. However, as has been said across the Chamber, this is a positive step forward for animal welfare, for animal lovers across Wales, but, more importantly, for the many puppies who will now benefit from these measures. It is very sad that Wales is known as the puppy farming capital of the UK, and, too often, we know of over-breeding, poor animal welfare and care, and significant health issues linked with the breeding of pedigree and purebred dogs, but also to include the cross-breeding of purebreds, as we now realise a designer dog culture. Too often, sadly, it is profit before the puppy.

Too often, these puppies inherit and are inbred with bone and skeletal problems and breathing issues. They often do not live a full and healthy life, and, too often, they are abandoned through no fault of their own. Genuine animal lovers wanting to give a forever home to their preferred breed often do not have the opportunity to see a healthy bitch with the sire or have no idea that the cost of few hundred pounds for a lovely looking puppy may be just a start to the hefty bills facing them when the breeding faults present. The statistics are shocking—there are 247 licensed dog breeders, although data concerning the prevalence of dog breeding in Wales is difficult to obtain, and those support agencies like the RSPCA and the Dogs Trust have great difficulties. According to local authority data, 149 are unlicensed, and 1,587 are exempt dog breeding establishments. It is essential that there is tighter regulation.

Rwyf yn sefyll i gefnogi'r rheoliadau bridio cŵn newydd arfaethedig i Gymru. Fodd bynnag, mae gennyf finnau hefyd gydymdeimlad mawr â'r sylwadau a wnaed gan William Powell AC. Mae'r RSPCA a'r Dogs Trust ill dwy'n dweud nad yw'r rheoliadau hyn yn mynd yn ddigon pell. Fodd bynnag, fel y dywedwyd ar draws y Siambr, mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen o ran lles anifeiliaid, ac i garedigion anifeiliaid ar draws Cymru, ond, yn bwysicach, i'r holl gŵn bach a fydd yn awr yn elwa ar y mesurau hyn. Mae'n drist iawn fod Cymru'n cael ei hadnabod fel pencadlys ffermio cŵn bach y Deyrnas Unedig, ac, yn rhy aml, rydym yn gwybod am broblemau ynglŷn â gor-fridio, safonau isel o ran gofal a lles yr anifeiliaid a phroblemau iechyd sylweddol sydd i gyd yn gysylltiedig â bridio cŵn pur, a chan gynnwys hefyd erbyn hyn traws-fridio cŵn pur i fodloni'r diwylliant 'cŵn wedi eu teilwra'. Yn rhy aml, yn anffodus, mae elw'n bwysicach na'r ci bach.

Yn rhy aml, mae'r cŵn bach hyn wedi'u mewnfridio ac yn etifeddu problemau esgyrn ac ysgerbydol a thrafferthion anadlu. Yn aml nid ydynt yn byw bywyd llawn ac iach, ac, yn rhy aml, fe'u gadewir heb gartref er nad ydynt wedi gwneud dim o'i le. Yn aml nid yw pobl sydd o ddifrif yn hoff o anifeiliaid ac sy'n dymuno rhoi cartref parhaol i gi o'u brîd dewisol yn cael y cyfle i weld gast iach gyda'r tad, ac nid oes ganddynt unrhyw syniad mai dim ond dechrau, efallai, fydd talu ychydig o gannoedd o bunnoedd am gi bach hyfryd, ar y biliau sylweddol y byddant yn eu hwynebu pan ddaw'r gwallau bridio i'r amlwg. Mae'r ystadegau yn frawychus—ceir 247 o fridwyr cŵn trwyddedig, er ei bod yn anodd cael gafael ar ddata yn ymwneud â pha mor gyffredin yw bridio cŵn yng Nghymru, ac mae asiantaethau cymorth fel yr RSPCA a'r Dogs Trust yn cael anawsterau mawr. Yn ôl data awdurdodau lleol, ceir 149 o fridwyr didrwydded, ac mae 1,587 yn sefydliadau bridio cŵn eithriadig. Mae'n hanfodol ein bod yn cael rheoleiddio mwy llym.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As Mick Antoniw AM said, 20% of people who bought a puppy no longer own the animal just two years later. I fully support the recommendations from the RSPCA that adopting and rehoming the many abandoned puppies and dogs would prove a benefit given the numbers currently in rescue centres, with some facing a premature death if a suitable home is not found. For me, we have to support what we have before us, but I would echo what you have said, and what other Members across this Chamber have said, that this is a start, but it is only as good as how the local authorities are able to regulate and enforce. It has to be said that the Welsh Labour Government has dramatically hit local authorities in terms of animal welfare and enforcement officers. That has to be addressed. I would like to know from the Deputy Minister, when you have seen the cuts to animal welfare, to enforcement officers and trading standards across Wales, how on earth, even with the guidance and policies that we put in place here, this is really going to be enforced.

Fel y dywedodd Mick Antoniw AC, nid yw 20% o bobl sy'n prynu ci bach yn berchen arno ddwy flynedd yn unig yn ddiweddarach. Yr wyf yn llwyr gefnogi'r argymhellion gan yr RSPCA y byddai mabwysiadu ac ailgartrefu'r nifer fawr o gŵn bach a chŵn a adawyd heb gartref yn llesol o ystyried y niferoedd sydd ar hyn o bryd mewn canolfannau achub, gyda rhai yn wynebu marwolaeth gynamserol os na ddeuir o hyd i gartref addas. O'm rhan i, mae'n rhaid i ni gefnogi'r hyn sydd gennym ger ein bron, ond byddwn yn ategu'r hyn yr ydych wedi'i ddweud, a'r hyn y mae Aelodau eraill ar draws y Siambr hon wedi'i ddweud, sef bod hyn yn ddechrau, ond nad yw ond crystal â sut y mae'r awdurdodau lleol yn gallu rheoleiddio a gorfodi. Mae'n rhaid dweud bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi taro awdurdodau lleol yn sylweddol o ran swyddogion lles anifeiliaid a swyddogion gorfodi. Mae'n rhaid rhoi sylw i hynny. Hoffwn gael gwybod gan y Dirprwy Weinidog, pan eich bod wedi gweld y toriadau i les anifeiliaid, i swyddogion gorfodi a safonau masnach ledled Cymru, sut ar y ddaear, hyd yn oed gyda'r canllawiau a'r polisiau yr ydym yn eu rhoi ar waith yma, y bydd hyn yn cael ei orfodi mewn gwirionedd.

15:32

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also a bit surprised that the Minister had nothing to say in presenting the regulations today. Perhaps that is an indication of how much she thinks of them, but I can assure you that others have not been so silent. Over the last few weeks, I have received several hundreds of e-mails from concerned dog lovers asking me to support the introduction of these regulations. Their argument is that, after years of stop and start by the Welsh Government, the Assembly must now act finally to strengthen the law to bring puppy farming to an end. However, I certainly cannot bring myself to back regulations that are not good enough, especially when the evidence for change is so substantial.

The prevalence of puppy farming in Wales is shameful. Dogs on puppy farms are often kept in shockingly poor conditions that can cause lifelong problems with their behaviour and health. It is heartbreaking, but not surprising, that one in five dogs born on a puppy farm will die within the first six months, leaving their new families devastated. This is, no doubt, animal cruelty on an industrial scale. Too many puppies are bred in puppy farms in Wales, many in Carmarthenshire and Ceredigion. It is estimated that, every year, Carmarthenshire alone produces 28,000—28,000 puppies coming from that one county alone. Puppy farms here are twice the size they are in England, and we have one farm with almost 200 breeding dogs.

Rwyf hefyd yn synnu braidd nad oedd gan y Gweinidog unrhyw beth i'w ddweud wrth gyflwyno'r rheoliadau heddiw. Efallai bod hynny'n arwydd o faint o feddwl sydd ganddi ohonynt, ond gallaf eich sicrhau nad yw pobl eraill wedi bod mor dawel. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yr wyf wedi derbyn cannoedd o negeseuon e-bost oddi wrth garedigion cŵn pryderus yn gofyn i mi gefnogi cyflwyno'r rheoliadau hyn. Eu dadl nhw yw bod yn rhaid i'r Cynulliad weithredu o'r diwedd nawr, ar ôl blynyddoedd o ddechrau ac atal ar ran Llywodraeth Cymru, i gryfhau'r gyfraith a dod â ffermio cŵn bach i ben. Fodd bynnag, ni allaf ddarbwylllo fy hun i gefnogi rheoliadau nad ydynt yn ddigon da, yn enwedig pan fo'r dystiolaeth o blaid newid mor sylweddol.

Mae nifer yr achosion o ffermio cŵn bach yng Nghymru yn gywilyddus. Mae cŵn ar ffermydd cŵn bach yn aml yn cael eu cadw mewn amodau dychrynlyd o wael sy'n gallu achosi problemau drwy gydol oes y cŵn o ran eu hymddygiad a'u hiechyd. Mae'n dorcalonnus, ond nid yw'n syndod, y bydd un o bob pump o gŵn a aned ar ffermio cŵn bach yn marw o fewn y chwe mis cyntaf, gan adael eu teuluoedd newydd yn ddigalon iawn. Mae hyn, yn ddiau, yn greulondeb i anifeiliaid ar raddfa fawr. Mae gormod o gŵn bach yn cael eu bridio mewn ffermydd cŵn bach yng Nghymru, llawer ohonynt yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Amcangyfrifir bod Sir Gaerfyrddin ar ei phen ei hun yn cynhyrchu 28,000—28,000 o gŵn bach bob blwyddyn, a hynny o un sir yn unig. Mae ffermydd cŵn bach yma ddwywaith maint y rhai yn Lloegr, ac mae gennym un fferm gyda bron i 200 o gŵn bridio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Welsh Government, working with local authorities, should make ending unethical puppy farming a priority. Ex-breeding dogs are then dumped into the voluntary rescue organisations, in very poor conditions, with chronic conditions and behavioural problems. So, in my view, these modest regulations, rather than being the vanguard for change, are a modest step forward. It is encouraging that licensed breeders will be asked to produce enrichment programmes and socialisation plans, and it is positive that the regulations require breeders to protect dogs from pain, suffering, injury and disease rather than only infectious diseases. However, as dog owners, you would surely expect them to do that anyway—you would normally look after the assets of your business. Those breeding in an ethical fashion will already be exceeding these requirements by a mile.

We must remember that we are talking about producing pets that will become part of family households. So, it is not about keeping animals in the standard adequate for farmed animals; these will be companion animals, and that is entirely different. However, requiring just one full-time attendant per 20 breeding dogs, I think, is a ridiculously lax standard and will not guarantee that each dog gets the care and attention that it needs. There has been little reassurance that the enforcement of these regulations will improve, so I am very sceptical about the impact that they will have. Breeding dogs and puppies, I think, need 24-hour day care, and one person, or one shift, in a 24-hour period is simply not adequate if they are looking after 20 dogs. So, I agree with William Powell and others who have mentioned that today.

The danger, of course, is that these regulations will enshrine insufficient standards into law, letting the Government and local authorities off the hook from taking further action. It is not good enough to say that these regulations are better than none—we should have more ambition than that, and I certainly would have tabled the amendments. So, I disagree with Mick Antoniw that our choice is these or nothing; our choice is these or tell the Government, 'Come back with something better.' That is our choice, Mick, and it is not these or nothing.

I am absolutely amazed that an industry with such an awful reputation can have more influence on this Government than animal welfare organisations. It is worth noting that the reputation of Wales is so poor with regard to the breeders here that breeders here argued that they did not want every puppy microchipped because they did not want people outside of these borders to know that the puppies came from Wales, because purchasers would not buy them. So, there is definitely evidence that breeders have had a huge influence on Government.

These regulations are a bitter disappointment, and I can tell you now, Chamber, that if puppies had votes, we would all be out.

Dylai Llywodraeth Cymru, yn gweithio gydag awdurdodau lleol, ei gwneud yn flaenoriaeth i ddod â ffermio cŵn bach mewn modd anegwyddorol i ben. Mae cŵn a ddefnyddiwyd i fridio yna'n cael eu gadael gyda'r mudiadau achub gwirfoddol, mewn amodau gwael iawn, gyda chyflyrau cronig a phroblemau ymddygiad. Felly, yn fy marn i, cam weddol fach ymlaen yw'r rheoliadau cymedrol hyn, yn hytrach na'u bod ar flaen y gad o ran newid. Mae'n galonogol y gofynnir i fridwyr trwyddedig gynhyrchu rhaglenni cyfoethogi a chynlluniau cymdeithasoli, ac mae'n gadarnhaol bod y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i fridwyr ddiogelu cŵn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd yn hytrach nag afiechydон heintus yn unig. Fodd bynnag, a hwythau'n berchnogion cŵn, byddech yn disgwyl iddynt wneud hynny beth bynnag—byddech yn naturiol yn gofalu am asedion eich busnes. Bydd y rhai sydd eisoes yn bridio mewn modd egwyddorol yn rhagori ar y gofynion hyn o bell ffordd.

Mae'n rhaid inni gofio ein bod yn sôn am gynhyrchu anifeiliaid anwes a fydd yn dod yn rhan o aelwydydd teuluol. Felly, nid yw'n ymwneud â chadw anifeiliaid i safon sy'n ddigonol ar gyfer anifeiliaid a ffermir; bydd y rhain yn anifeiliaid anwes, ac mae hynny'n hollol wahanol. Fodd bynnag, mae ei gwneud yn ofynnol i gael dim ond un gofalwr llawn amser i bob 20 ci bridio, yn safon chwerthinllyd o isel yn fy marn i, ac ni fydd yn sicrhau bod pob ci yn cael y gofal a'r sylw y mae arno ei angen. Prin yw'r sicrwydd a gawsom y bydd safonau gorfodi'r rheoliadau hyn yn gwella, felly rwyf yn amheus iawn ynglŷn â'r effaith y byddant yn ei chael. Mae angen gofal 24 awr ar gŵn bridio a chŵn bach, yn fy marn i, ac nid yw un person, neu un sifft, mewn cyfnod o 24 awr yn ddigonol ar unrhyw gyfrif os ydynt yn gofalu am 20 o gŵn. Felly, rwyf yn cytuno â William Powell ac eraill sydd wedi crybwyll hynny heddiw.

Y perygl, wrth gwrs, yw y bydd y rheoliadau hyn yn sefydlu safonau annigonol yn y gyfraith, gan ganiatáu i'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol osgoi cymryd camau pellach. Nid yw'n ddigon da i ddweud bod y rheoliadau hyn yn well na dim—dylai fod gennym fwy o uchelgais na hynny, a byddwn yn bendant wedi cyflwyno'r gwelliannau. Felly, rwyf yn anghytuno â Mick Antoniw mai'r rhain neu ddim yw'r dewis sydd gennym; ein dewis yw'r rhain neu ddweud wrth y Llywodraeth, 'Dewch yn ôl gyda rhywbeth gwell.' Dyna ein dewis, Mick, ac nid y rhain neu ddim.

Rwy'n rhyfeddu bod diwydiant ag enw mor ofnadwy o wael yn gallu cael mwy o ddylanwad ar y Llywodraeth hon na sefydliadau lles anifeiliaid. Mae'n werth nodi bod gan Gymru enw mor ddrwg o ran y bridwyr hyn bod y bridwyr sydd yma wedi dadlau nad oeddent eisiau i bob ci bach gael ei ficrosglodynno oherwydd nad oeddent yn dymuno i bobl y tu hwnt i'n ffiniau ni wybod bod y cŵn bach yn dod o Gymru, gan na fyddai unrhyw un yn eu prynu. Felly, mae'n bendant bod tystiolaeth fod bridwyr wedi cael dylanwad enfawr ar y Llywodraeth.

Mae'r rheoliadau hyn yn siom chwerw, a gallaf ddweud wrth y Siambr yn awr, pe byddai gan gŵn bach bleidlais, byddai bob un ohonom wedi colli'i sedd.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to welcome these regulations and to give them my support. I understand that it is only the Welsh Government, out of all the Governments in the UK, that is actually making an effort to do something about this awful problem. I know that we do have a particular problem in Wales, especially in west Wales, but at least the Government is trying to do something about it.

Mae'n bleser gennyf groesawu'r rheoliadau hyn ac i roi fy nghefnogaeth iddyn nhw. Deallaf mai dim ond Llywodraeth Cymru, o holl Lywodraethau'r DU, sydd yn gwneud unrhyw ymdrech i wneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem ofnadwy hon. Gwn fod gennym broblem arbennig yng Nghymru, yn enwedig yng ngorllewin Cymru, ond o leiaf mae'r Llywodraeth yn ceisio gwneud rhywbeth ynglŷn â'r peth.

I think that a lot of the key issues that I wanted to raise have been brought up. As to the minimum staff ratio of 1 per 20 adult dogs, does the Minister think that that is adequate? What is the ratio for puppies? What about the different sizes of dogs? I think that all of those are obvious questions.

Rwy'n credu bod llawer o'r materion allweddol yr oeddwn yn dymuno eu codi wedi eu crybwyll eisoes. O ran y gymhareb staff ofynnol o 1 ar gyfer 20 o gŵn yn eu llawn dwf, a yw'r Gweinidog yn credu bod hynny'n ddigonol? Beth yw'r gymhareb ar gyfer cŵn bach? Beth am gŵn o wahanol faint? Rwy'n credu bod pob un o'r rheini'n gwestiynau amlwg.

However, I particularly wanted to say how much I welcomed the socialisation plans that have to be put in with licence applications. I had a look at the socialisation plan for breeders that the Dogs Trust has put in, along with the Kennel Club, and I was really impressed by the amount of training and effort that can be put in in those first eight weeks of a puppy's life, because there is no doubt that, during that period of time, that absolutely determines how the puppy will be with the family that it eventually goes to. I have had dogs for many, many years, and I think that I did actually buy some of those early dogs from a puppy farm without realising what the situation was. I am sure that many other people have done that.

Fodd bynnag, roeddwn yn arbennig o awyddus i ddweud cymaint rwy'n croesawu'r cynlluniau cymdeithasoli y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda cheisiadau am drwydded. Cefais olwg ar y cynllun cymdeithasoli ar gyfer bridwyr a gyflwynwyd gan y Dogs Trust, ynghyd â'r Kennel Club, a gwnaed argraff fawr arnaf gan faint o hyfforddiant ac ymdrech y gellir eu gwneud yn ystod wyth wythnos gyntaf bywyd ci bach, oherwydd nid oes amheuaeth mai'r cyfnod hwnnw sy'n penderfynu'n llwyr sut y bydd y ci bach yn ymddwyn gyda'r teulu y bydd yn mynd ato yn y pen draw. Bu gennyf gŵn ers blyneddau lawer, ac rwy'n credu fy mod wedi prynu rhai o'r cŵn cynnar hynny o fferm cŵn bach heb sylweddoli beth oedd y sefyllfa. Rwyf yn siŵr bod llawer o bobl eraill wedi gwneud hynny.

Having heard about the awful conditions, and having it highlighted, that these puppies are being brought up in, I feel that it is absolutely essential that we pass these regulations today. Of course, I think that they can be improved, but I think that this is definitely a step in the right direction, and I do not think that we should delay. So, I think that the socialisation part is one of the most important bits, but, of course, the other is the enforcement by the local authorities, and how that will be carried out. Also, of course, what about the microchipping?

Ar ôl clywed am yr amodau ofnadwy y mae'r cŵn bach hyn yn cael eu magu ynddynt, a gweld hynny'n cael ei amlygu, rwyf yn teimlo ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn cymeradwyo'r rheoliadau hyn heddiw. Wrth gwrs, rwyf yn meddwl y gellir eu gwella, ond rwy'n credu bod hwn yn bendant yn gam i'r cyfeiriad cywir, ac nid wyf yn credu y dylem oedi. Felly, credaf fod y rhan ynglŷn â chymdeithasoli yn un o'r darnau mwyaf pwysig, ond, wrth gwrs, y rhan arall yw gorfodaeth gan yr awdurdodau lleol, a sut y bydd hynny'n cael ei weithredu. Hefyd, wrth gwrs, beth am y microsglodynau?

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister for Farming and Food to reply to the debate, Rebecca Evans.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i ymateb i'r ddadl, Rebecca Evans.

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food

Thank you, Presiding Officer. I thank all Members for their contribution in the debate today. For the benefit of Llyr Gruffydd and Jocelyn Davies, I only have limited time during this debate, so I thought that it would be more useful for Members if I used my time responding to some of the questions and issues that they raised, rather than setting out a stall that we all well understand.

Diolch i chi, Lywydd. Diolchaf i'r holl Aelodau am eu cyfraniad i'r ddadl heddiw. Er budd Llyr Gruffydd a Jocelyn Davies, amser cyfyngedig yn unig sydd gennyf yn ystod y ddadl hon, felly roeddwn yn teimlo y byddai'n fwy defnyddiol i Aelodau petawn i'n defnyddio fy amser yn ymateb i rai o'r cwestiynau a materion a godwyd ganddynt, yn hytrach na gosod stondin yr ydym i gyd yn gyfarwydd â hi.

I will take this opportunity, briefly, to explain the background to today's debate. I appreciate that these regulations have taken quite some time to develop, as has been referred to by several Members. However, I do have a responsibility to ensure that this secondary legislation is proportionate and reasonable, as well as being fully fit for purpose. Members will notice that I have removed the microchipping requirements from these regulations, and this is to avoid any further delay while the technical, detailed aspects of introducing compulsory microchipping are dealt with. However, I would like to reassure Members, including David Melding, Russell George and Julie Morgan, that work does continue on this and it remains a priority for me. I will keep Members updated in due course.

In Wales, these regulations will replace the dog breeding licensing requirements contained in the Breeding of Dogs Act 1973 and introduce a stricter regime of licensing conditions for people who breed dogs above a minimum threshold. There will also be new requirements, such as the minimum staff-adult dog ratio, to help safeguard welfare and the requirement to implement programmes to ensure that the socialisation needs of puppies are met. The 1:20 staff-adult dog ratio is a significant improvement on the previously proposed 1:30 ratio, and I will say a little bit more on this in a moment. The socialisation and enrichment programmes, I think, will be key in raising standards. Julie Morgan is entirely right to highlight those as particularly important aspects of the regulations.

As I mentioned earlier, these regulations have to be proportionate and reasonable, and I am determined to ensure that they are effective and enforceable. There will be some breeders currently licensed under the 1973 Act who, when their licence is due for renewal, may need to make changes to meet the higher standards introduced by these regulations. There will also be smaller-scale breeders who will need to be licensed for the first time. Therefore, I have set a commencement date of 30 April 2015 to allow for a reasonable amount of time for the legislative changes to be understood and taken into account by the breeding establishments and for local authorities to prepare for the full implementation and enforcement of these regulations.

In terms of the next steps, if the regulations are agreed, I will expect my officials in the Office of the Chief Veterinary Officer to work really closely with local authorities and the third sector to develop comprehensive guidance for local authority officers who will be issuing the licences and enforcing the licensing conditions. I will also require them to monitor and review the staff-adult dog ratio and report back to me after a full year's operation of the regulations. So, I hope that provides Russell George, John Griffiths, Julie Morgan, William Powell and others with some of the reassurance that they are seeking in that regard. I will take this opportunity to put on record my thanks to all of the organisations and local authorities who have worked with us to get us this far. I absolutely give my commitment to working personally with them at the next stages as well.

Byddaf yn manteisio ar y cyfle hwn, yn fyr, i esbonio'r cefndir i ddadl heddiw. Rwyf yn sylweddoli bod y rheoliadau hyn wedi cymryd cryn dipyn o amser i'w datblygu, fel y crybwyllwyd gan sawl Aelod. Fodd bynnag, mae gen i gyfrifoldeb i sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth hon yn gymesur ac yn rhesymol, yn ogystal â bod yn gwbl addas i'w diben. Bydd yr Aelodau yn sylwi fy mod wedi dileu'r gofynion microsglodynnu o'r rheoliadau hyn, ac mae hyn er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach tra yr ymdrinnir ag agweddau technegol, manwl cyflwyno meicrosglodynnu gorfodol. Fodd bynnag, hoffwn dawelu meddyliau'r Aelodau, gan gynnwys David Melding, Russell George a Julie Morgan, trwy ddweud bod y gwaith ar hyn yn parhau a'i fod yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi. Byddaf yn hysbysu'r Aelodau o'r newyddion diweddaraf maes o law.

Yng Nghymru, bydd y rheoliadau hyn yn disodli'r gofynion trwyddedu bridio cŵn a gynhwysir yn y Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ac yn cyflwyno trefn lymach o amodau trwyddedu ar gyfer pobl sy'n bridio cŵn uwchlaw'r trothwy isaf. Yn ogystal, bydd gofynion newydd, megis y gymhareb ofynnol leiaf o staff i gŵn ar eu llawn dwf, er mwyn helpu i ddiogelu lles a'r gofyniad i weithredu rhaglenni i sicrhau bod anghenion cymdeithasoli cŵn bach yn cael eu bodloni. Mae'r gymhareb staff i gŵn ar eu llawn dwf o 1:20 yn welliant sylweddol ar y gymhareb o 1:30 a gynigiwyd o'r blaen, a byddaf yn dweud ychydig bach mwy am hyn mewn munud. Bydd y rhaglenni cymdeithasoli a chyfoethogi, rwy'n credu, yn allweddol o ran codi safonau. Mae Julie Morgan yn gwbl gywir i dynnu sylw at y rheini fel agweddau arbennig o bwysig ar y rheoliadau.

Fel y soniais yn gynharach, mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn fod yn gymesur ac yn rhesymol, ac rwyf yn benderfynol o sicrhau eu bod yn effeithiol ac y gellir eu gorfodi. Bydd angen efallai i rai bridwyr, sydd ar hyn o bryd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf 1973, wneud newidiadau i fodloni'r safonau uwch a gyflwynwyd gan y rheoliadau hyn pan ddaw hi'n bryd iddynt adnewyddu eu trwyddedau. Yn ogystal, bydd rhai bridwyr ar raddfa lai y bydd angen trwydded arnynt am y tro cyntaf. Felly, rwyf wedi pennu dyddiad cychwyn sef 30 Ebrill 2015 i ganiatáu cyfnod rhesymol o amser i'r newidiadau deddfwriaethol gael ei ddeall a'u cymryd i ystyriaeth gan y sefydliadau bridio ac er mwyn i awdurdodau lleol gael paratoi ar gyfer rhoi'r rheoliadau hyn ar waith yn llawn a'u gorfodi.

O ran y camau nesaf, os cytunir ar y rheoliadau, byddaf yn disgwyl i fy swyddogion yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol weithio'n wirioneddol agos gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol a fydd yn cyhoeddi'r trwyddedau a gorfodi'r amodau trwyddedu. Byddaf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fonitro ac adolygu'r gymhareb staff i gŵn yn eu llawn dwf ac adrodd yn ôl i mi ar ôl blwyddyn lawn o weithredu'r rheoliadau. Felly, rwyf yn gobeithio bod hyn yn darparu peth o'r sicrwydd y maent yn ei geisio yn hynny o beth i Russell George, John Griffiths, Julie Morgan, William Powell ac eraill. Rwyf am achub ar y cyfle hwn i gofnodi fy nioch i bob un o'r sefydliadau ac awdurdodau lleol sydd wedi gweithio gyda ni i ddod mor bell â hyn. Rwyf yn ymrwymo'n bendant i weithio'n bersonol gyda nhw ar y camau nesaf hefyd.

Local authorities will be able to recoup all reasonable costs with the licence fee. So, they might want to think about ensuring that the matrix of charges that they have in place is suitable. As some Members, including Russell George and Llyr Gruffydd have highlighted, it will be important to acknowledge that the different types of dogs have different needs. For example, the needs of kennels for working dogs may vary from those dogs being bred in a home environment. Although there are no exemptions to the regulations, this guidance will provide local authority officers with the flexibility that they require to steer away from a one-size-fits-all approach. The Government has done all it can to ensure that there is a pragmatic approach taken and that there is flexibility for the enforcers to shape their licensing requirements to meet the conditions that they are faced with.

Bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill eu holl gostau rhesymol gyda'r ffi drwydded. Felly, efallai y dylent ystyried sicrhau bod y matrices taliadau sydd ganddynt ar waith yn addas. Fel yr amlygwyd gan rai Aelodau, gan gynnwys Russell George a Llyr Gruffydd, bydd yn bwysig cydnabod bod gan wahanol fathau o gŵn wahanol anghenion. Er enghraifft, mae anghenion cynelau ar gyfer cŵn sy'n gweithio yn gallu bod yn wahanol i anghenion cŵn sy'n cael eu bridio mewn amgylchedd cartref. Er nad oes eithriadau i'r rheoliadau, bydd y canllawiau hyn yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar swyddogion awdurdodau lleol i beidio â chymryd yr agwedd bod 'un rheol yn addas i bawb'. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau y cymerir agwedd bragmatig a bod hyblygrwydd i'r gorfodwyr lunio eu gofynion trwyddedu i fodloni'r amodau y maent yn eu hwynebu.

Members have raised several issues beyond the scope of the regulations, such as education, dealing with stray dogs and so forth, and I will certainly give those some further consideration. To close, I think that this legislation represents a real clear significant step forward for Wales. I am pleased to commend it to the Chamber.

Mae Aelodau wedi codi nifer o faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau, fel addysg, ymdrin â chŵn strae ac yn y blaen, a byddaf yn sicrhau yn rhoi ystyriaeth bellach i'r rhain. I gloi, rwyf yn meddwl bod y ddeddfwriaeth hon yn gam pwysig a chlir ymlaen i Gymru. Mae'n bleser gennyf ei chymeradwyo i'r Siambr.

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

15:43 **Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources to move the motion, Carl Sargeant.

Cynnig NDM5650 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2014.

The Keeping and Introduction of Fish (Wales) Regulations 2014

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol i gynnig y cynnig, Carl Sargeant.

Motion NDM5650 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Keeping and Introduction of Fish (Wales) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 November 2014.

15:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:44

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:44

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a couple of questions for clarification. May I ask the Minister to outline the criteria that will be used by Natural Resources Wales in conducting a risk assessment of non-native species? How will the process be reviewed—the time frame, if you like—to ensure that those species that are initially considered low risk are not causing damage to the aquatic environment over a period of time? The Minister will be aware that a number of respondents to the initial consultation noted that the new regulations could lead to an increase in illegal trade. So, is the Minister confident that those concerns have been fully dealt with? If so, will the Minister outline how the new enforcement powers of Natural Resources Wales will work in practice to prevent the illegal trade of high-risk non-native species? I will indicate our support today.

Mae gennyf rai cwestiynau er mwyn ceisio eglurhad. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog amlinellu'r meini prawf a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gynnal asesiad risg o rywogaethau anfforddol? Sut y bydd y broses yn cael ei hadolygu—y ffrâm amser, os mynnwch—i sicrhau nad yw'r rhywogaethau hynny yr ystyrir ar y cychwyn eu bod yn rhai risg isel yn achosi niwed i'r amgylchedd dyfrol dros amser? Bydd y Gweinidog yn gwybod bod nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cychwynnol wedi nodi y gallai'r rheoliadau newydd arwain at gynnydd mewn masnachu anghyfreithlon. Felly, a yw'r Gweinidog yn hyderus yr ymdrinwyd yn llawn â'r pryderon hynny? Os felly, a wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd pwerau gorfodi newydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio'n ymarferol i atal y fasnach anghyfreithlon mewn rhywogaethau anfforddol risg uchel? Nodaf ein cefnogaeth heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:45

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also strongly welcome these regulations today. Invasive species can pose an enormous risk to our native species. I think that everyone in the Senedd would agree on that point. It is one of the key causes of the loss of biodiversity here in Wales and, indeed, further afield. Anglers are increasingly concerned about the threats to our rivers, waterways and, indeed, still waters from invasive species, and the Angling Trust estimates that thousands of paid and volunteer hours are spent annually trying to tackle alien weeds and creatures. It is high time that we tackle this problem and I would like to thank the Minister very much today for bringing forward these regulations for the sake of fish and anglers alike.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r rheoliadau hyn heddiw yn fawr iawn. Gall rhywogaethau goresgynnol fod yn berygl aruthrol i'n rhywogaethau brodorol. Credaf y byddai pawb yn y Senedd yn cytuno â hynny. Mae'n un o'r rhesymau allweddol pam ein bod yn colli bioamrywiaeth yma yng Nghymru ac, yn wir, y tu hwnt. Mae pysgotwyr yn pryderu fwyfwy am y bygythiadau i'n hafonydd, ein dyffrydd ac, yn wir, ein dyfroedd llonydd oherwydd rhywogaethau goresgynnol, ac mae'r Ymddiriedolaeth Genweirio'n amcangyfrif bod miloedd o oriau cyflogedig a gwirfoddol yn cael eu treulio bob blwyddyn yn ceisio mynd i'r afael â chwyn a chreaduriaid estron. Mae'n bryd inni fynd i'r afael â'r broblem hon a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog heddiw am gyflwyno'r rheoliadau hyn er mwyn pysgod a genweirwyr fel ei gilydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The original consultation on these proposals, which occurred back in 2010, has provided us with plenty of time to mull over the concerns. One of the deficiencies in current legislation is that we expect NRW officers to be in the right place at the right time to catch those who would release fish without authorisation. I think that there may be an issue there, Minister, that Members would seek reassurance on in terms of the capacity of NRW to remove inappropriate fish from inland waters. However, the explanatory memorandum appears not perhaps to deal with this power in full detail. It is not clear that NRW has sufficient resource to deal with this matter fully. I would like to ask the Minister how many staff members are employed by NRW to provide the level of enforcement we are looking to deliver and how many of these are temporary workers or seasonal staff. It is my understanding that NRW is driving down its staffing levels in terms of such seasonal employment.

Mae'r ymgynghoriad gwreiddiol ar y cynigion hyn, a ddigwyddodd yn ôl yn 2010, wedi rhoi digon o amser inni i gnoi cil dros y pryderon. Un o'r diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol yw ein bod yn disgwyl i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn y lle iawn ar yr adeg iawn i ddal y rhai sy'n rhyddhau pysgod heb ganiatâd. Credaf y gallai fod problem yn hynny o beth, Weinidog, y byddai'r Aelodau'n hoffi cael sicrwydd yn ei chylch o ran gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gael gwared ar bysgod amhriodol o ddyfroedd mewndirol. Fodd bynnag, nid yw'r memorandwm esboniadol fel petai'n ymdrin â holl fanylion y grym hwn. Nid yw'n glir bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ymdrin â'r mater hwn yn llawn. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog faint o staff sy'n cael eu cyflogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu'r lefel o orfodaeth yr ydym yn awyddus i'w chyflwyno a faint o'r rhain sy'n weithwyr dros dro neu'n staff tymhorol. Rwyf ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n gostwng ei lefelau staffio o ran cyflogaeth dymhorol o'r fath.

15:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources to reply.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful for Members' support today and for the questions they have raised. These regulations are laid in parallel to regulations being laid by the Department for Environment, Food and Rural Affairs in Westminster, namely the Keeping and Introduction of Fish (England and River Esk Catchment Area) Regulations 2015.

On the issues that Russell George raises around ensuring that there is a database for the activity of licensing, that will be supported by the Starfish database, which will be managed by DEFRA. It will be accessed by enforcement officers from NRW with computerisation across Wales. I recognise the issue that both Members raised this afternoon with regard to enforcement of this. This is about the lawful activity that takes place currently and ensuring that the licensing fees for rod licences help to support these regulations and proposals. The issue of unlawful activity is something that I know NRW and other agencies are keen to clamp down on, but they are outside the remit of this Order. However, it is something I have raised with NRW and it gives me confidence in terms of its activities on enforcing lawful activities around fisheries.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau heddiw ac am y cwestiynau a godwyd ganddynt. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gosod ochr yn ochr â rheoliadau sy'n cael eu gosod gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn San Steffan, sef Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Lloegr a Dalgylch Afon Esk) 2015.

O ran y materion y mae Russell George yn eu codi ynghylch sicrhau bod cronfa ddata ar gyfer gweithgarwch trwyddedu, bydd honno'n cael ei hategu gan gronfa Starfish, a fydd yn cael ei rheoli gan DEFRA. Bydd yn cael ei defnyddio gan swyddogion gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru gyda system gyfrifiadurol ledled Cymru. Rwyf yn cydnabod y mater y mae'r ddau Aelod wedi'i godi'r prynhawn yma o ran gorfodi hyn. Mae hyn yn ymwneud â'r gweithgarwch cyfreithlon sy'n digwydd ar hyn o bryd a sicrhau bod y ffioedd trwyddedu ar gyfer trwyddedau pysgota â gwialen yn helpu i ategu'r rheoliadau a'r cynigion hyn. Mae gweithgarwch anghyfreithlon yn rhywbeth y gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill yn awyddus i roi terfyn arno, ond mae y tu allan i gylch gwaith y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i godi gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n rhoi hyder imi o ran ei weithgareddau i orfodi gweithgareddau cyfreithlon o ran pysgodfeydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that the motion be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed.

Y cwestiwn yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caethwasiaeth Fodern—Darpariaethau sy'n ymwneud ag Eiriolwyr Masnachu Plant, Canllawiau ar Adnabod a Chefnogi Dioddefwyr a Rhagdybio Oedran

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews, to move the motion.

Cynnig NDM5645 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Caethwasiaeth Fodern sy'n ymwneud ag eiriolwyr masnachu plant, canllawiau ynghylch adnabod a chefnogi dioddefwyr a rhagdybio oedran, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Legislative Consent Motion on the Y Modern Slavery Bill—Provisions relating to Child Trafficking Advocates, Guidance about Identifying and Supporting Victims and Presumption of Age

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews, i gynnal y cynnig.

Motion NDM5645 Leighton Andrews

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Modern Slavery Bill, relating to child trafficking advocates, guidance about identifying and supporting victims and presumption of age, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I welcome the opportunity to explain the background to today's legislative consent motion. I would like to thank also the Communities, Equality and Local Government Committee for its scrutiny of the issue. I note that it has not raised any objections to the motion. The UK Government introduced the Modern Slavery Bill to Parliament on 10 June, and it is expected to receive Royal Assent by next spring. The Bill consolidates and simplifies existing slavery legislation in England and Wales and also provides for an anti-slavery commissioner for the whole of the UK. This memorandum covers three clauses of the Bill relating to the introduction of child trafficking advocates, guidance about identifying and supporting victims and presumption of age. These were originally clauses 41, 42 and 43, but are now clauses 47, 48 and 49 of the Bill as it passed from the House of Commons to the House of Lords.

We support these provisions; they complement the work that we are already undertaking in Wales to tackle the issue of modern slavery. As Members will know, we have already undertaken a considerable amount of work with the powers that we have, as we discussed here recently when we debated the anti-slavery co-ordinator's annual report.

The Government is of the view that these clauses are within the Assembly's legislative competence. They relate, at least partly, to the provision of support to survivors of slavery and we have powers to legislate in this area, as it relates to social welfare and the protection and wellbeing of children. However, we are content that these provisions should be made in the Bill for both England and Wales to ensure that the devolved and non-devolved aspects of tackling modern slavery are fully integrated. Indeed, we think that, if the provisions did not apply to Wales, this could disadvantage survivors of slavery in Wales.

Our priority is to tackle slavery as effectively as possible and to continue to work closely with the Home Office, sharing our best practice in Wales and contributing to action on this issue across the whole of the UK. I therefore ask Assembly Members to support his LCM.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i egluro cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ei waith craffu ar y mater hwn. Nodaf nad yw wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Caethwasiaeth Fodern i'r Senedd ar 10 Mehefin, a disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol erbyn y gwanwyn nesaf. Mae'r Bil yn cyfnerthu ac yn symleiddio deddfwriaeth caethwasiaeth bresennol yng Nghymru a Lloegr ac mae hefyd yn darparu ar gyfer comisiynydd atal caethwasiaeth ar gyfer y DU gyfan. Mae'r memorandwm hwn yn cwmpasu tri o gymalau'r Bil sy'n ymwneud â chyflwyno eiriolwyr masnachu plant, canllawiau ynghylch adnabod a chefnogi dioddefwyr a rhagdybio oedran. Cymalau 41, 42 a 43 oedd y rhain yn wreiddiol, ond bellach cymalau 47, 48 a 49 o'r Bil ydynt wrth iddo fynd o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi.

Rydym yn cefnogi'r darpariaethau hyn; maent yn ategu'r gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Fel y gwyr yr Aelodau, rydym eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith â'r pwerau sydd gennym, fel y buom yn trafod yma'n ddiweddar pan gawsom ddadl am adroddiad blynyddol y cydlynnydd atal caethwasiaeth.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y cymalau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Maent yn ymwneud, o leiaf yn rhannol, â darparu cymorth i oroeswyr caethwasiaeth ac mae gennym bwerau i ddeddfu yn y maes hwn, i'r graddau y mae'n ymwneud â lles cymdeithasol ac amddiffyn plant a lles plant. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y dylai'r darpariaethau hyn gael eu gwneud yn y Bil ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod yr agweddau ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern sydd wedi eu datganoli a'r rhai nad ydynt wedi eu datganoli wedi'u hintegreiddio'n llwyr. Yn wir, pe na bai'r darpariaethau'n gymwys i Gymru, credwn y gallai hyn roi goreswyr caethwasiaeth yng Nghymru dan anfantais.

Ein blaenoriaeth yw mynd i'r afael â chaethwasiaeth mewn modd mor effeithiol â phosibl a pharhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref, gan rannu ein harfer gorau yng Nghymru a chyfrannu at weithredu ar y mater hwn ledled y DU. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi ei gynnis cydsyniad deddfwriaethol.

15:51

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We, too, very much support this LCM, Minister. However, I noted that your annual report on the Welsh Government's anti-slavery co-ordinator, which you published on 25 November, did not make an awful lot of mention about how well you were able to press the UK Government on ensuring that there is a good relationship between the commissioner that it will have and the co-ordinator that we have. I note that this was a recommendation raised by the Communities, Equality and Local Government Committee, so all I rise to ask is that you continue to push for that, so that we have clear co-ordination—it understands what we are doing and we understand what it is doing. I would like to know if it is going to be part of the Wales anti-slavery operational delivery group, or what input it might have in it.

Rydym ninnau hefyd yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn fawr iawn, Weinidog. Fodd bynnag, nodais nad oedd eich adroddiad blynyddol ar gydlynedd atal caethwasiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gennych ar 25 Tachwedd, yn sôn rhyw lawer am ba mor dda yr oeddech yn gallu pwysu ar Lywodraeth y DU o ran sicrhau bod perthynas dda rhwng y comisiynydd a ddaw a'r cydlynedd hwn sydd gennym. Nodaf fod hwn yn argymhelliad a godwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, felly'r cyfan yr wyf yn codi i'w ofyn yw ichi barhau i bwyso am hynny, fel bod gennym gydlynu diir—ei bod hi'n deall yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a ninnau'n deall yr hyn y mae hi'n ei wneud. Hoffwn wybod a fydd yn rhan o grŵp cyflawni gweithredol atal caethwasiaeth Cymru, neu pa fewnbwn y gallai ei gael yn hynny o beth.

15:51

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have no other speakers. I call the Minister to reply.

Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

15:52

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

I thank the opposition spokesperson for her comments and I confirm that we have had considerable contact with the UK Government in relation to the Bill and in relation to the work that we are doing here in Wales in opposition to slavery.

Diolch i lefarydd yr wrthblaid am ei sylwadau ac rwyf yn cadarnhau bod cryn dipyn o gyswllt wedi bod rhyngom a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil ac mewn perthynas â'r gwaith yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru i wrthwynebu caethwasiaeth.

I have corresponded with the Home Secretary about the Bill and we will continue to share what we have learned here in Wales about tackling slavery to inform action being taken across the rest of the UK. It is fair to say that the Home Secretary has confirmed that she is committed to working with us on modern slavery and has recognised the work that we have already undertaken here. We will use the measures in the Bill to build on the work that we have already achieved in Wales over the last few years. Our own anti-slavery co-ordinator, Stephen Chapman, works closely with a range of different organisations, including non-devolved organisations, such as the National Crime Agency, the Crown Prosecution Service, the police, the Home Office and so on, in order to raise awareness and co-ordinate joint activities. No other UK administration, let me say, has taken such a comprehensive approach to tackling slavery, as we have here in Wales.

Rwyf wedi gohebu â'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch y Bil a byddwn yn parhau i rannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yma yng Nghymru ynglŷn â mynd i'r afael â chaethwasiaeth i lywio camau sy'n cael eu cymryd ledled gweddill y DU. Mae'n deg dweud bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi cadarnhau ei bod wedi ymrwymo i weithio gyda ni ar gaethwasiaeth fodern ac wedi cydnabod y gwaith yr ydym eisoes wedi ei wneud yma. Byddwn yn defnyddio'r mesurau yn y Bil i adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes wedi'i gyflawni yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae ein cydlynedd atal caethwasiaeth ni, Stephen Chapman, yn gweithio'n agos gydag amryw o wahanol sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli, megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, y Swyddfa Gartref ac yn y blaen, er mwyn codi ymwybyddiaeth a chydlynu gweithgareddau ar y cyd. Nid oes yr un weinyddiaeth arall yn y DU, gadewch imi ddweud, wedi defnyddio ymagwedd mor gynhwysfawr i fynd i'r afael â chaethwasiaeth, ag yr ydym ni yma yng Nghymru.

Certainly, we will want to continue to work with the UK Government and alongside its new appointment, as the Bill takes effect. I think that that work has been recognised by the Home Secretary and, certainly, we will expect to work with its independent anti-slavery commissioner.

Yn sicr, byddwn am barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac ochr yn ochr â'i phenodiad newydd, wrth i'r Bil ddod i rym. Credaf fod y gwaith hwnnw wedi ei gydnabod gan yr Ysgrifennydd Cartref ac, yn sicr, byddwn yn disgwyl gweithio gyda'i chomisiynydd atal caethwasiaeth annibynnol.

15:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

15:53

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Troseddau Difrifol

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

I call the Minister for Health and Social Services to move the motion.

Cynnig NDM5646 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddau Difrifol sy'n ymwneud â chreulondeb at blant, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Legislative Consent Motion on the Y Serious Crime Bill

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig.

Motion NDM5646 Mark Drakeford

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Serious Crime Bill, relating to child cruelty in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

15:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for this opportunity to explain the background to the legislative consent motion in relation to the Serious Crime Bill. I am grateful to the Children, Young People and Education Committee for its consideration of the LCM and note that the committee reports no concerns about the approach being taken in this motion.

Diolch ichi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Troseddau Difrifol. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a nodaf nad yw'r pwyllgor yn adrodd bod unrhyw bryderon am yr ymagwedd yn y cynnig hwn.

This LCM is required because the Bill before Parliament seeks to amend the offence of child cruelty in section 1 of the Children and Young Persons Act 1933. The Bill will ensure that the ill treatment aspect of the offence includes ill treatment that is psychological as well as physical. It would, therefore, in future be an offence to treat a child in a manner likely to cause unnecessary suffering or injury to health, where that includes physical and psychological suffering or injury.

Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn oherwydd bod y Bil gerbron y Senedd yn ceisio diwygio'r drosedd creulondeb i blant yn adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Bydd y Bil yn sicrhau bod elfen cam-drin y drosedd yn cynnwys camdriniaeth seicolegol yn ogystal â chorfforol. Byddai, felly, yn y dyfodol yn drosedd trin plentyn mewn modd sy'n debygol o beri dioddefaint neu niwed diangen i iechyd, lle mae hynny'n cynnwys dioddefaint neu niwed corfforol a seicolegol.

Moreover, the Bill amends section 1 of the Children and Young Persons Act 1933 to extend the offence of child cruelty where a child under three years old is suffocated. At present, the offence includes circumstances where a child is suffocated when in bed with a person aged over 16 who is drunk. The offence is extended to include circumstances where the person over 16 is under the influence of a prohibited drug. It also removes the requirement for the suffocation to occur in bed. The scope of the offence is therefore widened and these sub-clauses were inserted following amendments tabled by Lord Bates on 11 October and agreed at the House of Lords Report Stage on 14 October.

Ar ben hynny, mae'r Bil yn diwygio adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 i estyn y drosedd creulondeb i blant lle y mae plentyn o dan dair blwydd oed yn cael ei fygu. Ar hyn o bryd, mae'r drosedd yn cynnwys amgylchiadau lle y mae plentyn yn cael ei fygu pan fydd yn y gwely gyda pherson dros 16 oed sy'n feddw. Mae'r drosedd yn cael ei hestyn i gynnwys amgylchiadau lle mae'r person dros 16 oed dan ddylanwad cyffur gwaharddedig. Mae hefyd yn dileu'r gofyniad i'r mygu ddigwydd yn y gwely. Mae cwmplas y drosedd, felly, yn cael ei ledu a chafodd yr is-gymalau hyn eu mewnosod yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Bates ar 11 Hydref ac y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 14 Hydref.

It is the view of the Welsh Government that clause 65 falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales, insofar as it relates to the protection and wellbeing of children, including adoption and fostering, and of young adults in paragraph 15, as part of Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006.

Barn Llywodraeth Cymru yw bod cymal 65 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud ag amddiffyn plant a lles plant, gan gynnwys mabwysiadu a maethu, ac oedolion ifanc ym mharagraff 15, fel rhan o Ran 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

The Welsh Government believes that it makes best sense to deal with these provisions in the UK Bill as this represents the most practicable and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in relation to Wales, given the interconnected nature of the relevant Welsh and English administrative systems. This will allow these provisions to apply in Wales at the earliest possible juncture and will enable the police and courts to continue to work together effectively with safeguarding partners in Wales to deliver a strong child protection framework. If these changes were not made in relation to Wales, it would mean that the offence of child cruelty would be far narrower in scope in Wales than it is in England. I do not believe that this would be an acceptable outcome to Members of this Assembly. I move the motion on that basis.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r peth mwyaf synhwyrol yw ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, oherwydd natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn caniatáu i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl a bydd yn galluogi'r heddlu a'r llysoedd i barhau i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol gyda phartneriaid diogelu yng Nghymru i ddarparu fframwaith amddiffyn plant cadarn. Pe na bai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn perthynas â Chymru, byddai'n golygu y byddai'r drosedd creulondeb i blant yn llawer culach ei chwmpas yng Nghymru nag yn Lloegr. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n ganlyniad derbyniol i Aelodau'r Cynulliad hwn. Cynigiau y cynnig ar y sail honno.

15:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Children, Young People and Education Committee, Ann Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ann Jones.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:56

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this debate. It allows me to briefly outline the conclusions of the Children, Young People and Education Committee in relation to this LCM. The committee considered the LCM on the Serious Crime Bill on 19 November, so I will not repeat all the points that the Minister has mentioned regarding the reasons why we were asked to look at it. On the basis of the way the memorandum has been presented and legal advice that the committee has received, we have no concerns, as the Minister has said, about the approach being taken through the Serious Crime Bill. The committee draws no issues to the attention of the Assembly.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae'n gyfle imi i amlinellu'n fras gasgliadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Ystyriodd y pwyllgor y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Difrifol ar 19 Tachwedd, felly nid wyf am ailadrodd yr holl bwyntiau y mae'r Gweinidog wedi'u crybwyll ynghylch y rhesymau pam y gofynnwyd inni edrych arno. Ar sail y ffordd y mae'r memorandwm wedi ei gyflwyno a'r cyngor cyfreithiol a gafodd y pwyllgor, nid oes gennym ddim pryderon, fel y mae'r Gweinidog wedi dweud, am yr ymagwedd a arferir drwy'r Bil Troseddu Difrifol. Nid oes dim materion y mae'r pwyllgor yn tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, due to the tight timescale set for the consideration of this LCM, the committee had insufficient time to gather any evidence to support its conclusions. While the committee understands that there are often reasons for needing to consider an LCM quickly, having such short deadlines can only have a negative impact on the quality and the detail of the scrutiny that committees can undertake.

Fodd bynnag, oherwydd yr amserlen dynn a bennwyd ar gyfer ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, nid oedd gan y pwyllgor ddigon o amser i gasglu tystiolaeth i ategu ei gasgliadau. Er bod y pwyllgor yn deall bod yn aml resymau dros fod angen ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gyflym, ni all terfynau amser byr fel hyn ond cael effaith negyddol ar ansawdd a manylder y craffu y gall pwyllgorau ei wneud.

With this particular LCM, the issues were relatively straightforward, as the Minister has said, and I do not think that any were contentious. However, there will be occasions where more detailed scrutiny will be required. On that basis, the committee would like to ask the Welsh Government to consider those points when timetabling LCMs in the future to allow committees time, if needed, to take further evidence. On the whole, we accept the proposals within the LCM.

O ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol penodol hwn, roedd y materion dan sylw'n gymharol ddidrafferth, fel y mae'r Gweinidog wedi dweud, ac nid wyf yn credu bod dim materion cynhennus. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd angen craffu mwy manwl. Ar sail hynny, hoffai'r pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried y pwyntiau hynny wrth amserlennu cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn y dyfodol er mwyn rhoi amser i bwyllgorau, os oes angen, i gymryd rhagor o dystiolaeth. Ar y cyfan, rydym yn derbyn y cynigion yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, we all support, from this side, the strengthening and the passing of this incredibly important Bill to try to protect young people throughout the whole of the UK. However, there is one small piece of clarification that I would ask for; if not from you, maybe you could ask the Westminster Government for it. The Bill calls for the inclusion of the statement 'physically or otherwise' when stating whether a child or young person is ill-treated or a person ill-treats a child or a young person. This would mean that the Bill would include, although implicitly, emotional cruelty towards children and young people as part of legislation. In that same sub-section from the 1933 Act, the 2014 Bill calls for an amendment to include whether a child suffers or is injured physically or psychologically.

Weinidog, rydym oll yn cefnogi, o'r ochr hon, cryfhau a phasio'r Bil hynod bwysig hwn i geisio amddiffyn pobl ifanc ledled y DU. Fodd bynnag, mae un darn bach o eglurhad yr hoffwn ofyn amdano; os nad gennych chi, efallai y gallech ofyn i Lywodraeth San Steffan amdano. Mae'r Bil yn galw am gynnwys y datganiad 'yn gorfforol neu fel arall' wrth ddatgan a yw plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin neu os oes rhywun yn cam-drin plentyn neu berson ifanc. Mae hyn yn golygu y byddai'r Bil, er na fyddai'n datgan hynny'n benodol, yn cynnwys creulondeb emosiynol tuag at blant a phobl ifanc fel rhan o'r ddeddfwriaeth. Yn yr un isadran o Ddeddf 1933, mae Bil 2014 yn galw am welliant i gynnwys a yw plentyn yn dioddef neu'n cael niwed corfforol neu seicolegol.

I am sorry, this sounds very technical, but I did not have the chance to ask this in any other place. My understanding from some of the legal advice that I have seen is that, actually, emotional cruelty or injury is a third category, and I am sure that none of us would like to see somebody wriggle out of being charged because what they have done to a child or a young person is deemed emotional injury or suffering. To me, psychological seems emotional as well, but I do understand that in the law, the law may not see that delineation—see that as one and may have a delineation. I would be very grateful if you could clarify that or, indeed, just press the English Ministers to make sure that they make an amendment to this so that it protects our children.

Mae'n ddrwg gennyf fod hyn yn swnio'n dechnegol iawn, ond ni chefais gyfle i ofyn hyn yn unman arall. Rwyf ar ddeall o rywfaent o'r cyngor cyfreithiol a welais fod creulondeb neu niwed emosiynol, mewn gwirionedd, yn drydydd categori, ac rwyf yn siŵr na fyddai neb ohonom am weld rhywun yn osgoi cael ei gyhuddo oherwydd bod yr hyn y mae wedi'i wneud i blentyn neu berson ifanc yn cael ei ystyried yn niwed neu'n ddioddefaint emosiynol. I mi, mae'r seicolegol yn cynnwys yr emosiynol hefyd, ond rwyf yn deall efallai, yn ôl y gyfraith, na fydd y gyfraith yn gweld y gwahaniaeth hwnnw—yn gweld hyn fel un ac efallai y bydd yn gwahaniaethu. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech egluro hynny neu, yn wir, bwysu ar Weinidogion yn Lloegr i wneud yn siŵr eu bod yn cyflwyno gwelliant i hyn er mwyn iddo amddiffyn ein plant.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I am very happy to pursue the point that Angela Burns has raised this afternoon. My understanding, at this point, is that the view of Westminster Ministers is that the extension of the law that they propose encompasses emotional cruelty as part of the definition that they have laid down, but we will clarify that with them and get the assurance that the Member is looking for.

Rwyf yn hapus iawn i fynd ar drywydd y pwynt y mae Angela Burns wedi'i godi y prynhawn yma. Fy nealltwriaeth i, ar hyn o bryd, yw mai barn Gweinidogion San Steffan yw bod yr estyniad y maent yn ei gynnig i'r gyfraith yn cwmpasu creulondeb emosiynol fel rhan o'r diffiniad y maent wedi'i bennu, ond gofynnaf iddynt am eglurhad ynglŷn â hynny ac am y sicrwydd y mae'r Aelod yn ei geisio.

May I thank Ann Jones for what she said on behalf of the committee? I fully understand the point that she made about LCM timing issues. She will understand, of course, that the Welsh Government is not in charge of much of the timetable. The amendments that were moved at the Report Stage in the House of Lords were complex and covered a range of issues beyond the matters that have been brought to the floor of the Assembly this afternoon, and it took a little while to make sure that we were bringing those matters to the floor of the Assembly that were right for us to determine here. However, the general point that the Chair of the committee makes is well understood.

A gaf fi ddiolch i Ann Jones am yr hyn a ddywedodd ar ran y pwyllgor? Deallaf yn iawn y pwynt a wnaeth am faterion amseru'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Bydd yn deall, wrth gwrs, nad Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lawer o'r amserlen. Roedd y gwelliannau a gynigiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gymhleth ac yn cwmpasu ystod o faterion y tu hwnt i'r materion sydd wedi eu dwyn i lawr y Cynulliad y prynhawn yma, a chymerodd ychydig o amser i wneud yn siŵr ein bod yn dod â'r materion hynny i lawr y Cynulliad yr oedd yn iawn inni benderfynu arnynt yma. Fodd bynnag, mae'r pwynt cyffredinol y mae Cadeirydd y pwyllgor yn ei wneud yn un yr ydym yn ei ddeall yn dda.

Just to summarise, the provisions that the Government has brought to the floor this afternoon clarify and make more comprehensive the definition in law of the offence of child cruelty, and I ask Members again to support the motion.

Yn gryno, mae'r darpariaethau y mae'r Llywodraeth wedi eu dwyn i'r llawr y prynhawn yma'n egluro ac yn gwneud yn fwy cynhwysfawr y diffiniad yn y gyfraith o'r drosedd creulondeb i blant, a gofynnaf i'r Aelodau unwaith eto gefnogi'r cynnig.

- 16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

- 16:02 **Y Gyllideb Derfynol 2015-16** **The Final Budget 2015-16** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call the Minister for Finance and Government Business to move the motion.
- Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5651 Jane Hutt

Motion NDM5651 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-2016 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 2 Rhagfyr 2014.

Approves the Annual Budget for the financial year 2015-16 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Government Business on 2 December 2014.

- 16:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*
- I move the motion.
- Cynigiau y cynnig.

Ddirprwy Lywydd, I am delivering this budget in the toughest of times for our public finances, but I remain determined to deliver the priorities of this Welsh Labour Government with a commitment to fairer shares in the recovery of our economy for a more just and equal Wales. Despite the financial challenges that we face, these principles have underpinned our budget strategy, and reflect our priority of investing in key public services, including significant additional funding for our health service and for children and young people. These are the priorities that really matter to the people of Wales and require investment for the future of our economy and our communities. This means that we must invest in measures to tackle poverty and inequality, with programmes that benefit the children and young people who most need them at key points in their lives: in their early years, in their education and when they need jobs, leading to sustainable employment. This focus requires continued investment in Flying Start, the pupil deprivation grant and Jobs Growth Wales, which this budget delivers.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn cyflwyno'r gyllideb hon ar yr adeg anoddaf i'n cyllid cyhoeddus, ond rwyf yn dal i fod yn benderfynol o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Lafur Cymru gydag ymrwymiad i gyfrannau tecach yn adferiad ein heconomi er mwyn creu Cymru fwy cyfiawn a chyfartal. Er gwaethaf yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu, yr egwyddorion hyn sydd wedi bod wrth wraidd strategaeth ein cyllideb, ac maent yn adlewyrchu ein blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys cyllid ychwanegol sylweddol i'n gwasanaeth iechyd ac i'n plant a'n pobl ifanc. Dyma'r blaenoriaethau sydd o wir bwys i bobl Cymru ac y mae angen buddsoddi ynddynt er mwyn dyfodol ein heconomi a'n cymunedau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni fuddsoddi mewn mesurau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gyda rhaglenni sydd o fudd i'r plant a'r bobl ifanc sydd eu hangen fwyaf ar adegau allweddol yn eu bywydau: yn eu blynyddoedd cynnar, yn eu haddysg a phan fydd angen swyddi arnynt, a fydd yn arwain at gyflogaeth gynaliadwy. Mae'r pwyslais hwn yn gofyn am fuddsoddi parhaus yn Dechrau'n Deg, y grant amddifadedd disgyblion a Thwf Swyddi Cymru, ac mae'r gyllideb hon yn darparu hynny.

Last week, following the autumn statement, I announced the Welsh Government's intention to allocate the £70 million health revenue consequential in 2015-16 to the Welsh NHS. This funding, together with the £425 million for the NHS that I announced alongside the draft budget, will support the health service in Wales to provide the services that people need and to undertake the reforms required to secure the long-term sustainability of the health service in Wales.

The autumn statement also announced the agreement that I have secured with the UK Government for the full devolution of business rates by April 2015, on the terms that I proposed. As a result of this agreement, there will be a recalculation of our settlement from the 2013 spending round, which will mean a net increase to the Welsh Government budget of nearly £100 million in future years. In 2015-16, this money will be used to prime the cash reserve, one of the most important new tools to enable us to manage our budget effectively as we take on responsibility for devolved tax revenues. There is much work still to be done to deliver a fair and sustainable funding settlement for Wales, as set out in our motion, unanimously supported in October in this Chamber. I know I have the support of this Chamber in negotiations with the UK Government to make progress on this key objective.

As we continue to press for fairer funding for Wales, we are also focusing on ensuring that we maximise the impact of our available budget to deliver our priorities, particularly in terms of growth and jobs. This continues to be a key priority for this Government, and we know that our interventions are working. A key component of our positive contribution to the economic recovery has been concerted action to boost infrastructure investment, providing an important short-term economic stimulus during the construction phase, while creating the conditions for increased and sustainable growth in the medium and longer term. Effective capital investment is vital to delivering modern public services, and I have been clear about the importance that I place on infrastructure investment.

Last week, I published the sixth update of the Wales infrastructure investment plan project pipeline, which provides a clear picture of infrastructure investment across Wales. The latest project pipeline now incorporates over 370 investments across Wales, with a total project value of over £40 billion, including £75 million to enable delivery of the first phase of the south Wales metro, and £218 million to deliver the penultimate stage of the £816 million A465 dualling. Our final budget for 2015-16 also includes the significant capital investment for infrastructure that I announced when we published the draft budget in September. In total, we have allocated over £100 million capital funding to support the priorities in the Wales infrastructure investment plan, including £10 million agreed as part of the budget agreement to improve transport connectivity in north Wales.

Yr wythnos diwethaf, yn dilyn datganiad yr hydref, cyhoeddais fwrriad Llywodraeth Cymru i ddyrannu'r refeniw iechyd canlyniadol o £70 miliwn yn 2015-16 i'r GIG yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn, ynghyd â'r £425 miliwn i'r GIG a gyhoeddais ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft, yn cynorthwyo'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl ac i wneud y diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Cyhoeddwyd yn natganiad yr hydref hefyd y cytundeb yr wyf wedi ei sicrhau â Llywodraeth y DU ar ddatganoli ardrethi busnes yn llawn erbyn mis Ebrill 2015, ar y telerau a gynigiais. O ganlyniad i'r cytundeb hwn, bydd ein setliad o glych gwario 2013 yn cael ei gyfrifo o'r newydd, a bydd hynny'n golygu cynnydd net i gyllideb Llywodraeth Cymru o bron i £100 miliwn yn y blynyddoedd i ddod. Yn 2015-16, bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i hybu'r gronfa arian parod wrth gefn, un o'r offerynnau newydd pwysicaf i'n galluogi i reoli ein cyllideb yn effeithiol wrth inni ysgwyddo cyfrifoldeb am arian refeniw trethi datganoledig. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau setliad ariannu teg a chynaliadwy i Gymru, fel y nodir yn ein cynnig, a gefnogwyd yn unfrydol ym mis Hydref yn y Siambr hon. Gwn fod gennyf gefnogaeth y Siambr hon yn y trafodaethau â Llywodraeth y DU i symud ymlaen ar yr amcan allweddol hwn.

Wrth inni barhau i bwysu am gyllid tecach i Gymru, rydym hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn hybu i'r eithaf effaith y gyllideb sydd ar gael er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig o ran twf a swyddi. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, ac rydym yn gwybod bod ein hymyriadau'n gweithio. Un o elfennau allweddol ein cyfraniad cadarnhaol i'r adferiad economaidd yw'r camau unedig i hybu buddsoddi mewn seilwaith, a darparu ysgogiad economaidd byrdymor pwysig yn ystod y cyfnod adeiladu, a chreu ar yr un pryd yr amodau ar gyfer mwy o dwf cynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'n rhaid wrth fuddsoddi cyfalaf effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, ac rwyf wedi bod yn glir ynglŷn â'r pwys yr wyf yn ei roi ar fuddsoddi mewn seilwaith.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais chweched diweddariad prosiect cynllun buddsoddi mewn seilwaith arfaethedig Cymru, sy'n rhoi darlun clir o fuddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru. Mae'r prosiectau arfaethedig diweddaraf bellach yn cynnwys dros 370 o fuddsoddiadau ledled Cymru, gyda chyfanswm gwerth prosiectau o dros £40 biliwn, gan gynnwys £75 miliwn i allu cyflawni cam cyntaf metro de Cymru, a £218 miliwn i gyflwyno cam olaf ond un deuli'r A465 sy'n werth £816 miliwn. Mae ein cyllideb derfynol ar gyfer 2015-16 hefyd yn cynnwys y buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn seilwaith a gyhoeddais pan gyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ym mis Medi. Gyda'i gilydd, rydym wedi dyrannu dros £100 miliwn o gyllid cyfalaf i gefnogi'r blaenoriaethau yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru, gan gynnwys £10 miliwn y cytunwyd arno fel rhan o gytundeb y gyllideb i wella cysylltedd trafnidiaeth yng ngogledd Cymru.

Since its launch in 2012, through a mix of additional capital allocations and innovative finance schemes, we have committed additional investment worth over £3.5 billion to the Welsh economy to support the priorities of our infrastructure investment plan. This, of course, includes the £500 million investment that I announced last month for phase B of the twenty-first century schools programme, which will be delivered using the non-profit distributing investment model.

Today, I am announcing that we are going further still by delivering significant new investment in priority flood and coastal risk management. Over the life of this Government, we have already allocated around £245 million of funding, including £50 million of European funding, to flood and coastal risk management. This funding, which has been allocated to support the priorities in the Wales infrastructure investment plan and our European structural funds programmes, will help our communities and our social and economic infrastructure, even during major flood and storm events such as those that we have experienced over the past two years. As we look to the future, our flood defences and risk management authorities will continue to be tested by adverse weather events. To address that challenge, I am announcing our intention to deliver £150 million of new investment in priority flood and coastal risk management from 2018. This new investment will also be delivered using an innovative funding instrument drawing on revenue budgets and the methodology of the successful local government borrowing initiative.

Taken together in 2014, the Welsh Government has committed to around £1.9 billion of innovative investment across Wales, which includes a £1 billion pipeline of non-profit distributing schemes. That is a clear signal to investors and to our people that Wales is delivering on its commitments for public sector infrastructure.

I have underpinned this budget with spending decisions that invest in our poorest and most disadvantaged communities, to tackle inequality, to militate against welfare reform, and to promise a safety net with our universal benefits. We have a responsibility to do what we can, with our levers and powers, to tackle in-work poverty for those who are struggling in their daily lives as a result of underemployment and low pay.

A focus on prevention and early intervention has been a key feature in the scrutiny of our budget, and this was reflected in the Finance Committee's report on the draft budget. There is clearly a wider commitment to this agenda, as reflected in the budget agreement and the Finance Committee report. I will build on the approach that we have taken this year to demonstrate where our money can best support preventative approaches in future budgets. This commitment is also reflected in my formal response to the Finance Committee report, which I welcomed.

Ers ei lansio yn 2012, drwy gymysgedd o ddryaniadau cyfalaf ychwanegol a chynlluniau cyllid blaengar, rydym wedi neilltuo buddsoddiad ychwanegol gwerth dros £3.5 biliwn i economi Cymru i gefnogi blaenoriaethau ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith. Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys buddsoddiad o £500 miliwn a gyhoeddais y mis diwethaf ar gyfer cam B rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a fydd yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio'r model buddsoddi dosbarthu dielw.

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi ein bod yn mynd ymhellach fyth drwy ddarparu buddsoddiad newydd sylweddol i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd blaenoriaethol. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, rydym eisoes wedi dyrannu tua £245 miliwn o gyllid, gan gynnwys £50 miliwn o gyllid Ewropeaidd, i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Bydd y cyllid hwn, sydd wedi ei ddyrannu i gefnogi'r blaenoriaethau yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru a rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop, yn helpu ein cymunedau a'n seilwaith cymdeithasol ac economaidd, hyd yn oed yn ystod digwyddiadau llifogydd a stormydd mawr megis y rhai yr ydym wedi'u profi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wrth inni edrych at y dyfodol, bydd ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd a'n hawdurdodau rheoli perygl yn parhau i gael eu trethu gan ddigwyddiadau tywydd gwael. Er mwyn ymdrin â'r her honno, rwyf yn cyhoeddi ein bwriad i ddarparu £150 miliwn o fuddsoddi newydd mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd blaenoriaethol o 2018. Bydd y buddsoddiad newydd hefyd yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio offeryn ariannu blaengar a fydd yn tynnu ar gyllidebau refeniw a methodoleg y fenter benthyca llywodraeth leol lwyddiannus.

Gyda'i gilydd yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i tua £1.9 biliwn o fuddsoddiadau blaengar ledled Cymru, sy'n cynnwys gwerth £1 biliwn o gynlluniau dosbarthu di-elw arfaethedig. Mae hynny'n arwydd clir i fuddsoddwyr ac i'n pobl fod Cymru'n cyflawni ei hymrwymiaidau ar gyfer seilwaith y sector cyhoeddus.

Yn sail i'r gyllideb hon mae penderfyniadau gwario sy'n buddsoddi yn ein cymunedau tlotaf a mwyaf difreintiedig, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, i filwrio yn erbyn diwygio lles, ac i addo rhwyd ddiogelwch gyda'n buddion cyffredinol. Mae gennym gyfrifoldeb i wneud yr hyn a allwn, gyda'n hysgogiadau a'n pwerau, i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith i'r rhai sy'n ei chael yn anodd yn eu bywydau beunyddiol oherwydd tangyflogaeth a chyflogau isel.

Mae pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar wedi bod yn nodwedd allweddol wrth graffu ar ein cyllideb, ac adlewyrchwyd hyn yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft. Mae'n amlwg bod ymrwymiad ehangach i'r agenda hon, fel yr adlewyrchir yng nghytundeb y gyllideb ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Rwyf am adeiladu ar ein hymagwedd eleni er mwyn dangos ymhle y gall ein harian gefnogi ymagweddau ataliol yn y ffordd orau mewn cyllidebau yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i adlewyrchu hefyd yn fy ymateb ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, yr oeddwn yn ei groesawu.

Our spending plans for 2015-16 will support us to deliver our priorities for Wales within the budget available, to boost our economy via investment and infrastructure, and to safeguard key public services. However, this has been a challenging budget—the most challenging since establishment of this Assembly in 1999. We have responded by targeting our resources where they are most needed to help to secure the delivery of our most cherished and important public services across Wales, now and in the future, and to contribute to a fairer and more balanced economic recovery. I commend the motion.

Bydd ein cynlluniau gwario ar gyfer 2015-16 yn ein cynorthwyo i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru o fewn y gyllideb sydd ar gael, i roi hwb i'n heconomi drwy fuddsoddi ac isadeiledd, ac i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Fodd bynnag, mae hon wedi bod yn gyllideb heriol—y fwyaf heriol ers sefydlu'r Cynulliad hwn ym 1999. Rydym wedi ymateb drwy dargedu ein hadnoddau lle y mae eu hangen er mwyn helpu i sicrhau y darperir ein gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hoff a phwysig ledled Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, ac er mwyn cyfrannu at adferiad economaidd tecach a mwy cytbwys. Cymeradwyaf y cynnig.

16:09

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I said in the draft budget debate a few weeks ago that if I were a betting man I would get the odds that the Minister would be blaming all of the Welsh Government's woes on lack of funding from the UK Government. So, I am very pleased, listening to the Minister today, that she has recently welcomed the additional net allocations of over £100 million in revenue and £8.8 million capital that will be coming to Wales following the Chancellor's autumn statement last week. You can hear the Welsh people heaving a huge sigh of relief that sense seems to have prevailed, apparently, and the £70 million Barnett consequential for health will, we are told, be spent on the NHS in Wales, unlike previous consequentials, which have not been passed on, leaving the health boards in the mess they find themselves in today.

This budget's £425 million funding for the NHS, though still falling short of proper annual protection for the health budget, might have gone some way towards filling the gap left by the chronic underfunding of the last three years, if the Government had been clear on what it wants health boards to do with it. However, of course, it has not been. As the Finance Committee's report says,

'The Minister asserts that the additional funding for health will be accompanied by reform, yet the health sector witnesses have said the funding will be used to "plug a gap".'

Minister, you cannot have it both ways. You need to clarify exactly what you expect those health boards to be doing with that money, otherwise you cannot blame us for saying that this money is too little and too late.

One thing that we do know, of course, is that the money is not going to be spent on a cancer treatment fund—oh no—even though the Labour Party in London has now said that it supports a cancer therapy fund, clearly meaning that it is bizarrely a more progressive branch of the Labour movement when it comes to healthcare. Work that one out. There have been numerous petitions, hundreds and thousands of signatures—so much for listening to the people, although I suppose you were listening to the Lib Dems.

Dywedais yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft ychydig wythnosau yn ôl y byddwn, pe bawn yn un am fetio, yn betio y byddai'r Gweinidog yn beio holl ofidiau Llywodraeth Cymru ar ddifffyg cyllid gan Lywodraeth y DU. Felly, rwyf yn falch iawn, o wrando ar y Gweinidog heddiw, ei bod yn ddiweddar wedi croesawu'r dyraniadau net ychwanegol o dros £100 miliwn o refeniw ac £8.8 miliwn o gyfalaf a fydd yn dod i Gymru yn dilyn datganiad hydref y Canghellor yr wythnos diwethaf. Gallwch glywed y Cymry yn gollwng ochenaid fawr o ryddhad oherwydd ei bod yn ymddangos mai synnwyr a orfu, mae'n debyg, ac y bydd y £70 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer iechyd, yn ôl pob sôn, yn cael ei wario ar y GIG yng Nghymru, yn wahanol i symiau canlyniadol blaenorol, na chawsant eu pasio ymlaen, sydd wedi gadael y byrddau iechyd yn y llanast y maent ynddo heddiw.

Gallai'r £425 miliwn o arian yn y gyllideb hon i'r GIG, er nad yw'n cynnig amddiffyniad blynyddol priodol i'r gyllideb iechyd, fod wedi mynd rywfaint o'r ffordd tuag at lenwi'r bwlch a adawyd gan danariannu cronig y tair blynedd diwethaf, pe bai'r Llywodraeth wedi bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae am i fyrdau iechyd ei wneud ag ef. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid yw wedi gwneud hynny. Fel y mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ei ddweud,

'Mae'r Gweinidog yn haeru y bydd diwygiadau yn cyd-fynd â'r arian ychwanegol i'r sector iechyd, ond mae tystion o'r sector iechyd wedi dweud y caiff yr arian ei ddefnyddio i "lenwi bwlch".'

Weinidog, ni allwch ei chael hi bob ffordd. Mae angen ichi egluro'n union yr hyn yr ydych yn disgwyl i'r byrddau iechyd hynny fod yn ei wneud gyda'r arian hwnnw; fel arall ni allwch weld bai arnom am ddweud bod yr arian hwn yn rhy ychydig yn rhy hwyr.

Un peth yr ydym yn ei wybod, wrth gwrs, yw nad yw'r arian yn mynd i gael ei wario ar gronfa triniaeth cancer—o na—er bod y Blaid Lafur yn Llundain yn awr wedi dweud ei bod yn cefnogi cronfa therapi cancer, sy'n amlwg yn golygu ei bod, yn rhyfedd iawn, yn gangen fwy blaengar o'r miadiad Llafur o ran gofal iechyd. Esboniwyd hynny. Bu nifer o ddeisebau, cannoedd ar filoedd o lofnodion—wfft i wrando ar y bobl, er mae'n debyg eich bod yn gwrandao ar y Democratiaid Rhyddfrydol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the economy, well, we are still waiting for the Minister to come clean on the number of apprenticeships that will not now be finished as a result of the in-year cuts being proposed. The £5 million injection of cash for Finance Wales is a sticking plaster, when it comes to looking at what Professor Dylan Jones-Evans says we really need. That organisation, Finance Wales, needs proper surgery.

In local government, there has been another fall—a 4% cut overall, and an average of 3.4% cut for local authorities. There is the scrapping of improvement grant funding and no budget for costly mergers. Come on, Minister. As recommendation 7 of the Finance Committee report has said, the Welsh Government needs to provide,

‘a realistic estimate of the costs, benefits and timescales associated with local government mergers.’

There is still no sign of the incentives for merger for local authorities, only a clear cost to local authorities considering merger.

It gets even more confusing when you look at what the Welsh Government’s explanation is of preventative spent. You just have to look at the Finance Committee’s coverage of that, with the Minister for health saying that it is 2%, the Minister for finance saying it is far more than that, and other people in the Welsh Government saying that it is the whole of the budget. So, that needs to be sorted out as well.

However, that is enough negativity. It is Christmas after all, Minister, and we can of course be thankful for the Liberal Democrats’ Christmas pre-election budget deal for Cardiff Central and Brecon and Radnorshire. The sweeteners are well versed, mainly by me in the Chamber. As you know, I am particularly fond of the £57 million earmarked for phase 1 of the eastern bay link road to the Rover Way roundabout to nowhere. Only last week, when Rover Way was closed for three days, I thought to myself, ‘If only phase 1 was already with us to channel all the traffic into this corked bottleneck, that would solve all of our problems, wouldn’t it?’ The truth is, of course, Minister, that without a commitment to the rest of the eastern bay link, this is a waste of money. It would have been better spent on other projects.

You have, of course, managed to get the Welsh Government to agree to delay the construction start date of the new M4. Well, that will be a relief to Nigel Farage, I am sure—the only person, I think, supporting the proposed route for the M4 at the moment. However, that is only delayed until after the next Assembly elections in 2016. So, that is not really as it appears, is it? You could have got a far better deal; I think the Lib Dems could have got a better deal than that.

O ran yr economi, wel, rydym yn dal i aros i'r Gweinidog ddweud y gwir ynglŷn â nifer y prentisiaethau na fydd yn awr yn cael eu gorffen yn sgil y toriadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn. Ateb dros dro yw'r chwistrelliad o £5 miliwn o arian i Gyllid Cymru, o ran edrych ar yr hyn y mae'r Athro Dylan Jones-Evans yn ei ddweud sydd ei angen arnom mewn gwirionedd. Mae angen llawdriniaeth briodol ar y sefydliad hwnnw, Cyllid Cymru.

Mewn llywodraeth leol, bu cwymp arall—toriad o 4% yn gyffredinol, a thoriad o 3.4% ar gyfartaledd i awdurdodau lleol. Mae cyllid y grant gwella yn mynd ac nid oes cyllideb ar gyfer uno, a fydd yn broses gostus. Dewch, dewch, Weinidog. Fel y mae argymhelliad 7 adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ei ddweud, mae angen i Lywodraeth Cymru roi,

‘amcangyfrif realistig o'r costau, y manteision a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag uno cyrff llywodraeth leol.’

Nid oes dim sôn am y cymhellion i awdurdodau lleol i uno, dim ond cost glir i awdurdodau lleol sy'n ystyried uno.

Mae hyd yn oed yn fwy dryslyd pan edrychwch ar esboniad Llywodraeth Cymru o wariant ataliol. Nid oes ond raid i chi edrych ar ymdriniaeth y Pwyllgor Cyllid o hynny, a'r Gweinidog iechyd yn dweud mai 2% ydyw, y Gweinidog cyllid yn dweud ei fod yn llawer mwy na hynny, a phobl eraill yn Llywodraeth Cymru'n dweud mai'r gyllideb gyfan ydyw. Felly, mae angen datrys hynny hefyd.

Fodd bynnag, dyna ddigon o fod yn negyddol. Mae'n Nadolig wedi'r cyfan, Weinidog, a gallwn, wrth gwrs, fod yn ddiolchgar am fargen Nadolig cyn yr etholiad y Democratiaid Rhyddfrydol ar y gyllideb er budd Canol Caerdydd a Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae'r abwydydd wedi eu crybwyll yn aml, yn bennaf gennyf fi yn y Siambr. Fel y gwyddoch, rwyf yn arbennig o hoff o'r £57 miliwn a glustnodwyd ar gyfer cam 1 ffordd gyswllt dwyrain y bae i gylchfan Rover Way i unman. Dim ond yr wythnos diwethaf, pan oedd Rover Way ar gau am dridiau, roeddwn yn meddwl wrthyf fy hun, 'O na byddai cam 1 eisoes gyda ni i sianelu'r holl draffig i mewn i'r dagfa hon, byddai hynny'n datrys ein holl broblemau, oni fyddai?' Y gwir yw bod hyn, wrth gwrs, Weinidog, heb ymrwymiad i weddill ffordd gyswllt dwyrain y bae, yn wastraff arian. Byddai wedi bod yn well ei wario ar brosiectau eraill.

Rydych, wrth gwrs, wedi llwyddo i ddarbwyllio Llywodraeth Cymru i gytuno i ohirio dyddiad dechrau'r gwaith o adeiladu'r M4 newydd. Wel, bydd hynny'n rhyddhad i Nigel Farage, rwyf yn siŵr—yr unig un, rwyf yn credu, sy'n cefnogi'r llwybr arfaethedig ar gyfer yr M4 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw hynny ond wedi ei ohirio tan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016. Felly, nid yw popeth fel y mae'n ymddangos, ydyw? Gallech fod wedi cael bargaen well o lawer; rwyf yn credu y gallai'r Democratiaid Rhyddfrydol fod wedi cael bargaen well na hynny.

So, in conclusion, Presiding Officer, this budget is the same old story. In short, it does not address the long-term needs of Wales. It does not protect the health budget in real terms. It does not establish a cancer treatment fund here in Wales, which even your own party in England is now promising. Just like the road to nowhere, which is in your deal with the Liberal Democrats, this budget does not actually take us anywhere sustainable and generates as many problems as it seeks to solve. It is the budget to nowhere and the Welsh Conservatives will not be supporting it.

Felly, i gloi, Lywydd, yr un hen stori yw hi gyda'r gyllideb hon. Yn gryno, nid yw'n mynd i'r afael ag anghenion hirdymor Cymru. Nid yw'n gwarchod y gyllideb iechyd mewn termau real. Nid yw'n sefydlu cronfa triniaeth canser yma yng Nghymru, y mae hyd yn oed eich plaid chi eich hun yn Lloegr yn awr yn ei haddo. Yn union fel y ffordd i unman, sydd yn eich cytundeb â'r Democratiaid Rhyddfrydol, nid yw'r gyllideb hon mewn gwirionedd yn mynd â ni i unman cynaliadwy ac mae'n creu cynifer o broblemau ag y mae'n ceisio eu datrys. Mae'n gyllideb i unman ac ni fydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ei chefnogi.

16:14

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the budget needs to be looked at in the context of the Westminster cuts in public expenditure. By 2015-16, the Welsh budget will be £1.5 billion lower in real terms than in 2010-11, or a quarter of the whole health budget, and the amount available for capital investment will be 30% lower than it was at its peak in 2009-10. Over the last four years, the Welsh Labour Government has done everything that it can to mitigate the impact of the very savage cuts imposed on the people of Wales and on Welsh public services by the Conservatives and their little helpers in Westminster. However, given the scale of the cuts that the UK Government has imposed, and the increased pressure placed on public services through actions such as the welfare reforms, it would be impossible to ensure that there was no adverse impact on services in Wales.

The long period of sustained reduction has had an impact on all services, even those that have been relatively protected. The fear is that, in future years, if the Tory-Lib Dem coalition continues in Westminster, things will only get worse and worse. There is occurring a dismantling of the state provision. Unless it is reversed, we will continue to see a decline in the quality of life and public services of the people of Wales. I have listened to speeches during the year from Peter Black and Nick Ramsay on the draft budget, when they talked about being unhappy with some of the cuts. I have also heard other Members during the last year call for support for music services, school buses, today for libraries, general support for public transport and a whole range of other services. It is amazing how you can spend £1 several times. What they have failed to do is come up with a balanced budget that replaces those cuts with others. I think the people who propose an alternative budget need to come along with suggestions. What is their alternative budget? If you add £200 million here, you have to take £200 million off somewhere else. I have not seen an alternative budget published by any opposition party. I can understand the Conservatives not doing it. Last time, they wanted to abolish all school transport, education otherwise than at school, and education and welfare officers, among the other functions carried out by the local education authority.

Credaf fod angen edrych ar y gyllideb yng nghyd-destun toriadau San Steffan i wariant cyhoeddus. Erbyn 2015-16, bydd cyllideb Cymru £1.5 biliwn yn is mewn termau real nag yn 2010-11, neu chwarter y gyllideb iechyd gyfan, a bydd y swm sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf 30% yn is nag yr oedd ar ei anterth yn 2009-10. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud ei gorau glas i liniaru effaith y toriadau llym iawn a osodir ar bobl Cymru ac ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan y Ceidwadwyr a'u helpwyr bach yn San Steffan. Fodd bynnag, oherwydd maint y toriadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gosod, a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus drwy gamau megis y diwygiadau lles, byddai'n amhosibl sicrhau nad oes dim effaith andwyol ar wasanaethau yng Nghymru.

Mae'r cyfnod hir o ostwng parhaus wedi cael effaith ar yr holl wasanaethau, hyd yn oed y rhai sydd wedi eu diogelu'n gymharol. Os bydd y glymlaid rhwng y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn parhau yn San Steffan mewn blynyddoedd i ddod, yr ofn yw y bydd pethau'n gwaethygu. Mae darpariaeth y wladwriaeth yn cael ei chwalu. Oni chaiff hynny ei wrydroi, byddwn yn parhau i weld dirywiad yn ansawdd bywyd pobl Cymru ac yn eu gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf wedi gwrandao ar areithiau yn ystod y flwyddyn gan Peter Black a Nick Ramsay am y gyllideb ddrafft, yn dweud eu bod yn anhapus â rhai o'r toriadau. Rwyf hefyd wedi clywed Aelodau eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn galw am gymorth i wasanaethau cerddoriaeth, bysiau ysgol, llyfrgelloedd heddiw, cefnogaeth gyffredinol i drafnidiaeth gyhoeddus ac amryw helaeth o wasanaethau eraill. Mae'n rhyfeddol sut y gallwch wario £1 sawl gwaith. Yr hyn y maent wedi methu â'i wneud yw cynnig cyllideb gytbwys sy'n cynnig toriadau yn lle'r rhain. Credaf fod angen i'r bobl sy'n cynnig cyllideb amgen hefyd gynniw awgrymiadau. Beth yw eu cyllideb amgen? Os ydych yn ychwanegu £200 miliwn yma, rhaid i chi gymryd £200 miliwn i fwrdd yn rhywle arall. Nid wyf wedi gweld cyllideb amgen yn cael ei chyhoeddi gan yr un o'r gwrthbleidiau. Gallaf ddeall nad yw'r Ceidwadwyr yn gwneud hynny. Y tro diwethaf, roeddent am gael gwared ar holl gludiant ysgolion, addysg heblaw yn yr ysgol, a swyddogion addysg a lles, ymhlith y swyddogaethau eraill a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:17

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way, Mike. Your party, when it was in power in the UK Government, of course, did spend the same £1 several times and they called it massive borrowing, did they not?

Diolch ichi am ildio, Mike. Gwariodd eich plaid chithau, pan oedd mewn grym yn Llywodraeth y DU, wrth gwrs, yr un £1 sawl gwaith a'i alw'n fenthycia enfawr, oni wnaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:17	Mike Hedges Bywgraffiad Biography No. The reality is that what happened in Westminster was that there was no problem with expenditure, but the bottom fell out of income when the banks collapsed. That is what happened. The revenue went down. The expenditure was never out of control. Revenue dropped, caused by the collapse. It did not just happen in this country. Greece, America, Italy, Ireland and Iceland all suffered a lot worse than we did, thanks to the work done by Gordon Brown. On the budget strategy, the budget increases health expenditure by £226 million, plus another £70 million now, which equates to a real-terms increase of £191 million, or 1.9%. This— <i>Mark Isherwood a gododd—</i>	Senedd.tv Fideo Video Naddo. Y gwir yw mai'r hyn a ddigwyddodd yn San Steffan oedd nad oedd dim problem o ran gwariant, ond syrthiodd y gwaelod allan o incwm pan gwympodd y banciau. Dyna a ddigwyddodd. Aeth y refeniw i lawr. Nid oedd y gwariant erioed allan o reolaeth. Gostyngodd y refeniw, a hynny oherwydd y cwymp. Nid dim ond yn y wlad hon y digwyddodd hynny. Dioddefodd Gwlad Groeg, America, yr Eidal, Iwerddon a Gwlad yr Iâ i gyd yn waeth o lawer nag y gwnaethom ni, diolch i waith a wnaed gan Gordon Brown. O ran strategaeth y gyllideb, mae'r gyllideb yn cynyddu gwariant ar iechyd £226 miliwn, yn ogystal â £70 miliwn arall yn awr, sy'n cyfateb i gynnydd termau real o £191 miliwn, neu 1.9%. Talwyd am hyn— <i>Mark Isherwood rose—</i>
16:18	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Are you giving way?	Senedd.tv Fideo Video A ydych yn ildio?
16:18	Mike Hedges Bywgraffiad Biography May I just finish this sentence? This has been mainly paid for by a reduction for local government of £193 million, which equates to a reduction of £262 million in real terms, or 5.7%. I certainly give way.	Senedd.tv Fideo Video A gaf fi orffen y frawddeg hon? Talwyd am hyn yn bennaf drwy ostyngiad i lywodraeth leol o £193 miliwn, sy'n cyfateb i ostyngiad o £262 miliwn mewn termau real, neu 5.7%. Rwyf yn sicr yn ildio.
16:18	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography In your international trip around Europe, you failed to mention that most of those nations ignored the need to cut back on borrowing and therefore had far bigger cuts imposed on them by the lending organisations—the same fate would have been reflected in Britain had we tried to do the same.	Senedd.tv Fideo Video Yn ystod eich taith ryngwladol o amgylch Ewrop, ni soniasoch fod y rhan fwyaf o'r gwledydd hynny wedi anwybyddu'r angen i dorri'n ôl ar fenthycia ac felly roedd toriadau llawer mwy wedi'u gosod arnynt gan y cyrff benthycia—yr un fyddai tynged Prydain pe byddem wedi ceisio gwneud yr un peth.
16:18	Mike Hedges Bywgraffiad Biography Actually, the problem for a number of them, which is perhaps something that we might agree on, is that they joined the euro, which was a serious mistake. Thankfully, Gordon Brown did not take us into it. Iceland, because it became over-dependent on banks—as Scotland would have been, actually, had it been an independent country—ended up paying for it by exporting its young people. Effectively, this is a movement of resources to hospitals from local government services, such as leisure, environmental health and social services, where activities are important in ensuring that people stay out of hospital. While all the budget does is provide resources, we also need to examine the use of those resources. We cannot continue with the view that additional money for health is good no matter how it is spent. I will raise just two health questions. How much is being spent on agency nurses and locums, and why are they not being replaced by full-time staff? The other question is: are we getting value for money out of expenditure on hospital services, or would some of the money be better spent keeping people at home, with homecare and GP support?	Senedd.tv Fideo Video A dweud y gwir, y broblem i nifer ohonynt, sydd o bosibl yn rhywbeth y gallwn gytuno arno, yw eu bod wedi ymuno â'r ewro, a oedd yn gamgymeriad difrifol. Diolch byth, ni aeth Gordon Brown â ni i mewn i hynny. Yn y pen draw, bu'n rhaid i Wlad yr Iâ, oherwydd iddi ddod yn or-ddibynnol ar y banciau—fel y byddai'r Alban wedi'i wneud, a dweud y gwir, pe bai'n wlad annibynnol—dalw am hynny drwy allforio ei phobl ifanc. I bob pwrpas, symud adnoddau sydd yma i ysbytai o wasanaethau llywodraeth leol, megis hamdden, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol, lle mae gweithgareddau'n bwysig o safbwynt sicrhau bod pobl yn aros allan o'r ysbyty. Y cyfan y mae'r gyllideb yn ei wneud yw darparu adnoddau, ac mae angen hefyd inni edrych ar y modd y defnyddir yr adnoddau hynny. Ni allwn barhau â'r farn bod arian ychwanegol ar gyfer iechyd yn dda o beth waeth sut y caiff ei wario. Dau gwestiwn yn unig sydd gennyf am iechyd. Faint sy'n cael ei wario ar nyrsys asiantaeth a meddygon locwm, a pham nad oes staff llawn amser yn dod yn eu lle? Y cwestiwn arall yw hyn: a ydym yn cael gwerth am arian o wariant ar wasanaethau ysbyty, neu a fyddai'n well gwario rhywfaint o'r arian ar gadw pobl yn eu cartrefi, gyda gofal cartref a chymorth meddygon teulu?

The pupil deprivation grant is very popular, but there are pupils just outside that. There are not rich pupils and poor pupils. There is a gradient there, and people are just above the pupil deprivation grant and they are losing out.

This budget deals with allocating a reduced budget caused by the cuts of the Tories and Lib Dems at Westminster. Hopefully, it will be last time that they attack the services of the people of Wales.

16:19

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I reiterate Plaid Cymru's position on the budget for 2015-16, it is worth recalling some of the implications of last week's autumn statement and how that will affect the fiscal outlook for Wales. The focus in the autumn statement was on the UK's economic performance, where a fragile and uneven recovery has now taken place. Bearing in mind that all economies eventually recover from recession, it remains the case that the quality and scale of the recovery here is not as strong as we would have hoped for it to be. Neither has the recovery been sufficient across the whole of the UK to meet the Chancellor's deficit reduction targets. The Office for Budget Responsibility forecasts for the size of the Welsh tax base are disappointing, and they reflect the problems with Westminster control, as opposed to Welsh control, over the levers that determine our economic fortunes. We are in a situation where a degree of UK Government infrastructure investment has been confirmed for Wales, mostly in projects that are sustainable and forward-looking, especially around rail. However, my warning is that other parts of the UK are already receiving similar sums, and the distribution of infrastructure investment across the state remains imbalanced. These are issues that Plaid Cymru would emphasise in a Westminster or UK context.

The kind of austerity that is being projected over the course of the next Westminster Parliament is a cause for deep alarm, for it will have fundamental implications for public services and local economies for all the nations of the UK. According to some of the work by the Institute for Fiscal Studies, we are only around halfway through the planned austerity programme. We are now starting to see cuts to local government in particular put libraries and leisure facilities at risk, and there is political involvement from all parties in trying to defend local services, even when those services are being reduced as a result of their own parties' policies. Given the popularity and importance of local services, particularly to those on the lowest incomes, people deserve an honest explanation of the projected financial situation for local government over the next two years, up to and including the 2016-17 budget. This honesty is yet to be forthcoming, but it is needed and it is deserved. Now, I appreciate that the debate about the reorganisation of local government is ongoing, but there are services outside of local government, and we need clarity from the Welsh Government over whether the health service's requirement for additional finance is sustainable.

Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn boblogaidd iawn, ond mae disgyblion sydd ychydig y tu allan i hynny. Nid oes disgyblion cyfoethog a disgyblion tlawd. Mae graddiant yno, ac mae pobl sydd ychydig uwchben y grant amddifadedd disgyblion ac maent ar eu colled.

Mae'r gyllideb hon yn gorfod dyrannu cyllideb lai oherwydd toriadau'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Rwyf yn gobeithio mai dyma fydd y tro olaf y byddant yn ymosod ar wasanaethau pobl Cymru.

Cyn imi ailadrodd safbwynt Plaid Cymru ar y gyllideb ar gyfer 2015-16, mae'n werth cofio rhai o oblygiadau datganiad yr hydref yr wythnos diwethaf a sut y bydd hynny'n effeithio ar y rhagolygon ariannol i Gymru. Roedd y pwyslais yn natganiad yr hydref ar berfformiad economaidd y DU, lle gwelwyd adferiad bregus ac anwastad erbyn hyn. O gofio bod pob economi yn y pen draw yn profi adferiad ar ôl dirwasgiad, nid yw ansawdd a graddfa'r adferiad yma mor gryf ag y byddem wedi'i obeithio. Ac nid yw'r adferiad ychwaith wedi bod yn ddigonol ar draws y DU gyfan i gyrraedd targedau'r Canghellor ar gyfer lleihau'r diffyg. Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer maint y sylfaen dreth yng Nghymru'n siomedig, ac maent yn adlewyrchu'r problemau o ran rheolaeth San Steffan, yn hytrach na rheolaeth Cymru, dros yr ysgogiadau sy'n pennu ein ffawd economaidd. Rydym mewn sefyllfa lle y mae rhywfaint o fuddsoddi mewn seilwaith gan Lywodraeth y DU wedi ei gadarnhau ar gyfer Cymru, yn bennaf mewn prosiectau sy'n gynaliadwy a blaengar, yn enwedig o ran y rheilffyrdd. Fodd bynnag, fy rhybudd yw bod rhannau eraill o'r DU eisoes yn derbyn symiau cyffelyb, a bod dosbarthiad y buddsoddi mewn seilwaith ledled y wladwriaeth yn dal i fod yn anghytbwys. Mae'r rhain yn faterion y byddai Plaid Cymru'n eu pwysleisio yng nghyd-destun San Steffan neu'r DU.

Mae'r math o gyni sy'n cael ei ddarogan yn ystod Senedd nesaf San Steffan yn peri pryder mawr, oherwydd bydd iddo oblygiadau sylfaenol i wasanaethau cyhoeddus ac economïau lleol yn holl wledydd y DU. Yn ôl rhywfaint o'r gwaith gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, nid ydym ond tua hanner ffordd drwy'r rhaglen gyni a gynlluniwyd. Rydym bellach yn dechrau gweld toriadau i lywodraeth leol yn arbennig yn bygwth llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden, ac mae pob plaid wleidyddol yn ceisio amddiffyn gwasanaethau lleol, hyd yn oed pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu torri oherwydd polisïau eu pleidiau hwy eu hunain. O ystyried poblogrwydd a phwysigrwydd gwasanaethau lleol, yn enwedig i'r rhai sydd ar yr incwm isaf, mae pobl yn haeddu esboniad gonest o'r sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer llywodraeth leol dros y ddwy flynedd nesaf, hyd at ac yn cynnwys cyllideb 2016-17. Ni chafwyd y gonestrwydd hwnnw eto, ond mae ei angen ac rydym yn ei haeddu. Yn awr, rwyf yn deall bod y ddadl am ad-drefnu llywodraeth leol yn parhau, ond mae gwasanaethau y tu allan i lywodraeth leol, ac mae angen i Lywodraeth Cymru egluro a yw gofyniad y gwasanaeth iechyd am gyllid ychwanegol yn gynaliadwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to reiterate Plaid Cymru's position on the budget as it was presented in the deal between the Welsh Government and the Liberal Democrats, as it is debated today. Some of the priorities reflect the previous agreements made by Plaid Cymru and the Welsh Government with the Welsh Liberal Democrats. There are elements of the budget that we broadly support. We found agreement on the pupil deprivation grant, and we welcome the scrutiny of how that grant is being used, but we remain concerned that this Government's spending plans do not represent an all-Wales approach. Plaid Cymru's position on the Welsh Government's preferred route for the M4 corridor around Newport is well-known. We want improvements, but the option proposed is not the best one. We decided that we could not continue with budget negotiations because of the way that decision was made, and we remain critical of the way that resources for infrastructure investment are distributed across the country.

In the previous debate, when this budget was at the draft stage, we recognised that we are likely to remain in challenging economic and fiscal circumstances for a time to come, and that is why, in Plaid Cymru, we have placed so much emphasis on fair funding and on recognising our past underfunding. It is why we now put the case for financial parity with Scotland. However, without that, there is still more that we can do today. We want public spending today to ease the pressures of the future. The effect of increasing health spending defines this budget and it defines the impact I have already outlined for local government. It is essential that we invest to keep people out of hospital to save money in the long run, and the most sensible destination for that investment is in preventative measures. We know that the intermediate care fund, valued at £50 million in the previous Plaid Cymru budget deal, was a success and has resulted in projects that have reduced some hospital admissions.

Hoffwn ailadrodd safbwynt Plaid Cymru ar y gyllideb fel y'i cyflwynwyd yn y fargen rhwng Llywodraeth Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel sy'n cael ei drafod heddiw. Mae rhai o'r blaenoriaethau'n adlewyrchu cytundebau blaenorol a wnaed gan Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae elfennau o'r gyllideb yr ydym yn eu cefnogi'n gyffredinol. Bu cytundeb ar y grant amddifadedd disgyblion, ac rydym yn croesawu'r craffu ar y ffordd y mae'r grant yn cael ei ddefnyddio, ond rydym yn dal i bryderu nad yw cynlluniau gwariant y Llywodraeth hon yn cyfleu ymagwedd Cymru gyfan. Mae safbwynt Plaid Cymru ar y llwybr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn hysbys. Rydym am weld gwelliannau, ond nid yr opsiwn a gynigiwyd yw'r un gorau. Penderfynasom na allem barhau â'r trafodaethau ar y gyllideb oherwydd y ffordd y gwnaed y penderfyniad hwnnw, ac rydym yn parhau i fod yn feirniadol o'r ffordd y mae adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn cael eu dosbarthu ledled y wlad.

Yn y ddadl flaenorol, pan oedd y gyllideb hon yn y cyfnod drafft, roeddem yn cydnabod ein bod yn debygol o fod mewn amgylchiadau economaidd ac ariannol heriol am beth amser i ddod, a dyna pam yr ydym, ym Mhlaid Cymru, wedi rhoi cymaint o bwyslais ar ariannu teg ac ar gydnabod ein tanariannu yn y gorffennol. Dyna pam yr ydym yn awr yn cyflwyno'r achos dros gydraddoldeb ariannol â'r Alban. Fodd bynnag, heb hynny, mae mwy y gallwn ei wneud heddiw. Rydym am weld gwariant cyhoeddus heddiw i ysgafnhau pwysau'r dyfodol. Mae effaith cynyddu gwariant ar iechyd yn diffinio'r gyllideb hon, ac mae'n diffinio'r effaith yr wyf eisoes wedi'i hamlinellu ar gyfer llywodraeth leol. Mae'n hollbwysig ein bod yn buddsoddi i gadw pobl allan o'r ysbyty er mwyn arbed arian yn y tymor hir, a mesurau ataliol yw'r lle mwyaf synhwyrol ar gyfer y buddsoddiad hwnnw. Gwyddom fod y gronfa gofal canolraddol, y rhoddwyd gwerth o £50 miliwn arni ym margin flaenorol Plaid Cymru ar y gyllideb, wedi bod yn llwyddiant ac wedi arwain at brosiectau sydd wedi lleihau rhai derbyniadau i'r ysbyty.

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You need to finish with this, please.

Mae angen ichi orffen gyda hyn, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:25

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is regrettable that this budget does not deliver for all parts of the country, it does not help to unlock our potential, and it is regrettable that there has not been more emphasis on prevention. It is for those reasons that Plaid Cymru's support for this budget has not been secured on this occasion.

Mae'n resyn nad yw'r gyllideb hon yn cyflawni ar gyfer pob rhan o'r wlad, nad yw'n helpu i ryddhau ein potensial, ac mae'n resyn na fu mwy o bwyslais ar atal. Am y rhesymau hynny nid yw cefnogaeth Plaid Cymru i'r gyllideb hon wedi'i sicrhau ar yr achlysur hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As someone who takes a keen interest in history, I was a bit disappointed by Mike Hedges's contribution, because the facts belie some of the claims that he made in relation to the last Labour Government. For example, the country was in fact in deficit before the 2008 bank crash and, as a result of that, debt was building up as a consequence. When you look at the 2009 budget, which was produced by Alistair Darling, the cuts that he envisaged for this parliamentary term were actually deeper and more severe in terms of the National Assembly than those delivered by the present coalition Government—and that applied to revenue and capital as well.

However, clearly, this is about the budget that is in front of us today. This is not a matter of blaming anyone, but about us dealing with what we can with the resources we have. I am very pleased and proud that the Welsh Liberal Democrats engaged with the Welsh Government in terms of this budget and did our best to influence it. As a result of that, the deal that we struck with the Welsh Government reflected some of the priorities that we wanted to see in this budget. It was a deal based around specific issues, as opposed to the whole budget, which is why we will be abstaining, because there are issues in the budget that we still do not agree with. However, clearly, we got a much better deal for young people and we got a much better deal on a whole range of issues in terms of transport, including on what Nick Ramsay referred to as the road to nowhere, which will actually have a big impact on Cardiff city centre and the way that traffic works in Cardiff, as well as the other capital schemes in north Wales and elsewhere that were part of that budget deal. I listened to what Leanne Wood said—

A minnau'n ymddiddori mewn hanes, roeddwn braidd yn siomedig â chyfraniad Mike Hedges, gan fod y ffeithiau'n gwrth-ddweud rhai o'r honiadau a wnaeth am y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Er enghraifft, roedd y wlad mewn gwirionedd mewn diffyg cyn cwmpw banciau 2008 ac, o'r herwydd, roedd y ddyled yn cronni. Pan edrychwch ar gyllideb 2009, a gynhyrchwyd gan Alistair Darling, roedd y toriadau yr oedd yn eu darogan ar gyfer y tymor seneddol hwn mewn gwirionedd yn ddyfnach ac yn fwy difrifol o safbwynt y Cynulliad Cenedlaethol na'r rhai sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth glymblaid bresennol—ac roedd hynny'n wir am refferniw a chyfalaf hefyd.

Fodd bynnag, yn amlwg, mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb sydd ger ein bron heddiw. Nid yw'n fater o roi'r bai ar neb, ond yn fater o ymdrin â'r hyn a allwn gyda'r adnoddau sydd gennym. Rwyf yn fodlon ac yn falch bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru o ran y gyllideb hon ac wedi gwneud ein gorau i ddylanwadu arni. O'r herwydd, roedd y fargen rhyngom a Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu rhai o'r blaenoriaethau yr oeddem am eu gweld yn y gyllideb hon. Roedd yn fargen a oedd yn seiliedig ar faterion penodol, yn hytrach na'r gyllideb gyfan, a dyna pam y byddwn yn ymatal, oherwydd mae problemau yn y gyllideb nad ydym yn cytuno â hwy o hyd. Fodd bynnag, wrth gwrs, cawsom fargen well o lawer i bobl ifanc a chawsom fargen well o lawer ar ystod eang o faterion o ran trafnidiaeth, gan gynnwys yr hyn y mae Nick Ramsay'n cyfeirio ati fel y ffordd i unman, a fydd mewn gwirionedd yn cael effaith fawr ar ganol dinas Caerdydd a'r ffordd y mae traffig yn gweithio yng Nghaerdydd, yn ogystal â'r cynlluniau cyfalaf eraill yn y gogledd ac mewn mannau eraill a oedd yn rhan o fargen y gyllideb. Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd Leanne Wood—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, Nick.

Gwnaf, Nick.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I and my party support the eastern bay link, but what I am pointing out is that if you try to build just one part of that link, without the other parts promised down the road, you are going to create a congestion problem in the short to medium term.

Rwyf fi a fy mhlaidd yn cefnogi ffordd gyswllt dwyrain y bae, ond yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw hyn: os ceisiwch adeiladu un rhan yn unig o'r ffordd gyswllt, heb y rhannau eraill a addawyd yn nes ymlaen, byddwch yn creu problem o ran tagfeydd yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think, Nick, that, if you study that link, you will find that on its own it will have a huge impact on traffic in Cardiff and it opens up the potential for further sections of that road to be built later. Maybe that is a matter for another budget deal in the future, and we can talk about that then.

Wel, rwyf yn meddwl, Nick, os astudiwch y ffordd gyswllt honno, y gwelwch y bydd ar ei phen ei hun yn cael effaith aruthrol ar draffig yng Nghaerdydd ac mae'n cynnig potensial ar gyfer adeiladu rhagor o rannau o'r ffordd honno yn nes ymlaen. Efallai fod hynny'n fater ar gyfer bargaen cyllidebol arall yn y dyfodol, a gallwn siarad am hynny bryd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was just about to refer to Leanne Wood's contribution, and I accept very much the criticisms that she made, but, of course, Plaid Cymru did not take part in these negotiations—it chose to step aside from them. It is all very well being critical of a budget, but, if you had the opportunity to influence it and then did not do so, then I think that people can read that criticism for what it is.

We welcome that key aspects of this budget are due to our negotiations and will benefit many people in Wales in many and varied ways. We secured increased investment in education, ensuring that the pupil deprivation grant will continue for the next two years and will be extended to the under-fives. That will ensure a better future for pupils from deprived backgrounds. It involves additional support for pupils from more disadvantaged backgrounds by boosting funding for the pupil deprivation grant so that it rises to £1,050 per pupil next year, and £1,150 per pupil the year after. It is essential that we break the link between poverty and low attainment, which this continued pupil deprivation grant will go some way towards achieving. I very much welcome the fact that the evaluations that have so far been published have shown that it is having an impact, although clearly we can always refine this policy to make it better.

Our aim is to ensure that children and young people get the best opportunities in life, and this is continued beyond the pupil deprivation grant with the support that we have put in place for young people to access education and employment through discounted bus travel via the young travellers concessionary fare scheme, which we look to come into place from September next year. We have also negotiated additional investment in young parents, setting in train a pilot study that will provide support for young students who are parents by helping them with the cost of childcare.

Our support does not end with young people in education. In addition, we have reversed at least some of the planned cuts to apprenticeships by funding 5,000 new apprenticeships over the coming two years. Just to correct what Nick Ramsay said earlier, all of the existing apprenticeships will be seen through to the end, so there are no apprenticeships that are being cut short as a result of the budget that we have in front of us today.

We all appreciate the need for increased capital investments in Wales, so we have secured a £95 million capital investment infrastructure that will help to provide a strong boost for jobs and the economy. This included bringing forward investment in the Llandrindod Wells County War Memorial Hospital and, of course, in the Cardiff bay eastern link road, as well as money to improve connectivity in north Wales. I am proud of the fact that the Welsh Liberal Democrats, the smallest political party in this Assembly, have been able to work constructively with the minority Welsh Labour Government to produce such favourable results.

Yr oeddw'n ar fin cyfeirio at gyfraniad Leanne Wood, a derbyniaf yn llwyr y feirniadaeth a wnaeth, ond, wrth gwrs, ni chymerodd Plaid Cymru ran yn y trafodaethau hyn—dewisodd gamu o'r neilltu. Mae'n ddigon hawdd bod yn feirniadol o'r gyllideb, ond, os cawsoch gyfle i ddylanwadu arni ac na wnaethoch hynny, yna credaf y gall pobl weld pa werth sydd i'r feirniadaeth honno.

Mae'n dda gennym fod agweddau allweddol ar y gyllideb hon yn ganlyniad i'n cyd-drafodaethau ac y bydd o fudd i lawer o bobl yng Nghymru mewn ffyrdd niferus ac amrywiol. Rydym wedi sicrhau mwy o fuddsoddi mewn addysg, gan sicrhau y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn parhau am y ddwy flynedd nesaf ac yn cael ei estyn i blant dan bump oed. Bydd hynny'n sicrhau dyfodol gwell i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae'n cynnwys cymorth ychwanegol i ddisgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig trwy gynyddu'r cyllid ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion fel ei fod yn codi i £1,050 fesul disgybl y flwyddyn nesaf, a £1,150 fesul disgybl y flwyddyn wedyn. Mae'n hanfodol ein bod yn torri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel, a bydd y grant amddifadedd disgyblion parhaus hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at wneud hynny. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith bod y gwerthusiadau sydd wedi eu cyhoeddi hyd yma'n dangos ei fod yn cael effaith, er y gallwn, wrth gwrs, bob amser fireinio'r polisi hwn i'w wneud yn well.

Ein nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd, ac mae hyn yn parhau y tu hwnt i'r grant amddifadedd disgyblion gyda'r cymorth yr ydym wedi'i roi ar waith i bobl ifanc i gael addysg a chyflogaeth drwy deithio ar fysiau am bris gostyngol drwy'r cynllun teithio rhatach i deithwyr ifanc, yr ydym yn bwriadu iddo ddod i rym o fis Medi y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd wedi trafod buddsoddi ychwanegol mewn rhieni ifanc, gan roi astudiaeth beilot ar waith a fydd yn rhoi cymorth i fyfyrwyr ifanc sy'n rhieni trwy eu helpu â chostau gofal plant.

Nid yw ein cefnogaeth yn dod i ben â phobl ifanc mewn addysg. Yn ogystal, rydym wedi gwyrddoi o leiaf rai o'r toriadau arfaethedig i brentisiaethau drwy ariannu 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Hoffwn gywiro'r hyn a ddywedodd Nick Ramsay yn gynharach; bydd pob un o'r prentisiaethau cyfredol yn cael eu cwblhau, felly nid oes yr un brentisiaeth yn dod i ben oherwydd y gyllideb sydd ger ein bron heddiw.

Rydym i gyd yn deall yr angen am fwy o fuddsoddi cyfalaf yng Nghymru, felly rydym wedi sicrhau seilwaith buddsoddi cyfalaf o £95 miliwn a fydd yn helpu i roi hwb cryf i swyddi a'r economi. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno buddsoddiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod ac, wrth gwrs, yn ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd, yn ogystal ag arian i wella cysylltedd yng ngogledd Cymru. Rwyf yn falch o'r ffaith bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y blaid wleidyddol leiaf yn y Cynulliad hwn, wedi gallu gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth leiafrifol Lafur Cymru i sicrhau'r canlyniadau ffafriol hyn.

Mae safbwynt Plaid Cymru am y fargen ar y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol eisoes wedi cael ei datgan yn glir gan Leanne Wood. Byddwn innau yn pwysleisio bod yr anghydbwysedd yn y gwariant ar gynlluniau cyfalaf yn annheg a disynnwyr.

I droi at y gyllideb a'r arian sy'n cael ei wario ar iechyd, gwyddom y bydd y gwasanaeth iechyd yn derbyn £225 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb hon. Dywedodd y Gweinidog bod y swm hwn o arian yn cwrdd ag argymhellion adroddiad Nuffield i greu gwasanaeth iechyd cynaliadwy. Roedd y ffigur o £200 miliwn yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad hwnnw. Ers y gyllideb ddrafft, cawsom gadarnhad y caiff arian dilynol Barnett, sy'n codi o ddatganiad yr hydref, ei neilltuo i iechyd yn unol â pholisi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Mae hynny'n rhyw £70 miliwn ychwanegol. Y cwestiwn sydd gen i i'r Gweinidog yw: a yw'r arian ychwanegol ar gyfer iechyd, felly, wedi ei glymu i gyrraedd unrhyw ddeilliannau ychwanegol y tu hwnt i agenda Nuffield, neu ai chwistrelliad o arian unwaith ac am byth ydyw?

Ymhellach, a yw'r dyraniad hwn yn cwrdd â'r angen i integreiddio mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol? Gwyddom mai'r amcan allweddol ar gyfer gwneud y gwasanaeth iechyd yn ariannol gynaliadwy yw cadw pobl allan o'r ysbyty, a byddai adfer y gronfa gofal canolraddol, a oedd, fel y gwyddom, yn llwyddiant, yn gam amlwg y gellid ei gymryd gyda'r cyllid ychwanegol hwn.

Yn y cyd-destun hwnnw, rwyf am gyfeirio at gronfa Cefnogi Pobl. Rydych chi, Weinidog, wedi dweud bod llawer o'r gyllideb yn wariant ataliol—'preventative'. Fodd bynnag, mae cyllideb Cefnogi Pobl wedi cael ei dorri gennych chi, sef arian sy'n mynd yn uniongyrchol i'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Gan fod yr arian ychwanegol hwn wedi dod i Gymru yn dilyn datganiad yr hydref, pam na wnewch chi ddefnyddio peth o'r arian hwn i adfer cronfa Cefnogi Pobl a chadw pobl rhag gorfod mynd ar ofyn y gwasanaeth iechyd? Mae hwn yn bwynt cyffredinol a wnaed gan Mike Hedges mewn cyd-destun arall, ac mae'n un yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr.

I droi at grant amddifadedd disgyblion, mae hwn i'w groesawu, ond rydym ni ym Mhlaid Cymru yn gofyn am ystyried set ehangach o feini prawf ar gyfer dosbarthu'r grant. Rydym wedi gofyn hefyd am sefydlu pa mor effeithiol fu'r grant yn y gorffennol. Gwyddom fod adolygiad ar y gweill yn 2015, ond nid ydym yn beirniadu'r elfen hon o'r gyllideb.

Plaid Cymru's position on the budget deal between the Welsh Government and the Liberal Democrats has already been stated clearly by Leanne Wood. I too would emphasise that the lack of balance in the expenditure on capital schemes is unfair and does not make sense.

To turn to the budget and the money that is being spent on health, we know that the health service will receive an additional £225 million in this budget. The Minister has said that that amount of money meets the recommendations of the Nuffield report to create a sustainable health service. A figure of £200 million was mentioned in that report. Since the draft budget, we have had confirmation that Barnett consequential funding, as a result of the autumn statement, will be allocated to health in accordance with UK Government policy. That is an additional £70 million. The question that I have for the Minister is this: is the additional funding for the health service, therefore, tied to achieving any additional outcomes beyond the Nuffield agenda, or is it a one-off injection of funding?

Furthermore, does this allocation meet the need to further integrate health and social care? We know that the key aim for ensuring that the health service is financially sustainable is to keep people out of hospital, and that restoring the intermediate care fund, which was, as we know, a success, would be a clear step forward that could be taken with this additional funding.

In that context, I want to refer to the Supporting People fund. You have said, Minister, that a great deal of the funding is preventative spend. However, the Supporting People budget has been cut by you, and this is funding that goes directly to the most vulnerable in our society. Given that this additional funding has come to Wales following the autumn statement, why will you not use some of that money to reinstate the Supporting People fund and to prevent people from having to turn to the health service? This was a general point made by Mike Hedges in another context, and a point that I support entirely.

To turn to the pupil deprivation grant, this is to be welcomed, but we in Plaid Cymru call for consideration of a wider set of criteria for allocating the grant. We have also called for the effectiveness of the grant in the past to be established. We know that a review is in the pipeline for 2015, but we are not criticising this element of the budget.

I droi at un mater arall, sef datganoli trethi busnes, mae'r broses hon yn mynd rhagddi ac i'w chroesawu yn fawr iawn. Fodd bynnag, ni wyddom ni eto beth yn union yw'r ymwneud rhwng trethi busnes a'r grant bloc Cymreig. Soniwyd am setliad ariannol yn natganiad yr hydref, ond nid oedd y manylion yn glir. Felly, y tu hwnt i gyllideb derfynol heddiw, dylai'r Gweinidog gyflwyno esboniad llawn o'r modd y bydd referniw o drethi busnes yn effeithio ar y gyllideb Gymreig—beth fydd y 'consequential' a sut fydd y Llywodraeth yn gwario unrhyw arian ychwanegol? Gwyddom, o ymweliad y bu'r Gweinidog a minnau hefyd arno fel rhan o'r Pwyllgor Cyllid â'r Alban yn ddiweddar, eu bod nhw mewn dadl efo Llywodraeth Llundain am y newidiadau i'r grant bloc yn sgîl trosglwyddo cyfrifoldeb y dreth stamp. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni fel Aelodau yn cael gwybod cyn gynted â phosibl beth yw'r fargen sydd yn cael ei tharo gyda'r Trysorlys ar y mater, achos, os yw trosglwyddo cyfrifoldeb fel hyn yn digwydd ond bod y gyllideb Gymreig yn dioddef o'r herwydd, mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le ar y setliad. Gyda hynny o eiriau, mi derfynaf.

Turning to one final matter, which is the devolution of business rates, this process is progressing and it to be warmly welcomed. However, we do not yet know what exactly the relationship between business rates and the Welsh block grant will be. A financial settlement was referred to in the autumn statement, but the details were not clear. Therefore, over and above the final budget today, the Minister should explain fully how revenue from business rates will affect the Welsh budget—what will the consequential be and how will the Government spend any additional funding? We know, from a visit that the Minister, and I as part of the Finance Committee, made to Scotland recently, that they are in dispute with the UK Government about changes to the block grant following the devolution of stamp duty responsibilities. So, I think that it is important that we as Members are informed as soon as possible about the deal being struck with the Treasury on this matter because, if this devolution of responsibility is to happen and the Welsh budget suffers as a result, it is clear that there is something wrong with the settlement. With those few words, I will conclude.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:34.

Sandy Mewies took the Chair at 16:34.

16:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Our final budget proposals have been shaped by our priorities for Wales, and they do reflect the increasingly tough decisions we have faced to manage within a reducing budget. If we look at this, we can see that we have done everything we can to mitigate the impact on public services and communities, providing a safety net for the most vulnerable and hardest hit. We must not forget that the cumulative cuts to our budget are the root cause of some of the tough decisions we have faced, which have been mentioned this afternoon.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru wedi llywio ein cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb, ac maent yn adlewyrchu'r penderfyniadau cynyddol anodd yr ydym wedi'u hwynebu er mwyn dod i ben â chyllideb sy'n lleihau. Os edrychwn ar hyn, gallwn weld ein bod wedi gwneud popeth a allwn i liniaru'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus a chymunedau, gan ddarparu rhwyd ddiogelwch i'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai y mae hyn yn effeithio fwyaf arnynt. Rhaid inni beidio ag anghofio mai'r toriadau cronuss i'n cyllideb sydd wrth wraidd rhai o'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu, sydd wedi eu crybwyll y prynhawn yma.

Yes, Nick Ramsay, we welcomed the additional net allocations of £113.2 million revenue and £8.8 million capital to the Welsh Government's baseline for 2015-16. Of course, this allocation can go some way towards redressing the damage that deep cuts in public services provision have done to people in Wales and across the UK. However, our budget is still 9% less now than it was in 2010. Of course, the additional allocation does reflect our Barnett consequentials of UK Government decisions. As Alun Ffred has said, a number of other announcements were included in the autumn statement on business rates, education, transport and housing, and we now need to take time to digest the details around these areas before determining a way forward in Wales.

Oeddem, Nick Ramsay, roeddem yn croesawu'r dyraniadau net ychwanegol o £113.2 miliwn mewn referniw a chyfalaf o £8.8 miliwn i waelodlin Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Wrth gwrs, gall y dyraniad hwn fynd beth o'r ffordd tuag at unioni'r difrod y mae toriadau dwfn i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wedi'i wneud i bobl yng Nghymru a ledled y DU. Fodd bynnag, mae ein cyllideb yn dal i fod 9% yn llai yn awr nag yr oedd yn 2010. Wrth gwrs, mae'r dyraniad ychwanegol yn adlewyrchu ein symiau canlyniadol Barnett o benderfyniadau Llywodraeth y DU. Fel y dywedodd Alun Ffred, roedd nifer o gyhoeddiadau eraill yn natganiad yr hydref ar ardrethi busnes, addysg, trafnidiaeth a thai, ac mae angen yn awr inni gymryd amser i dreulio'r manylion ynghylch y meysydd hyn cyn penderfynu ar ffordd ymlaen yng Nghymru.

As I said, the extra allocation last week will not make up for the deep cuts we have received in previous years and nor does it come anywhere close to addressing the £300 million a year we have lost as a result of unfair funding. However, I am hopeful that we can resolve the funding question in the near future, and we are negotiating, of course, to achieve a funding floor. However, let us look at that bigger picture, which is not so promising. Let us go back to 2010, the start of this Tory-led Government, when the Chancellor said that they were going to balance the books before next May. As a result of their failure to deliver rising living standards, they have now actually borrowed £219 billion more than was planned in this Parliament and people are now, on average, £1,600 worse off every year. Leanne Wood commented on the fact that the future for public spending and the knock-on effects on services remain unimaginably difficult in the years to come. Of course, that was confirmed by not only the Institute for Fiscal Studies but the Office for Budget Responsibility last week, when they both said that the Chancellor is taking us towards a point where the state is changed beyond all recognition. However, the autumn statement itself confirmed that the UK Government's indicative plans for the next spending review period imply further very severe cuts in Government spending, and that is departmental spending and more hits through welfare reform.

I just want to comment on the points made about the health service. The extra £70 million of revenue funding that I announced for health following the autumn statement builds on the budget strategy, which has underpinned our budgets in recent years. As a result of the decision, we have increased investment in the health service by more than £0.5 billion. That is what the people of Wales want to hear, not the churlish response we hear from the Welsh Conservatives. This shows our clear commitment to a sustainable NHS in Wales, based on the reforms outlined in the Nuffield report.

Nick Ramsay a gododd—

Fel y dywedais, ni fydd y dyraniad ychwanegol yr wythnos diwethaf yn gwneud iawn am y toriadau dwfn a gawsom yn y blynyddoedd cyn hynny ac nid yw ychwaith yn dod yn agos at fynd i'r afael â'r £300 miliwn y flwyddyn yr ydym wedi'i golli oherwydd ariannu annheg. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y gallwn ddatrys y mater ynghylch ariannu yn y dyfodol agos, ac rydym yn trafod, wrth gwrs, i sicrhau arian gwaelodol. Fodd bynnag, gadewch inni edrych ar y darlun ehangach; nid yw hwnnw mor addawol. Gadewch inni fynd yn ôl i 2010, dechrau'r Llywodraeth hon dan arweiniad y Toriaid, pan ddywedodd y Canghellor eu bod yn mynd i fantoli'r cyfrifon cyn mis Mai nesaf. Oherwydd eu methiant i sicrhau bod safonau byw'n codi, maent bellach mewn gwirionedd wedi benthyca £219 biliwn yn fwy na'r disgwyl yn y Senedd hon ac mae pobl yn awr, ar gyfartaledd, £1,600 yn waeth eu byd bob blwyddyn. Dywedodd Leanne Wood y bydd y dyfodol o ran gwariant cyhoeddus a'r sgil-ffeithiau ar wasanaethau'n parhau i fod yn eithriadol o anodd yn y blynyddoedd i ddod. Wrth gwrs, cadarnhawyd hynny nid yn unig gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ond gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yr wythnos diwethaf, pan ddywedodd y ddau fod y Canghellor yn mynd â ni i fan lle y bydd y wladwriaeth wedi newid yn llwyr. Fodd bynnag, roedd datganiad yr hydref yn cadarnhau bod cynlluniau dangosol Llywodraeth y DU ar gyfer cyfnod yr adolygiad nesaf o wariant yn awgrymu toriadau pellach llym iawn i wariant y Llywodraeth, ac mae hynny'n golygu gwariant adrannol a mwy o ergydion drwy ddiwygio lles.

Rwyf am sôn am y pwyntiau a wnaed am y gwasanaeth iechyd. Mae'r £70 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol a gyhoeddais ar gyfer iechyd yn dilyn datganiad yr hydref yn adeiladu ar strategaeth y gyllideb, sydd wedi bod wrth wraidd ein cyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i'r penderfyniad, rydym wedi buddsoddi dros £0.5 biliwn yn fwy yn y gwasanaeth iechyd. Dyna'r hyn y mae pobl Cymru am ei glywed, nid yr ymateb di-serch a glywn gan y Ceidwadwyr Cymreig. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad clir i GIG cynaliadwy yng Nghymru, yn seiliedig ar y diwygiadau a amlinellir yn adroddiad Nuffield.

Nick Ramsay rose—

- | | | |
|-------|---|--|
| 16:38 | Sandy Mewies Bywgraffiad Biography
The proposal is to agree the motion. Sorry—sorry about that. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:38 | Jane Hutt Bywgraffiad Biography
I shall continue due to the time. I did give an opportunity— | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:38 | Sandy Mewies Bywgraffiad Biography
I did not see you, sorry. [Laughter.] | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:38 | Nick Ramsay Bywgraffiad Biography
You are not the first. [Laughter.] | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:38 | Jane Hutt Bywgraffiad Biography
I do want to just continue in terms of my reform— | Senedd.tv
Fideo Video |

Y cynnig yw derbyn y cynnig. Mae'n ddrwg gennyf—mae'n ddrwg gennyf am hynny.

Rwyf am barhau oherwydd yr amser. Rhoddais gyfle—

Welais i mohonoch, mae'n ddrwg gennyf. [Chwerthin.]

Nid chi yw'r cyntaf. [Chwerthin.]

Rwyf am barhau o ran fy niwygiad—

16:38	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography May I intervene, Minister?	A gaf fi ymyrryd, Weinidog?	Senedd.tv Fideo Video
16:38	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Okay. Goodwill to all—to this man, anyway. [Laughter.]	law'n. Ewyllys da i bawb—i'r dyn hwn, beth bynnag. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
16:38	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography Merry Christmas to you as well, Minister; thank you. A few moments ago, you seemed to indicate that you thought that the UK Government was borrowing too much and should be borrowing less. Does that mean that you would support bigger cuts by the UK Government?	Nadolig Llawn i chithau hefyd, Weinidog; diolch ichi. Ychydig eiliadau'n ôl, roeddech fel petaech yn awgrymu eich bod yn meddwl bod Llywodraeth y DU yn benthyca gormod ac y dylai fod yn benthyca llai. A yw hynny'n golygu y byddech yn cefnogi toriadau mwy gan Lywodraeth y DU?	Senedd.tv Fideo Video
16:39	Jane Hutt Bywgraffiad Biography The fact that the Chancellor has failed on every promise since 2010 in terms of reducing the deficit, resulting in borrowing £219 billion more than planned, shows in terms of the wreck of his reputation in terms of financial management. I want to go on to the importance of the health service because the additional funding for health—and Alun Ffred Jones raised this question about how we can spend this extra funding in Wales—is on top of the funding we have already announced. Of course, it enables us to do additional specific work in relation to high-demand services, and the Minister for Health and Social Services is considering the best options for its use. We will announce detailed plans in due course. May I again put the record straight— <i>Mark Isherwood a gododd—</i>	Mae'r ffaith bod y Canghellor wedi methu â chadw pob addewid ers 2010 o ran lleihau'r diffyg, sydd wedi arwain at fenthycu £219 biliwn yn fwy na'r disgwyl, yn ddigon amlwg o safbwynt dinistrio ei enw da o ran rheolaeth ariannol. Rwyf am symud ymlaen at bwysigrwydd y gwasanaeth iechyd oherwydd mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd—a chododd Alun Ffred Jones y cwestiwn hwn ynglŷn â sut y gallwn wario'r arian ychwanegol hwn yng Nghymru—yn ychwanegol at y cyllid yr ydym eisoes wedi'i gyhoeddi. Wrth gwrs, mae'n ein galluogi i wneud gwaith penodol ychwanegol mewn perthynas â gwasanaethau y mae galw mawr amdanynt, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer ei ddefnyddio. Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau manwl maes o law. A gaf fi unwaith eto gywiro'r camsyniad — <i>Mark Isherwood rose—</i>	Senedd.tv Fideo Video
16:40	Jane Hutt Bywgraffiad Biography [Continues.]— in terms of the health service, particularly in relation to cancer treatment? This is about— No, I am not taking an intervention. I have to say that it is very hard to take Nick Ramsay seriously in his role as opposition finance spokesperson. Flippant, I think, is how I would describe his contribution today. Spending on cancer care in Wales is at a record high, and, per person, we already spend more in Wales on the drugs available through the cancer drugs fund than they do in England. <i>Nick Ramsay a gododd—</i>	[Yn parhau.]—o ran y gwasanaeth iechyd, yn enwedig mewn perthynas â thriniaeth cancer? Mae hyn yn ymwneud â— Nac ydw, nid wyf yn derbyn ymyriad. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod yn anodd iawn cymryd Nick Ramsay o ddifrif yn ei rôl fel llefarydd cyllid yr wrthblaid. Gwamal—dyna sut, yr wyf yn credu, y byddwn yn disgrifio ei gyfraniad heddiw. Mae gwariant ar ofal cancer yng Nghymru'n uwch nag erioed, a fesul pen rydym eisoes yn gwario mwy yng Nghymru ar y cyffuriau sydd ar gael drwy'r gronfa cyffuriau cancer nag y maent yn Lloegr. <i>Nick Ramsay rose—</i>	Senedd.tv Fideo Video
16:40	Jane Hutt Bywgraffiad Biography No.	Na.	Senedd.tv Fideo Video

The latest figures show that we spend £10 more per head on cancer treatment in Wales than in England and a greater proportion of cancer patients in Wales are treated within target times than in England. Cancer treatment satisfaction levels in Wales are extremely high, and Cancer Research UK recently said that the cancer drugs fund does not represent a long-term solution to improve access to cancer drugs in England. It will not advocate for this approach to be replicated in other countries. So, the cancer drugs fund is unravelling in England, and it is clear that politicians of all parties have to deal with the fallout of that particular policy.

That does mean, of course, that we can recognise, in terms of our record—and I am sure that the debate tomorrow will also put the record straight—that cancer patients are treated faster in Wales and we have a faster uptake of newly approved cancer drugs than they have in England. All patients should receive, of course, a comprehensive package of the best, cost-effective and evidence-based NHS treatment and care in Wales.

However, I want to say finally, to the acting Deputy Presiding Officer, that I want to make it clear that my concern, as Labour Minister for finance for the past four years with this Tory-led coalition Government, has been to find ways of protecting the most vulnerable and hardest-hit people in Wales who have suffered most from the cuts. Those cuts from the UK Government have resulted in food banks in every town, rising family and personal hardship and debt due to rises in essential living costs and in the cost of heating and food, and, for people who are in work, there are too many in under-employed, part-time, low-paid jobs and on zero-hours contracts. The Tories have had clear choices; we make our choices and I have spelt them out. The Tories have had clear choices and have chosen to support the wealthiest and the top earners with tax cuts and to protect bank bonuses. They have actually deepened the inequalities of wealth and life chances. That was endorsed by the Organisation for Economic Co-operation and Development today, which said that income inequality has a statistically significant impact on economic growth. So, we have been determined, as a Welsh Labour Government, to resist this, supporting our universal benefits.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod yn gwario £10 yn fwy fesul pen ar driniaeth canser yng Nghymru nag yn Lloegr, ac mae cyfran uwch o gleifion canser yng Nghymru'n cael eu trin o fewn yr amserau targed nag yn Lloegr. Mae lefelau boddhad â thriniaeth canser yng Nghymru'n hynod uchel, a dywedodd Cancer Research UK yn ddiweddar nad yw'r gronfa cyffuriau canser yn ateb hirdymor i wella mynediad i gyffuriau canser yn Lloegr. Ni fydd yn dadlau dros arfer yr ymagwedd hon mewn gwledydd eraill. Felly, mae'r gronfa cyffuriau canser yn dadfeilio yn Lloegr, ac mae'n amlwg bod yn rhaid i wleidyddion o bob plaid ymdopi â chanlyniadau'r polisi penodol hwnnw.

Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, y gallwn gydnabod, o ran ein hanes—ac rwyf yn sicr y bydd y ddadl yfory hefyd yn egluro'r sefyllfa—fod cleifion canser yn cael eu trin yn gynt yng Nghymru a bod pobl yn manteisio'n gynt ar gyffuriau canser sydd newydd eu cymeradwyo nag yn Lloegr. Dylai pob claf, wrth gwrs, dderbyn pecyn cynhwysfawr o'r driniaeth a'r gofal gorau y gall y GIG yng Nghymru eu cynnig, a hwnnw'n becyn cost-effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Fodd bynnag, i gloi, rwyf am ddweud wrth y Dirprwy Lywydd dros dro fy mod am ei gwneud yn glir fy mod, fel Gweinidog Llafur dros gyllid dros y pedair blynedd diwethaf gyda'r Llywodraeth glymblaid hon dan arweiniad y Toriaid, wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd o amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd wedi eu taro galetaf yng Nghymru sy'n dioddef fwyaf oherwydd y toriadau. Mae'r toriadau hynny gan Lywodraeth y DU wedi arwain at fanciau bwyd ym mhob tref, ac wedi dwysáu caledi a dyledion teuluol a phersonol wrth i gostau byw sylfaenol a chostau gwresogi a bwyd godi, ac, i'r rhai sydd mewn gwaith, mae gormod mewn swyddi tangyflogedig, rhan-amser, ar gyflog isel ac ar gontractau dim oriau. Mae'r Toriaid wedi wynebu dewisiadau clir; rydym ninnau'n gwneud ein dewisiadau ac rwyf wedi eu hegluro'n fanwl. Mae'r Toriaid wedi wynebu dewisiadau clir ac wedi dewis cynnal y cyfoethocaf a'r rhai sy'n ennill fwyaf drwy wneud toriadau treth a diogelu taliadau bonws y banciau. Yn wir, maent wedi dwysáu'r anghydraddoldebau o ran cyfoeth a chyfleoedd bywyd. Cafodd hynny ei gadarnhau gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd heddiw, a ddywedodd fod anghyfartaledd incwm yn cael effaith ystadegol sylweddol ar dwf economaidd. Felly, rydym wedi bod yn benderfynol, yn Llywodraeth Lafur Cymru, i wrthsefyll hyn, a chefnogi ein buddion cyffredinol.

Children in Wales get a healthy start to the day with a free school breakfast; part-timers in work with health needs stay in work with free prescriptions; we provide free childcare and parenting support to our neediest children and families through Flying Start; we help young people stay in education with education maintenance allowance and Jobs Growth Wales opportunities, and we have backed the pupil deprivation grant to give our most disadvantaged children the chances that they need. All of these policies serve to tackle inequalities and to give fairer shares. We have boosted our infrastructure spend by £3.5 billion and we have supported our health service with over £0.5 billion of additional funding. It is making those political choices to relentlessly seek fairness and tackle the inequalities that have been created that has been my responsibility and my moral purpose on behalf of a Welsh Labour Government. I move the budget.

Mae plant yng Nghymru'n cael dechrau iach i'r diwrnod gyda brecwast am ddim yn yr ysgol; mae gweithwyr rhan-amser ag anghenion iechyd yn aros yn y gwaith gyda phresgripsiynau am ddim; rydym yn darparu gofal plant a chymorth rhianta am ddim i'n plant a'n teuluoedd mwyaf anghenus drwy Dechrau'n Deg; rydym yn helpu pobl ifanc i aros mewn addysg gyda'r lwfans cynhaliath addysg a chyfleoedd Twf Swyddi Cymru, ac rydym wedi cefnogi'r grant amddifadedd disgyblion i gynnig y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i'n plant mwyaf difreintiedig. Mae pob un o'r polisiâu hyn yn fodd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac o roi cyfrannau tecach. Rydym wedi gwario £3.5 biliwn yn fwy ar seilwaith ac rydym wedi cefnogi ein gwasanaeth iechyd gyda dros £0.5 biliwn o gyllid ychwanegol. Gwneud y dewisiadau gwleidyddol hynny er mwyn mynd ati'n ddiflino i geisio tegwch a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sydd wedi eu creu—dyna fy nghyfrifoldeb a'm pwrpas moesol ar ran Llywodraeth Lafur Cymru. Cynigiau y gyllideb.

16:43

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are objections, therefore I will defer this vote until voting time.

Diolch ichi, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly gohiriaf y bleidlais hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:44

Egwyddorion Cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources to move the motion.

The General Principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5652 Carl Sargeant

Motion NDM5652 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.

16:44

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you. I move the motion.

Diolch. Cynigiau y cynnig.

I am pleased to open this debate on the general principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. I would like to pay tribute to my predecessor, Jeff Cuthbert, who did so much to bring us to this point today. I am also grateful to the Chair and the members of the Environment and Sustainability Committee and of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their thorough scrutiny of the Bill.

Rwy'n falch o agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn dalu teyrnged i fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, a wnaeth gymaint i ddod â ni at y pwynt hwn heddiw. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith trylwyr yn craffu ar y Bil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am now in the process of drawing up amendments and I am carefully considering the committee's recommendations, but I acknowledge that the committee has identified specific areas, and I will address these through the next stages of the legislative process, including how we can better communicate the purpose and intent of the Bill. I would like to thank Peter Davies, the Commissioner for Sustainable Futures, for his many years of work on sustainable development in Wales too. Earlier this year, the commissioner asked people and communities about the Wales we want in 2050. While this is a simple question, it remains a very powerful one, but asking what Wales will get in 2050 is just as powerful.

Members across the Chamber will be well aware that the places we serve face long-term challenges. This could be the effect of climate change, poverty, health inequalities or strengthening the Welsh language. In most cases, communities face multiple challenges. If, in 2050, Wales is still facing these challenges, we will not have left a sustainable legacy for future generations. We cannot carry on with the same way of thinking that created these problems in the first place. If we do, the Wales we get in 2050 will be very different to the Wales we want for them.

For the last 15 years, Wales has been recognised as a leader in respect of sustainable development, which has been the core part of devolution in Wales from the very start. I am sure that Members are pleased that the UK Government has laid an Order to confer legislative competence on the Assembly to amend the sustainable development duty in GOWA. If passed, this is a significant devolution milestone for Wales, but it is time to move from a duty to promote to a duty to do; from a duty just on Welsh Ministers to a duty on other public bodies in Wales so that sustainable development is at the heart of what they do.

'One Wales: One Planet' provides a sound foundation for this, but we now need to translate Wales's aspirations into law. However, looking to the long term is hard—we know this. It is hard because it shows some uncomfortable truths. It is easy to think about today rather than tomorrow. It is easier to tackle problems than to prevent them. It is easier to work in our silos than to look wider. It is also, of course, easier to ignore the connections between our environment, our economy and the quality of life.

Rwy'n awr yn y broses o lunio gwelliannau ac rwy'n ystyried argymhellion y pwyllgor yn ofalus, ond rwy'n cydnabod bod y pwyllgor wedi nodi meysydd penodol, a byddaf yn rhoi sylw i'r rhain drwy gamau nesaf y broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys sut y gallwn gyfathrebu pwrpas a bwriad y Bil yn well. Hoffwn ddiolch i Peter Davies, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, am ei flynyddoedd lawer o waith ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru hefyd. Yn gynharach eleni, gofynnodd y comisiynydd i bobl a chymunedau ynglŷn â'r Gymru yr ydym am ei chael yn 2050. Er bod hwn yn gwestiwn syml, mae'n parhau i fod yn un pwerus iawn, ond mae gofyn beth fydd Cymru yn ei gael yn 2050 yr un mor bwerus.

Bydd Aelodau ar draws y Siambr yn ymwybodol iawn bod y lleoedd rydym ni'n eu gwasanaethu yn wynebu heriau hirdymor. Gallai hyn gynnwys effaith newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd neu gryfhau'r iaith Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cymunedau'n wynebu sawl her. Os bydd Cymru, yn 2050, yn dal i wynebu'r heriau hyn, ni fyddwn wedi gadael etifeddiaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ni allwn barhau â'r un meddylfryd â'r un a greodd y problemau hyn yn wreiddiol. Os gwnawn hynny, bydd y Gymru a gawn yn 2050 yn wahanol iawn i'r Gymru yr ydym yn dymuno'i chael iddynt.

Am y 15 mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi cael ei chydabod fel arweinydd o ran datblygu cynaliadwy, sydd wedi bod yn rhan graidd o ddatganoli yng Nghymru o'r cychwyn cyntaf. Rwy'n siŵr bod Aelodau'n falch bod Llywodraeth y DU wedi gosod Gorchymyn i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ddiwygio'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru. Os caiff ei basio, mae hon yn garreg filltir ddatganoli bwysig i Gymru, ond mae'n bryd symud o ddyletswydd i hybu i ddyletswydd i wneud; o ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn unig i ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fel bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer hyn, ond mae angen inni yn awr drosi dyheadau Cymru yn gyfraith. Er hynny, mae'n anodd edrych yn y tymor hir—rydym yn gwybod hyn. Mae'n anodd oherwydd ei fod yn dangos rhai gwirioneddau anghysurus. Mae'n hawdd meddwl am heddiw yn hytrach nag yfory. Mae'n haws mynd i'r afael â phroblemau na'u hatal. Mae'n haws gweithio yn ein seilos nag edrych yn ehangach. Mae hefyd, wrth gwrs, yn haws anwybyddu'r cysylltiadau rhwng ein hamgylchedd, ein heconomi ac ansawdd bywyd.

For me, this is why we need to change the law. This is why we need to legislate for it. One defines what we want to achieve by putting six wellbeing goals into law. Two defines how we should make better choices and decisions by applying the SD principle, involvement, integration, collaboration, long-term and preventative thinking. Three obliges public bodies to work together better, working with communities to find sustainable solutions to improve wellbeing by reinforcing integrated community planning arrangements and establishing public services boards. Four establishes the statutory future generations commissioner for Wales to help us get things right the first time. I am also pleased that the Auditor General for Wales has a role in the implementation of the Bill, too.

The fact that 11 local authorities and our three national parks have already volunteered to be early adopters of the Bill shows that many already see the benefits that this legislation can bring to their communities. They are pressing ahead with these changes because they know that it is the right thing to do. I commend them for doing so.

We need legislation for sustainable development. We knew that it would not be easy. Only a few countries have ever done this. Only in Wales are we ambitious enough to legislate for wellbeing goals for sustainable Wales. Everyone will have their own ideas and priorities for what needs to be addressed. That is why we have the scrutiny process. The evidence given to committee has shown that all stakeholders agree with the principle of the Bill. That is a fantastic foundation for any legislation. This Bill, more than most, needs cross-party support so that the Assembly sends a message to those who told us about the Wales they want and to do what other countries looking at Wales could do, too. Wales remains committed to sustainable development and is bold and confident enough to take this step. We are a small country, but that does not mean that we should not be ambitious. When it comes to the new legislative powers that we have, the Well-being of Future Generations (Wales) Bill is certainly the way forward to deliver.

I mi, dyma pam mae angen inni newid y gyfraith. Dyma pam mae angen inni ddeddfu ar gyfer hyn. Mae un yn diffinio'r hyn yr ydym am ei gyflawni drwy gynnwys chwe gôl llesiant yn y gyfraith. Mae dau yn diffinio sut y dylem wneud gwell dewisiadau a phenderfyniadau drwy ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, cyfranogiad, integreiddio, cydweithredu, meddwl yn y tymor hir a gwaith ataliol. Mae tri yn gorfodi cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd yn well, gan weithio gyda chymunedau i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i wella lles drwy atgyfnerthu trefniadau cynllunio cymunedol integredig a sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae pedwar yn sefydlu swydd statudol comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol i Gymru i'n helpu i gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Rwyf hefyd yn falch bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru rôl o ran rhoi'r Bil ar waith, hefyd.

Mae'r ffaith bod 11 awdurdod lleol a'n tri pharc cenedlaethol eisoes wedi gwirfoddoli i fabwysiadu'r Bil yn gynnar yn dangos bod llawer eisoes yn gweld y manteision y gall y ddeddfwriaeth hon eu rhoi i'w cymunedau. Maent yn bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn oherwydd eu bod yn gwybod mai dyna'r peth iawn i'w wneud. Fe'u cymeradwyaf am wneud hynny.

Mae arnom angen deddfwriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy. Roeddem yn gwybod na fyddai'n hawdd. Dim ond ychydig o wledydd sydd wedi gwneud hyn erioed. Dim ond yng Nghymru yr ydym ni'n ddigon uchelgeisiol i ddeddfu ar gyfer amcanion lles ar gyfer Cymru gynaliadwy. Bydd gan bawb eu syniadau a'u blaenoriaethau eu hunain o ran yr hyn y mae angen rhoi sylw iddo. Dyna pam y mae gennym broses graffu. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor wedi dangos bod yr holl randdeiliaid yn cytuno ag egwyddor y Bil. Mae honno'n sylfaen wych ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth. Mae angen cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y Bil hwn, yn fwy na'r rhan fwyaf ohonynt, er mwyn i'r Cynulliad anfon neges at y rhai a ddywedodd wrthym am y Gymru y maent am ei chael ac i wneud yr hyn y gallai gwledydd eraill sy'n edrych ar Gymru ei wneud, hefyd. Mae Cymru'n parhau'n ymrwymedig i ddatblygu cynaliadwy ac yn ddigon beiddgar a hyderus i gymryd y cam hwn. Rydym yn wlad fach, ond nid yw hynny'n golygu na ddylem fod yn uchelgeisiol. Pan ystyriwn y pwerau deddfwriaethol newydd sydd gennym, Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sicr yw'r ffordd ymlaen i gyflawni.

16:49

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Environment and Sustainability Committee, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Alun Ffred Jones.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:49

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddaol hon heddiw fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a fu'n gyfrifol am graffu ar y Bil yn ystod y Cyfnod cyntaf. Gan fod y Bil yn ymdrin â llawer o wahanol feysydd polisi, clywsom gan amryw o randdeiliaid i gasglu eu barn ynghylch a fyddai'r Bil yn cyflawni'r hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl gan ddeddfwriaeth gynaliadwy. Felly, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor.

I am pleased to contribute to this debate today as Chair of the Environment and Sustainability Committee, which was responsible for scrutiny of the Bill during Stage one. As the Bill deals with several different areas of policy, we heard from a range of stakeholders to hear their opinions on whether the Bill would achieve what they expected from sustainable legislation. Therefore, I would like to thank all those who gave evidence to the committee.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydym ni fel pwyllgor yn cefnogi bwriad polisi'r Bil, a chredwn y dylid cymeradwyo Llywodraeth Cymru am gyflwyno deddfwriaeth yn y maes. Fodd bynnag, rydym wedi ein siomi bod y rhanddeiliaid a ddaeth o'n blaenau wedi nodi cymaint o feysydd yn y Bil sydd angen eu cryfhau. Cytunwn â'r hyn a ddywedwyd, sef bod angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn i'r Bil gael unrhyw effaith ystyrlon. O ganlyniad i'r dystiolaeth a glywsom, rydym wedi gwneud 32 argymhelliad. Credwn y byddai'r argymhellion hyn yn cryfhau'r Bil ac yn sicrhau deddfwriaeth gadarn ar ddatblygu cynaliadwy a all wneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru yn yr hirdymor.

O ran ein hargymhelliad ar gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, roeddem yn rhanedig. Mae'n anffodus nad oeddem yn gallu cytuno ar hyn, yn enwedig pan ydym yn gytûn ar y bwriad polisi. Felly, daethom i'r cyfaddawd y byddem yn eu cefnogi os byddai'r Gweinidog yn barod i dderbyn 12 argymhelliad allweddol rydym wedi eu nodi yn ein hadroddiad. Rwyf wedi clywed yr hyn mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw, ond un peth ydy creu deddf a pheth arall ydy creu newidiadau. Wrth gwrs, ni fedrwn farnu ynglŷn â'r hyn mae'r Gweinidog yn mynd i'w ddweud ond rwy'n falch iawn ac yn croesawu'r ffaith ei fod yn dweud ei fod yn barod i ailystyried rhai agweddau. Cawn weld pan ddaw'r gwelliannau gerbron i ba raddau y mae wedi ymateb i'r sylwadau.

Yn yr amser sydd gennyf yn weddill, byddwn yn hoffi cyfeirio at y prif argymelliadau rydym yn credu sy'n allweddol er mwyn creu Bil sydd yn ystyrlon ac sydd, o bosibl, yn mynd i arwain at newidiadau sylfaenol. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â chryfder yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y Bil. Trwy ddefnyddio termau fel 'ceisio' ac 'ymgyrraedd at,' credwn fod y dyletswyddau yn y Bil fel y mae wedi cael ei ddrafftio yn rhy hawdd i gyrff eu hosgoi. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu darpariaethau'r Bil, yn enwedig o fewn adrannau 2 a 3 a'r ddyletswydd yn adran 6(1) er mwyn darparu datganiad o fwriad cryfach a gosod cyfeiriad pendant i gyrff cyhoeddus.

A throi at argymhelliad 9, codwyd nifer o bryderon am y methiant i gynnwys diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil. Awgrymodd tystion fod y diffiniad yn 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn well gan ei fod yn cyfeirio at faterion ehangach. Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i adlewyrchu'r materion ehangach a geir yn niffiniadau 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' a Brundtland o ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd, defnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear, terfynau amgylcheddol ac effeithiau rhyngwladol yr hyn a wnawn ni yng Nghymru.

O ran argymelliadau 13 ac 14 a'r chwe nod llesiant, cyfeiriodd nifer o dystion at feysydd penodol roedden nhw'n teimlo sydd wedi cael eu gadael allan, neu sy'n aneglur yn y nodau. Rydym yn cydnabod yr anhawster o gysoni'r nifer helaeth o gynigion a ddaeth o du'r rhanddeiliaid, ond rydym yn credu bod angen i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r prif bryderon ac, unwaith eto, rydym wedi argymhell y dylai'r nodau fynd i'r afael â phethau fel terfynau amgylcheddol, adfer bioamrywiaeth, effeithiau rhyngwladol a chyfiawnder cymdeithasol ac y dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn glir ac yn ddiamwys.

We as a committee support the policy intent of the Bill, and we believe that the Welsh Government should be praised for bringing forward legislation in this field. However, we are disappointed that the stakeholders who came before us have identified so many aspects of the Bill that need to be strengthened. We agree with what has been said, namely that significant improvements are required in order for the Bill to have any meaningful impact. As a result of the evidence that we heard, we have made 32 recommendations. We believe that these recommendations would strengthen the Bill and ensure robust legislation on sustainable development that can make a difference for the people of Wales in the long term.

In terms of our recommendation on supporting the general principles of the Bill, we were divided. It is unfortunate that we were not able to agree on this, particularly when we agree on the policy intent. Therefore, we came to the compromise that we would support this if the Minister would be willing to accept 12 key recommendations that we have identified in our report. I have heard what the Minister has said today, but it is one thing to create an Act but another to bring about change. Of course, we cannot judge what the Minister is going to say but I am very pleased and welcome the fact that he says that he is willing to reconsider some aspects. We will see when the amendments come before us the extent to which he has responded to the comments.

In the time that I have left, I would like to refer to the main recommendations that we believe are crucial to create a Bill that is meaningful and will, possibly, lead to fundamental changes. Recommendation 3 relates to the strength of the language used in the Bill. By using terms such as 'try' and 'aim to', we consider that the duties in the Bill as drafted are too easy for bodies to avoid. We recommend that the Welsh Government should review the provisions of the Bill, particularly within sections 2 and 3 and the duty in section 6(1) in order to provide a stronger statement of intent and to set a clear direction for public bodies.

Turning to recommendation 9, a number of concerns were raised about the failure to include a clear definition of sustainable development in the Bill. Witnesses suggested that the definition in 'One Wales: One Planet' was better as it referred to wider issues. We recommend that the principle of sustainable development be amended to reflect the wider issues contained in the 'One Wales: One Planet' and Brundtland definitions of sustainable development, particularly in terms of climate change, using no more than our fair share of the earth's resources, environmental boundaries and international effects of what we do in Wales.

In terms of recommendations 13 and 14 and the six wellbeing goals, a number of witnesses referred to specific areas that they felt had been left out, or that were unclear in the goals. We acknowledge the difficulty of aligning the significant number of proposals that came from stakeholders, but we believe that there is a need for the Minister to get to grips with the main concerns and, once again, we have recommended that the goals should address things like environmental boundaries, reviving biodiversity, international effects and social justice and that the language used should be clear and unambiguous.

O ran argymhelliad 16, clywsom bryderon gan randdeiliaid bod y Bil yn canolbwyntio'n ormodol ar agweddau llywodraethu swyddogaethau cyrff cyhoeddus. Os mai bwriad y Bil yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus, yna credwn y dylid nodi hyn yn glir yn y Bil. Credwn, felly, y dylai'r Llywodraeth gyflwyno gwelliannau i egluro bod darpariaethau'r Bil yn berthnasol i holl swyddogaethau cyrff cyhoeddus, ac i sicrhau bod rôl comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn cwmpasu'r holl swyddogaethau hynny.

O ran argymhelliad 19, roedd mwyafrif llethol y rheini a roddodd dystiolaeth o'r farn y dylai'r comisiynydd fod yn annibynnol ac yn ddiduedd ac mai'r ffordd orau o gyflawni hynny fyddai sicrhau mai'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru sydd yn ei benodi. Rwy'n credu bod honno yn farn a oedd yn cael cefnogaeth gyffredinol.

O ran argymelliadau 21 a 23, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i gryfhau dyletswyddau a swyddogaethau'r comisiynydd er mwyn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil. Credwn y dylid cryfhau pwerau comisiynydd i gynnwys pŵer i ddechrau ymholiadau a chynnal ymchwiliadau, ac i wneud ceisiadau am wybodaeth i gwmpasu data sy'n berthnasol i'w holl swyddogaethau, ac nid y rôl o wneud argymhellion yn unig. Felly, mae pŵer y comisiynydd yn bwysig.

Mae argymhelliad 25 yn ymwneud â phryderon yr archwilydd cyffredinol. Rwy'n falch, ac yn cydnabod, bod trafodaethau wedi digwydd rhwng y Gweinidog a'r archwilydd cyffredinol i geisio dod i ddealltwriaeth ynglŷn â hynny.

O ran argymhelliad 27 a sefydlu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol, mae gennym bryderon ynghylch eu hatebolrwydd. Mae angen sicrhau hynny.

O ran argymhelliad 28, rydym wedi argymhell y dylid adolygu'r dull o asesu llesiant lleol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

O safbwynt argymhelliad 29, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch effaith bosibl Atodlen 4 ar weithredu dull iechyd ym mhob polisi. Mae'r argymhelliad yn glir, ond yn sicr, roedd hynny'n bryder a gafodd ei leisio.

Gydag argymhelliad 31, cododd Swyddfa Archwilio Cymru faterion sylweddol mewn perthynas â'r costau yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Efallai y cawn gyfle i drafod hynny. Fodd bynnag, yn sicr, mae'r archwilydd cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod gwendidau yn amcangyfrifion costau tebygol y Bil. Nid yw hwn yn greiddiol i gynnwys y Bil ond mae'n greiddiol i gostau a fydd yn deillio o'r Bil. Credaf fod angen i'r Llywodraeth fod yn fwy agored ynglŷn â hynny ac ailedrych ar hynny.

On recommendation 16, we heard concerns from stakeholders that the Bill focuses too heavily on governance aspects of public body functions. If the intention of the Bill is to ensure that sustainable development is the central organising principle of public bodies, then we believe that this should be stated clearly in the Bill. We believe, therefore, that the Government should table amendments to clarify that the Bill's provisions are relevant to all functions of public bodies, and to ensure that the role of the future generations commissioner encompasses all those functions.

On recommendation 19, the vast majority of those giving evidence were of the opinion that the commissioner should be independent and impartial and that the best way to achieve that would be to ensure that the Assembly rather than the Welsh Government appoints the commissioner. I think that that view was generally supported.

On recommendations 21 and 23, stakeholders stressed the need to strengthen the duties and functions of the commissioner in order to ensure that public bodies complied with their duties under the Bill. We believe that the commissioner's powers should be strengthened to include a power to initiate inquiries and to conduct investigations, and to make requests for information to cover data relevant to all the commissioner's functions, and not only the role of making recommendations. Therefore, the commissioner's power is important.

Recommendation 25 is in relation to the auditor general's concerns. I am pleased, and recognise, that discussions have taken place between the Minister and the auditor general to try to come to an understanding about that.

On recommendation 27 and establishing the statutory public services boards, we have concerns about their accountability. There is a need to ensure that accountability.

On recommendation 28, we have recommended that the means of assessing local wellbeing should be amended to ensure consistency across Wales.

On recommendation 29, stakeholders have expressed concerns about the potential impact of Schedule 4 on implementing a health in all policies approach. The recommendation is clear, but certainly, that was a concern that was voiced.

On recommendation 31, the Wales Audit Office raised significant issues in relation to the costs in the regulatory impact assessment. We may have an opportunity to discuss that. However, certainly, the auditor general has concluded that there are weaknesses in the estimates of the likely costs of the Bill. This is not central to the content of the Bill but it is central to the costs arising out of the Bill. I believe that the Government needs to be more open about it and revisit that.

Hoffwn gloi trwy ailadrodd ein cefnogaeth ni fel pwyllgor tuag at fwriadau polisi'r Bil hwn ac i gyfeirio yn ôl at ein hargymhelliaid ynghylch yr egwyddorion cyffredinol. Credwn fod angen newidiadau sylweddol i'r Bil, ond trwy weithredu yn y meysydd rydym wedi eu hamlinellu, credwn y gellid cryfhau'r Bil. Diolch yn fawr. Terfynaf fy sylwadau ar hynny.

I would like to conclude by reiterating our support as a committee for the policy intentions of this Bill and to refer back to our recommendation regarding the general principles. We believe that significant changes are needed to the Bill, but by taking action in the areas that we have outlined, we believe that the Bill can be strengthened. Thank you. I will conclude my comments with those remarks.

16:57 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:57 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The committee reported on this Bill on 21 November, and we made 12 recommendations.

Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn ar 21 Tachwedd, ac rydym wedi gwneud 12 o argymhellion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The drafting and content of the Bill raised a number of general issues, which we sought to explore with the Minister, including the purpose of the Bill and the wording and concepts used in the Bill. Our observations on these issues are significant and I intend to focus on them this afternoon.

Mae cynnwys y Bil a'r ffordd y cafodd ei ddrafftio yn codi nifer o faterion cyffredinol, ac rydym wedi ceisio archwilio'r rhain gyda'r Gweinidog, gan gynnwys diben y Bil a'r geiriad a'r cysyniadau a ddefnyddir yn y Bil. Mae ein sylwadau ar y materion hyn yn arwyddocaol ac rwy'n bwriadu canolbwyntio arnynt brynhawn heddiw.

Overall, on the basis of the Bill before us and the evidence that we have heard, the precise purpose of the Bill is unclear. It is difficult to understand what the Bill is seeking to achieve, the mechanism of delivery and how achievement will be measured, particularly in the absence of any national indicators on the face of the Bill.

Ar y cyfan, ar sail y Bil ger ein bron a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, mae union ddiben y Bil yn aneglur. Mae'n anodd deall beth mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni, beth yw'r mecanwaith darparu a sut y caiff llwyddiant ei fesur, yn enwedig gan nad oes unrhyw ddangosyddion cenedlaethol ar wyneb y Bil.

Clarity of the law is absolutely essential to those who have to implement it. It also helps us to ensure that the policy objectives and outcomes that the law seeks to achieve have a better chance of being delivered successfully. Sections 1 to 3 outline some of the key concepts in the Bill. When considered with the short and long titles, a somewhat confusing picture of what the Bill is seeking to achieve is painted, particularly in the absence of any national indicators on the face of the Bill. We believe that the Bill would benefit from being simpler, with more clearly defined concepts. Indeed, we had concerns about the lack of definitions in the Bill.

Mae'n gwbl hanfodol i'r rhai sy'n gorfod ei gweithredu, bod y gyfraith yn eglur. Mae hefyd yn ein helpu i sicrhau bod gwell cyfle i gyflawni'n llwyddiannus yr amcanion polisi a'r canlyniadau y mae'r gyfraith yn ceisio eu cyflawni. Mae adrannau 1 i 3 yn amlinellu rhai o'r cysyniadau allweddol yn y Bil. O'u hystyried gyda'r teitlau byr a hir, darlun braidid yn ddryslyd o'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni sy'n cael ei baentio, yn enwedig gan nad oes unrhyw ddangosyddion cenedlaethol ar wyneb y Bil. Rydym yn credu y byddai'r Bil yn elwa o fod yn symlach, â chysyniadau wedi'u diffinio'n fwy clir. Yn wir, roedd gennym bryderon ynglŷn â'r prinder diffiniadau yn y Bil.

The aim of public bodies is said in section 2 to be:

Dywedir yn adran 2 mai bwriad cyrff cyhoeddus yw:

'to improve the economic, social and environmental well-being of Wales'.

'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru'.

'Well-being' is not defined, despite being a central concept.

Nid yw 'llesiant' yn cael ei ddiffinio, er ei fod yn gysyniad canolog.

Equally, the sustainable development principle is stated in section 3 to be:

Yn yr un modd, dywedir yn adran 3 mai egwyddor datblygu cynaliadwy yw:

'to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs'.

'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

'Needs' is not defined, despite being the cornerstone of a principle contained in legislation.

Nid yw 'anghenion' yn cael ei ddiffinio, er ei fod yn gonglfaen i'r egwyddor a geir yn y ddeddfwriaeth.

The concept of 'improvement' is also not defined, despite the legislation being a starting point from which improvement can be assessed—or at least, that is the claim. The task to assess improvement could be assisted by using national indicators under section 11 to establish a baseline by which such matters may be judged. However, there is currently no indication of what those indicators might be, and, as the Bill is currently drafted, they will be determined solely by Welsh Ministers.

We acknowledge that it can be difficult to define adequately some of the concepts and phrases I have just referred to. However, if they are to feature as central concepts within a Bill, they should be defined to enable the reader to understand what the Bill is seeking to achieve. We therefore made three recommendations focused on improving the clarity and purpose of the Bill, including, for example, amending the short title of the Bill to provide a more factual description of its content, and including definitions of 'wellbeing' and 'needs'.

In the interests of good and rigorous scrutiny and the production of good law, we also recommend that, if the Minister, as he has indeed indicated, brings in significant amendments to the Bill at Stages 2 and 3, he should provide the Assembly with the opportunity to consider the Bill at Report Stage. I do repeat that, as I see he is talking to his chief whip: there may be a need for a Report Stage on this Bill.

In our report, we also noted the concerns expressed by the Auditor General for Wales about the potential conflict between the Bill and the Local Government (Wales) Measure 2009. I do appreciate the fact that the Minister is already thinking about how he may respond to some of these recommendations, and I do sense that he is taking them very seriously. It will now be for us to scrutinise his performance, or more particularly those Members who will have the duty to take this through Stage 2. Then, obviously, we will all have a chance to reflect when it comes back to us.

I would just like to say a word about national indicators. I have already touched on section 11 of the Bill, which places a duty on the Welsh Ministers to publish, and lay before the Assembly, national indicators. No Assembly procedure is currently applied to the making of those indicators in the Bill. We believe that the national indicators are a fundamental component of the Bill, given that they will be the means by which any improvement in wellbeing will be judged. We are concerned that without an Assembly procedure, a future Government could simply choose the indicators that are most convenient for it.

Nid yw'r cysyniad o 'gwella' ychwaith yn cael ei ddiffinio, er bod y ddeddfwriaeth yn fan cychwyn ar gyfer asesu gwelliannau—neu dyna'r honiad o leiaf. Gellid cynorthwyo'r dasg o asesu gwelliant gan ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol o dan adran 11 i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer barnu materion o'r fath. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd o'r hyn y gallai'r dangosyddion hynny fod, ac, fel y mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru yn unig fydd yn eu pennu.

Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd diffinio'n ddigonol rai o'r cysyniadau a'r ymadroddion yr wyf newydd gyfeirio atynt. Ar y llaw arall, os mai'r bwriad yw iddynt fod yn gysyniadau canolog o fewn Bil, dylid eu diffinio i alluogi'r darlennydd i ddeall yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni. Felly, fe wnaethom dri argymhelliad yn canolbwyntio ar wella eglurder a diben y Bil, gan gynnwys, er enghraifft, newid teitl byr y Bil i roi disgrifiad mwy ffethiol o'i gynnwys, a chynnwys diffiniadau o 'llesiant' ac 'anghenion'.

Er lles craffu da a thrylwyr ac er mwyn cynhyrchu cyfraith dda, rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog, os yw'n cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r Bil yng Nghyfnodau 2 a 3, fel y mae wedi awgrymu y bydd yn ei wneud, roi i'r Cynulliad y cyfle i ystyried y Bil yn y Cyfnod Adrodd. Rwy'n ailadrodd hynny, gan fy mod yn gweld ei fod yn siarad â'i brif chwip: efallai y bydd angen Cyfnod Adrodd ar y Bil hwn.

Yn ein hadroddiad, rydym yn nodi hefyd y pryderon a fynegwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn â'r gwrthdaro posibl rhwng y Bil a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod y Gweinidog eisoes yn meddwl sut y bydd o bosibl yn ymateb i rai o'r argymhellion hyn, ac rwy'n synhwyro ei fod yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn iddynt. Bydd yn rhaid inni nawr graffu ar ei berfformiad, neu'n fwy penodol ar berfformiad yr Aelodau hynny a fydd â'r ddyletswydd i fynd â hyn drwy Gyfnod 2. Yna, yn amlwg, byddwn i gyd yn cael cyfle i fyfyrion pan ddaw yn ôl atom ni.

Hoffwn ddweud gair am ddangosyddion cenedlaethol. Rwyf eisoes wedi crybwyll adran 11 o'r Bil, sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol, a'u gosod gerbron y Cynulliad. Nid yw'r broses o lunio'r dangosyddion hynny yn destun unrhyw weithdrefn y Cynulliad yn y Bil ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod y dangosyddion cenedlaethol yn elfen sylfaenol o'r Bil, o gofio mai'r rhain a ddefnyddir i farnu unrhyw welliant mewn lles. Heb weithdrefn y Cynulliad, rydym yn pryderu y gallai Llywodraeth yn y dyfodol yn syml ddewis y dangosyddion sydd fwyaf cyfleus iddi.

We noted the Minister's commitment to consult on indicators. However, on its own, that does not provide enough of a check and balance on matters of such consequence to this Bill. The final decision about the choice of indicators should remain solely in the hands of—. Well, if it is to remain solely in the hands of the Welsh Ministers, that should only be the case after appropriate procedures here in the Assembly and endorsement by the Assembly. We cannot just leave it up to the goodwill of Ministers alone. We therefore recommend that the affirmative procedure should apply to national indicators made in accordance with section 11. This will ensure that they are subject to a level of scrutiny that reflects their importance in helping to judge whether the Bill meets its objectives.

Gwnaethom nodi ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori ar ddangosyddion. Fodd bynnag, nid yw hynny ynddo'i hun yn ddigon o reolaeth ar faterion mor bwysig i'r Bil hwn. Dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch y dewis o ddangosyddion barhau i fod yn unig yn nwylo—. Wel, os bwriedir iddo aros yn nwylo Gweinidogion Cymru yn unig, ni ddylai hynny ond digwydd ar ôl gweithdrefnau priodol yma yn y Cynulliad a chymeradwyaeth gan y Cynulliad. Ni allwn ei adael i ewyllys da'r Gweinidogion yn unig. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn berthnasol i ddangosyddion cenedlaethol a wneir yn unol ag adran 11. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn destun craffu ar lefel sy'n adlewyrchu pa mor bwysig ydynt o ran helpu i farnu a yw'r Bil yn cyflawni ei amcanion.

17:03

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is a long list of speakers, so could I ask people to be succinct and hopefully we will get everyone in? I call Mick Antoniw.

Mae rhestr hir o siaradwyr, felly a gaf i ofyn i bobl fod yn gryno gan obeithio y gallwn gynnwys pawb? Galwaf ar Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome this Bill and I particularly welcome also the reports from the Chair of the Environment and Sustainability Committee and also from CLAC, because, as part of the scrutiny process, they have raised a whole series of serious issues with regard to this legislation that you would expect to come from a serious scrutiny process. I think that it does represent some of the highest levels of scrutiny over a piece of legislation that is one of the most innovative, progressive and groundbreaking pieces of legislation that I think have come before this Assembly.

Rwy'n croesawu'r Bil hwn yn fawr iawn ac rwy'n croesawu'n arbennig hefyd yr adroddiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a hefyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, oherwydd eu bod, fel rhan o'r broses graffu, wedi codi cyfres o faterion difrifol o ran y ddeddfwriaeth hon y byddech yn disgwyl iddynt godi o broses graffu ddifrifol. Credaf mai dyma beth o'r gwaith craffu ar y lefelau uchaf ar ddarn o ddeddfwriaeth sy'n un o'r darnau o ddeddfwriaeth mwyaf arloesol a blaengar yr wyf yn meddwl sydd wedi dod gerbron y Cynulliad hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is an awful lot of work that does need to be done and there is considerable amendment that needs to take place. I have raised a number of issues relating to having the whole issue of social justice on the face of the Bill. Of course, what the Bill does seek to do is to blend together three somewhat contradictory concepts, or three of the most difficult concepts to put together, which are environmental sustainability, economic sustainability, and, importantly, social justice. It is for this reason that there is absolutely no surprise that there is a lot of concern about the Bill, and a lot of questions about the Bill and about the drafting and the format of the Bill. It is inevitable because we are in an area where this is a unique piece of legislation that provides a framework for a broad concept of sustainability, in a world where there is no model to follow. This is internationally groundbreaking legislation for Wales. We are not only leading the way, but we also gamble and take the risks of all of the difficulties associated with such legislation.

Mae llawer iawn o waith sydd angen ei wneud ac mae angen gwneud cryn waith diwygio. Rwyf wedi codi nifer o faterion yn ymwneud â chael holl fater cyfiawnder cymdeithasol ar wyneb y Bil. Wrth gwrs, yr hyn y mae'r Bil yn ceisio ei wneud yw cyfuno tri chysyniad braidd yn anghyson, neu dri o'r cysyniadau mwyaf anodd i'w rhoi at ei gilydd, sef cynaliadwyedd amgylcheddol, cynaliadwyedd economaidd, ac, yn bwysig, cyfiawnder cymdeithasol. Dyma'r rheswm pam nad oes unrhyw syndod o gwbl y ceir llawer o bryder ynglŷn â'r Bil, a llawer o gwestiynau ynglŷn â'r Bil ac ynglŷn â drafftio a fformat y Bil. Mae'n anochel oherwydd ein bod mewn maes lle mae hwn yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth sy'n rhoi fframwaith i gysyniad eang o gynaliadwyedd, mewn byd lle nad oes unrhyw fodel i'w ddilyn. Mae hon yn ddeddfwriaeth arloesol yn rhyngwladol i Gymru. Rydym yn arwain y ffordd, ond rydym hefyd yn gamblo a mentro â phob un o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth o'r fath.

I do not want to repeat all of the valid matters that have been raised during the scrutiny process by CLAC and by the environment committee, and I have already expressed what my concerns are. However, in terms of the principles of this particular legislation—that is, the question of whether this legislation should proceed to the next stage, quite clearly, it is. Most of the evidence that we received during the committee process was to support the principles while recognising the considerable amount of work that still needs to be done. So, I congratulate the Minister on the hard, difficult and innovative work that has taken place to get us to where we are, while recognising that there is still an enormous amount of work that we have to do. However, we must not lose this particular legislation at this stage. So, I will be supporting it in terms of the principles of the legislation, and I hope that we will unanimously, across this Chamber, also do that to take it to the next stage.

Nid wyf am ailadrodd yr holl faterion dilys a godwyd yn ystod y broses graffu gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a gan y pwyllgor amgylchedd, ac rwyf eisoes wedi mynegi beth yw fy mhryderon. Fodd bynnag, o ran egwyddorion y ddeddfwriaeth neilltuol hon—hynny yw, y cwestiwn a ddylai'r ddeddfwriaeth hon fynd ymlaen i'r cyfnod nesaf, mae'n eithaf amlwg y dylai. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn ystod y broses pwyllgor yn cefnogi'r egwyddorion a hefyd yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd angen ei wneud o hyd. Felly, rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar y gwaith caled, anodd ac arloesol sydd wedi digwydd i'n cael ni i'r sefyllfa hon, a hefyd yn cydnabod bod llawer iawn o waith o hyd y mae'n rhaid inni ei wneud. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni beidio â cholli'r ddeddfwriaeth benodol hon ar y cam hwn. Felly, byddaf yn ei chefnogi yn nhermau egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn unfrydol, ar draws y Siambr hon, hefyd yn gwneud hynny i fynd â hi i'r cyfnod nesaf.

17:06

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we have heard two committee Chairs who have expressed grave reservations about this piece of legislation. As Welsh Conservatives, we support the policy intention behind the Bill, but it is disappointing that, after two years and endless consultations and conversations, we have this Bill in front of us that seems to ignore much of what stakeholders said during that consultation process. In terms of looking at the report of the Environment and Sustainability Committee, I am going to read this extract, which says:

'A significant number of Members have serious misgivings about the Bill in its current form. They believe that the number of amendments required to make the Bill workable are so substantial that the general principles should not be agreed by the Assembly and that the Welsh Government should bring forward a revised Bill.'

The concerns, echoed by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, where basic concepts such as 'wellbeing' have not been properly defined, really make the number of amendments that will need to be made to this Bill virtually unworkable. It is disappointing, Minister, when you have the help and assistance of so many civil servants, that you have been unable to get it into a shape that makes this Bill fit for purpose.

There is a lack of clarity in the Bill. How does the future generations Bill fit in with the planning Bill and the environment Bill? It is not clear. The architecture of the Bill does not sit clearly with the other legislation that we know is coming forward. There needs to be redefinition of the number of goals. Those recommendations have clearly come forward from the committee. There are huge concerns about accountability, particularly the way in which the future generations commissioner will be appointed. I am one of those who would support the recommendation that that appointment is made by the Assembly. There is also the commissioner's advisory panel, and the way that that is going to be brought about. They are key people—key advisers to that important role. To have that panel appointed by Welsh Government Ministers we do not think is appropriate.

Credaf ein bod wedi clywed dau Gadeirydd pwyllgor sydd wedi mynegi amheuan mawr ynghylch y darn hwn o ddeddfwriaeth. Fel Ceidwadwyr Cymreig, rydym yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil, ond mae'n siomedig, ar ôl dwy flynedd ac ymgynghoriadau a sgysiau diddiwedd, bod y Bil hwn ger ein bron sy'n ymddangos fel pe bai'n anwybyddu llawer o'r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori. O ran edrych ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rwy'n mynd i ddarllen y darn hwn, sy'n dweud:

'Mae gan nifer sylweddol o Aelodau amheuan difrifol ynghylch y Bil ar ei ffurf bresennol. Yn eu barn hwy, mae nifer y diwygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Bil yn ymarferol mor sylweddol fel na ddylai'r Cynulliad gytuno i'r egwyddorion cyffredinol ac y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil diwygiedig'.

Mae'r pryderon, a adleisiwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, lle nad yw cysyniadau sylfaenol fel 'llesiant' wedi cael eu diffinio'n briodol, mewn gwirionedd yn golygu bod nifer y gwelliannau y bydd angen eu gwneud i'r Bil hwn bron yn anymarferol. Mae'n siomedig, Weinidog, a chithau wedi cael help a chymorth cymaint o weision sifil, nad ydych wedi llwyddo i'w gael i siâp sy'n gwneud y Bil hwn yn addas i'w ddiben.

Nid yw'r Bil yn ddigon eglur. Sut mae'r Bil cenedlaethau'r dyfodol yn cyd-fynd â'r Bil cynllunio a'r Bil amgylchedd? Nid yw'n glir. Nid yw pensaernïaeth y Bil yn eistedd yn glir â'r ddeddfwriaeth arall y gwyddom sy'n dod gerbron. Mae angen ailddiffinio nifer o nodau. Mae'r argymhellion hynny wedi eu cyflwyno'n glir gan y pwyllgor. Ceir pryderon enfawr ynghylch atebolrwydd, yn enwedig y ffordd y bydd y comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei benodi. Rwy'n un o'r rhai a fyddai'n cefnogi'r argymhelliad y dylai'r Cynulliad wneud y penodiad hwnnw. Dyna ichi hefyd banel cynghori'r comisiynydd, a'r ffordd y bydd hynny'n cael ei gyflawni. Maent yn bobl allweddol—cynghorwyr allweddol i'r swyddogaeth bwysig honno. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol i'r panel hwnnw gael ei benodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is a danger, Minister, that the Bill, as it is currently drafted, will just become a process-driven Bill that is about ticking boxes, rather than a Bill that effects real change—the kind of real change that Welsh Conservatives would like to see in our communities. We believe in sustainable development. We believe in tackling some of the grave problems that you outlined. However, we do not believe that the Bill, as currently drafted, is the way to achieve that.

I was very disappointed that, in your opening remarks, Minister, you did not indicate to the Assembly more widely whether or not you were going to accept and address the key recommendations made in the report—namely, recommendations 3, 9, 13, 14, 16, 19, 21, 23, 25, 27, 28 and 29. The fact that we have made 32 recommendations, as part of the committee, shows how much we feel is wrong with this Bill. My view is that, yes, there should be a Bill that deals with these principles, but this is not the Bill to do it, and you need to be looking at bringing forward a Bill that really does achieve what you are hoping to achieve. The reality is that the amendment process to this Bill is going to be so huge—every part of the Bill is going to have to be looked at—that I echo the concerns that the Chair of the Environment and Sustainability Committee made about costs. We know that there is going to be change in the public sector. We know that there are Williams commission implications that will be coming through for local councils, and in a time when their budget settlements have been so tight—and budget settlements across the public sector have been so tight—it is a badly drafted piece of legislation that is going to have the kind of costs that have been outlined in the explanatory memorandum and in the response of the auditor general. Are those appropriate at this time? You can—

Mae perygl, Weinidog, y bydd y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn dod yn Fil a yrrir gan brosesau ac sy'n ymwneud â thicio blychau, yn hytrach nag yn Fil sy'n cyflwyno newid go iawn—y math o newid go iawn y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn hoffi ei weld yn ein cymunedau. Rydym yn credu mewn datblygu cynaliadwy. Rydym yn credu mewn mynd i'r afael â rhai o'r problemau difrifol a amlinellwyd gennych. Fodd bynnag, nid ydym yn credu mai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yw'r ffordd i gyflawni hynny.

Roeddwn yn siomedig iawn na wnaethoch, yn eich sylwadau agoriadol, Weinidog, ddangos i'r Cynulliad yn ehangach a ydych yn mynd i dderbyn a mynd i'r afael â'r argymhellion allweddol a wnaed yn yr adroddiad ai peidio—sef argymhellion 3, 9, 13, 14, 16, 19, 21, 23, 25, 27, 28 a 29. Mae'r ffaith ein bod wedi gwneud 32 o argymhellion, fel rhan o'r pwyllgor, yn dangos faint sydd o'i le ar y Bil hwn yn ein barn ni. Fy marn i yw, ie, y dyldid cael Bil sy'n ymdrin â'r egwyddorion hyn, ond nad hwn yw'r Bil i wneud hynny, ac mae angen ichi fod yn ceisio cyflwyno Bil sydd wir yn cyflawni'r hyn yr ydych yn gobeithio'i gyflawni. Y gwir amdani yw bod y broses o wneud gwelliannau i'r Bil hwn yn mynd i fod mor enfawr—bydd rhaid edrych ar bob rhan o'r Bil—fel fy mod yn adleisio'r pryderon a wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ynghylch costau. Rydym yn gwybod y bydd newidiadau yn y sector cyhoeddus. Rydym yn gwybod y bydd ynghorau lleol oblygiadau yn sgil comisiwn Williams, ac mewn cyfnod pan mae eu setliadau cyllideb wedi bod mor dynn—a setliadau cyllideb ar draws y sector cyhoeddus wedi bod mor dynn—mae'n ddarn o ddeddfwriaeth wedi'i ddrafftio'n wael sy'n mynd i arwain at y math o gostau a amlinellwyd yn y memorandwm esboniadol ac yn ymateb yr archwilydd cyffredinol. A yw'r rheini'n briodol ar yr adeg hon? Gallwch —

17:11 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Not on that point, because I know that you will speak later.

Nid ar y pwynt hwnnw, oherwydd y gwn y byddwch yn siarad yn nes ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to the aims of the Bill, Minister, you can achieve that a lot of what you want through policy. You do not need to legislate to achieve it; you can achieve it through your policy. It seems to me that it is unnecessarily complicated.

Mewn cysylltiad ag amcanion y Bil, Weinidog, gallwch gyflawni llawer o'r hyn yr ydych ei eisiau drwy gyfrwng polisi. Nid oes angen i chi ddeddfu i gyflawni hynny; gallwch ei gyflawni drwy eich polisi. Mae'n ymddangos i mi yn ddiangen o gymhleth.

17:11 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
A gaf i ddweud ar y dechrau fy mod i, fel ambell un arall, yn credu bod bwriad polisi Llywodraeth Cymru fan hyn yn gywir? Mae'n un y mae Plaid Cymru yn ei gymeradwyo ac yn ei gefnogi, ac ni ddylid gweld sylwadau beirniadol ar y Bil ei hunan fel gwrthwynebiad i'r bwriad polisi hwnnw. I'r gwrthwyneb, a dweud y gwir, oherwydd mae Plaid Cymru am weld Bil sy'n ddatganiad o fwriad cryfach a chliriach sy'n rhoi gwell synnwyr o gyfeiriad i'r sector gyhoeddus yng Nghymru.

May I say at the outset that I, like a number of others, believe that the policy intention of Welsh Government is right? It is one that Plaid Cymru commends and supports, and you should not see critical comments on the Bill itself as opposition to that policy intention, but to the contrary, to be honest, because Plaid Cymru wants to see a Bill that is a stronger and clearer statement of intent that gives better guidance to the public sector in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n annerbyniol bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wedi methu â chynnwys datganiad clir o fyw o fewn ein terfynau amgylcheddol, fel yr ydym yn ei gael ar hyn o bryd yn 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', ond nid yw ychwaith yn cydnabod diffiniad Bruntland yn llawn, ac felly mi fyddwn ni, fel y mae'r pwyllgor wedi ei wneud, yn annog y Gweinidog i gryfhau'r egwyddor o ddefnyddio dim ond ein siâr deg o adnoddau'r Ddaear. Mae sôn am wneud defnydd cymesur yn un o'r nodau, ond nid yw'n dweud â beth y mae'n gymesur. Felly, mae gwendid yno. Mae'n rhaid inni fod yn glir ein bod ni am fyw o fewn terfynau amgylcheddol a hefyd ynglŷn â'r impact rhyngwladol y cyfeiriwyd ato yn barod.

Mae'r Gweinidog, yn ei sylwadau agoriadol, wedi sôn am 'Y Gymru a Garem' a'r ddisgwrs genedlaethol sydd wedi bod o gwmpas hynny. Wrth gwrs, prif ganfyddiad hwnnw oedd mai prif flaenoriaeth cenedlaethau'r dyfodol yw newid yn yr hinsawdd, ond nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Bil, mewn gwirionedd, fel y mae wedi'i osod ar hyn o bryd. Nawr, rwy'n cydnabod nad Bil amgylcheddol yw e, ond mae'r amgylchedd yn tanategu—yn 'underpin-io'—yr elfennau eraill. Meddyliwch am newid yn yr hinsawdd: mae llifogydd, er enghraifft, yn achosi impact amgylcheddol, ond mae impact economaidd difrifol hefyd. Rydym yn gweld yr effaith ar isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd ac ar y sector dwristiaeth, fel digwyddodd yn Aberystwyth a mannau eraill, a llifogydd ar dir amaethyddol ac yn y blaen. Felly, mae perthnasedd sy'n gysail ehangach na'r sector amgylcheddol yn unig o fewn y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy pan mae'n dod at newid yn yr hinsawdd. Wrth gwrs, mae 'impacts' cymdeithasol hefyd, o safbwynt symudoledd poblogaeth ac yn y blaen. Felly, mae'n rhaid i'r Llywodraeth, yn fy marn i, wneud y cysylltiad yn llawer mwy 'explicit' rhwng newid yn yr hinsawdd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar wyneb y Bil.

Mae angen cryfhau'r nodau llesiant a'u disgrifiadau—mae hynny, wrth gwrs, wedi dod yn glir yn yr adroddiad. Cymru sy'n fwy cyfartal yw'r nod. Wel, 'yn fwy cyfartal'? Cymru gyfartal, mae'n rhaid, yw'r nod y dylem ni fod yn ymgyrraedd amdano. A Chymru iachach yn yr un ffordd? Wel, nage; Cymru iach, nid Cymru iachach. Mae'n rhy 'vague' mewn sawl ystyr.

Mae sawl un wedi tynnu sylw at yr ail nod o Gymru gydnerth—y nod amgylcheddol, os liciwch chi, sy'n sôn am gael amgylchedd naturiol, bioamrywiol, gydag ecosystemau iach a gweithredol, ond wrth gwrs fe all ecosystemau gweithredol ddod ar draul bioamrywiaeth, ac felly mi ddylid cynnwys yr angen i adfer a gwella bioamrywiaeth yn fy marn i.

Mae angen cryfhau'r iaith yn gyffredinol yn y Bil, am ei fod yn cyfyngu ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan gyrff cyhoeddus. Mi ddylai fe fod, wrth gwrs, hefyd yn berthnasol i bob agwedd ar waith y cyrff cyhoeddus hynny, ac mi ddylai fod rheidrydd ar y cyrff cyhoeddus i ddilyn argymhellion y comisiynydd, neu o leiaf i roi esboniad os ydyn nhw'n dewis peidio â gwneud hynny. Nid wyf yn gweld sut y mae sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus am gael effaith drawsnewidiol ar hwn hefyd, oherwydd mae llawer o'r dystiolaeth yr ydym ni fel pwyllgor wedi ei chael wedi cwestiynu llwyddiant y byrddau gwasanaethau lleol presennol, ac nid yw eu gosod ar sail statudol, yn fy marn i, yn mynd i drawsnewid hynny.

It is unacceptable that the principle of sustainable development has failed to include a clear statement of living within our environmental limits, as of course we have at the moment in 'One Wales: One Planet', but neither does it actually recognise the Bruntland definition in full, so, as the committee has done, we would urge the Minister to strengthen the principle of using only our fair share of the resources of the Earth. There is talk of proportionate use in one of the aims, but it does not say proportionate to what. So, there is a weakness there. We must be clear that we want to live within environmental limits and also about the international impact that has already been mentioned.

The Minister, in his opening statement, also mentioned 'The Wales We Want' and the national conversation that we have had around that. Of course, the main conclusion of that was that the main priority of future generations is climate change, but that is not reflected in the Bill as it is set out at present. Now, I acknowledge that it is not an environmental Bill per se, but the environment does underpin all the other elements. Think about climate change: flooding, for example, has an environmental impact, but there is a serious economic impact also. We see the impact on the infrastructure of the roads and railways and on the tourist sector, as we saw in Aberystwyth and other areas, and flooding on agricultural land and so on. So, there is a relevance that is a broader precedent than just the agriculture sector within the definition of sustainable development when it comes to climate change. Of course, it has a social impact as well, from the point of view of the mobility of populations and so on. So, the Government, in my view, must make a much more explicit link between climate change and the wellbeing of future generations on the face of the Bill.

We need to strengthen the wellbeing goals and their definitions—that, of course, has become clear in the report. Greater equality in Wales is the goal. Well, 'greater equality'? Surely an equal Wales is what we should be aiming for. A healthier Wales? No; we want a healthy Wales not a healthier Wales. It is too vague in a number of senses.

A number of people have alluded to the second goal, which is a robust Wales—the environmental goal, if you like, which talks about having a natural environment, biodiversity and healthy, active ecosystems, but of course active ecosystems could come at the expense of biodiversity, and therefore we should include the need to restore and improve biodiversity, in my opinion.

We need to strengthen the language generally in the Bill, as it restricts what is expected from public organisations. It should also be relevant to every aspect of the work of those public bodies, and those public bodies should be duty bound to follow the recommendations of the commissioner, or at least to explain why they have chosen not to do so. I do not see how the establishment of public service boards can have a transformative impact on this, because a great deal of the evidence that we have received as a committee has questioned the efficacy of the current local services boards, and putting them on a statutory basis, in my view, is not going to change that.

Mae'r Bil yn gryf iawn pan mae'n dod at ddweud wrthym faint o bwyllgorau a ddylai fod a faint o bobl sydd i fod ar bwyllgorau, ond yn dawedog ar bethau mwy, fel newid yn yr hinsawdd. Mae ambell un wedi ei ddisgrifio fel Bil diwygio'r sector gyhoeddus yn hytrach na Bil datblygu cynaliadwy. Nid wyf yn mynd mor bell â hynny, ond mae perygl bod gormod o bwyslais ar broses ac nid ar gael yr effaith yr ydym am ei weld ar lawr gwlad o safbwynt newid y diwylliant a'r ffordd y mae'r sector gyhoeddus yn gweithredu yng Nghymru.

Nid oes gennyf amser i fynd ar ôl materion yn ymwneud â'r comisiynydd arfaethedig, felly gadawaf hynny i eraill, ac, wrth gwrs, mae adroddiad yr archwilydd cyffredinol ar asesiad effaith rheoleiddiol y Bil hefyd yn codi llawer o gwestiynau yn fy meddwl i.

Rwy'n gyndyn i bleidleisio yn erbyn y Bil ar ddiwedd Cyfnod 1. Mae'r adroddiad gan y pwyllgor yn ei wneud yn glir—a hefyd y consensws trawsbleidiol sydd wedi dod o gyfeiriad y pwyllgor—fod angen newidiadau, a rwy'n meddwl ei fod wedi cael ei wneud yn gwbl glir i chi, Weinidog, bod angen newidiadau arwyddocaol hefyd os yw'r Bil am fynd yn ei flaen. Mae rhai pobl yn dweud bod hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth o safbwynt datblygu cynaliadwy; wel, mae'n gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i'w cael yn anghywir, a dyna'r gofid sydd gennyf. Fodd bynnag, mae ein cefnogaeth i'ch bwriad polisi chi o safbwynt Plaid Cymru yn gadarn—

The Bill is very strong when it comes to telling us how many committees there should be and how many people should be on committees, but is silent on bigger issues, such as climate change. Some have described it as a Bill to reform the public sector rather than a sustainable development Bill. I would not go as far as that, but there is a risk that there is too much of an emphasis on process rather than on getting the impact that we want to see on the ground from the point of view of changing the culture and the way that public sector works in Wales.

I do not have time to pursue matters appertaining to the proposed commissioner, so I will leave that to others, and, of course, the auditor general's report on the regulatory impact assessment of the Bill also raises a number of questions in my mind.

I am reluctant to vote against the Bill at the end of Stage 1. The committee report makes it clear—and also the cross-party consensus that has come from the direction of the committee—that amendments are needed, and I think it has been made quite clear to you, Minister, that we need to see significant amendments if the Bill is to proceed. Some people say that this is a once in a generation opportunity from the point of view of sustainable development; well, it is a once in a generation opportunity to get it wrong, and that is my concern. However, our support for your policy intention from Plaid Cymru's point of view is robust—

17:16 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Wind up, please.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Dirwynwch i ben, os gwelwch yn dda.

17:16 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
[Yn Parhau.]—ond mae angen cael y Bil yn iawn ac, fel mae'n sefyll, rwy'n ofni bod perygl bod y cyfle hwnnw'n cael ei fethu.

[Continues.]—but we need to get it right and, as things stand, I am afraid that we will lose this opportunity.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:16 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am sure that every Member in the Chamber would agree with the principles of sustainability. Who could do otherwise, with carbon emissions rising, individuals failing to attain their potential and, indeed, humanity as a whole living beyond its means? However, no matter how honourable the rhetoric that surrounds this Bill, we must ensure that the principles are sound and robust. The goals of a prosperous, resilient, healthier, more equal Wales, of cohesive communities, a vibrant culture and a thriving Welsh language—who could be against those? However, this Bill does not in its current form create a clear path to achieve the Wales that we want. It sadly lacks the clarity that we should be seeking.

Rwy'n siŵr y byddai pob Aelod yn y Siambr yn cytuno ag egwyddorion cynaliadwyedd. Pwy allai beidio, ag allyriadau carbon yn cynyddu, unigolion yn methu â chyrraedd eu potensial ac, yn wir, dynoliaeth yn ei chyfarwydd yn byw y tu hwnt i'w modd? Fodd bynnag, ni waeth pa mor anrhydeddus yw'r rhethreg ynglŷn â'r Bil hwn, rhaid inni sicrhau bod yr egwyddorion yn gadarn ac yn gryf. Amcanion o sicrhau Cymru ffyniannus, wydn, iachach, fwy cyfartal, â chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu—pwy allai fod yn erbyn hynny? Fodd bynnag, nid yw'r Bil hwn ar ei ffurf bresennol yn creu llwybr clir i gyflawni'r Gymru yr ydym am ei chael. Mae'n brin o'r eglurder y dylem fod yn ei geisio, yn anffodus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The Environment and Sustainability Committee, as we have already heard, called for a stronger, clearer statement of intent and sense of direction for public bodies, and for the wording around the goals and descriptions to be clear and unambiguous. The Sustainable Development Alliance has also raised concerns that the Bill in its current form lacks a robust and clear definition of sustainable development, and one that is clearly linked back to the Bill's goals and principles. I fear that, without that clarity and direction, the Welsh Liberal Democrat group, at this stage, cannot support the Bill in this form. I would hope to see a proper section setting out the principles that we are working to, with a distinct and robust definition of sustainable development, reflecting the importance both of nature and, as Llyr Gruffydd and others have stated, respecting our environmental limits. I would like to see a greater awareness that the actions of the Welsh Government affect those in other countries also. The international dimension is critical here. We need to see clearer targets and goals to measure our indicators against, in particular in terms of combating climate change and reducing greenhouse gas emissions.

We must also strengthen the role of the future generations commissioner. We need to ensure that the commissioner has sufficient independence and resource to properly scrutinise Government and that he or she should not be in any sense the prisoner of Welsh Government, particularly, possibly, of some future regime less benign than the current one. The commissioner should be appointed by the Assembly, potentially in the form proposed by the committee, with an appointments panel or with a hearings model, based on the way in which some European Commission appointments are made. We need greater accountability, and this can be achieved by ensuring that the goals and objectives can be amended, added to, or removed only by a two-thirds majority vote in this place. The commissioner should also ensure that appropriate indicators are developed and that they can be compared to past indicators so that we can properly track the improvements that we are seeking to make. The commissioner's power should also be strengthened so that there is scope for investigation from the public, so that evidence can be provided and critical reports issued as appropriate.

We are concerned also that this Bill currently repeals sections of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 scrapped in such a high-profile way just last January in this place. This is surely a procedural nightmare, and, in its current form, should not proceed.

Colleagues, we are at a fork in the road. If we get this Bill right and, if the Minister comes to meet us in that way, we can make a real positive difference to Wales, and, equally importantly, to our planet. However, it needs to be strengthened in a number of respects. We disagree with the principles in their current form because they are not robustly enough stated. We disagree that wellbeing plans should mean removing support for some groups, such as carers, who play such a vital role in our society. It is our responsibility, in turn, to provide the specific support that they require.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, fel y clywsom eisoes, yn galw am ddatganiad cryfach, cliriach o fwriad a chyfeiriad ar gyfer cyrff cyhoeddus, ac i'r geiriad o amgylch y nodau a'r disgrifiadau fod yn glir ac yn ddiamwys. Mae'r Gynghrair Datblygu Cynaliadwy hefyd wedi codi pryderon nad yw'r Bil ar ei ffurf bresennol yn cynnwys diffiniad cadarn a chlir o ddatblygu cynaliadwy, ac un sydd wedi'i gysylltu'n glir â nodau ac egwyddorion y Bil. Rwy'n ofni na all grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, heb yr eglurder a'r cyfeiriad hwnnw, gefnogi'r Bil ar y ffurf hon ar hyn o bryd. Byddwn yn gobeithio gweld adran briodol yn nodi'r egwyddorion yr ydym yn eu dilyn, gyda diffiniad pendant a chadarn o ddatblygu cynaliadwy, gan adlewyrchu pwysigrwydd byd natur ac, fel y mae Llyr Gruffydd ac eraill wedi datgan, gan barchu ein terfynau amgylcheddol. Hoffwn weld mwy o ymwybyddiaeth bod gweithredoedd Llywodraeth Cymru yn effeithio ar y rhai mewn gwledydd eraill hefyd. Mae'r dimensiwn rhyngwladol yn hanfodol yma. Mae angen i ni weld targedau a nodau cliriach ar gyfer mesur ein dangosyddion, yn enwedig o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Rhaid inni hefyd gryfhau rôl comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni sicrhau bod gan y comisiynydd ddigon o annibyniaeth ac adnoddau i graffu'n briodol ar y Llywodraeth ac na ddylai ef neu hi fod mewn unrhyw ystyr yn garcharor i Lywodraeth Cymru, yn arbennig, o bosibl, rhyw drefn yn y dyfodol sy'n llai diniwed na'r un bresennol. Dylai'r comisiynydd gael ei benodi gan y Cynulliad, o bosibl ar y ffurf a gynigir gan y pwyllgor, gyda phanel penodiadau neu gyda model gwrandawiaadau, yn seiliedig ar y ffordd y mae rhai penodiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu gwneud. Mae arnom angen mwy o atebolrwydd, a gellir cyflawni hyn drwy sicrhau mai dim ond drwy bleidlais â mwyafrif o ddwy ran o dair yn y lle hwn y gellir diwygio, ychwanegu at, neu ddileu'r nodau a'r amcanion. Dylai'r comisiynydd hefyd sicrhau bod dangosyddion priodol yn cael eu datblygu a bod modd eu cymharu â dangosyddion y gorffennol fel y gallwn olrhain yn iawn y gwelliannau yr ydym yn ceisio'u gwneud. Dylai pŵer y comisiynydd hefyd gael ei gryfhau fel bod cyfle ar gyfer ymchwilio gan y cyhoedd, er mwyn darparu tystiolaeth a chyhoeddi adroddiadau beirniadol fel y bo'n briodol.

Rydym yn pryderu hefyd bod y Bil hwn ar hyn o bryd yn diddymu adrannau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y cafwyd gwared arni mewn ffordd proffil uchel fis Ionawr diwethaf yn unig yn y lle hwn. Dyma yn sicr hunllef weithdrefnol, ac, ar ei ffurf bresennol, ni ddylai fynd yn ei flaen.

Gydweithwyr, rydym wedi cyrraedd croesffordd. Os byddwn yn cael y Bil hwn yn iawn ac, os bydd y Gweinidog yn dod i gwrdd â ni yn y ffordd honno, gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn i Gymru, ac, yr un mor bwysig, i'n planed. Fodd bynnag, mae angen ei gryfhau mewn sawl ffordd. Rydym yn anghytuno â'r egwyddorion ar eu ffurf bresennol oherwydd nad ydynt wedi'u datgan yn ddigon cadarn. Rydym yn anghytuno y dylai cynlluniau llesiant olygu cael gwared ar gymorth i rai grwpiau, megis gofalwyr, sy'n chwarae rhan mor hanfodol yn ein cymdeithas. Ein cyfrifoldeb ni, yn ein tro, yw darparu'r cymorth penodol sydd ei angen arnynt.

Just last Monday, it was my pleasure to take part in a young farmers consultation event at the Winter Fair. They spoke with clarity; this Bill also should speak with clarity. The Welsh Liberal Democrats will be working to ensure that this Bill is transformed from being a set of warm sentiments to a piece of legislation that is truly transformative and that sets out a clear path to a sustainable Wales, with the capacity to make a real difference to people's lives.

Dim ond ddydd Llun diwethaf, roedd yn bleser gennyf gymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori â'r ffermwyr ifanc yn y Ffair Aeaf. Roeddent yn siarad yn eglur; dylai'r Bil hwn hefyd siarad yn eglur. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweithio i sicrhau bod y Bil hwn yn cael ei drawsnewid o gyfres o deimladau twymgalon i fod yn ddarn o ddeddfwriaeth sydd yn wirioneddol drawsnewidiol ac sy'n nodi llwybr clir tuag at Gymru gynaliadwy, â'r gallu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

17:21

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased to have the opportunity to speak in this debate. I am a member of the Environment and Sustainability Committee, so I have heard the evidence from all the different environmental bodies. I have to say that I have been visited consistently in my office and have had masses of correspondence from those different bodies, all asking for this Bill to go through. They want improvements to the Bill, but they want it to be passed, certainly at this first stage. They think it is a very, very important Bill, because it is an ambitious Bill, it is very far-reaching, and its intent has been universally welcomed by all the people I have spoken to from all the different organisations involved, and, indeed, as has been said today, by all the members of the committee; the intent has been very welcome.

Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, felly rwyf wedi clywed y dystiolaeth gan bob un o'r gwahanol gyrff amgylcheddol. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi cael ymweliadau cyson yn fy swyddfa ac wedi cael llawer iawn o ohebiaeth gan y cyrff gwahanol hynny, pob un yn gofyn am i'r Bil hwn fynd drwyddo. Maent am weld gwelliannau i'r Bil, ond maent am iddo gael ei basio, yn sicr yn ystod y cyfnod cyntaf hwn. Maent o'r farn ei fod yn Fil pwysig iawn, iawn, gan ei fod yn Fil uchelgeisiol. Mae'n bellgyrhaeddol iawn, ac mae ei fwrriad wedi cael ei groesawu'n gyffredinol gan yr holl bobl yr wyf wedi siarad â nhw o'r holl wahanol sefydliadau sydd ynghlwm, ac, yn wir, fel y dywedwyd heddiw, gan holl aelodau'r pwyllgor; cafwyd croeso mawr i'r bwriad.

I have been very pleased to hear the Minister say that he will address the issues that have been raised by the committee further on in the stages of this Bill. I have already made it known to him that my main concern about the Bill as it stands is that it does not reflect Wales's international position in the world: the fact that we are global citizens and that we cannot think of ourselves as an island. That, I think, is an absolutely fundamental issue.

Rwyf wedi bod yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn dweud y bydd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y pwyllgor ymhellach ymlaen yng nghyfnodau'r Bil hwn. Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod iddo mai fy mhrif bryder ynghylch y Bil fel y mae yw nad yw'n adlewyrchu sefyllfa ryngwladol Cymru yn y byd: y ffaith ein bod yn ddinasyddion y byd ac na allwn feddwl amdanom ein hunain fel ynys. Mae hynny, yn fy marn i, yn fater hollol sylfaenol.

Internationalism is reflected in many of the Welsh Government's policy initiatives; in fact, I think it has been one of the great successes of the devolved body of the Welsh Assembly that it has been able to take up so many international issues, such as its commitment to fair trade. I have been absolutely thrilled that Cathays High School in my constituency is one of the first schools to switch to fair trade and have its school uniform made using sustainable cotton that is fairly traded in Mali. I feel that those students at Cathays High School think of themselves as global citizens when they wear the hoodies that have been made from sustainable cotton in Mali, and I think this must be reflected in this Bill. These initiatives, such as the fair trade initiative and the Wales for Africa programme, which is another way that the Welsh Government links internationally, are very, very important.

Mae rhyngwladoliaeth yn cael ei adlewyrchu mewn nifer o fentrau polisi gan Lywodraeth Cymru; a dweud y gwir, rwy'n credu iddo fod yn un o lwyddiannau mawr corff datganoledig Cynulliad Cymru ei fod wedi gallu mabwysiadu cynifer o faterion rhyngwladol, megis ei ymrwymiad i fasnach deg. Rwyf wrth fy modd bod Ysgol Uwchradd Cathays yn fy etholaeth i yn un o'r ysgolion cyntaf i newid i fasnach deg a chael gwneud ei gwisg ysgol gan ddefnyddio cotwm cynaliadwy sy'n cael ei fasnachu'n deg ym Mali. Rwy'n teimlo bod y myfyrwyr hynny yn Ysgol Uwchradd Cathays yn eu hystyried eu hunain yn ddinasyddion y byd pan fyddant yn gwisgo'r hwdis wedi eu gwneud o gotwm cynaliadwy ym Mali, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn y Bil hwn. Mae'r mentrau hyn, megis y fenter masnach deg a'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica, sef ffordd arall y mae Llywodraeth Cymru'n cysylltu'n rhyngwladol, yn bwysig iawn, iawn.

The biggest international issue is, of course, climate change, which has been mentioned here today. On 'The Wales We Want' conversation, 'climate change' were among the most used words that came back from that wide-ranging consultation. However, as things stand, climate change is not mentioned in the Bill and nor is international development. I feel that recommendation 9 from the committee is one of the most important recommendations from the committee to the Welsh Government, and I am pleased that the Minister is prepared to consider that. Regarding the impact of climate change, I do not think we can say too often how difficult and how awful it is in some parts of the world. I am sure that I have said in this Chamber before how many members of my constituency come from Bangladesh, and I went to visit their homes and families in Bangladesh and saw the disappearing land and the water literally rising through the ground as you walked along. I think that that is what we have got to remember. That is what we want all the public bodies and all the people who take actions in Government or in local authorities and health boards to think about: how the actions they take will affect other people throughout the world. In terms of cutting our carbon emissions, again, this is another vital area that I think must be included in this Bill.

In conclusion, I think this Bill has the potential to be a great, groundbreaking and far reaching Bill that could make a big change to how we operate and how we do things in Wales and which will have implications throughout the world. So, I am very pleased to support this Bill and I hope that the Minister will take on board the comments of the committee.

Y mater rhyngwladol mwyaf, wrth gwrs, yw newid yn yr hinsawdd, sydd wedi cael ei grybwyll yma heddiw. O ran y sgwrs 'Y Gymru a Garem', roedd 'newid hinsawdd' ymhlith y geiriau a ddefnyddiwyd fwyaf yn yr ymgynghoriad eang hwnnw. Fodd bynnag, fel y mae pethau, nid yw newid yn yr hinsawdd na datblygu rhyngwladol yn cael eu crybwyll yn y Bil. Rwy'n teimlo mai argymhelliad 9 gan y pwyllgor yw un o'r argymhellion pwysicaf gan y pwyllgor i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n falch bod y Gweinidog yn barod i ystyried hynny. O ran effaith y newid yn yr hinsawdd, nid wyf yn meddwl y gallwn ni ddweud yn rhy aml pa mor anodd a pha mor ofnadwy ydyw mewn rhai rhannau o'r byd. Rwy'n sicr fy mod wedi dweud yn y Siambr hon o'r blaen faint o bobl yn fy etholaeth sy'n dod o Bangladesh, ac es i ymweld â'u cartrefi a'u teuluoedd yn Bangladesh a gweld y tir yn diflannu a'r dŵr yn llythrennol yn codi drwy'r ddaear wrth ichi gerdded. Rwy'n meddwl mai dyna y mae'n rhaid i ni ei gofio. Dyna'r hyn yr ydym am i'r holl gyrff cyhoeddus a'r holl bobl sy'n gweithredu yn y Llywodraeth neu mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd feddwl amdano: sut y bydd y camau gweithredu y maent yn eu cymryd yn effeithio ar bobl eraill ledled y byd. O ran lleihau ein hallyriadau carbon, unwaith eto, mae hwn yn faes hanfodol arall y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Bil hwn yn fy marn i.

I gloi, rwyf yn meddwl bod gan y Bil hwn y potensial i fod yn Fil arloesol, pellgyrhaeddol o bwys a allai wneud newid mawr i'r ffordd yr ydym yn gweithredu ac yn gwneud pethau yng Nghymru ac a fydd â goblygiadau ar hyd a lled y byd. Felly, rwy'n falch iawn i gefnogi'r Bil hwn ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried sylwadau'r pwyllgor.

17:26

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree fully with the policy intentions of the Government with regard to this Bill, but the Bill before us is, unfortunately, not fit for purpose. Many of the points I would have made have already been mentioned so I will associate myself with all of the views of my colleague Antoinette Sandbach. Also, I think that I am in the position of being able to agree almost fully with the views of the Plaid and Lib Dem spokespeople as well.

The Bill makes provision for Welsh Ministers to appoint a future generations commissioner to promote the principles of sustainable development, and that is something I feel particularly strongly about and I will focus my short contribution on that. In the committee Stage 1 report, the overwhelming majority of respondents felt that the commissioner should be independent, impartial and free from political interference. Indeed, the current Commissioner for Sustainable Futures emphasised the importance of the commissioner's independence and said:

'There is a strong case that the appointment and scrutiny of this role is undertaken through the National Assembly as this will exemplify the independent nature of the Commissioner.'

Cytunaf yn llwyr â bwriadau polisi'r Llywodraeth o ran y Bil hwn, ond nid yw'r Bil ger ein bron, yn anffodus, yn addas i'r diben. Mae llawer o'r pwyntiau y byddwn wedi'u gwneud eisoes wedi'u crybwyll felly hoffwn ategu holl safbwyntiau fy nghydweithiwr Antoinette Sandbach. Hefyd, rwy'n meddwl fy mod yn y sefyllfa o fod yn gallu cytuno bron yn llwyr â barn llefarwyr y Blaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benodi comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol i hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn teimlo'n arbennig o gryf yn ei gylch a byddaf yn canolbwyntio fy nghyfraniad byr ar hynny. Yn yr adroddiad pwyllgor Cyfnod 1, teimlai'r mwyafrif llethol o ymatebwyr y dylai'r comisiynydd fod yn annibynnol, yn ddiduedd ac yn rhydd rhag ymyrraeth wleidyddol. Yn wir, pwysleisiodd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol pa mor bwysig yw annibyniaeth y comisiynydd a dywedodd:

Mae achos cryf mai'r Cynulliad ddylai benodi i'r swyddogaeth hon a chraffu arni gan y bydd hyn yn dangos natur annibynnol y Comisiynydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The UK Environmental Law Association emphasised the need to avoid a perceived lack of independence from political interference and the Wales Environment Link noted that an independent commissioner accountable to the Assembly was one of the four essential key elements required to make the legislation effective. The RSPB, Friends of the Earth and WWF Cymru all made similar observations about the appointment process. This was one of the most common criticisms of the Bill, and I do not feel that it is adequate for the Minister to say that, just because other commissioners are appointed by Ministers, there should not be an improvement in the way that the future generations commissioner is appointed to allow for greater scrutiny and transparency. There is an international precedent set, which supports the case for an appointment to be made by the legislature rather than the Executive. I hope that, when he responds to the point that I and others have made, the Minister can be far clearer on his support for the 12 key recommendations from the committee, because, as I see it now, that is the only way for this Bill to progress with cross-party support.

Pwysleisiodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yr angen i osgoi argraff o ddiffyg annibyniaeth rhag ymyrraeth wleidyddol a nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod comisiynydd annibynnol sy'n atebol i'r Cynulliad yn un o bedair elfen allweddol hanfodol sydd eu hangen i wneud y ddeddfwriaeth yn effeithiol. Mae'r RSPB, Cyfeillion y Ddaear a WWF Cymru i gyd wedi gwneud sylwadau tebyg am y broses benodi. Dyma oedd un o'r beirniadaethau mwyaf cyffredin o'r Bil, ac nid wyf yn teimlo ei bod yn ddigonol i'r Gweinidog ddweud, dim ond oherwydd bod comisiynwyr eraill yn cael eu penodi gan Weinidogion, na ddylai fod gwelliant yn y ffordd y mae comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei benodi er mwyn caniatáu ar gyfer mwy o graffu a thryloywder. Mae cynsail rhyngwladol wedi'i osod, sy'n cefnogi'r achos dros wneud penodiad gan y ddeddfwrfa yn hytrach na'r Weithrediaeth. Gobeithio y gall y Gweinidog, wrth ymateb i'r pwynt yr wyf i ac eraill wedi'i wneud, fod yn llawer cliriach ynglŷn â'i gefnogaeth i 12 argymhelliad allweddol y pwyllgor, oherwydd mai dyna'r unig ffordd, fel yr wyf i'n gweld pethau yn awr, i'r Bil hwn symud ymlaen gyda chefnogaeth drawsbleidiol.

17:28 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for the opportunity to speak in this important debate today. It is hard to believe that it is less than six months ago that I introduced the Bill before the Assembly on behalf of the Welsh Government. A lot of work went into preparing the draft Bill, and I know that the Welsh Government continues to work hard, engaging with a broad range of stakeholders in order to ensure that this potentially transformative Bill is ready for action. I believe it will be of tremendous benefit to the people of Wales. I want to speak today in favour of the Bill's general principles. It has been pointed out that the Bill is a very broad and all-encompassing piece of legislation. Indeed, I very much agree with that, as that is precisely what was intended when the Welsh Government introduced it. The main aim of this Bill of course is to strengthen governance across Welsh public services to ensure the sustainability of our public realm for future generations. This is not just about the Welsh Government either. This is about the broad sweep of the Welsh public sector.

It has also been said that this Bill is very ambitious. Again, that is something with which I wholeheartedly agree, as that was what—and still is—the very objective of this Bill when I introduced it. As Mick Antoniw has pointed out and as far as I am aware, this is the first attempt in the world at drafting such a piece of legislation. It is imperative, therefore, that we get it right. Consequently, I am pleased at the level of engagement with external organisations. Indeed, I met a number of them during my time as Minister and listened to their views and concerns. I have continued to do this in my role as a member of the Environment and Sustainability Committee, which has been scrutinising the Bill.

The majority of the organisations with which I have had discussions are supportive of the Bill's general principles and recognise that if these are approved today then we can move to the next stage of more detailed scrutiny and the tabling of amendments. Thorough scrutiny will be necessary and most welcome, given how important it is that we get this pioneering Bill right.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Mae'n anodd credu mai llai na chwe mis sydd wedi mynd heibio ers imi gyflwyno'r Bil gerbron y Cynulliad ar ran Llywodraeth Cymru. Mae llawer o waith wedi mynd i baratoi'r Bil drafft, a gwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n galed, gan ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn sicrhau bod y Bil hwn a allai fod yn drawsffurfiol yn barod i'w roi ar waith. Credaf y bydd o fudd enfawr i bobl Cymru. Rwyf am siarad heddiw o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil. Tynnwyd sylw at y ffaieth bod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth eang iawn a hollgynhwysol. Yn wir, rwy'n cytuno i raddau helaeth iawn â hynny, gan mai dyna'n union yr hyn a fwriadwyd pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Bil. Prif nod y Bil hwn, wrth gwrs, yw cryfhau trefniadau llywodraethu ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod tir y cyhoedd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw hyn yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn unig ychwaith. Mae hyn yn ymwneud ag ehangder y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Dywedwyd hefyd bod y Bil hwn yn uchelgeisiol iawn. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn cytuno'n llwyr ag ef, oherwydd mai dyna oedd union amcan y Bil hwn pan gyflwynais ef—a dyna yw ei amcan o hyd. Fel y mae Mick Antoniw wedi nodi a chynn belled ag y gwn i, dyma'r ymgais gyntaf yn y byd i ddrafftio darn o ddeddfwriaeth o'r fath. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn ei gael yn iawn. O ganlyniad, rwy'n falch ynglŷn â lefel yr ymgysylltu â sefydliadau allanol. Yn wir, cyfarfûm â nifer ohonynt yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog gan wrando ar eu barn a'u pryderon. Rwyf wedi parhau i wneud hyn yn fy rôl fel aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd wedi bod yn craffu ar y Bil.

Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau yr wyf wedi cael trafodaethau â nhw yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yn cydnabod y gallwn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf o graffu mwy manwl a chyflwyno gwelliannau os yw'r rhain yn cael eu cymeradwyo heddiw. Bydd craffu trylwyr yn angenrheidiol ac yn dderbyniol iawn, o ystyried pa mor bwysig yw hi ein bod yn cael y Bil arloesol hwn yn iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to commend the Welsh Government's collaborative and inclusive approach to developing and then introducing this Bill. A pluralist approach to introducing such game-changing legislation is very important. Minister, when I worked with the voluntary Commissioner for Sustainable Futures, Peter Davies, to introduce the national conversation on 'The Wales We Want', in which the people of Wales were asked to tell us what they wanted Wales to look like in 2050, I welcomed the support from the Unicef ambassador, Michael Sheen. This national conversation was in order to involve the public, particularly young people, and get a better idea of the challenges and longer term issues that people feel that Wales's future generations will face. The role of individual future champions will be particularly important in this. Involving the wider Welsh civil society has been key to the way in which we have developed this Bill, and I want to join the Minister in paying tribute to the work that Peter Davies has done in helping us to develop and introduce the legislation.

The Bill is based on the three pillars of sustainable development: economic, environmental and social. At its heart lie the six wellbeing goals for Wales. I fully support the principles of these six goals. Of course, I am mindful of the time and I am sure that we are all familiar with them by now, so I will not list the goals at this stage. These goals, however, will make a genuine positive difference in terms of the way in which the public sector in Wales thinks. Crucially, this will then act as a great incentive for the private sector to subscribe to our sustainable development charter, the principles of which have helped to inform the Bill, and many major companies have signed up to it already.

A particularly important part of this facet of the Bill will be its provisions for creating long-term, sustainable and green jobs for our young people and future generations, thus building on the good groundwork that has already been done in Wales.

Acting Llywydd, the Welsh Government has made great effort to involve all sectors of Welsh civic society, including political parties, in the development of this Bill. Nonetheless, I welcome constructive criticism. If we pass these general principles, we can then move into the more detailed work of scrutiny and the consideration of amendments involving all external stakeholders. Therefore, I urge Members to allow the Bill to proceed by voting in favour today.

Rwyf am ganmol dull cydweithredol a chynhwysol Llywodraeth Cymru o ddatblygu ac yna o gyflwyno'r Bil hwn. Mae'n bwysig iawn cynnwys yr holl wahanol grwpiau hyn wrth gyflwyno deddfwriaeth sy'n newid pethau mewn ffordd mor sylfaenol. Weinidog, pan oeddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy gwirfoddol, Peter Davies, i gyflwyno'r sgwrs genedlaethol ar 'Y Gymru a Garem', pryd y gofynnwyd i bobl Cymru ddweud wrthym sut y maent am i Gymru edrych yn 2050, croesewais y gefnogaeth gan lysgennad Unicef, Michael Sheen. Diben y sgwrs genedlaethol hon oedd cynnwys y cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc, a chael gwell syniad o'r heriau a'r materion tymor hwy y mae pobl yn teimlo y bydd cenedlaethau Cymru yn y dyfodol yn eu hwynebu. Bydd rôl hyrwyddwyr unigol yn y dyfodol yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Mae cynnwys y gymdeithas sifil ehangach yng Nghymru wedi bod yn allweddol i'r ffordd yr ydym wedi datblygu'r Bil hwn, ac rwyf am ymuno â'r Gweinidog i dalu teyrnged i'r gwaith y mae Peter Davies wedi'i wneud yn ein helpu i ddatblygu a chyflwyno'r deddfwriaeth.

Mae'r Bil hwn yn seiliedig ar dair colofn datblygu cynaliadwy: economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Wrth ei wraidd mae'r chwe nod llesiant i Gymru. Rwy'n llwyr gefnogi egwyddorion y chwe nod. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o'r amser ac rwy'n sicr ein bod i gyd yn gyfarwydd â nhw erbyn hyn, felly nid wyf am restru'r nodau ar hyn o bryd. Bydd y nodau hyn, fodd bynnag, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol gwirioneddol o ran y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n meddwl. Yn hanfodol, bydd hyn wedyn yn gweithredu fel cymhelliant gwych i'r sector preifat i danysgrifio i'n siarter datblygu cynaliadwy, y mae ei hegwyddorion wedi helpu i lywio'r Bil, ac mae llawer o gwmnïau mawr wedi ymrwymo iddi eisoes.

Rhan arbennig o bwysig o'r agwedd hon ar y Bil fydd ei ddarpariaethau ar gyfer creu swyddi hirdymor, cynaliadwy a gwyrdd ar gyfer ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol, gan felly adeiladu ar y seiliau da sydd eisoes wedi'u gosod yng Nghymru.

Lywydd Dros Dro, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech fawr i gynnwys pob sector o gymdeithas ddinesig Cymru, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, wrth ddatblygu'r Bil hwn. Serch hynny, rwy'n croesawu beirniadaeth adeiladol. Os byddwn yn pasio'r egwyddorion cyffredinol hyn, gallwn wedyn symud at y gwaith mwy manwl o graffu ac ystyried gwelliannau gan gynnwys yr holl randdeiliaid allanol. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i ganiatáu i'r Bil fynd rhagddo drwy bleidleisio o blaid heddiw.

17:33

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I call Gwenda Thomas.

Yn olaf, galwaf ar Gwenda Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. On Monday, as was mentioned by William Powell, I saw an e-mail circulated from Keith Bowen, director of Carers Wales, on behalf of the Wales Carers Alliance, voicing concerns as to whether this Bill will further dilute existing legal duties on health boards and trust in Wales for carers.

You will recall, Minister, that on 3 February this year, in my previous role as Deputy Minister for Social Services, I issued a written statement and I quote directly from that statement now. This is what I wrote:

‘an issue which I know has been of great interest to Members and stakeholders which relates to the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 and how its provisions are being dealt with in the Bill. Section 11(1) of the Bill places specific duties—’

That, of course, is the Social Services and Well-being (Wales) Bill.

—‘on local authorities and LHBs to work together to assess the extent of needs for care and support—which includes the needs of carers in the local authority’s area—and the extent to which these needs for care and support are not being met.

The Bill requires this local needs assessment provided for in section 11 to be taken into account by local authorities and LHBs as they prepare, or review, their joint health and well-being strategies. In addition to this, and in recognition of the strength of feeling expressed to me in this area, I have tabled an amendment to the Bill for consideration at Stage 3. The effect of which is to amend section 40 of the National Health Services (Wales) Act 2006 to place a duty on LHBs to submit any part of their Health and Well-being Strategy that relates to carers to the Welsh Ministers. This ensures that the current duty on LHBs regarding the leadership role for the submission of strategies to the Welsh Ministers, contained within the Carers Strategies (Wales) Measure 2010, is maintained. It will be imperative that there is clarity regarding the setting of operational and strategic objectives to meet the needs of carers and that these are expressed in detail via the local integrated planning undertaken by local authority and health partners...The Carers Strategies (Wales) Measure 2010 will not be repealed until the Social Services and Well-being (Wales) Bill comes into force in 2016.’

During the process of this Bill, Minister, will you honour the commitment that I made during the third stage of the Social Services and Well-being (Wales) Bill?

Diolch. Ddydd Llun, fel y crybwyllwyd gan William Powell, gwelais e-bost a ddosbarthwyd gan Keith Bowen, cyfarwyddwr Gofalwyr Cymru, ar ran Cynghair Cynhalwyr Cymru, yn lleisio pryderon a fydd y Bil hwn yn gwanhau ymhellach y dyletswyddau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli ar fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru tuag at ofalwyr.

Byddwch yn cofio, Weinidog, fy mod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 3 Chwefror eleni, yn fy rôl flaenorol fel Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rwyf yn dyfynnu’n uniongyrchol o’r datganiad hwnnw nawr. Dyma beth a ysgrifennais:

‘hoffwn droi at fater sydd, rwy’n gwybod, wedi bod o ddiddordeb mawr i’r Aelodau a rhanddeiliaid – sef Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 a sut mae’r Bil yn ymdrin â’i ddarpariaethau. Mae adran 11 (1) y Bil yn rhoi dyletswyddau penodol—’

Hwnnw, wrth gwrs, yw Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

—‘ar awdurdodau lleol a BILlau i gydweithio i asesu i ba raddau y mae angen gofal a chymorth—sy’n cynnwys anghenion gofalwyr yn ardaloedd yr awdurdod lleol—ac i ba raddau nad yw’r anghenion gofal a chymorth hyn yn cael eu diwallu.

Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r asesiad hwn o anghenion lleol y darperir ar ei gyfer yn adran 11 gael ei ystyried gan yr awdurdodau lleol a’r Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt fynd ati i baratoi neu i adolygu eu strategaethau ar y cyd ar gyfer iechyd a llesiant. At hynny, a chan gydnabod y teimladau cryfion sydd wedi’u mynegi wrthyf ynglŷn â’r mater hwn, rwyf wedi cyflwyno gwelliant i’r Bil i’w ystyried yng Nghyfnod 3. Effaith y gwelliant yw diwygio adran 40 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i osod dyletswydd ar Fyrdau Iechyd Lleol i gyflwyno i Weinidogion Cymru unrhyw ran o’u Strategaeth Iechyd a Llesiant sy’n ymwneud â gofalwyr. Bydd hynny’n sicrhau y cynhelir y ddyletswydd bresennol sydd ar Fyrdau Iechyd o ran arwain ar gyflwyno strategaethau i Weinidogion Cymru, fel y’i disgrifir ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010. Bydd yn hanfodol cael eglurder ynghylch gosod amcanion gweithredol a strategol i fodloni anghenion gofalwyr, a bydd yn bwysig bod yr amcanion hyn yn cael eu mynegi’n fanwl yn y gwaith cynllunio integredig lleol a wneir gan bartneriaid ym maes llywodraeth leol ac iechyd...Ni fydd Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn cael ei diddymu hyd nes y bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod i rym yn 2016.’

Yn ystod proses y Bil hwn, Weinidog, a wnewch chi anrhydeddu’r ymrwymiad a wnes i yn ystod trydydd cyfnod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)?

I call the Minister for Natural Resources to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ymateb i’r ddadl.

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you. May I thank colleagues for their comments this afternoon in a very open debate in terms of the opportunity that this Bill presents? The points made by all Members have been noted by my team, and certainly I will take them very seriously.

I am very grateful for the opening comments made by the committee Chair, Alun Ffred, looking very carefully at the recommendations within the report that was presented to us. I am surprised, but Antoinette Sandbach possibly did not hear me in my opening contribution, because I said very clearly that there are many recommendations and nine of which are significant recommendations that are conditional. I understand that fully, and I am prepared to bring back amendments at the next stage in order to address many of these issues that can be worked through at the amendment stages.

David Melding raised very important points on behalf of his committee, and I listened carefully to them. He will also recognise that we are on uncharted territory. This is a new style of Bill, which is groundbreaking and presents opportunity as well as challenges. I am very grateful for the tough but positive challenges that we face through the scrutiny process already, where we can develop and articulate a better Bill for a future Wales that we can all aspire to have.

Mick Antoniw is absolutely right that there is no other model across the globe where we see sustainable development being at the heart of the principle of public service delivery, and it is something that we have to navigate through to ensure that we can, through the whole process of involvement, both inside this Chamber and also externally, bring stakeholders together to develop a better style of Bill. I acknowledge that the Bill, in its current form, is challenging for many Members, but it is something that I am very keen to ensure that, collectively, we can make amendments to.

I do not wholly accept the contribution by Antoinette Sandbach. The principle of this Bill and the concept of wellbeing are very well understood by public sector bodies, but I accept that we have to be very much clearer in our narrative and what the legislation drafting says. As I have said, I will bring a commitment to bring that forward clearly. We share the core principles of sustainable development, and the issue of environment, economic and social principles are at the heart of sustainable development. I welcome the scrutiny provided through the process and also welcome the suggestions that he offers through this debate today, but also, hopefully, in future sessions, moving forward.

Diolch. A gaf i ddiolch i gydweithwyr am eu sylwadau brynhawn heddiw mewn dadl agored iawn o ran y cyfle y mae'r Bil hwn yn ei gyflwyno? Mae fy nhîm wedi nodi'r pwyntiau a wnaed gan yr holl Aelodau, ac yn sicr byddaf yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn iddynt.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y sylwadau agoriadol a wnaed gan Gadeirydd y pwyllgor, Alun Ffred, gan edrych yn ofalus iawn ar yr argymhellion o fewn yr adroddiad a gyflwynwyd inni. Rwy'n synnu, ond wnaeth Antoinette Sandbach o bosibl ddim fy nghlywed yn fy nghyfraniad agoriadol, oherwydd y dywedais yn glir iawn dod llawer o argymhellion a bod naw ohonynt yn argymhellion sylweddol sy'n rhai amodol. Rwy'n deall hynny'n llwyr, ac rwy'n barod i ddod yn ôl â gwelliannau yn y cyfnod nesaf er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn y gellir gweithio drwyddynt yn ystod y camau diwygio.

Cododd David Melding bwyntiau pwysig iawn ar ran ei bwyllgor, a gwrandewais yn astud arnynt. Bydd hefyd yn cydnabod ein bod ar dir dieithr. Mae hwn yn fath newydd o Fil, sy'n torri tir newydd ac sy'n cyflwyno cyfleoedd yn ogystal â heriau. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr heriau anodd ond cadarnhaol yr ydym wedi'u hwynebu drwy'r broses graffu yn barod, lle y gallwn ddatblygu a mynegi Bil gwell er mwyn sicrhau Cymru y gallwn ni i gyd anelu at ei chael yn y dyfodol.

Mae Mick Antoniw yn llygad ei le nad oes yr un model arall unrhyw le yn y byd lle rydym yn gweld datblygu cynaliadwy wrth galon yr egwyddor o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni lywio ein ffordd drwyddo er mwyn sicrhau y gallwn, drwy'r broses gyfranogiad gyfan, y tu mewn i'r Siambr hon a hefyd yn allanol, ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu gwell math o Fil. Rwy'n cydnabod bod y Bil, ar ei ffurf bresennol, yn heriol i lawer o Aelodau, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i sicrhau y gallwn, gyda'n gilydd, wneud gwelliannau iddo.

Nid wyf yn derbyn cyfraniad Antoinette Sandbach yn llwyr. Mae cyrff yn y sector cyhoeddus yn deall egwyddor y Bil hwn a'r cysyniad o lesiant yn dda iawn, ond rwy'n derbyn bod yn rhaid inni fod yn llawer iawn mwy eglur yn ein naratif a'r hyn a ddywedir wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth. Fel y dywedais, byddaf yn dod ag ymrwymiad i ddod â hynny yn ei flaen yn glir. Rydym yn rhannu egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy, ac mae'r amgylchedd, ac egwyddorion economaidd a chymdeithasol wrth wraidd datblygu cynaliadwy. Rwy'n croesawu'r gwaith craffu a wneir drwy'r broses a hefyd yn croesawu'r awgrymiadau y mae'n eu cynnig drwy'r ddadl hon heddiw, ond hefyd, gobeithio, yn y sesiynau yn y dyfodol, wrth symud ymlaen.

I also welcome Julie Morgan's contribution in terms of the international concept. The concept of being global citizens is something that we should aspire for all our young people to adopt and include as part of their everyday life. Indeed, the school that she mentions is certainly one where I would hope, through a procurement process, that local authorities and public sector bodies would consider the very issues that the Member raises in terms of having an impact on international issues. It will be something, again, that I will give some further consideration to in terms of what the goals and principles say with regard to international issues—that we can have an influence regarding the devolved nature of this Bill.

Gwenda Thomas made a very sincere contribution and, of course, I recognise the commitment that she gave on that point when she was Deputy Minister within that process. We have had contact with Carers Wales, and both Mark Drakeford, the Minister for health, and I will be seeking to meet it at the earliest opportunity to resolve these issues on the basis of the contribution that the Member made in her previous role as Deputy Minister. This is something that I will continue to do too.

Colleagues, I think that what we have established today is that the principles and core values of sustainable development are at the heart of 'The Wales We Want'. The public service agenda is making the changes in terms of how it determines the processes, moving forward. However, I also recognise the challenge that we all face in terms of this scrutiny process. I would hope that my colleagues on the Liberal Democrat benches would be able to support this motion on the basis of moving forward today, because if we take the principle of stopping this today, the likelihood is that this future generations Bill will certainly not be passed in this term of Government and that would worry me too. Therefore, I would hope that Members can share with me the opportunity to move forward, but also heavily scrutinise the process as we move into Stage 2.

That leads to a final contribution from me, acting Presiding Officer, today, which is to say that I am very grateful for the contribution of Jeff Cuthbert and other colleagues throughout this process and for bringing us to the tabling of this motion for today. We look forward to continuing the national conversation about 'The Wales We Want', working with people, both inside the Chamber and in third sector bodies, who have been very clear about the core principles of this Bill, and that the Bill should be given passage to the next stages of amendments. My commitment on that basis has been very clear today.

Rwyf hefyd yn croesawu cyfraniad Julie Morgan o ran y cysyniad rhyngwladol. Mae'r cysyniad o fod yn ddinasyddion y byd yn rhywbeth y dylem anelu at weld ein holl bobl ifanc yn ei fabwysiadu a'i gynnwys fel rhan o'u bywyd pob dydd. Yn wir, mae'r ysgol y mae'n sôn amdani yn sicr yn un lle y byddwn yn gobeithio y byddai awdurdodau lleol a chyrrff y sector cyhoeddus, drwy broses gaffael, yn ystyried yr union faterion y mae'r Aelod yn eu codi o ran cael effaith ar faterion rhyngwladol. Bydd yn rhywbeth, unwaith eto, y byddaf yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth bellach iddo o ran yr hyn y mae'r nodau ac egwyddorion yn ei ddweud o ran materion rhyngwladol—y gallwn gael dylanwad o safbwynt natur ddatganoledig y Bil hwn.

Gwnaeth Gwenda Thomas gyfraniad diffuant iawn ac, wrth gwrs, rwy'n cydnabod yr ymrwymiad a roddodd ar y pwynt hwnnw pan oedd yn Ddirprwy Weinidog o fewn y broses honno. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â Gofalwyr Cymru, a byddaf i a Mark Drakeford, y Gweinidog iechyd, yn ceisio cwrdd â nhw ar y cyfle cyntaf i ddatrys y materion hyn ar sail y cyfraniad a wnaeth yr Aelod yn ei rôl flaenorol fel Dirprwy Gweinidog. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn parhau i'w wneud hefyd.

Gydweithwyr, rwy'n meddwl mai'r hyn yr ydym wedi'i sefydlu heddiw yw bod egwyddorion a gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy yn ganolog i 'Y Gymru a Garem'. Mae'r agenda gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud y newidiadau o ran sut y mae'n penderfynu ar y prosesau, gan symud ymlaen. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod yr her sy'n ein hwynebu i gyd o ran y broses graffu hon. Byddwn yn gobeithio y byddai fy nghydweithwyr ar feinciau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gallu cefnogi'r cynnig hwn ar sail symud ymlaen heddiw, oherwydd ei bod yn debygol, os ydym yn dilyn yr egwyddor o atal hyn heddiw, na fydd y Bil cenedlaethau'r dyfodol hwn yn cael ei basio yn nhymor hwn y Llywodraeth a byddai hynny'n fy mhoeni hefyd. Felly, byddwn yn gobeithio y gall Aelodau rannu gyda mi y cyfle i symud ymlaen, ond hefyd i graffu'n drylwyr ar y broses wrth inni symud i mewn i Gyfnod 2.

Mae hynny'n arwain at gyfraniad terfynol gennyf i heddiw, Lywydd dros dro, sef dweud fy mod yn ddiolchgar iawn am gyfraniad Jeff Cuthbert a chydweithwyr eraill drwy gydol y broses hon ac am ddod â ni at gyflwyno'r cynnig hwn ar gyfer heddiw. Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r sgwrs genedlaethol am 'Y Gymru a Garem', gan weithio gyda phobl, y tu mewn i'r Siambr ac mewn cyrrff yn y trydydd sector, sydd wedi bod yn glir iawn ynglŷn ag egwyddorion craidd y Bil hwn, ac ynglŷn â'r ffaith y dylai'r Bil symud ymlaen i'r cyfnodau gwelliannau nesaf. Mae fy ymrwymiad ar y sail honno wedi bod yn glir iawn heddiw.

17:43

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:43

Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources to move the motion.

Cynnig NDM5653 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig.

Motion NDM5653 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:43

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:43

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae un peth rwyf am holi amdano, Weinidog. Rydym ni wedi cael cyfle i edrych ar adroddiad yr archwilydd cyffredinol a gafodd ei gyhoeddi ddydd lau, ac mae'r adroddiad hwnnw yn galw ar y Llywodraeth i ailedrych ar yr holl gostau yn yr asesiad effaith rheoleiddiol oherwydd mae'n gofyn y cwestiwn i ba raddau y bydd y Bil yn arwain at gostau ychwanegol, oherwydd mae'n cwestiynu cynsail nifer o'r costau sydd wedi cael eu hamlinellu.

There is one thing that I want to ask about, Minister. We have had the opportunity to look at the auditor general's report, which was published on Thursday, and that report calls on the Government to look again at all the costs in the regulatory impact assessment because it asks to what extent the Bill will lead to additional costs, given that it questions the premise of a number of the costs outlined.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:43.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:43.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:43

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae sawl argymhellid yn deillio o'r adroddiad hwnnw a byddwn i jest, cyn ein bod yn symud at bleidleisio ar y mater hwn, am i chi rannu gyda ni eich meddyliau chi ynglŷn â sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad. Pa ddiwygiadau rydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n eu gwneud i'r asesiad effaith rheoleiddiol er mwyn sicrhau y gallwn ni fod yn hyderus bod hwnnw yn rhoi darlun mwy cywir a mwy dibynadwy i ni o oblygiadau cost y Bil?

Several recommendations arise from that report and I would just ask, before we vote on this matter, that you share with us your thoughts on how the Government will respond to the report. What revisions do you anticipate making to the regulatory impact assessment in order to ensure that we can be confident that that gives a more accurate and more dependable picture of the cost implications of the Bill?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:44

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for the Member's questions. I recognise the auditor general's contribution to this, and we are working very closely with his office to define what the issues that he has raised are. The drafting procedure of laying a new Bill will mean that we will come with a new RIA, and we will take into consideration the drafting of that RIA when we present a new Bill. I would also seek to clarify some of those issues during the scrutiny process, subject to leave being given today.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiynau'r Aelod. Rwy'n cydnabod cyfraniad yr archwilydd cyffredinol at hyn, ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'i swyddfa i ddiffinio beth yw'r materion y mae wedi eu codi. Bydd y weithdrefn ddrafftio o osod Bil newydd yn golygu y byddwn yn dod ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol newydd, a byddwn yn ystyried y gwaith o ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw pan fyddwn yn cyflwyno Bil newydd. Byddwn hefyd yn ceisio egluro rhai o'r materion hynny yn ystod y broses graffu, yn amodol ar gael caniatâd heddiw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As voting on the general principles has been deferred until voting time, I defer the voting on this item to voting time also.

Gan fod pleidleisio ar yr egwyddorion cyffredinol wedi cael ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio hefyd.

Voting time now follows. Before I proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn imi fynd ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5649.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 46, Yn erbyn 5, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5651.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 26, Yn erbyn 22, Ymatal 4.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5652.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 15, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5653.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5649.](#)

Motion agreed: For 46, Against 5, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5651.](#)

Motion agreed: For 26, Against 22, Abstain 4.

[Result of the vote on motion NDM5652.](#)

Motion agreed: For 37, Against 15, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5653.](#)

Motion agreed: For 35, Against 16, Abstain 0.

17:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business. Thank you.

Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.

The meeting ended at 17:46.